# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 28/01/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
1. Questions to the Minister for Health and Social Services

2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
2. Questions to the Counsel General

3. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Difrifol (Memorandwm Rhif 2)
3. Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill (Memorandum No. 2)

4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
4. Questions to the Assembly Commission

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr M4 a Thrafnidiaeth
5. Welsh Conservatives Debate: The M4 and Transport

6. Dadl Plaid Cymru: Caledi a'r Polisi Ariannol
6. Plaid Cymru Debate: Austerity and Fiscal Policy

7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Yr Economi
7. Welsh Liberal Democrats Debate: The Economy

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time

9. Dadl Fer: Cefnogi Sefydlu Rhwydwaith Cydgynhyrchu i Gymru
9. Short Debate: Supporting the Establishment of a Co-production Network for Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:30

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# 1. Questions to the Minister for Health and Social Services

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Health and Social Services. Question 1 is Peter Black.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Daw Cwestiwn 1 gan Peter Black.

### Ysbytai yng Ngorllewin De Cymru

### Hospitals in South Wales West

13:30

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith pwysau'r gaeaf mewn ysbytai yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0536(HSS)*

*1. Will the Minister make a statement on the impact of winter pressures in hospitals in South Wales West? OAQ(4)0536(HSS)*

13:30 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that question. I issued a written statement on winter pressures on 13 January this year. In south-west Wales, the health board will need to continue to focus on its winter plan arrangements with partners across health and social care to meet winter pressures.

Diolch am y cwestiwn. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar bwysau'r gaeaf ar 13 Ionawr eleni. Yn ne-orllewin Cymru, bydd angen i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar ei drefniadau cynllun y gaeaf gyda phartneriaid ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol i ymdopi â phwysau'r gaeaf.

13:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Deputy Minister. Winter pressures, of course, have been made worse by some of the issues identified by the south Wales programme in terms of staffing. I understand that, in terms of Swansea and Bridgend, there are problems with staffing and consultant paediatric posts, which means that if they're not sorted by the end of March, there may have to be a drastic reconfiguration of services. Are you aware of that problem and, if so, could you give us a statement on it?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Mae pwysau'r gaeaf, wrth gwrs, wedi cael eu gwneud yn waeth gan rai o'r materion a nodwyd yn rhaglen de Cymru o ran staffio. O ran Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, rwy'n deall bod problemau gyda staffio a swyddi pediatrig ymgynghorol, sy'n golygu, os nad ydynt wedi cael eu datrys erbyn diwedd mis Mawrth, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ad-drefnu gwasanaethau. A ydych yn ymwybodol o'r broblem ac os felly, a allech chi roi datganiad i ni ar y broblem honno?

13:31 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of the points about winter pressures, there's a broader point there about services that is not just simply about winter pressures. I expect to see the south Wales programme implemented. It marks out the sort of path we need to see right across the NHS of health boards genuinely collaborating to plan and deliver services for the whole population, not simply being focused on their own areas. I'll happily provide you with more detail on the current position in writing.

O ran y pwyntiau am bwysau'r gaeaf, mae yna bwynt ehangach yno am wasanaethau nad yw'n ymwneud â phwysau'r gaeaf yn unig. Rwy'n disgwyl gweld rhaglen de Cymru yn cael ei rhoi ar waith. Mae'n nodi'r math o lwybr rydym angen ei weld ar draws y GIG o fyrddau iechyd yn mynd ati o ddifrif i gydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth gyfan, nid canolbwyntio'n syml ar eu hardaloedd eu hunain. Byddaf yn hapus i ddarparu mwy o fanylion ar y sefyllfa bresennol i chi yn ysgrifenedig.

13:31 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, I welcome the Government's additional £40 million to address some of the winter pressures being faced by the NHS in Wales, and also the £8 million of that allocated and announced this week for the Welsh Ambulance Services NHS Trust. Of the remaining £32 million, when will you be able to make an announcement as to where that's going to be allocated and how it's going to be allocated, so that health boards can actually look at their financial planning for the remainder of the year?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n croesawu £40 miliwn ychwanegol y Llywodraeth i fynd i'r afael â rhai o'r agweddau ar bwysau'r gaeaf y mae'r GIG yng Nghymru yn ei hwynebu, yn ogystal â'r £8 miliwn a ddyrannwyd ac a gyhoeddwyd yr wythnos hon ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. O'r £32 miliwn sy'n weddill, pryd y byddwch yn gallu gwneud cyhoeddiad ynglŷn â ble y bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddyrannu a sut y bydd yn cael ei ddyrannu, fel y gall byrddau iechyd fynd ati i edrych ar eu cynlluniau ariannol ar gyfer gweddill y flwyddyn?

13:32

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the question. I'm pleased that there's recognition that we have provided additional resource and made it available to the health service to help cope with the extraordinary pressures that have been seen this winter, not just in Wales, but across the UK. We have made the announcement of £8 million of revenue funding to help the ambulance service. The additional £32 million will be held centrally, so that it can be provided to health boards to deal with pressures as they exist. I think the decision has been made that divvying it up on a health board by health board basis doesn't recognise where those pressures may or may not be faced. And the point is that the money is there to deal with winter pressures as and when they're faced. But, the broader point to make about NHS finance is that we know that it's tight; we know that public services have a difficult allocation, given the central Government funding decisions about money to be spent; and there can be no let up across the NHS on the need to deliver services within the financial envelope that they already receive. The NHS must come in on budget at the end of the financial year.

Diolch am y cwestiwn. Rwy'n falch fod yna gydnabyddiaeth ein bod wedi darparu adnoddau ychwanegol ac wedi sicrhau eu bod ar gael i'r gwasanaeth iechyd er mwyn eu helpu i ymdopi â'r pwysau eithriadol rydym wedi ei weld y gaeaf hwn, nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws y DU. Rydym wedi cyhoeddi £8 miliwn o gyllid refeniw i helpu'r gwasanaeth ambiwlans. Bydd y £32 miliwn ychwanegol yn cael ei gadw'n ganolog, fel y gellir ei ddarparu i fyrddau iechyd i ddelio â phwysau fel y byddant yn ymddangos. Rwy'n credu bod y penderfyniad wedi ei wneud nad yw ei rannu ar sail byrddau iechyd unigol yn cydnabod lle y gallai'r pwysau hynny fod yn bodoli ai peidio. A'r pwynt yw bod yr arian yno i ddelio â phwysau'r gaeaf yn ôl y galw. Ond y pwynt ehangach i'w wneud ynglŷn â chyllid y GIG yw ein bod yn gwybod ei fod yn brin; rydym yn gwybod fod y dyraniadau'n anodd i wasanaethau cyhoeddus, o ystyried penderfyniadau cyllid y Llywodraeth ganolog am yr arian sydd i'w wario; ac ni ellir llacio ar draws y GIG o ran yr angen i ddarparu gwasanaethau o fewn y trefniant ariannol y maent eisoes yn ei gael. Mae'n rhaid i'r GIG weithredu o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

13:33

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I hear your answer to David Rees, Deputy Minister, but, of course, we did still have extended A&E waiting times, cancelled operations, and now, of course, the news that 54% of ambulances in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area failed to meet the target for emergency calls for December. Now, ABMU told me their winter pressure plans at the end of last year. They were very, very cagey on the question of whether they were getting extra money from Welsh Government to help them with their plans. As they and other boards clearly haven't been able to use the £40 million hand-out to support those plans, what value for money are you expecting to see from that £40 million?

Rwy'n clywed eich ateb i David Rees, Ddirprwy Weinidog, ond wrth gwrs, rydym yn dal i fod wedi cael amseroedd aros estynedig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, llawdriniaethau wedi eu canslo, ac yn awr, wrth gwrs, y newyddion fod 54% o ambiwlansys yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi methu a chyrraedd y targed ar gyfer galwadau brys ym mis Rhagfyr. Yn awr, dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthyf am eu cynlluniau pwysau'r gaeaf ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent yn hynod o gyndyn i ateb y cwestiwn a oeddent yn cael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w helpu gyda'u cynlluniau. Gan ei bod hi'n amlwg nad ydynt hwy na byrddau eraill wedi gallu defnyddio'r cyfraniad o £40 miliwn i gefnogi'r cynlluniau hynny, pa werth am arian rydych yn disgwyl ei weld o'r £40 miliwn hwnnw?

13:34

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think I've made clear the point that the £40 million is for the NHS to deal with winter pressures. In the ABMU health board area, whilst there have been some cancellations, it's important to note that, in fact, about 96% of planned elective activity has continued. We recognise that, with the extraordinary pressures that are being seen, there will be occasions when it is the right thing to do for planned activity to be postponed. And that is envisaged and set out in the winter plans of each and every health board, including ABMU. What we have seen is that those decisions have been taken on an operational basis by clinicians as and when appropriate, and I don't think that I've got anything more useful to add in terms of the £40 million that has been allocated to help the NHS deal with the extraordinary pressures that we've seen this winter.

Wel, rwy'n meddwl fy mod i wedi gwneud y pwynt yn glir fod y £40 miliwn ar gyfer galluogi'r GIG i ddelio â phwysau'r gaeaf. Yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, er bod rhai triniaethau wedi eu canslo, mae'n bwysig nodi, mewn gwirionedd, bod tua 96% o weithgaredd dewisol a gynlluniwyd wedi parhau. Rydym yn cydnabod, gyda'r pwysau aruthrol a welir, y bydd rhai achlysuron pan mai gohirio gweithgaredd a gynlluniwyd fydd y peth gorau i'w wneud. Ac mae hynny'n cael ei ragweld ac yn cael ei nodi yng nghynlluniau gaeaf pob bwrdd iechyd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yr hyn rydym wedi'i weld yw bod y penderfyniadau hynny wedi cael eu gwneud ar sail weithredol gan glinigwyr fel y bo'n briodol, ac nid wyf yn credu fod gen i unrhyw beth sy'n fwy defnyddiol i'w ychwanegu o ran y £40 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i helpu'r GIG i ddelio â'r pwysau rhyfeddol rydym wedi ei weld y gaeaf hwn.

13:35 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cwestiwn yn dilyn ymlaen o gwestiwn Suzy Davies. Mae ffigurau mis Rhagfyr ar gyfer amseroedd aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys yn Nhreforys yn dangos, er bod llai o gleifion wedi cael eu derbyn nag ym mis Gorffennaf, mae'r nifer sydd yn cael eu gweld o fewn yr amser targed yn mynd i lawr. Yn amlwg, mae hyn wedyn yn effeithio ar ystadegau Treforys, ac ABMU yn gyffredinol. Pa drafodaethau a ydych chi'n eu cael gydag ABMU yn sgil y datganiadau yma fod y sefyllfa wedi gwaethygu?

The question follows on from Suzy Davies's question. Figures for December for A&E waiting times in Morriston demonstrate that, although there were fewer people taken in than was the case in July, the number seen within the target time is going down. Clearly, this has an impact on the statistics for Morriston and ABMU more generally. What negotiations are you having with ABMU in light of these statements that the situation has deteriorated?

13:35 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. Again, I think this is a useful opportunity to remind ourselves that, whilst the number of people being seen remains at a particularly high point—it is the busiest December in the last five years—the profile of the patients continues to change. Right across the UK, we're seeing more people being admitted, and the honest truth is that there is a higher percentage of older and sicker people being seen during winter, and more of those people are then admitted. That is, there is no getting away from that pressure that we see in winter. There is a need for the service to plan for winter, as it has done, and those plans have broadly delivered. So, we have not seen the system fall over. The additional pressure means that staff are being required to work harder, and it does mean that there are decisions that are being made about postponing elective activity. But, I would not want to give the impression that the system is somehow failing. People are being seen, they are being treated, they are being cared for, and that is down to the hard work and professionalism of our staff right across the NHS.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Unwaith eto, rwy'n credu bod hwn yn gyfle defnyddiol i atgoffa ein hunain, er bod nifer y bobl sy'n cael eu gweld yn parhau i fod ar lefel arbennig o uchel—dyna'r mis Rhagfyr prysuraf yn y pum mlynedd diwethaf—mae proffil y cleifion yn parhau i newid. Ar draws y DU, rydym yn gweld mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, a'r gwir plaen yw bod canran uwch o bobl hŷn a salach yn cael eu gweld yn ystod y gaeaf, ac mae mwy o'r bobl hynny'n cael eu derbyn i'r ysbyty wedyn. Hynny yw, nid oes dianc rhag y pwysau a welwn yn y gaeaf. Mae angen i'r gwasanaeth gynllunio ar gyfer y gaeaf, fel y mae wedi gwneud, ac mae'r cynlluniau hynny wedi cyflawni eu hamcanion yn fras. Felly, nid ydym wedi gweld y system yn methu o dan y pwysau. Mae'r pwysau ychwanegol yn golygu bod gofyn i staff weithio'n galetach, ac mae'n golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud am ohirio gweithgaredd dewisol. Ond ni fyddwn yn dymuno rhoi'r argraff fod y system yn methu rywsut. Mae pobl yn cael eu gweld, maent yn cael eu trin, maent yn derbyn gofal, ac mae'r diolch am hynny i waith caled a phroffesiynoldeb ein staff ar draws y GIG.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

## Mental Health Services

13:37 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl? OAQ(4)0550(HSS)*

*2. What support is the Welsh Government providing to organisations delivering mental health services? OAQ(4)0550(HSS)*

13:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

The Welsh Government provides a range of support to the NHS and its partner organisations delivering mental health services, backed by ring-fenced funding of nearly £590 million.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o gefnogaeth i'r GIG a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl, sy'n cael ei gefnogi gan bron i £590 miliwn o arian wedi'i glustnodi.

13:37 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for that answer. As many of us know, the mental health services in our communities rely upon third sector organisations to actually deliver those in our localities, and in our communities, and they establish centres and facilities to offer that support. Now, unfortunately, because of UK Government cuts coming down to the local areas, we are seeing some of those organisations struggling to actually gain that support, and, as a consequence, closing facilities, such as the Hafal centre in Taibach, in my constituency. How can the Welsh Government work with the third sector to actually ensure mental health services expand and do not contract?

Weinidog, diolch i chi am yr ateb hwnnw. Fel y gŵyr llawer ohonom, mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn ein cymunedau yn dibynnu ar sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu'r gwasanaethau hynny yn ein hardaloedd a'n cymunedau, ac maent yn sefydlu canolfannau a chyfleusterau i gynnig y gefnogaeth honno. Yn awr, yn anffodus, am fod toriadau Llywodraeth y DU yn dod i lawr i'r ardaloedd lleol, rydym yn gweld rhai o'r sefydliadau hynny'n ei chael hi'n anodd cael y cymorth, ac o ganlyniad, maent yn cau rhai cyfleusterau, megis canolfan Hafal yn Nhai-bach yn fy etholaeth. Sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda'r trydydd sector i sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn ehangu ac nid yn crebachu?

13:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I begin by agreeing with David Rees about the importance of our third sector partners, in mental health services in particular? Hafal is a very valued partner in all of that, and I very regularly am grateful for the opportunities I've had to visit Hafal projects, and to see the work that they do on the ground. I was in their new recovery centre in Pontardawe, very near to David Rees's constituency, earlier this year. We have just announced the section 64 grants for third sector organisations, for the three-year period from 2015 to 2018, and Hafal will get £200,000 annually, directly from the Welsh Government, to underpin the services that they provide. But, the Welsh Government is not in a position always to be able to make good the pressures that there are in other parts of the system. We work closely with our partners, in local government and the third sector, and do our very best to invest in those vital third sector organisations.

A gaf i ddechrau drwy gytuno â David Rees am bwysigrwydd ein partneriaid yn y trydydd sector, ym maes gwasanaethau iechyd meddwl yn benodol? Mae Hafal yn bartner gwerthfawr iawn yn hynny i gyd, ac rwy'n ddiolchgar am y cyfleoedd rwyf wedi cael i ymweld â phrosiectau Hafal ac i weld y gwaith y maent yn ei wneud. Roeddwn yn eu canolfan adfer newydd ym Mhontardawe, yn agos iawn at etholaeth David Rees, yn gynharach eleni. Rydym newydd gyhoeddi grantiau adran 64 ar gyfer mudiadau trydydd sector, ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015-2018, a bydd Hafal yn cael £200,000 y flwyddyn, yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, i danategu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Ond nid yw Llywodraeth Cymru bob amser mewn sefyllfa i allu gwneud yn iawn am y pwysau a geir mewn rhannau eraill o'r system. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, mewn llywodraeth leol ac yn y trydydd sector, ac yn gwneud ein gorau glas i fuddsoddi yn y mudiadau trydydd sector hollbwysig hynny.

13:38 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, on Monday, I met with Rekindle, a charity in Montgomeryshire that provides support for adults between the ages of 16 and 25 who have significant issues and mental health problems. Now, I and local GPs have raised the lack of provision in Montgomeryshire with you before. Now, Rekindle is a charity. In what ways can the Welsh Government support Rekindle to continue its invaluable work?

Weinidog, ar ddydd Llun, cyfarfûm â Rekindle, elusen yn Sir Drefaldwyn sy'n darparu cefnogaeth i oedolion rhwng 16 a 25 â phroblemau sylweddol a phroblemau iechyd meddwl. Yn awr, rwyf innau a meddygon teulu lleol wedi tynnu eich sylw at ddiffyg darpariaeth yn Sir Drefaldwyn o'r blaen. Yn awr, elusen yw Rekindle. Ym mha ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo Rekindle i barhau â'i waith amhrisiadwy?

13:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks to Russell George for that question. I'm not directly familiar with the work of the charity that he mentions, but, as I said in answering David Rees, in the mental health field in particular, the work that is done by both local and national third sector organisations is invaluable on the ground. I'm aware of the challenges that continue in providing mental health services in that part of Powys, and that good discussions go on with its partner organisations to address them.

Diolch i Russell George am y cwestiwn. Nid wyf yn uniongyrchol gyfarwydd â gwaith yr elusen y mae'n cyfeirio ati, ond fel y dywedais wrth ateb David Rees, ym maes iechyd meddwl yn arbennig, mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau trydydd sector lleol a chenedlaethol yn amhrisiadwy ar lawr gwlad. Rwy'n ymwybodol o'r heriau sy'n parhau o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y rhan honno o Bowys, a bod trafodaethau da ar y gweill gyda'i sefydliadau partner i'w goresgyn.

13:40 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, quite recently, there was a report on mental health services for the inmates of penal establishments in Wales, which showed that the overwhelming majority of prisoners do indeed have mental health problems. What actions are you taking to ensure that health boards are providing the necessary treatments that could help to rehabilitate prisoners on their release?

Weinidog, yn eithaf diweddar, cafwyd adroddiad ar wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carcharorion sefydliadau cosbi yng Nghymru, a ddangosai fod y mwyafrif llethol yn wir o garcharorion â phroblemau iechyd meddwl. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod byrddau iechyd yn darparu'r triniaethau angenrheidiol a allai helpu i adsefydlu carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau?

13:40 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to Lindsay Whittle for that question. He will know that the pattern of services in prisons in Wales is complex—we provide them directly in some places; in privatised prisons, we don't—but we aim to operate the recovery model that we operate in our community settings in our prisons as well. The number of people who end up in prisons with mental health problems is something that is a matter of regret, I think, to anybody who looks at it. Many of those people would have been better off cared for in a different part of the system, but where we are able to have access to people and offer them services while they are serving a sentence, our aim is always to link what goes on inside the prison to the services they will need on discharge and to make recovery, and the possibility of recovery, the linking thread in what we do.

Diolch i Lindsay Whittle am y cwestiwn. Bydd yn gwybod bod patrwm gwasanaethau mewn carchardai yng Nghymru yn gymhleth—rydym yn eu darparu'n uniongyrchol mewn rhai mannau; mewn carchardai preifat, nid ydym yn gwneud hynny—ond rydym yn anelu at weithredu'r model adfer rydym yn ei weithredu yn ein lleoliadau cymunedol yn ein carchardai hefyd. Mae nifer y bobl sy'n cael eu carcharu sydd â phroblemau iechyd meddwl yn rhywbeth sy'n destun gofid, rwy'n credu, i unrhyw un sy'n edrych arno. Byddai llawer o'r bobl hynny wedi bod yn well eu byd yn derbyn gofal mewn rhan wahanol o'r system, ond lle y gallwn ddod i gysylltiad â phobl a chynnig gwasanaethau iddynt tra'u bod yn y carchar, ein nod bob amser yw cysylltu'r hyn sy'n digwydd y tu mewn i'r carchar gyda'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt wedi iddynt gael eu rhyddhau ac i sicrhau mai adfer, a'r posibilrwydd o adfer, yw'r edau cysylltiol yn yr hyn a wnawn.

13:41 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n gwybod eich bod yn rhannu ein pryderon ni ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Yn ystod eich tystiolaeth chi i'r pwyllgor ac mewn llythyr, dywedoch eich bod yn barod i gynnal adolygiad cynhwysfawr, ac eto mae gohebiaeth gan y cadeirydd yn dweud mai nid adolygiad o'r gwasanaeth y mae hi'n ei gynnal. A fyddech yn barod i ddweud yn union wrthym beth ydy pwrpas yr adolygiad hwnnw a chyhoeddi'r canllawiau sydd wedi cael eu rhoi i'r cadeirydd, o achos rydym ni wedi gweld blynyddoedd ar ôl blynyddoedd lle nad yw'r gwasanaeth yn gwella ar ôl nifer o adroddiadau gan bwyllgorau?

Minister, I know that you share our concerns about mental health services for children and young people. During your evidence to the committee and in a letter, you said that you would be willing to conduct a comprehensive review. However, there is correspondence received from the chair that says that it's not a review of the service that she is actually undertaking. Would you be willing to tell us what the purpose of that review is, and publish the guidance that has been provided to the chair, because we've seen year on year that the service isn't improving, after a number of reports drawn up by committees?

13:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, rwy'n fodlon rhannu'r wybodaeth gyda chadeirydd y pwyllgor ac rwyf wedi ysgrifennu ati yn gynharach i roi ar bapur unwaith eto'r cynllun sydd gennym, y gynhadledd yr ydym yn mynd i'w gael yma yng Nghaerdydd mis Chwefror nesaf, y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phobl yn y maes i gryfhau'r gwasanaethau sylfaenol sydd gennym, ac i helpu CAMHS i ganolbwyntio ar bobl ifanc gydag anghenion i gael gwasanaethau arbennig, ac i wneud hynny drwy gryfhau'r gwasanaethau yr ydym yn gallu rhoi yn ein gofal sylfaenol, yn ein hysgolion ac mewn ffyrdd eraill hefyd.

Of course, I'd be willing to share the information with the chair of the committee, and I've also written to her previously to just, once again, put in black and white the scheme that we have, the conference that we're going to be holding here in Cardiff next February, the work that we're doing with people in the field to strengthen the primary services that we have, and to assist CAMHS to focus on young people who have these needs so that they can have specialised services, and to do so by strengthening the services we can provide in primary care, in our schools and in other ways as well.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions without Notice from Party Spokespeople

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

13:42 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've known that ambulances have been queuing outside A&E over the past few weeks, so we did know to expect probably a poor performance in the ambulance response times published today, but I think that most of us have probably been stunned as to how bad they are—way, way below the 50% of ambulances within the eight-minute target. Fewer than 30% per cent in Rhondda Cynon Taf are within that target. If performance was this bad in England, do you think that Andy Burnham would be calling it a crisis and blaming it on the health Minister?

Gwyddom fod ambiwlansys wedi bod yn ciwio y tu allan i'r adrannau damweiniau ac achosion brys dros yr ychydig wythnosau diwethaf, felly roeddem yn gwybod y byddai disgwyl i'r perfformiad fod yn wael, mae'n debyg, o ran amseroedd ymateb ambiwlansys a gyhoeddwyd heddiw, ond credaf fod y rhan fwyaf ohonom, mae'n siŵr, wedi cael ein syfrdanu wrth weld pa mor ddrwg ydynt—yn is o lawer na'r 50% o ambiwlansys o fewn y targed wyth munud. Mae llai na 30% yn Rhondda Cynon Taf o fewn y targed hwnnw. Pe bai'r perfformiad cynddrwg â hyn yn Lloegr, a ydych yn credu y byddai Andy Burnham yn ei alw'n argyfwng ac yn rhoi'r bai ar y Gweinidog iechyd?

13:43 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm not responsible, Llywydd, for what goes on elsewhere in parts of the United Kingdom for which I have no responsibility. The performance for December by the ambulance trust is clearly extremely disappointing. They recognise that; they've said it in the statements that they've made today. The Deputy Minister announced a package of £11 million further investment by the Welsh Government yesterday. In our emergency medical service, we look to them to put into practice the plans that they tell us they have and to look for some urgent improvement in the service they provide.

Nid wyf yn gyfrifol, Lywydd, am yr hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig gan nad oes gennyf gyfrifoldeb dros y rhannau hynny. Mae perfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans ar gyfer mis Rhagfyr yn amlwg yn hynod o siomedig. Maent yn cydnabod hynny; maent wedi dweud hynny yn y datganiadau a wnaethant heddiw. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog becyn o £11 miliwn o fuddsoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru ddoe. Yn ein gwasanaeth meddygol brys, rydym yn disgwyl iddynt roi'r cynlluniau y maent yn dweud wrthym sydd ganddynt ar waith a mynd ati i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu ar frys.

13:44 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Urgent improvement is what you promised this Assembly in June last year. In fact, you said you wanted to see urgent improvement by September. You obviously had a different September in mind to the rest of us. Now, paramedics and A&E staff are having to take on the pressures from other parts of the NHS and social care—very often, not of their own making. It's the middle of winter; you have winter pressure plans and you have so-called surge capacity in those winter plans. Can you tell us this afternoon why those winter plans are so blatantly not working?

Gwelliant brys oedd eich addewid i'r Cynulliad hwn ym mis Mehefin y llynedd. Yn wir, fe ddywedoch eich bod eisiau gweld gwelliant brys erbyn mis Medi. Mae'n amlwg mai mis Medi gwahanol i'r gweddill ohonom oedd gennych mewn golwg. Yn awr, mae parafeddygon a staff damweiniau ac achosion brys yn gorfod cymryd pwysau o rannau eraill o'r GIG a gofal cymdeithasol—er nad hwy sy'n gyfrifol am ei greu, yn aml iawn. Mae hi'n ganol gaeaf; mae gennych gynlluniau pwysau'r gaeaf ac mae gennych chi'r hyn a elwir yn gapasiti ymchwydd yn y cynlluniau gaeaf hynny. A allwch chi ddweud wrthym y prynhawn yma pam ei bod hi mor amlwg nad yw'r cynlluniau gaeaf hynny'n gweithio?

13:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, it is fortunate that my memory of what happened earlier this year is better than Elin Jones's, because what I said when I answered an urgent question here in the Assembly was that I expected July to better than June, August to be better than July, and September to be better than August, and that is exactly what happened. So, my memory is clearer—a good deal clearer —than yours on that point.

Wel, yn gyntaf oll, mae'n ffodus fod fy nghof o'r hyn a ddigwyddodd yn gynharach eleni yn well na chof Elin Jones, oherwydd yr hyn a ddywedais pan atebais gwestiwn brys yma yn y Cynulliad oedd fy mod yn disgwyl i fis Gorffennaf fod yn well na mis Mehefin, mis Awst i fod yn well na mis Gorffennaf, a mis Medi i fod yn well na mis Awst, a dyna'n union a ddigwyddodd. Felly, mae fy nghof yn gliriach—cryn dipyn yn gliriach—na'ch un chi ar y pwynt hwnnw.

As far as winter pressures in general are concerned, of course, they are real. It is absolutely not true, Llywydd, to say that our winter plans are not succeeding. The truth is that the plan itself is generally holding up. It does mean that, where extreme pressures are experienced, urgent action has to be taken. We saw that happen in Cardiff on Monday of this week. As a result of the urgent action in line with the winter plan that the health board took, the situation stabilised and by yesterday the service was back to normal, with everything that was planned to happen happening. That's the winter plan succeeding, not, as she would have us believe, failing.

Cyn belled ag y mae pwysau'r gaeaf yn gyffredinol yn y cwestiwn, wrth gwrs, maent yn real. Nid yw'n wir o gwbl, Lywydd, i ddweud nad yw ein cynlluniau ar gyfer y gaeaf yn llwyddo. Y gwir yw bod y cynllun yn gyffredinol yn ymdopi. Golyga hyn fod yn rhaid gweithredu ar frys lle mae pwysau eithafol yn cael ei brofi. Gwelsom hynny'n digwydd yng Nghaerdydd ddydd Llun yr wythnos hon. O ganlyniad i'r camau brys a roddwyd ar waith gan y bwrdd iechyd yn unol â chynllun y gaeaf, llwyddwyd i sefydlogi'r sefyllfa ac erbyn ddoe roedd y gwasanaeth yn ôl i'r arfer, gyda phopeth a oedd wedi ei gynllunio i ddigwydd yn digwydd. Dyna ddangos bod cynllun y gaeaf yn llwyddo, nid yn methu, fel y byddai hi'n hoffi i ni ei gredu.

13:46

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My memory is also quite good and I believe I remember you saying that you did not want to be again before this Assembly having to defend poor performance in ambulance response times. You said that last June also. Now, social care and social services, as you know, are under severe financial pressure and this will probably get worse for councils next winter. GP access to community beds has significantly reduced in the last couple of years as well. Social care and community care are so, so important in order to ease the pressure on ambulances and acute hospitals. How do you intend to resurrect and support social care and community care so that this unbearable pressure is eased on our emergency services?

Mae fy nghof hefyd yn eithaf da ac rwy'n credu fy mod yn eich cofio chi'n dweud nad oeddech eisiau sefyll o flaen y Cynulliad hwn eto'n gorfod amddiffyn perfformiad gwael o ran amseroedd ymateb ambiwlansys. Fe ddywedoch hynny fis Mehefin diwethaf hefyd. Yn awr, mae gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, fel y gwyddoch, o dan bwysau ariannol difrifol ac mae'n debyg y bydd yn gwaethygu i gynghorau y gaeaf nesaf. Mae mynediad meddygon teulu at welyau cymunedol wedi lleihau'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd. Mae gofal cymdeithasol a gofal yn y gymuned mor eithriadol o bwysig er mwyn ysgafnhau'r pwysau ar ambiwlansys ac ysbytai acíwt. Sut y bwriadwch atgyfodi a chefnogi gofal cymdeithasol a gofal yn y gymuned fel bod y pwysau annioddefol hwn yn cael ei ysgafnhau yn ein gwasanaethau brys?

13:46

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, can I agree with what Elin Jones has said about the importance of social and community services? When the pressures have been on in our health service over this winter one of the reasons that we have been able to survive those pressures has been because of the outstanding efforts of partners in local government and in social services. You'll have seen that delayed transfers of care figures for December are at their second lowest ever and, in difficult days, they've really done everything that could have been asked of them. I'm very pleased that today I've been able to announce £20 million from the £70 million consequential from the autumn statement to pick up those successful schemes from the intermediate care fund so that they can continue their work into next year. We've had the 12 month's experience of those schemes. We'll know where some of the experiments have delivered on what was promised. We will put our money back to support those schemes where there is a demonstrated record of success.

Lywydd, a gaf i gytuno â'r hyn y mae Elin Jones wedi'i ddweud am bwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol a chymunedol? Pan oedd pwysau ar ein gwasanaeth iechyd dros y gaeaf hwn, un o'r rhesymau pam ein bod wedi gallu goroesi'r fath bwysau oedd oherwydd ymdrechion rhagorol ein partneriaid mewn llywodraeth leol ac yn y gwasanaethau cymdeithasol. Fe fyddwch wedi gweld bod y ffigurau oedi cyn trosglwyddo gofal ar gyfer mis Rhagfyr ar y lefel isaf erioed ond un ac yn ystod y dyddiau anodd, maent wedi gwneud popeth y gellid bod wedi gofyn iddynt ei wneud mewn gwirionedd. Rwy'n falch iawn o allu cyhoeddi heddiw fod £20 miliwn o'r £70 miliwn o gyllid canlyniadol o ddatganiad yr hydref yn mynd tuag at godi'r cynlluniau llwyddiannus hynny o'r gronfa gofal canolraddol fel y gallant barhau â'u gwaith y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cael profiad 12 mis o'r cynlluniau hynny. Byddwn yn gwybod lle y mae rhai o'r arbrofion wedi cyflawni'r hyn a addawyd. Byddwn yn rhoi ein harian yn ôl i gefnogi'r cynlluniau hynny lle y gellir dangos eu bod yn llwyddiant.

13:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to the spokesperson of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what you did say in June was that you were looking for sustained improvement over three months. Figures did, indeed, improve in July, but they dropped in August to see a rise again in September and they have been falling ever since to what are truly shocking figures today. As we've heard, you did say to us in June:

Weinidog, yr hyn a ddywedoch ym mis Mehefin oedd eich bod yn chwilio am welliant parhaol dros dri mis. Roedd y ffigurau, yn wir, wedi gwella ym mis Gorffennaf, ond gwelwyd gostyngiad ym mis Awst cyn codi eto ym mis Medi ac maent wedi bod yn gostwng ers hynny i ffigurau sy'n wirioneddol frawychus heddiw. Fel y clywsom, fe ddywedoch hyn wrthym ym mis Mehefin:

'I do not want to be here having to explain to you why the ambulance service has not been able to make the necessary improvements.'

'Nid wyf i eisiau dod yma i orfod esbonio i chi pam nad yw'r gwasanaeth ambiwlans wedi gallu gwneud y gwelliannau angenrheidiol.'

Well, it hasn't and you are back here. So, could you explain to the Chamber why you feel that the improvements have not been made?

Wel, nid yw wedi gallu gwneud hynny ac rydych yn ôl yma. Felly, a allech egluro i'r Siambr pam y teimlwch nad yw'r gwelliannau wedi cael eu gwneud?

13:48 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think there's a whole range of reasons why the ambulance service has not succeeded to sustain the improvement that it was able to make over that summer period. Some of it is due to demand. There's no disguising the fact that demand was unprecedented throughout December. It is not just the numbers; it is the nature of the demand. It is not just the ambulance service itself. It is very important that we recognise that the ambulance service's ability to go about its business also depends on other parts of the system doing everything that they can do. We know that too often hours are lost while ambulances wait to be able to discharge patients into some of our A&E departments. We know that there have been pressures on recruitment where the ambulance service has been able to recruit new staff but loses staff as well, because these are very, very saleable individuals. There are choices of places that they are able to go and work and, just as ambulances in other parts of the United Kingdom have been under pressure over this winter, there is no magic formula anywhere. Our service works as hard as it can to solve the problems that it faces. It has to do more to do just that.

Rwy'n meddwl bod yna amrywiaeth eang o resymau pam nad yw'r gwasanaeth ambiwlans wedi llwyddo i gynnal y gwelliant y gallodd ei wneud dros gyfnod yr haf. Mae'n rhannol oherwydd y galw. Ni ellir gwadu'r ffaith fod y galw'n ddigyffelyb drwy gydol mis Rhagfyr. Nid y rhifau'n unig ydyw; mae'n ymwneud â natur y galw. Nid y gwasanaeth ambiwlans ei hun yn unig ydyw. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod gallu'r gwasanaeth ambiwlans i wneud ei waith hefyd yn dibynnu ar rannau eraill o'r system yn gwneud popeth y gallant ei wneud. Gwyddom fod oriau yn cael eu colli yn rhy aml tra bod ambiwlansys yn aros i allu rhyddhau cleifion i mewn i rai o'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. Gwyddom fod pwysau wedi bod ar recriwtio lle y mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi gallu recriwtio staff newydd, ond yn colli staff hefyd, oherwydd bod y rhain yn unigolion gwerthadwy iawn. Mae dewis o leoedd y gallant fynd i weithio ynddynt, ac yn union fel y mae ambiwlansys mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi bod o dan bwysau yn ystod y gaeaf hwn, nid oes unrhyw fformiwla hud yn unman. Mae ein gwasanaeth yn gweithio mor galed ag y gall i ddatrys y problemau y mae'n eu hwynebu. Mae'n rhaid iddo wneud mwy er mwyn gwneud hynny.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you not agree it is your job and the job of Government to anticipate and deal with demand? And, on that measure, you have clearly failed today. Minister, are you satisfied that, under your leadership, the people of Torfaen can expect a timely response by an ambulance to a life-threatening, category A call just 28% of the time?

Weinidog, oni fyddech yn cytuno mai eich gwaith chi a gwaith y Llywodraeth yw rhagweld a delio â'r galw? Ac yn ôl y mesur hwnnw, rydych yn amlwg wedi methu heddiw. O dan eich arweiniad, Weinidog, a ydych yn fodlon mai 28% o'r amser yn unig y gall pobl Torfaen ddisgwyl ymateb amserol gan ambiwlans i alwad categori A lle mae bywyd yn y fantol?

13:50 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not a satisfactory position—of course it is not; nobody suggests that it is. Neither, however, do any players in the system, whether it be Government or the service itself, have some sort of crystal ball in which they are able to anticipate levels of demand that have been unprecedented—unprecedented here and unprecedented elsewhere in the United Kingdom. And, as the auditor general makes clear in his report on this matter, the peaks and troughs in demand for health services are inherently unpredictable. Now, we have winter plans that have, by and large, stood the test of this winter so far, but it is not a sensible proposition to make that everything that the health service faces could have been easily predicted, and that the difficulties we face are simply down to the failure of someone to make that anticipation.

Nid yw honno'n sefyllfa foddhaol—wrth gwrs nad ydyw; nid oes neb yn awgrymu ei bod hi. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r chwaraewyr yn y system, boed yn Llywodraeth neu'r gwasanaeth ei hun, bêl risial o rywfaith y gallant ragweld lefelau'r galw ynddi, lefelau sydd wedi bod yn ddigynsail—yn ddigynsail yma ac yn ddigynsail mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Ac fel y mae'r archwilydd cyffredinol yn ei gwneud yn glir yn ei adroddiad ar y mater, mae'r amrywiadau yn y galw am wasanaethau iechyd, yn eu hanfod, yn anrhagweladwy. Yn awr, mae gennym gynlluniau ar gyfer y gaeaf sydd, ar y cyfan, wedi goresgyn heriau'r gaeaf hwn hyd yn hyn, ond nid yw'n synhwyrol honni y gallai popeth y mae'r gwasanaeth iechyd yn ei wynebu fod wedi cael ei ragweld yn hawdd, ac mai'r rheswm dros yr anawsterau rydym yn eu hwynebu, yn syml, yw methiant rhywun i'w rhagweld.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, if the Welsh ambulance service was a school, I suspect your inspectors would have put it into special measures. If it was a social services department, I suspect you would have sent in an intervention board. If it was a local authority, I suspect you would have sent in the commissioners. How bad do things have to get before the Welsh Government holds up its hands and admits that this service is not delivering for the people of Wales?

Weinidog, pe bai gwasanaeth ambiwlans Cymru yn ysgol, rwy'n amau y byddai eich arolygwyr wedi ei gwneud yn destun mesurau arbennig. Pe bai'n adran gwasanaethau cymdeithasol, rwy'n amau y byddech wedi anfon bwrdd ymyrraeth i mewn. Pe bai'n awdurdod lleol, rwy'n amau y byddech wedi anfon y comisiynwyr i mewn. Pa mor ddrwg sy'n rhaid i bethau fod cyn i Lywodraeth Cymru godi ei llaw a chyfaddef nad yw'r gwasanaeth hwn yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru?

13:52 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the leader of the Liberal Democrats will be aware that we have no shortage of inquiries, plans, advice and ways of trying to improve the system for the ambulance service here in Wales; it's been on a constant treadmill of exactly that sort of investigation. During the time that I've been health Minister, my ambition has been to implement the recommendations of the McClelland review. We have Professor McClelland herself chairing the special committee that her report recommended. We now have a chief ambulance commissioner in place. I wish the pace of the implementation of the review could have been faster, but our determination is to stick by the prospectus that Professor McClelland laid down, to work with our ambulance colleagues to implement her recommendations, and therefore to see performance improve to a point when we all can have confidence that it is doing the job it needs to do for the benefit of patients in Wales.

Wel, bydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwybodol nad oes gennym brinder o ymchwiliadau, cynlluniau, cyngor a ffyrdd o geisio gwella'r system ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yma yng Nghymru; mae wedi wynebu un ar ôl y llall o'r math hwnnw'n union o ymchwiliad yn gyson. Dros fy nghyfnod yn Weinidog iechyd, fy uchelgais yw gweithredu argymhellion adolygiad McClelland. Mae'r Athro McClelland ei hun yn cadeirio'r pwyllgor arbennig a argymhellodd ei hadroddiad. Erbyn hyn mae gennym brif gomisiynydd ambiwlans ar waith. Fe hoffwn pe bai'r broses o weithredu'r adolygiad yn digwydd yn gyflymach, ond rydym yn benderfynol o lynu at y prosbectws a gafodd ei osod gan yr Athro McClelland, i weithio gyda'n cydweithwyr ambiwlans i weithredu ei hargymhellion, ac felly i weld perfformiad yn gwella i bwynt lle y gallwn i gyd fod yn hyderus ei fod yn gwneud y gwaith y mae angen iddo ei wneud er lles cleifion yng Nghymru.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the opposition spokesperson, Darren Millar.

Symudwn yn awr at lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.

13:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, the bleak midwinter for the Welsh NHS is continuing. We've had more appalling figures from the Welsh ambulance service—a record low, with performance basically falling off a cliff in this December period. You say you've made extra money available but you haven't yet allocated it, and won't do so until the end of the financial year, no doubt when budgets are under pressure and health boards can't make their budgets balance. When will we see the improvement that we need in the Welsh ambulance service so that the hard-working, dedicated front-line staff can be proud of the results that are being delivered in terms of their performance against your targets? You set these targets; it's up to you to make sure that the NHS can deliver against them.

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae gaeaf noethlwm y GIG yng Nghymru yn parhau. Rydym wedi cael rhagor o ffigurau arswydus gan wasanaeth ambiwlans Cymru—y ffigyrau isaf erioed, gyda pherfformiad yn y bôn yn llithro dros ochr y clogwyn yn ystod mis Rhagfyr. Rydych yn dweud eich bod wedi rhyddhau arian ychwanegol, ond nid ydych wedi'i ddyrannu eto, ac ni fyddwch yn gwneud hynny tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn ddiau pan fydd cyllidebau o dan bwysau a byrddau iechyd yn methu â chydbwyso eu cyllidebau. Pa bryd y gwelwn y gwelliant sydd ei angen arnom yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru fel y gall staff gweithgar ac ymroddedig y rheng flaen ymfalchïo yn y canlyniadau o ran eu perfformiad yn erbyn eich targedau? Chi a osododd y targedau hyn; mater i chi yw sicrhau y gall y GIG eu cyrraedd.

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I begin just by pointing out to Darren Millar that we have allocated £8 million of the £40 million immediately to the Welsh ambulance service, so it's not true to say that none of it has been allocated? Indeed, the Welsh ambulance trust is the only part of the NHS to know immediately the share that it will receive of that sum of money.

A gaf fi ddechrau drwy dynnu sylw Darren Millar at y ffaith ein bod wedi dyrannu £8 miliwn o'r £40 miliwn yn syth i wasanaeth ambiwlans Cymru, felly nid yw'n wir dweud nad oes dim ohono wedi'i ddyrannu? Yn wir, ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru yw'r unig ran o'r GIG i wybod ar unwaith pa gyfran y bydd yn ei derbyn o'r arian hwnnw.

On targets, he raises a point which is worth rehearsing. McClelland says that the eight-minute target makes no clinical sense. In England, you will have seen the combined clinical directors of ambulance services writing to the Department of Health saying exactly that and urging them to alter the target. And, indeed, the Department of Health has announced two pilots involving 13 million people in England, where the eight-minute target will no longer be applied in the way that it was, and there may be things that we ought to look at and learn from that. I agree with what Darren Millar said about the hard-working people who provide an ambulance service and the destructive impact on their morale of the constant criticism of the service that they face. We want to work with them because there are things that they need to do as well in order to reach the position that he described.

O ran targedau, mae'n codi pwynt sy'n werth ei ailadrodd. Dywed McClelland nad yw'r targed wyth munud yn gwneud unrhyw synnwyr clinigol. Yn Lloegr, fe fyddwch wedi gweld cyd-gyfarwyddwyr clinigol y gwasanaethau ambiwlans yn ysgrifennu at yr Adran Iechyd yn dweud yn union hynny, ac yn eu hannog i newid y targed. Ac yn wir, mae'r Adran Iechyd wedi cyhoeddi dau gynllun peilot sy'n cynnwys 13 miliwn o bobl yn Lloegr, lle na fydd y targed wyth munud yn cael ei gymhwyso yn y ffordd arferol mwyach, ac efallai y bydd pethau y dylem edrych arnynt a dysgu o hynny. Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Darren Millar am y bobl sy'n gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth ambiwlans a'r effaith ddinistriol a gaiff y feirniadaeth gyson o'r gwasanaeth ar eu morâl. Rydym am weithio gyda hwy oherwydd mae yna bethau sydd angen iddynt eu gwneud hefyd er mwyn cyrraedd y sefyllfa a ddisgrifiodd.

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you explain, Minister, to the people of Wales why the performance of the Welsh ambulance service is so poor when compared with the ambulance service elsewhere in the UK?

Weinidog, a wnewch chi egluro i bobl Cymru pam y mae perfformiad gwasanaeth ambiwlans Cymru mor wael o'i gymharu â'r gwasanaeth ambiwlans mewn mannau eraill yn y DU?

13:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I think I was asked that question by Kirsty Williams and have answered it already.

Lywydd, rwy'n meddwl bod Kirsty Williams wedi gofyn y cwestiwn hwnnw i mi a fy mod wedi'i ateb yn barod.

13:55 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No you didn't.

Na, ni wnaethoch.

13:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm not able to offer him a comparative analysis based on services that I have no responsibility for. The leader of the Liberal Democrats asked me to set out the reasons why it had not been possible to sustain improvement in the ambulance service in Wales and I did my best to answer that question.

Wel, ni allaf gynnig dadansoddiad cymharol iddo yn seiliedig ar wasanaethau nad oes gennyf unrhyw gyfrifoldeb amdanynt. Gofynnodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol i mi nodi'r rhesymau pam na fu'n bosibl cynnal gwelliant yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru ac fe wnes i fy ngorau glas i ateb y cwestiwn.

13:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's completely understandable, because of the poor performance and the gulf in performance that we see between England and Wales and even Wales and Scotland when it comes to the ambulance service, that the Minister shies away from the question. Do you accept, Minister, that what we need is some immediate and urgent intervention in order to turn this situation around? Patients' lives are being put at risk because of delays in ambulances getting to them in life-threatening situations. Will you agree today to undertake a short, sharp investigation over the next two weeks, reporting back to this National Assembly on the action that you intend to take as a result of that investigation to put right the problems in the Welsh ambulance service? And I agree with you that part of this is a systematic problem across the whole of the unscheduled care system, but will you agree to undertake a short, sharp investigation and report back to this Assembly, so that we can take the steps necessary to put the situation right once and for all? We're fed up of long-term reviews, which take months and months and months to report and even longer periods to implement because of the attitude of this Government to not taking responsibility for poor performance. The people of Wales deserve to see an improvement in the ambulance service performance against its targets. They're not seeing that at the moment. Will you agree to a short, sharp investigation?

Mae'n hollol ddealladwy pam y mae'r Gweinidog yn gyndyn i ateb y cwestiwn, oherwydd y perfformiad gwael a'r gagendor a welwn rhwng y perfformiad yng Nghymru a'r perfformiad yn Lloegr, a hyd yn oed rhwng yr Alban a Chymru, o ran y gwasanaeth ambiwlans. A ydych yn derbyn, Weinidog, mai'r hyn sydd ei angen arnom yw rhywfaint o ymyrraeth uniongyrchol ar frys er mwyn gwella'r sefyllfa? Rhoir bywydau cleifion mewn perygl oherwydd oedi cyn y bydd ambiwlansys yn eu cyrraedd mewn sefyllfaoedd lle y mae bywydau yn y fantol. A gytunwch heddiw i gynnal ymchwiliad byr a sydyn dros y pythefnos nesaf, gan adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y camau rydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad i unioni'r problemau yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru? Ac rwy'n cytuno â chi bod rhan o hyn yn broblem systematig ar draws y system ofal heb ei drefnu i gyd, ond a gytunwch i gynnal ymchwiliad byr a sydyn ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad, er mwyn inni allu rhoi'r camau angenrheidiol ar waith i unioni'r sefyllfa unwaith ac am byth? Rydym wedi cael llond bol o adolygiadau hirdymor, sy'n cymryd misoedd a misoedd a misoedd i gyflwyno adroddiad a chyfnodau hyd yn oed yn hwy i'w gweithredu oherwydd agwedd y Llywodraeth hon i beidio â chymryd cyfrifoldeb dros berfformiad gwael. Mae pobl Cymru yn haeddu gweld gwelliant ym mherfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn erbyn ei dargedau. Nid ydynt yn gweld hynny ar hyn o bryd. A gytunwch i gynnal ymchwiliad byr a sydyn?

13:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, facile headline-chasing suggestions are not the way to resolve the problems of the Welsh ambulance service. We work every single day with the Welsh ambulance service to try and bring about improvement. There is a major meeting, for example, on Monday of next week, involving all the most senior players in this field to try and do exactly that. We will continue to work as we do, not on the basis of headline chasing, but on the basis of trying to bring about the sustained improvement that we all want to see achieved.

Lywydd, nid awgrymiadau arwynebol sy'n bachu penawdau yw'r ffordd i ddatrys problemau gwasanaeth ambiwlans Cymru. Rydym yn gweithio bob dydd gyda gwasanaeth ambiwlans Cymru i geisio sicrhau gwelliant. Er enghraifft, cynhelir cyfarfod mawr ddydd Llun yr wythnos nesaf, i gynnwys yr holl brif elfennau yn y maes er mwyn ceisio gwneud yn union hynny. Byddwn yn parhau i weithio fel y gwnawn, nid ar sail bachu penawdau, ond ar sail ceisio sicrhau'r gwelliant parhaus y mae pawb ohonom am ei weld.

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Mike Hedges.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr. Mike Hedges sy'n gofyn cwestiwn 3.

## Cynghorau Iechyd Cymuned

## Community Health Councils

13:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynghorau iechyd cymuned? OAQ(4)0534(HSS)*

*3. Will the Minister make a statement on community health councils? OAQ(4)0534(HSS)*

13:58 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges for that question. Community health councils represent the collective voice of patients in the Welsh NHS. A number of recent reports have suggested ways in which the performance and operation of CHCs could be strengthened. The consultation on amended regulations to that end concluded on 9 January.

Rwy'n diolch i Mike Hedges am y cwestiwn. Mae'r cynghorau iechyd cymuned yn cynrychioli llais cyfunol cleifion y GIG yng Nghymru. Mae nifer o adroddiadau diweddar wedi awgrymu ffyrdd o gryfhau perfformiad a gweithrediad Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC). Daeth yr ymgynghoriad ar reoliadau diwygiedig i'r perwyl hwnnw i ben ar 9 Ionawr.

13:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for his response? I, like the Minister, believe that there is huge importance to community health councils in representing patients' interests. Can the Minister confirm that the Welsh Government is committed to their continuation because there are rumours, certainly in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area, following discussions with the Minister's civil servants, that they may not be continuing?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ymateb? Rwyf innau, fel y Gweinidog, yn credu bod cynghorau iechyd cymuned yn eithriadol o bwysig er mwyn cynrychioli buddiannau cleifion. A all y Gweinidog gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w parhad, oherwydd ceir sibrydion, yn sicr yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn dilyn trafodaethau gyda gweision sifil y Gweinidog, efallai na fyddant yn parhau?

13:59 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is firmly committed to the continuation of CHCs in Wales. They represent the collective voice of patients and they amplify the voice of patients in our system. There are ways in which CHCs can be strengthened, and there have been proposals in a series of recent reports—the Andrews review, the Keith Evans review on complaints, and Ann Lloyd's review of the way that consultation on service change is carried out. All make proposals as to how the role of CHCs can be properly cemented in our system. The regulations that I mentioned in my first answer aim to do exactly that. Our aim is to retain and improve and strengthen the way that CHCs play their part in the Welsh NHS.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i barhad y CIC yng Nghymru. Maent yn cynrychioli llais cyfunol cleifion ac maent yn gwneud lleisiau cleifion yn fwy hyglyw yn ein system. Mae yna ffyrdd o gryfhau'r CIC, a chafwyd argymhellion mewn cyfres o adroddiadau diweddar—adolygiad Andrews, adolygiad Keith Evans ar gwynion, ac adolygiad Ann Lloyd ynglŷn â'r modd yr ymgynghorir ynghylch newidiadau i wasanaethau. Maent oll yn argymell sut y gellir gwneud rôl y CIC yn rhan annatod o'n system. Mae'r rheoliadau y soniais amdanynt yn fy ateb cyntaf yn anelu at wneud yn union hynny. Ein nod yw cadw a gwella a chryfhau'r modd y mae'r CIC yn chwarae eu rhan yn y GIG yng Nghymru.

13:59 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, have you identified the aspects of the review of the community health councils undertaken by Professor Marcus Longley that may require legislation?

Weinidog, a ydych wedi nodi'r agweddau ar yr adolygiad o'r cynghorau iechyd cymuned a gynhaliwyd gan yr Athro Marcus Longley a allai alw am ddeddfwriaeth?

14:00 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Graham for that question. The amended regulations that we are consulting on flow from the Longley review. These are aspects that do require legislation: for example, strengthening the position of the CHC board—the national board—to provide standards across Wales; amending the boundaries in Powys to create a single CHC; changing the composition of the board in relation to local authorities, so, in future, should the amended regulations be approved here, local authorities would provide one directly elected member, but could fill their other two positions by nominations by the council of people who are not elected members. Those all require changes in the law through regulations.

Diolch i William Graham am y cwestiwn. Mae'r rheoliadau diwygiedig rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn deillio o adolygiad Longley. Agweddau yw'r rhain sy'n galw am ddeddfwriaeth: er enghraifft, cryfhau sefyllfa bwrdd y CIC-y bwrdd cenedlaetholi ddarparu safonau ledled Cymru; diwygio'r ffiniau ym Mhowys i greu un Cyngor Iechyd Cymuned; newid cyfansoddiad y bwrdd mewn perthynas ag awdurdodau lleol. Felly, yn y dyfodol, pe bai'r rheoliadau diwygiedig yn cael eu cymeradwyo yma, byddai awdurdodau lleol yn darparu un aelod wedi'i ethol yn uniongyrchol, ond gallent lenwi eu dwy swydd arall drwy i'r cyngor enwebu pobl nad ydynt yn aelodau etholedig. Mae'r rhain oll yn galw am newidiadau yn y gyfraith drwy reoliadau.

Other slightly more significant changes to the law in CHCs will be taken through the Green Paper that I have signalled as part of the quality review.

Bydd newidiadau eraill ychydig yn fwy sylweddol i'r gyfraith o ran y CIC yn cael eu cyflwyno drwy'r Papur Gwyrdd y soniais amdano fel rhan o'r adolygiad ansawdd.

14:00

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, rydych chi wedi ymuno â mi yn y gorffennol i ganmol cyngor iechyd cymuned Betsi Cadwaladr ar ei raglen drylwyr o ymweliadau 'spot check' ar draws gwasanaethau iechyd yn y gogledd. A gaf i ofyn beth ŷch chi'n ei wneud i sicrhau bod cynghorau iechyd cymuned eraill yn efelychu eu harfer nhw? Hefyd, beth ŷch chi'n ei wneud i sicrhau bod eu gwaith nhw'n cysylltu'n agos gyda gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?

Minister, you have in the past joined me in praising the Betsi Cadwaladr community health council for their thorough spot-check programme across health services in north Wales. Can I ask you what you are doing to ensure that other community health councils emulate their practice? Also, what are you doing to ensure that their work is closely linked with the work of Healthcare Inspectorate Wales?

14:01

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Fel y dywedais wrth William Graham, rydym eisiau cryfhau bwrdd cenedlaethol y CHCs, a dyna'r fforwm gorau i fi i rannu'r ymarfer da ac i bob bwrdd CHC yma yng Nghymru i ddysgu o beth sy'n mynd ymlaen, fel, er enghraifft, mae Llyr Huws Gruffydd wedi tynnu sylw ato yn y gogledd.

Thank you very much for the question. As I said to William Graham, we want to strengthen the national board of CHCs, and that is the best forum in my view for the sharing best practice and for all CHC boards in Wales to learn from what is going on, as in the case of the practice in north Wales that Llyr Huws Gruffydd drew attention to.

Un o'r pethau pwysig yn adroddiad Ruth Marks ar HIW yw sut i dynnu i mewn i'r gwaith mae HIW yn ei wneud y profiadau y mae byrddau'r CHCs yn eu cael trwy'r gwaith y maen nhw'n ei wneud wrth fynd i mewn i'r wardiau ac i mewn i GPs ac yn y blaen. Rydym yn mynd i ddelio gyda'r pwynt yna trwy adroddiad Ruth Marks ac yn y newidiadau rydym yn mynd i ddwyn yn eu blaen yn HIW.

One of the important things contained in Ruth Marks's report on HIW is how to draw into HIW's work the experiences of CHCs in the work that they do by going onto wards and to GP practices and so on. We will deal with that point through Ruth Marks's report with regard to the changes that we are going to bring forward in HIW.

14:02

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, we'd all accept that general practice is the very bedrock of our NHS here in Wales, and the vast majority of GPs carry out sterling work. However, there are exceptions, and I'm currently, in mid and west Wales, dealing with a number of concerns and complaints with regard to general practice. There is evidence out there that quite a lot of members of the public are somewhat confused and assume that there is a sort of direct managerial line management from health boards down over general practitioners. In that context, Minister, what more can be done to promote greater understanding and awareness amongst the public of the strong powers that are vested within our community health councils, so that they can more fully uphold the standards that are expected of general practice?

Weinidog, byddem oll yn derbyn mai ymarfer cyffredinol yw sylfaen y GIG yma yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif helaeth o feddygon teulu yn gwneud gwaith rhagorol. Fodd bynnag, mae yna eithriadau, ac ar hyn o bryd, yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, rwy'n ymdrin â nifer o bryderon a chwynion mewn perthynas ag ymarfer cyffredinol. Ceir tystiolaeth fod cryn dipyn o aelodau'r cyhoedd yn cael eu drysu braidd ac yn cymryd yn ganiataol fod rhyw fath o reolaeth rheoli llinell uniongyrchol gan fyrddau iechyd dros ymarferwyr cyffredinol. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, beth arall y gellir ei wneud i hyrwyddo gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am y pwerau cryf sydd wedi'u breinio yn ein cynghorau iechyd cymuned, er mwyn iddynt allu cynnal y safonau sy'n ddisgwyliedig gan ymarfer cyffredinol yn llawn?

14:03

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, thank you for that question. Bill Powell's quite right to point out that, actually, it's a dotted line rather than a straight line of accountability with the contractor professions.

Wel, diolch i chi am y cwestiwn. Mae Bill Powell yn hollol gywir i nodi mai llinell doredig o atebolrwydd ydyw gyda phroffesiynau contractwyr, yn hytrach na llinell syth.

It is one of the paradoxes of CHCs: they are the longest lasting part of the health landscape and they are the only part of the 1974 health reorganisation to have survived intact in Wales, and yet, level of understanding amongst the general public remains surprisingly and disappointingly low. There are views amongst community health councils that renaming them might be one way of raising their profile and making what they do more available to the public. I think there is no better answer other than the need to keep constantly trying to put what they do into the spotlight, making sure that there's information available and that the very valuable work they can do, in just the sort of context that the Member described, is known to patients and the public.

Dyma un o baradocsau'r CIC: hwy yw'r rhan o'r dirwedd iechyd sydd wedi para hiraf a hwy yw'r unig ran i oroesi'n gyfan yng Nghymru o'r ad-drefnu a welwyd ym maes iechyd yn 1974, ac eto, mae lefel dealltwriaeth y cyhoedd yn parhau i fod, er mawr siom, yn syndod o isel. Mae yna farn ymysg cynghorau iechyd cymuned y gallai eu hailenwi fod yn un ffordd o godi eu proffil a gwneud yr hyn y maent yn ei wneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Credaf nad oes ateb gwell na'r angen i barhau i geisio rhoi sylw cyson i'r hyn y maent yn ei wneud, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael a bod y gwaith gwerthfawr iawn y gallant ei wneud, yn yr union fath o gyd-destun a ddisgrifiai'r Aelod, yn hysbys i gleifion a'r cyhoedd.

### Gofal Sylfaenol i Leddfu Pwysau

### Primary Care to Relieve Pressures

14:04 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd orau bosibl mewn gofal sylfaenol i leddfu pwysau ar wasanaethau brys mewn ysbytai? OAQ(4)0543(HSS)*

*4. What steps are being taken to maximise the delivery of services in primary care to relieve pressure on hospital emergency services? OAQ(4)0543(HSS)*

14:04 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for the question. Reform of the GP contract has led to the creation of primary care clusters across Wales. This will accelerate the transfer of services from hospitals to community and primary settings, alleviating pressures in secondary care. Last week, I announced that £6 million of a £10 million investment in primary care will go directly to clusters for that purpose.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn. Mae diwygio'r contract meddygon teulu wedi arwain at greu clystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru. Bydd hyn yn cyflymu'r broses o drosglwyddo gwasanaethau o ysbytai i leoliadau cymunedol a sylfaenol, gan leddfu pwysau mewn gofal eilaidd. Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddais y bydd £6 miliwn o £10 miliwn o fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol yn mynd yn uniongyrchol at glystyrau at y diben hwnnw.

14:04 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's very welcome, Minister, because hospital emergency departments across Wales have reported an increase in admissions of patients with acute, complex needs and dependency. But, I would like to highlight the recently published diabetes delivery plan annual report, which shows that emergency admissions for people with diabetes have fallen by more than 230 between 2010 and 2013, and, also, that, where they are having to be admitted, people with diabetes have had their stay reduced from nine days to seven days. That equates to 7,000 bed days. That must be down to the quality of the care that is being provided in primary care to prevent people getting into acute problems that take them into hospital. So, is this not something that we can learn from in relation to other complex and chronic conditions?

Croesawir hynny'n fawr, Weinidog, oherwydd mae adrannau achosion brys ysbytai ledled Cymru wedi nodi cynnydd yn nifer y derbyniadau cleifion ag anghenion a dibyniaeth ddwys a chymhleth. Ond hoffwn dynnu sylw at adroddiad blynyddol y cynllun cyflawni ar gyfer diabetes a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n dangos bod derbyniadau brys ar gyfer pobl sydd â diabetes wedi gostwng dros 230 rhwng 2010 a 2013, a hefyd, lle mae'n rhaid eu derbyn i'r ysbyty, fod arhosiad pobl sydd â diabetes yn yr ysbyty wedi gostwng o naw diwrnod i saith diwrnod. Mae hynny'n cyfateb i 7,000 o ddiwrnodau gwely. Rhaid bod hyn yn deillio o ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu mewn gofal sylfaenol er mwyn atal pobl rhag wynebu problemau acíwt sy'n mynd â hwy i'r ysbyty. Felly, onid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ddysgu ohono mewn perthynas â chyflyrau cymhleth a chronig eraill?

14:05 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for that. She's absolutely right to point to the fact that emergency admissions and emergency readmissions to Welsh hospitals for diabetes purposes have fallen in recent years and, indeed, the Nuffield report published yesterday pointed to the fact that emergency admissions and readmissions for chronic conditions in Wales have not risen as they have elsewhere, and it's been one of the strengths of our system. For that to happen, we rely upon a strong primary care service. Cardiff and Vale LHB, for example, which have an integrated model in which consultants go out to primary care and they provide remote clinics to primary care clinicians, have seen a 35% reduction in new diabetes referrals to secondary care in the period that that new service has been in operation.

Diolch i Jenny Rathbone. Mae hi'n gwbl gywir i dynnu sylw at y ffaith fod derbyniadau brys ac ailდderbyniadau brys i ysbytai Cymru oherwydd diabetes wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf ac yn wir, mae adroddiad Nuffield a gyhoeddwyd ddoe yn tynnu sylw at y ffaith nad yw derbyniadau ac aildderbyniadau brys oherwydd cyflyrau cronig yng Nghymru wedi codi fel y maent wedi ei wneud mewn mannau eraill, a dyma un o gryfderau ein system. Er mwyn i hynny ddigwydd, rydym yn dibynnu ar wasanaeth gofal sylfaenol cryf. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, sydd â model integredig lle y mae meddygon ymgynghorol yn cyfrannu at ofal sylfaenol ac yn darparu clinigau mewn mannau anghysbell i glinigwyr gofal sylfaenol, wedi gweld gostyngiad o 35% mewn atgyfeiriadau diabetes newydd i ofal eilaidd yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth newydd wedi bod ar waith.

14:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the problems that we're having in north Wales is the recruitment of sufficient general practitioners into GP practices. What steps have you taken to look at how training barriers are impacting and, in particular, the recognition of qualifications that may have been gained elsewhere, because I understand there's a very, very lengthy process that can, sometimes, take over a year, where doctors have qualified outside Wales?

Weinidog, un o'r problemau rydym yn eu cael yn y gogledd yw recriwtio digon o feddygon teulu i bractisau meddygon teulu. Pa gamau rydych chi wedi'u cymryd i edrych ar sut y mae rhwystrau i hyfforddi yn cael effaith ac yn benodol, y gydnabyddiaeth sydd i gymwysterau a allai fod wedi'u hennill mewn mannau eraill, oherwydd rwy'n deall bod yna broses hirfaith iawn a all gymryd dros flwyddyn weithiau, lle y mae meddygon wedi cymhwyso y tu allan i Gymru?

14:07 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I share the Member's frustration at some of the barriers that there appear to be in allowing GPs who have the relevant qualifications, but may have practised overseas for a while and then who wish to come back and practice in the Welsh NHS. Those rules are not Welsh rules; they are General Medical Council rules at a national, UK level. The set of rules that we have under our own control are what are called 'the practitioner list rules'. I am determined that we will amend our practitioner list so that people who are willing to come and work across our border, doing, maybe, a few sessions in out-of-hours care in Wales, won't face the barriers that they face at the moment. I'll be bringing regulations to the Assembly to amend the list in that way.

Wel, rwy'n rhannu rhwystredigaeth yr Aelod ynghylch rhai o'r rhwystrau ymddangosiadol o ran caniatáu i feddygon teulu sy'n meddu ar y cymwysterau perthnasol, ond sydd efallai wedi bod yn ymarfer dramor am gyfnod, i ddod yn ôl i ymarfer yn y GIG yng Nghymru os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rheolau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar lefel genedlaethol y DU yw'r rhain, nid rheolau Cymru. Y set o reolau sydd gennym dan ein rheolaeth ein hunain yw'r hyn a elwir yn 'rheolau'r rhestr ymarferwyr'. Rwy'n benderfynol y byddwn yn diwygio ein rhestr ymarferwyr fel na fydd yn rhaid i bobl sy'n barod i ddod i weithio dros ein ffin drwy wneud ychydig o sesiynau gofal y tu allan i oriau yng Nghymru, efallai, yn wynebu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Byddaf yn dod â rheoliadau i'r Cynulliad er mwyn diwygio'r rhestr yn y ffordd honno.

14:08 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm aware that many people use A&Es and hospitals as their first port of call because they cannot get an appointment to see their GP, but I also read recently of —sorry, I had no microphone. I also read recently that there are some people who have visited A&E as many as 40 and 50 times a year, with some people even turning up at A&E with hiccups. Quite frankly, that rather frightens me. What efforts are health boards in Wales making to encourage members of the public to make more use of primary care services, instead of seeing hospitals as their first port of call?

Weinidog, rwy'n ymwybodol bod nifer o bobl yn defnyddio adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac ysbytai fel eu man galw cyntaf oherwydd na allant gael apwyntiad i weld eu meddyg teulu, ond hefyd, darllenais yn ddiweddar am —-mae'n ddrwg gennyf, nid oedd gennyf feicroffon. Hefyd, darllenais yn ddiweddar fod yna rai pobl sydd wedi ymweld ag adran Damweiniau ac Achosion Brys cymaint â 40 a 50 gwaith y flwyddyn, â rhai pobl hyd yn oed yn ymweld ag adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda'r ig. A dweud y gwir, mae hynny'n codi ofn arnaf braidd. Pa ymdrechion y mae byrddau iechyd yng Nghymru yn eu gwneud i annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yn amlach, yn hytrach na gweld ysbytai fel eu man galw cyntaf?

14:08 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank Lindsay Whittle for making that point; it's a very important one. It's a message that I think everybody who's involved in healthcare has been trying to give to the public this year: not to default to an A&E department for conditions that could just as successfully be managed elsewhere in the system. When he talks about those people who are very, very frequent users of A&E departments and, indeed, ambulance services, as Darren Millar highlighted on the floor the Assembly last year, what health boards find is that, behind those very large numbers of presentations, lies a deeper set of problems. Rather than simply seeing them, what health boards find is that if you engage with those individuals and try to get to the root of their problems, you can provide a better service for them and prevent their very, very frequent presentations in a part of the system not best suited to meeting their needs.

Wel, diolch i Lindsay Whittle am wneud y pwynt hwnnw; mae'n un pwysig iawn. Rwy'n meddwl ei bod yn neges y mae pawb sy'n gysylltiedig â gofal iechyd wedi bod yn ceisio ei chyfleu i'r cyhoedd eleni: i beidio ag ymweld ag adran damweiniau ac achosion brys oherwydd cyflyrau y gellid eu trin yr un mor llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r system. Pan fo'n sôn am bobl sy'n defnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys yn gyson, a gwasanaethau ambiwlans yn wir, fel y pwysleisiodd Darren Millar ar lawr y Cynulliad y llynedd, yr hyn y mae byrddau iechyd yn ei weld yw bod yna set ehangach o broblemau wrth wraidd y nifer fawr o ymweliadau. Yn hytrach na dim ond eu gweld, mae byrddau iechyd yn canfod bod ymgysylltu â'r unigolion hynny a cheisio mynd at wraidd eu problemau yn golygu y gallwch ddarparu gwasanaeth gwell ar eu cyfer ac atal eu presenoldeb aml iawn mewn rhan o'r system nad yw'r fwyaf addas i gwrdd â'u hanghenion.

14:09 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, can I welcome very much what you just said about amending the practitioner list? I think that is very helpful indeed. The virtual ward project, led by GPs in south Powys, demonstrates what an impact good community care can have in keeping people out of hospital in the first place. Would you agree to look at the outcomes of that project to date with a view to exploring how we can ensure that other parts of Wales learn from the best practice in south Powys? And would you agree perhaps to visit the GPs who are delivering that service so that you can hear at first hand about how they've been able to keep their patients in their own homes and out of DGHs and A&E departments this winter?

Weinidog, a gaf fi groesawu'n fawr iawn yr hyn rydych newydd ei ddweud am newid y rhestr ymarferwyr? Credaf fod hynny'n ddefnyddiol iawn yn wir. Mae prosiect y ward rithwir, dan arweiniad meddygon teulu yn ne Powys, yn dangos cymaint o effaith y gall gofal cymunedol da ei chael o ran cadw pobl allan o'r ysbyty yn y lle cyntaf. A fyddech yn cytuno i edrych ar ganlyniadau'r prosiect hyd yn hyn gyda golwg ar ystyried sut y gallwn sicrhau bod rhannau eraill o Gymru yn dysgu o'r arferion gorau yn ne Powys? Ac a fyddech yn cytuno efallai i ymweld â'r meddygon teulu sy'n darparu'r gwasanaeth er mwyn i chi glywed drosoch eich hun sut y maent wedi gallu cadw eu cleifion yn eu cartrefi eu hunain ac allan o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth ac adrannau damweiniau ac achosion brys y gaeaf hwn?

14:10 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Kirsty Williams for that. I absolutely agree with her about the very promising results from that project. I would be very happy to visit it. Primary care is a real strength in Powys. GPs in Powys do things that GPs in the rest of Wales wouldn't do because they have other facilities at hand. The bids that came in for the £3.5 million that was made available in this financial year to strengthen primary care—. There were some very imaginative schemes that came forward from Powys, and I would be very happy to visit the GPs concerned.

Diolch i Kirsty Williams am hynny. Cytunaf yn llwyr â hi ynghylch canlyniadau addawol iawn y prosiect dan sylw. Byddwn yn hapus iawn i ymweld ag ef. Mae gofal sylfaenol yn gryfder gwirioneddol ym Mhowys. Mae meddygon teulu ym Mhowys yn gwneud pethau na fyddai meddygon teulu yng ngweddill Cymru yn eu gwneud oherwydd bod ganddynt gyfleusterau eraill wrth law. Mae'r ceisiadau a ddaeth i law am y £3.5 miliwn a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar gyfer cryfhau gofal sylfaenol—. Cafwyd cynlluniau creadigol iawn o Bowys, a byddwn yn hapus iawn i ymweld â'r meddygon teulu dan sylw.

### Llif Cleifion mewn Ysbytai

### Hospital Patient Flow

14:11 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella llif cleifion yn ysbytai GIG Cymru? OAQ(4)0541(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on Welsh Government plans to improve hospital patient flow in the Welsh NHS? OAQ(4)0541(HSS)*

14:11 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mick Antoniw for the question. This is a whole-system issue that affects planned care and unscheduled care. We are supporting work on a number of fronts to improve the flow of patients through hospitals from entry to their timely discharge. I have made clear to health boards that this is an area that requires improvement.

Diolch i Mick Antoniw am y cwestiwn. Mae hwn yn fater i'r system gyfan sy'n effeithio ar ofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu. Rydym yn cefnogi gwaith mewn nifer o feysydd i wella llif cleifion drwy ysbytai, o'r adeg y cyrhaeddant i'r adeg y cânt eu rhyddhau'n amserol. Rwyf wedi egluro wrth y byrddau iechyd fod hwn yn faes y mae angen ei wella.

14:11 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Deputy Minister. Will you welcome the considerable progress that's been made in the Cwm Taf Local Health Board, where they have virtually eliminated ambulance waiting handover times although there are still the problems with ambulances where they go into other areas and to other hospitals and are held up in those areas. But the progress that's been made by Cwm Taf is absolutely immense. Do you think that it sets an example of what can potentially be achieved in other areas in order to improve ambulance turnover times?

Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. A fyddwch yn croesawu'r cynnydd sylweddol a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, lle y maent fwy neu lai wedi dileu amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, er bod problemau o hyd gydag ambiwlansys sy'n mynd i ardaloedd eraill ac i ysbytai eraill ac sy'n cael eu dal yn ôl yn yr ardaloedd hynny. Ond mae'r cynnydd a wnaed gan Gwm Taf yn wirioneddol enfawr. A ydych chi'n meddwl ei fod yn gosod esiampl o'r hyn y gellir ei gyflawni o bosibl mewn meysydd eraill er mwyn gwella amseroedd trosglwyddo ambiwlansys?

14:12 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mick Antoniw for the second question. I am very happy to recognise and endorse the work of Cwm Taf health board in improving patient flow. What's interesting is that they have taken a whole-hospital approach. It isn't just about the A&E department working with the ambulance trust. It is the whole hospital that is engaged. It's also about their work and their continuing work on flow at the other end of the system to get patients out of the hospital. When we think about patient flow, it isn't just about coming in from an ambulance; it's also about different parts of the health service—so, after an operative procedure, going into a different part of the health service for recovery and recuperation. The other point, and I think it came up in answers given previously, is the role of primary care and social care in preventing admissions in the first place. This is an area where I've made clear to health boards that there is a need for improvement. I am keen that they examine and implement what Cwm Taf have done successfully, and, to be fair, Hywel Dda Local Health Board have made real progress on this as well. I'd much rather stop talking about what works and actually start doing what has been proved to work in Cwm Taf in a much more consistent way.

Diolch i Mick Antoniw am yr ail gwestiwn. Rwy'n hapus iawn i gydnabod a chymeradwyo gwaith bwrdd iechyd Cwm Taf ar wella llif cleifion. Yr hyn sy'n ddiddorol yw eu bod wedi mabwysiadu ymagwedd ysbyty cyfan. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r adran ddamweiniau ac achosion brys yn gweithio gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Mae'r ysbyty cyfan yn cymryd rhan. Hefyd, mae'n ymwneud â'u gwaith sy'n dal i fynd rhagddo ar lif ar ben arall y system i gael cleifion allan o'r ysbyty. Pan fyddwn yn meddwl am lif cleifion, nid yw'n ymwneud yn unig â dod i mewn o ambiwlans; mae hefyd yn ymwneud â gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd-felly, ar ôl triniaeth lawfeddygol, bydd claf yn mynd i ran wahanol o'r gwasanaeth iechyd i wella ac adfer ei iechyd. Y pwynt arall, ac rwy'n meddwl ei fod wedi codi mewn atebion a roddwyd yn flaenorol, yw rôl gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn atal derbyniadau i'r ysbyty yn y lle cyntaf. Rwyf wedi egluro wrth y byrddau iechyd fod angen gwelliant yn y maes hwn. Rwy'n awyddus iddynt archwilio a gweithredu'r hyn y mae Cwm Taf wedi'i wneud yn llwyddiannus, ac i fod yn deg, mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi gwneud cynnydd go iawn ar hyn hefyd. Byddai'n llawer gwell gennyf roi'r gorau i siarad am yr hyn sy'n gweithio a mynd ati i ddechrau gwneud yr hyn y profwyd ei fod yn gweithio yng Nghwm Taf mewn ffordd lawer mwy cyson.

14:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, we certainly want you to stop talking about this problem and deal with it. As Mick Antoniw has correctly identified, patient flows in the NHS do depend upon a reliable ambulance service. I was as appalled as other AMs to see that, during December, police in Wales had to drive 115 patients to A&E units due to a lack of available ambulances. My constituency was particularly affected with less than half reaching their calls within the eight-minute target. Minister, we've heard from your colleague, Mark Drakeford, a few minutes ago about the extra £8 million coming into the NHS for ambulances. Why should we, and why should patients believe that this additional money is going to, in any way, solve the problem that we're facing at the moment, given that we've heard so many promises and so many pledges before, which have come to nothing?

Wel, Weinidog, rydym yn sicr am i chi roi'r gorau i siarad am y broblem ac ymdrin â hi. Fel y mae Mick Antoniw wedi'i nodi yn gywir, mae llif cleifion yn y GIG yn dibynnu ar wasanaeth ambiwlans dibynadwy. Dychrynais lawn cymaint â'r ACau eraill wrth weld bod yn rhaid i'r heddlu yng Nghymru ddanfon 115 o gleifion i unedau damweiniau ac achosion brys yn ystod mis Rhagfyr am nad oedd digon o ambiwlansys ar gael. Cafodd fy etholaeth ei heffeithio'n arbennig gyda llai na hanner yn cyrraedd o fewn y targed wyth munud. Weinidog, rydym wedi clywed gan eich cydweithiwr, Mark Drakeford, ychydig funudau'n ôl ynglŷn â'r £8 miliwn ychwanegol sy'n dod i'r GIG ar gyfer ambiwlansys. Pam y dylem ni, a pham y dylai'r cleifion gredu bod yr arian ychwanegol yn mynd i ddatrys y broblem rydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd mewn unrhyw ffordd, o gofio ein bod wedi clywed cymaint o addewidion o'r blaen, a dim wedi dod ohonynt?

14:14 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for two particular points there. I'll deal with the point around the police first, because I have seen a range of comments that have been made about the use of police vehicles to convey patients to hospital. This is an extremely rare occurrence. It is 0.08% of the conveyances to a hospital. It is a tiny proportion. We expect all of the emergency services to collaborate and co-operate. I am significantly unimpressed at the profile that has been given to this issue in a nakedly political way by at least one of the police commissioners in Wales. I expect all emergency services to work together to ensure that they do co-operate as appropriate. This will mean that, on occasions, the ambulance service, for example, undertakes tasks and activities that would otherwise be undertaken by the police service. The NHS soaks up some of that pressure, and it's unfair to simply say that this is an issue of the health service not doing its part. On the broader part about the money that goes into—and the £8 million—

Diolch i'r Aelod am y ddau bwynt. Rwyf am ymdrin â'r pwynt ynghylch yr heddlu yn gyntaf, gan fy mod wedi gweld amryw o sylwadau'n sôn am y defnydd o gerbydau heddlu i ddanfon cleifion i'r ysbyty. Mae'n ddigwyddiad eithriadol o brin. Mae'n 0.08% o'r holl drosglwyddiadau i ysbytai. Mae'n gyfran fach iawn. Rydym yn disgwyl i bob un o'r gwasanaethau brys gydweithio a chydweithredu. Rwy'n bur anfodlon â'r sylw sydd wedi'i roi i'r mater hwn mewn ffordd gwbl wleidyddol gan o leiaf un o gomisiynwyr yr heddlu yng Nghymru. Rwy'n disgwyl i bob gwasanaeth brys gydweithio i sicrhau eu bod yn cydweithredu fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn golygu, ar adegau, y bydd y gwasanaeth ambiwlans, er enghraifft, yn ymgymryd â thasgau a gweithgareddau a fyddai fel arall yn cael eu gwneud gan y gwasanaeth heddlu. Mae'r GIG yn amsugno rhywfaint o'r pwysau hwnnw, ac mae'n annheg dweud yn syml mai enghraifft yw hyn o'r gwasanaeth iechyd yn methu â gwneud ei ran. O ran y rhan ehangach am yr arian sy'n mynd i mewn i—a'r £8 miliwn—

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have many people with questions, so if you could just speed up your response, that would be helpful.

Mae gen i lawer o bobl â chwestiynau, felly os gallwch gyflymu eich ymateb, byddai hynny o gymorth.

14:15 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am trying to deal with the point.

Rwy'n ceisio ymdrin â'r pwynt.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I accept that, but I do have more speakers, so—.

Wel, rwy'n derbyn hynny, ond mae gen i fwy o siaradwyr, felly—.

14:15 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The £8 million that has been allocated—I do expect it to help the ambulance service meet and improve on its performance. That is the clear expectation of this Government, and I have faith and confidence in the relatively new leadership of the ambulance trust and the NHS to deliver improvements progressively, month on month. That is certainly what I expect.

Yr £8 miliwn sydd wedi'i ddyrannu—rwy'n disgwyl iddo helpu'r gwasanaeth ambiwlans i gyflawni a gwella ei berfformiad. Dyna y mae'r Llywodraeth hon yn ei ddisgwyl, mae'n amlwg, ac mae gennyf ffydd a hyder yn arweinyddiaeth gymharol newydd yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r GIG i sicrhau gwelliannau o gam i gam, o fis i fis. Dyna'n sicr rwy'n ei ddisgwyl.

14:15 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ddirprwy Weinidog, un o'r mesurau i wella llif cleifion drwy A&E a thrwy wardiau mewn ysbyty yw sicrhau bod gan staff—doctoriaid a nyrsys hefyd—yr hyfforddiant a'r awdurdod i gymryd penderfyniadau clinigol am y camau nesaf i'r claf. Mae cymaint o etholwyr yn sôn wrthyf i am yr oriau sy'n gallu mynd heibio ar ward—dyddiau hyd yn oed—lle nad oes penderfyniadau'n cael eu cymryd am y camau nesaf i'r claf ac i ryddhau'r claf allan o'r ysbyty hefyd. Felly, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau, ym mhob ward yng Nghymru, fod yna staff ar gael sydd â'r awdurdod, a hyd yn oed y cyfrifoldeb, i wella perfformiad o ran llif y claf drwy'r system?

Deputy Minister, one of the measures to improve the flow of patients through A&E and through hospital wards is to ensure that staff—doctors and nurses also—have the training and authority to take clinical decisions about the next steps for the patient. So many constituents are talking to me about the hours—days even—that can pass on a ward where no decisions are taken on the next steps for the patient and to discharge the patient. So, what steps are you taking to work with health boards to ensure that, in every ward in Wales, there are staff available who have the authority, and even the responsibility, to improve performance in terms of the flow of patients through the system?

14:16 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's an interesting and fair point that Elin Jones makes around ensuring that the right staff are in the right place at the right time to make the right decisions for that patient. There is a point about the training and the ability of people to meet their appropriate clinical practice. This is also about avoiding people going in in the first place. I am very interested in the work on paramedic pathways, for example, so that paramedics are empowered to make more decisions—treatment decisions—before people get in to a hospital, as well as the treatment they provide whilst patients are conveyed to a hospital. Sadly, that is one of the things that we very rarely talk about when discussing the ambulance service, although it is an important part of improving patient outcomes.

Mae Elin Jones yn gwneud pwynt diddorol a theg ynglŷn â sicrhau bod y staff iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y claf hwnnw. Mae pwynt yma ynghylch hyfforddiant a gallu pobl i gyflawni ymarfer clinigol priodol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â sicrhau bod pobl ddim yn gorfod mynd i mewn yn y lle cyntaf. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y gwaith ar lwybrau parafeddygon, er enghraifft, er mwyn i barafeddygon gael eu grymuso i wneud mwy o benderfyniadau—penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth—cyn i bobl fynd i mewn i ysbyty, yn ogystal â'r driniaeth y maent yn ei darparu tra bo cleifion yn cael eu cludo i'r ysbyty. Yn anffodus, mae hynny'n un o'r pethau nad ydym yn siarad amdanynt yn aml wrth drafod y gwasanaeth ambiwlans, er ei fod yn rhan bwysig o wella canlyniadau cleifion.

14:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I went to the university hospital on Saturday morning, and there were nine ambulances outside A&E. They were parked all over the verges, and they were parked on the pavements because there just isn't room for all of them to queue for that long. That obviously has a knock-on impact on the waiting time in my region, which has fallen through the floor—RCT, less than 30%, and even Cardiff, where half of the population live within walking distance of the hospital, 37%; only 37% got a category-A ambulance within the target time. Three weeks ago, I asked if you would investigate the situation in Rhondda Cynon Taf. Can I ask you to investigate two particular things? Firstly, whether or not the handover time that the NHS A&E department is reporting is the same as the handover time that the paramedics are reporting on the ambulances, because I believe there may be discrepancies. Secondly, could you please investigate the timetabling of staff, because I believe that there are two times a day when there are no ambulances available in Rhondda Cynon Taf and no ambulances planned to be available in Rhondda Cynon Taf?

Ddirprwy Weinidog, fe es i'r ysbyty athrofaol fore dydd Sadwrn, ac roedd naw ambiwlans y tu allan i'r uned Damweiniau ac Achosion Brys. Roeddent wedi eu parcio dros yr ymylon, ac wedi eu parcio ar y palmentydd am nad oes lle i bob un ohonynt giwio cyn hired â hynny. Yn amlwg mae gan hynny effaith ganlyniadol ar amseroedd aros yn fy rhanbarth i, sydd wedi cwympo drwy'r llawr-Rhondda Cynon Taf, llai na 30%, a hyd yn oed yng Nghaerdydd, lle mae hanner y boblogaeth yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysbyty, 37%; 37% yn unig a gafodd ambiwlans categori-A o fewn yr amser targed. Dair wythnos yn ôl, gofynnais a wnaech chi ymchwilio i'r sefyllfa yn Rhondda Cynon Taf. A gaf fi ofyn i chi ymchwilio i ddau beth penodol? Yn gyntaf, a yw'r amser trosglwyddo y mae adran Damweiniau ac Achosion Brys y GIG yn ei honni yr un peth â'r amser trosglwyddo y mae'r parafeddygon ar yr ambiwlansys yn ei honni, oherwydd rwy'n credu efallai fod yna anghysondebau. Yn ail, a fyddech cystal ag ymchwilio i amserlennu staff, gan fy mod yn credu bod dwy adeg y dydd pan nad oes ambiwlans ar gael yn Rhondda Cynon Taf nag unrhyw gynlluniau i ambiwlansys fod ar gael yn Rhondda Cynon Taf?

14:18 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the questions. We have discussed response times at some length. I again make the point that I want to be able to talk about more than response times on ambulance performance. I hope to be able to say more about that in coming weeks. On the point you make around discrepancies, I would be very interested if you could provide more detail, so that I can look at that appropriately. Of course, I would want to make sure that information is consistent and authoritative, so that Members and the public can have confidence in it. On the point around rotas, there is a broader point around making sure that the right staff are available at the right time. We recognise that this is a problem within the service, and it is work that the new ambulance commissioner is already addressing. So, I do expect to see improvement. Again, I will ask specific questions about the rota issues within RCT.

Diolch am y cwestiynau. Rydym wedi treulio peth amser yn trafod amseroedd ymateb. Gwnaf y pwynt unwaith eto fy mod yn dymuno gallu siarad am fwy nag amseroedd ymateb wrth drafod perfformiad ambiwlansys. Gobeithiaf allu dweud mwy am hynny yn yr wythnosau i ddod. O ran y pwynt a wnewch ynghylch anghysondebau, byddai cryn ddiddordeb gennyf pe gallech roi mwy o fanylion, er mwyn i mi allu edrych ar hynny yn briodol. Wrth gwrs, byddwn eisiau sicrhau bod y wybodaeth honno'n gyson ac yn awdurdodol, er mwyn i'r Aelodau a'r cyhoedd fod â hyder ynddi. O ran y pwynt ynghylch rotâu, mae yna bwynt ehangach ynghylch sicrhau bod y staff iawn ar gael ar yr adeg iawn. Rydym yn cydnabod bod hon yn broblem yn y gwasanaeth, ac mae'r comisiynydd ambiwlans newydd eisoes yn mynd i'r afael â'r gwaith. Felly, rwy'n disgwyl gweld gwelliant. Unwaith eto, byddaf yn gofyn cwestiynau penodol ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â'r rota yn Rhondda Cynon Taf.

### Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru

### Primary Care in North Wales

14:19 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0542(HSS)*

*6. How is the Welsh Government improving primary care provision in North Wales? OAQ(4)0542(HSS)*

14:19 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In November last, I published a new national plan for primary care services in Wales. This is underpinned by new investment and supported by actions to develop locally planned and delivered care by a wide range of health professionals, including those in north Wales.

Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddais gynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Caiff hyn ei ategu gan fuddsoddiad newydd a'i gefnogi gan gamau gweithredu i ddatblygu gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu yn lleol gan amrywiaeth eang o weithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys y rhai yng ngogledd Cymru.

14:19 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch; thank you. Well, the north Wales community health council has made it clear that you're responsible for setting the policy and financial frameworks within which the health board and they have to operate. Last week, I told the Deputy Minister that Holywell Community Hospital staff had told me that they wanted to take pressure off Glan Clwyd but were not being given the staff to do it, and that extra investment in community hospitals like Mold and Holywell and NHS community beds in Flint would take pressure off the general hospitals and enable the health b to use its resources more efficiently. How, therefore, do you respond to the replies I've received from constituents in Flint to your reply, and the health board reply, with evidence supporting their 99.3% referendum in favour of a return of NHS community beds to Flint, that, since the hospital closed, step-down care from Glan Clwyd to Holywell for Flint patients has not worked, waiting times in excess of three months have been experienced by many, there are simply not sufficient beds in the system and, currently, waiting times for a GP visit are three to four weeks?

Diolch; diolch i chi. Wel, mae cyngor iechyd cymuned gogledd Cymru wedi ei gwneud yn glir mai chi sy'n gyfrifol am osod y polisi a'r fframweithiau ariannol y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd a hwythau weithredu o'u mewn. Yr wythnos diwethaf, dywedais wrth y Dirprwy Weinidog fod staff Ysbyty Cymuned Treffynnon wedi dweud wrthyf eu bod yn dymuno cymryd peth o'r pwysau oddi ar Ysbyty Glan Clwyd ond nad oeddent yn cael y staff i allu gwneud hynny, ac y byddai buddsoddiad ychwanegol mewn ysbytai cymunedol fel yr Wyddgrug a Threffynnon a gwelyau cymunedol y GIG yn y Fflint yn cymryd peth o'r pwysau oddi ar yr ysbytai cyffredinol ac yn galluogi'r bwrdd iechyd i ddefnyddio ei adnoddau yn fwy effeithlon. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r ymatebion rwyf wedi eu cael gan etholwyr yn y Fflint i'ch ymateb chi, ac ymateb y bwrdd iechyd, gyda thystiolaeth i gefnogi eu refferendwm 99.3% o blaid dod â gwelyau cymunedol y GIG yn ôl i'r Fflint; ers i'r ysbyty gau, mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw gofal cam-i-lawr rhwng Glan Clwyd a Threffynnon i gleifion y Fflint wedi gweithio, fod nifer wedi wynebu amseroedd aros o fwy na thri mis, nad oes digon o welyau yn y system, yn syml iawn, ac ar hyn o bryd, fod amseroedd aros o dair i bedair wythnos i weld meddyg teulu?

14:20 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Member was right when he started by saying that the responsibilities of Ministers are to set policies and provide finance. He might have gone on to note that we are not responsible for operational matters, and his questions would be better directed to those who are responsible—that is to say, the chief executive of the local health board.

Wel, roedd yr Aelod yn iawn pan ddechreuodd drwy ddweud mai cyfrifoldebau Gweinidogion yw gosod polisïau a darparu cyllid. Gallai fod wedi mynd yn ei flaen i nodi nad ydym yn gyfrifol am faterion gweithredol, a byddai'n well iddo gyfeirio ei gwestiynau at y rhai sydd yn gyfrifol—hynny yw, prif weithredwr y bwrdd iechyd lleol.

14:20 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the common complaints that I receive is that people find it difficult to get an appointment with a GP in the first instance. What assessment have you done, or what can the Welsh Government do, to make sure that those people, particularly those who have jobs, can access GP appointments around their working pattern? And have you done any analysis of whether salaried GPs would help to alleviate this problem?

Weinidog, un gŵyn gyffredin rwy'n ei derbyn yw bod pobl yn ei chael yn anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu yn y lle cyntaf. Pa asesiad a wnaethoch, neu beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, i sicrhau y gall y bobl hynny, yn enwedig y rhai â swyddi, gael apwyntiadau meddyg teulu o amgylch eu patrymau gweithio? Ac a ydych chi wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad ynglŷn ag a fyddai meddygon teulu ar gyflog yn helpu i liniaru'r broblem hon?

14:21 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Ann Jones for that question. It's a perennial issue about how people who are in work during the working day are able to get access to GP services. In fact, 94% of practices in north Wales offer appointments between 5 p.m. and 6.30 p.m. on at least two nights each week, but we have recently concluded an agreement with GPC Wales, which has been in operation now since December of last year, in which 14 practices in different parts of Wales, including some practices in north Wales, will be able to offer what is called an out-of-area unregistered day-patient scheme, which means that people who live in one place, but work in another, will be able to access GPs in the place where they work while remaining registered with the GP at their home base. This is, we believe, a more flexible way of making sure that people who need a quick appointment during working hours can get access to GP services. Of course, salaried GPs are part of our overall plan to diversify the way we provide primary care services and to make them more resilient as a result.

Diolch i Ann Jones am y cwestiwn. Mae sut y gall pobl sydd yn eu gwaith yn ystod y diwrnod gwaith ddefnyddio gwasanaethau meddyg teulu yn broblem dragwyddol. Mewn gwirionedd, mae 94% o bractisau gogledd Cymru yn cynnig apwyntiadau rhwng 5 y.h. a 6.30 y.h. o leiaf ddwy noson yr wythnos, ond yn ddiweddar rydym wedi cwblhau cytundeb gyda'r Pwyllgor Meddygon Teulu, sydd wedi bod ar waith bellach ers mis Rhagfyr y llynedd, gyda 14 o bractisau mewn gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys rhai o'r practisau yng ngogledd Cymru, yn gallu cynnig yr hyn a elwir yn gynllun i gleifion dydd heb eu cofrestru y tu allan i ardal, sy'n golygu bod pobl sy'n byw mewn un man, ond yn gweithio mewn man arall yn cael gweld meddyg teulu yn y man lle y maent yn gweithio gan barhau'n gofrestredig gyda'u meddyg teulu gartref. Yn ein barn ni, mae hon yn ffordd fwy hyblyg o sicrhau y gall pobl sydd angen apwyntiad cyflym yn ystod oriau gwaith ddefnyddio gwasanaethau meddygon teulu. Wrth gwrs, mae meddygon teulu ar gyflog yn rhan o'n cynllun cyffredinol i amrywio'r ffyrdd rydym yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol gan eu gwneud yn fwy gwydn.

14:22 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni eisioes wedi clywed sut mae llif cleifion yn gallu cael effaith ar ofal 'primary' o fewn y gwasanaeth iechyd. A fyddech chi'n cydnabod bod cau ysbytai cymunedol, a lleihad yn nifer y gwelyau, yn cyfrannu at y broblem honno?

We have already heard how patient flow can have an impact on primary care within the health service. Would you acknowledge that the closure of community hospitals, and a reduction in bed numbers, contributes to that problem?

14:22 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid I think what the Member is trying to do is to make the number of beds in the system the currency around which the system flows. We know perfectly well that that is not the answer. In Wales, we have far more beds per head of population than they do elsewhere in the United Kingdom. If 'more beds' was the answer, then we would be very well off. What we know is that services in the community where people themselves live is much more likely to be an effective answer to some of the challenges we face, and that's the path that we are embarked on.

Rwy'n ofni fy mod yn credu mai'r hyn y mae'r Aelod yn ceisio ei wneud yw defnyddio nifer y gwelyau yn y system fel yr arian sy'n gwneud i'r system honno lifo. Gwyddom yn iawn nad dyna'r ateb. Yng Nghymru, mae gennym lawer mwy o welyau i bob pen o'r boblogaeth nag sydd ganddynt mewn mannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Pe bai 'mwy o welyau' yn ateb, yna byddem yn hapus ein byd. Yr hyn a wyddom yw bod gwasanaethau yn y gymuned lle y mae'r bobl eu hunain yn byw yn llawer mwy tebygol o fod yn ateb effeithiol i rai o'r heriau sy'n ein hwynebu, a dyna'r llwybr rydym wedi ei gymryd.

## Amseroedd Aros mewn Adrannau Brys

## Waiting Times in Emergency Departments

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros mewn adrannau brys yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0546(HSS)*

*7. Will the Minister make a statement on waiting times in emergency departments in north Wales? OAQ(4)0546(HSS)*

14:23 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It remains a very busy period for emergency departments in north Wales, as has been seen across other parts of the UK. We expect the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to manage their local circumstances and operational pressures, based on their plans and local expertise.

Mae'n parhau i fod yn gyfnod prysur iawn ar adrannau achosion brys yng ngogledd Cymru, fel rhannau eraill o'r DU. Rydym yn disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr reoli eu hamgylchiadau lleol a'r pwysau gweithredol, ar sail eu cynlluniau a'u harbenigedd lleol.

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Roedd Andy Burnham, ar raglen 'Today' y diwrnod o'r blaen, yn dangos anwybodaeth lwyr o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ynghyd â'r holwraig hefyd, os caf i ddweud. Ond mae Andy Burnham, sydd, fel y gwyddoch chi, yn gysgod Weinidog iechyd Llafur yn Lloegr, yn dweud bod y canran o gleifion brys sy'n cael eu gweld o fewn pedair awr yn Lloegr yn argyfwng, ac mae'r lefelau hynny yn 92.5%, fel rwy'n deall. Sut byddech chi'n disgrifio'r canran yng Nghymru sy'n cael ei weld o fewn pedair awr, sef 81%?

Thank you. Andy Burnham was on the 'Today' programme the other day, showing complete ignorance of the health service in Wales—as did the interviewer too, if I may say. But Andy Burnham, who, as you know, is Labour's shadow health Minister in England, says that the percentage of emergency patients seen within four hours in England is a crisis; my understanding is that that level stands at 92.5%. How would you describe the percentage in Wales seen within four hours, which is 81%?

14:24 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I made clear at the time that the figures were released, these figures are not where we want them to be at all. However, the waiting time figures reveal part of the answer, and part of the picture, and it's worth reflecting on the Nuffield report that the BBC published this week. One of the points they made about the difference between Wales and England was that, in England, people chase the target. The tariff system has a real financial incentive to move people out of the A&E department and into the hospital, and they recognise that isn't always appropriate. There are numbers of people being moved after three hours and 50-odd minutes to avoid them breaching the target. This, in Wales is about the most appropriate way for people to be treated, and all the patient experience surveys—and again, a number were published this week—reveal that patients are broadly happy with their experience and have a good outcome when they are treated by the national health service. Obviously, I want to see improvement, but I think it is wrong to suggest that the NHS in Wales is failing its patients, and I again want to put on record my thanks to our hard-working staff under a period of enormous and unprecedented pressure.

Fel yr eglurais pan ryddhawyd y ffigurau, nid yw'r ffigurau hyn lle'r ydym eisiau iddynt fod o gwbl. Fodd bynnag, mae'r ffigurau amseroedd aros yn datgelu rhan o'r ateb, a rhan o'r darlun, ac mae'n werth ystyried adroddiad Nuffield a gyhoeddwyd gan y BBC yr wythnos hon. Un o'r pwyntiau a wnaethant ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr oedd bod pobl yn Lloegr yn cwrso'r targed. Mae'r system tariff yn rhoi cymhelliant ariannol gwirioneddol i symud pobl allan o'r adran damweiniau ac achosion brys ac i mewn i'r ysbyty, ac maent yn cydnabod nad yw hynny bob amser yn addas. Mae nifer o bobl yn cael eu symud ar ôl tair awr a thua 50 munud er mwyn osgoi methiant i gyrraedd y targed. Yng Nghymru, mae'n ymwneud â'r ffordd fwyaf addas o drin pobl, ac mae'r holl arolygon profiadau cleifion—ac unwaith eto, cyhoeddwyd nifer ohonynt yr wythnos hon—yn dangos bod cleifion yn gyffredinol hapus â'u profiad ac yn mwynhau canlyniadau da pan fyddant yn cael eu trin gan y gwasanaeth iechyd gwladol. Yn amlwg, rwyf am weld gwelliant, ond rwy'n credu ei bod yn anghywir awgrymu bod y GIG yng Nghymru yn gwneud cam â'i gleifion, a hoffwn unwaith eto gofnodi fy niolch i'n staff gweithgar drwy gyfnod o bwysau aruthrol a digynsail.

14:25 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, you made reference to the Nuffield Trust report, but you didn't make any reference to the Wales Audit Office report, which of course was published yesterday, which made it quite clear that patients in Wales are coming to harm: some of them are dying, and some of them are going blind as a result of the long waits for treatment. They also conclude that some of the pressure on A&E departments is as a result of those long waits. What are you going to do to shorten waiting times in Wales so that people can enjoy the sort of wait that people are able to access in England and, indeed, in Scotland?

Ddirprwy Weinidog, fe gyfeirioch at adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield, ond ni wnaethoch unrhyw gyfeiriad at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ddoe wrth gwrs, a wnaeth yn gwbl glir fod cleifion yng Nghymru yn cael niwed: mae rhai ohonynt yn marw, ac mae rhai ohonynt yn mynd yn ddall o ganlyniad i aros amseroedd hir am driniaeth. Maent hefyd yn dod i'r casgliad fod rhywfaint o'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i'r amseroedd aros hir hynny. Beth a wnewch i gwtogi amseroedd aros yng Nghymru er mwyn i bobl allu mwynhau'r math o amseroedd aros y mae pobl yn gallu eu cael yn Lloegr ac yn wir, yn yr Alban?

14:26 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As the Member knows, the typical time to wait to be seen, treated and discharged in Wales is approximately two hours. The great majority of people are seen, treated and discharged within the four-hour outline target.

Fel y gŵyr yr Aelod, yr amser aros nodweddiadol i gael eich gweld, eich trin a'ch rhyddhau yng Nghymru yw oddeutu dwy awr. Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn cael eu gweld, eu trin a'u rhyddhau o fewn y targed amlinellol o bedair awr.

In terms of your points around other forms of treatment, again, the Wales Audit Office report, in its full and rounded sense, recognises that the great majority of people are seen and treated within the target time. The typical wait for elective treatment is 10 weeks. I think it is extremely unhelpful and destructive to talk down and misrepresent the typical performance of the NHS and the service that people get.

O ran eich pwyntiau ynghylch ffurfiau eraill ar driniaeth, unwaith eto, mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn ei ystyr cyflawn, yn cydnabod bod y mwyafrif llethol o bobl yn cael eu gweld a'u trin o fewn yr amser targed. Yr amser aros nodweddiadol ar gyfer triniaeth ddewisol yw 10 wythnos. Credaf ei bod yn hynod o annefnyddiol a dinistriol i ddibrisio a cham-gynrychioli perfformiad nodweddiadol y GIG a'r gwasanaeth y mae pobl yn ei gael.

14:26 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, those hard-working staff in north Wales are saying that part of the problem they have in these A&E departments is that there are insufficient beds to move patients to, and also insufficient nurses, if you listen to the health board themselves, in order to staff wards that even they, in the winter plans, wanted to reopen.

Ddirprwy Weinidog, mae'r staff gweithgar yng ngogledd Cymru yn honni mai rhan o'r broblem a wynebant yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys yw nad oes digon o welyau i symud cleifion iddynt. Hefyd, os gwrandewch ar y bwrdd iechyd ei hun, ceir prinder nyrsys i staffio wardiau roeddent hwy, hyd yn oed, yn awyddus i'w hailagor yn rhan o gynlluniau'r gaeaf.

Now, the same Wales Audit Office report suggested that, whilst operational matters were not matters for the Welsh Government, the Welsh Government did have a role to monitor performance within the Welsh NHS, a role that is supposed to be undertaken by the delivery unit, based in Bridgend, within the Welsh NHS. How many times has the delivery unit looked at performance in north Wales given that Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospital, over the last two months, have been the worst-performing A&E departments in the whole of Wales?

Yn awr, er nad oedd materion gweithredol yn faterion ar gyfer Llywodraeth Cymru, awgrymodd yr un adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru fod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn monitro perfformiad o fewn GIG Cymru, rôl sydd i fod i gael ei chyflawni gan yr uned gyflawni ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Sawl gwaith y mae'r uned gyflawni wedi edrych ar berfformiad yng ngogledd Cymru o ystyried mai Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam, dros y ddau fis diwethaf, oedd yr adrannau damweiniau ac achosion brys a berfformiodd waethaf yng Nghymru gyfan?

14:27 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the question. It is a fact that Betsi Cadwaladr has utilised some of the surge capacity within their winter plans. It's also worth noting that Betsi Cadwaladr have a particularly difficult problem because they have the highest percentage of older people who are being admitted and are often staying longer within hospitals across the country.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n ffaith fod Betsi Cadwaladr wedi defnyddio peth o'r capasiti ymchwydd yn eu cynlluniau gaeaf. Mae hefyd yn werth nodi bod gan Betsi Cadwaladr broblem arbennig o anodd am mai ganddynt hwy y mae'r ganran uchaf drwy'r wlad o bobl hŷn sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac sy'n aml yn aros mewn ysbytai am gyfnodau hirach.

In terms of monitoring and addressing performance across the NHS, including in north Wales, not only the delivery unit, but the engagement that we have directly with health boards, where we make very clear the expectations on them for treatment and improvement—. I think the point here is: do we expect to see an improving health service? When we see the financial plans and the treatment plans over the next year for the three years, I expect to see a much more rigorous approach to planning and understanding the population needs of each of the health board areas, and then matching resources to come up with a plan that is real, achievable and believable. I do not want to come back and have plans being submitted and approved that then do not match the profile of patients in reality. It is a matter that we'll give more and more attention to over the coming weeks and months.

O ran monitro a mynd i'r afael â pherfformiad drwy'r GIG, gan gynnwys yng ngogledd Cymru, nid yn unig yr uned gyflawni, ond yr ymgysylltiad uniongyrchol sydd gennym â'r byrddau iechyd, lle'r ydym yn eglur iawn ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt o ran triniaeth a gwelliant—. Rwy'n meddwl mai'r pwynt yw: a ydym yn disgwyl gweld gwasanaeth iechyd sy'n gwella? Pan welwn y cynlluniau ariannol a'r cynlluniau triniaeth dros y flwyddyn nesaf ar gyfer y tair blynedd, rwy'n disgwyl gweld agwedd lawer mwy trwyadl tuag at gynllunio a deall anghenion y boblogaeth ym mhob un o ardaloedd y byrddau iechyd, a chyfateb adnoddau wedyn er mwyn llunio cynllun sy'n real, yn gyraeddadwy ac yn gredadwy. Nid wyf am ddod yn ôl a gweld cynlluniau'n cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo yna'n methu â chyfateb i'r proffil cleifion mewn gwirionedd. Mae'n fater y byddwn yn rhoi mwy a mwy o sylw iddo dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

### Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

### Young People who are Leaving Care

14:28

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau dull o ofal sy'n meithrin gwydnwch emosiynol pobl ifanc sy'n gadael gofal? OAQ(4)0549(HSS)*

*8. How does the Welsh Government ensure an approach to care that builds the emotional resilience of young people leaving care? OAQ(4)0549(HSS)*

14:28

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Lynne Neagle for the question. Local authorities already have duties to ensure care leavers have sufficient skills and resilience to enable them to leave care and build successful lives. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 builds upon these duties, focusing on the outcomes for this vulnerable group of young people.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau eisoes i sicrhau bod gan y rhai sy'n gadael gofal ddigon o sgiliau a chydnerthedd i'w galluogi i adael gofal a chreu bywydau llwyddiannus. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn adeiladu ar y dyletswyddau hyn, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau i'r grŵp hwn o bobl ifanc agored i niwed.

14:29

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. You will be aware that the importance of emotional health and wellbeing for care leavers was one of the key themes emerging from Action for Children's 'Too Much, Too Young' report that I helped launch back in October. Indeed, it's clear that ensuring that young people in the care system have the support they need to recover from personal trauma is absolutely fundamental when it comes to improving their life chances. Minister, how can we ensure that the development of regulations and codes of practice under the Social Services and Well-being (Wales) Act, and the review of child and adolescent mental health services that is currently taking place both help to deliver improved emotional resilience amongst children in care and those leaving care in Wales?

Diolch i chi, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol fod pwysigrwydd iechyd a lles emosiynol i bobl sy'n gadael gofal yn un o themâu allweddol adroddiad 'Gormod, yn rhy gynnar' Gweithredu dros Blant a helpais i'w lansio nôl ym mis Hydref. Yn wir, mae'n amlwg fod sicrhau bod y bobl ifanc yn y system ofal yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella ar ôl trawma personol yn gwbl hanfodol o ran gwella eu cyfleoedd bywyd. Weinidog, sut y gallwn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu rheoliadau a chodau ymarfer o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a'r adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn helpu i sicrhau cydnerthedd emosiynol gwell ymysg plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru?

14:29

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lynne Neagle is absolutely right to point to the fact that many young people who get drawn into the looked-after system come from experiences that are emotionally scarring, and where their future depends not just upon making sure that their physical welfare and their educational needs and so on are attended to, but that work is done to help repair the damage that they will have experienced earlier in their lives. Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 deals with looked-after and accommodated children. I plan to publish draft regulations in the middle of this year; they will go out for consultation and they will come back to the floor of the Assembly in the mid autumn. We will look in that whole process to make sure that we do whatever we can, through regulations, to improve the emotional resilience of young people in care so that they can go on and lead future and successful lives.

Mae Lynne Neagle yn llygad ei lle yn tynnu sylw at y ffaith fod llawer o bobl ifanc sy'n cael eu cynnwys yn y system ofal yn dod yno ar ôl cael profiadau sy'n gadael creithiau emosiynol, ac nad yw eu dyfodol yn dibynnu'n unig ar sicrhau bod eu lles corfforol a'u hanghenion addysgol ac yn y blaen yn cael sylw, ond bod gwaith yn cael ei wneud i helpu i wella'r niwed y maent wedi ei ddioddef yn gynharach yn eu bywydau. Mae Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymdrin â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Rwy'n bwriadu cyhoeddi rheoliadau drafft ganol y flwyddyn hon; byddant yn destun ymgynghoriad ac yn dod yn ôl gerbron y Cynulliad ganol yr hydref. Drwy'r holl broses honno byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud beth bynnag a allwn, drwy reoliadau, i wella cydnerthedd emosiynol pobl ifanc mewn gofal fel y gallant fynd yn eu blaenau i fyw bywydau llwyddiannus yn y dyfodol.

14:31

# 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

# 2. Questions to the Counsel General

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which are questions to the Counsel General. The first question is from Simon Thomas.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Daw'r cwestiwn cyntaf gan Simon Thomas.

### Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

### Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

14:31

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ynglŷn â chyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys? OAQ(4)0072(CG)*

*1. Will the Counsel General provide an update on the referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court? OAQ(4)0072(CG)*

14:31

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. Yes, the Supreme Court has requested further written submissions from both parties. Both parties have made those submissions. We now await the court's decision with interest.

Prynhawn da, bawb. Do, mae'r Goruchaf Lys wedi gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig pellach gan y ddau barti. Mae'r ddau barti wedi rhoi'r cyflwyniadau hynny. Rydym yn awr yn aros am benderfyniad y llys gyda diddordeb.

14:31

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, diolch, Gwnsler, am y diweddariad hwnnw. Mae'n anffodus, a dweud y lleiaf, ein bod ni'n aros dros flwyddyn ar ôl i Fil gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad hwn i weld os yw Bil yn gymwys ai peidio. Rwy'n awgrymu i chi fod unrhyw system sydd yn oedi siwd gymaint dros Fil sydd wedi'i gymeradwyo gan Senedd ddemocrataidd yn system sy'n gywilyddus ac yn ddiffygiol. Felly, pa drafodaethau pellach fedrwch chi eu cael gydag uwch-swyddogion y gyfraith yn Llundain, a Llywodraeth San Steffan, i weld os yw'r Goruchaf Lys yn gallu gweithio yn fwy prydlon, a chyda mwy o gyflymder, pan fydd yn trafod Biliau sydd wedi'u pasio gan Seneddau y tu fewn i'r Deyrnas Gyfunol?

Well, thank you, Counsel General, for that update. It's unfortunate, to say the least, that we have waited over a year since the Bill was approved by this Assembly to see whether it is within competence or not. I would suggest to you that any system that delays so much in terms of a Bill approved by a democratic Parliament is disgraceful and deficient. So, what further negotiations can you have with senior law officers in London, and with the Westminster Government, to see if the Supreme Court could work more speedily, and with greater pace, when discussing Bills that have been passed by Parliaments within the UK?

14:32 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, thank you for that question; it raises a number of different aspects, and perhaps I can touch on them very briefly at this stage. Firstly, as Members will remember, because I was asked a question about this in November, it was a matter of some concern to me that there had been such a long time in the gestation of the result in this reference because it was referred at the end—. It was 17 December 2013 that the reference was made by me. The hearing was 14 and 15 May, and then we waited until early December, or the end of November, before it appeared that the Supreme Court was in a position to give us a judgment. Then, that judgment was not given, even though there was a date listed for the handing down of the judgment, because it appeared—there's a limit on how much I can say about this—that it was appropriate, if we can put it that way, for further submissions to be heard, or seen, from both sides, and that is the process that we're in at the moment.

Wel, diolch yn fawr am y cwestiwn; mae'n codi nifer o wahanol elfennau, ac efallai y caf gyffwrdd arnynt yn fyr iawn ar y cam hwn. Yn gyntaf, fel y bydd yr Aelodau'n cofio, gan y gofynnwyd cwestiwn i mi am hyn ym mis Tachwedd, roedd yn fater o gryn bryder i mi fod cymaint o amser wedi bod cyn sicrhau canlyniad yn y cyfeiriad hwn oherwydd fe'i cyfeiriwyd ar ddiwedd—. Gwnaed y cyfeiriad gennyf i ar 17 Rhagfyr 2013. Roedd y gwrandawiad ar 14 a 15 Mai, ac yna fe arhosom tan ddechrau mis Rhagfyr, neu ddiwedd Tachwedd, cyn iddi ymddangos bod y Goruchaf Lys mewn sefyllfa i roi dyfarniad i ni. Yna, ni roddwyd y dyfarniad hwnnw, er bod dyddiad wedi'i restru ar gyfer traddodi'r dyfarniad, gan ei bod yn ymddangos—hyn a hyn yn unig y gallaf ei ddweud ynglŷn â'r mater—ei bod yn briodol, os cawn ei roi felly, i gyflwyniadau pellach gael eu clywed, neu eu gweld, gan y ddwy ochr, a dyna'r broses rydym ynddi ar hyn o bryd.

As Members will remember, the whole issue of the delay is complicated because, in a way which is not entirely clear to me, the deliberations in relation to this matter were in some way linked to the deliberations in relation to the agricultural sector reference. So, I think there was, part of the delay—. Previous to that, the references had been dealt with really quite quickly, and we were very pleased about that, and Lord Hope in particular, one of the judges, made it clear that that was the way that they wanted to deal with things. So, there was an unusual aspect to it to start with.

Fel y bydd yr Aelodau'n cofio, mae'r holl fater ynglŷn ag oedi yn gymhleth oherwydd, mewn ffordd nad yw'n hollol glir i mi, roedd y trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn mewn rhyw ffordd yn gysylltiedig â'r trafodaethau ynghylch cyfeiriad y sector amaethyddol. Felly, rwy'n meddwl bod rhan o'r oedi—. Cyn hynny, ymdrinnid â'r cyfeiriadau yn eithaf cyflym mewn gwirionedd, ac roeddem yn hapus iawn â hynny, ac fe'i gwnaed yn glir gan yr Arglwydd Hope yn arbennig, un o'r barnwyr, mai dyna'r ffordd y dymunent ymdrin â phethau. Felly, roedd agwedd anarferol ar bethau o'r cychwyn cyntaf.

The other point I think Members should bear in mind is this—and this isn't unusual for this Assembly—we are all feeling our way in new territory, if I can put it that way. To give an example, it is previously unheard of for the Supreme Court to seek further submissions having got to the point where it appeared that it was about to give judgment. I understand that there's another case now, which has been done, but before this reference, no-one could tell me when it had actually been done. The point about this, of course, is that that, in itself, necessarily introduces further delay, which is unfortunate because the Supreme Court is quite a busy court and it's having to try to fit in further deliberations on those further submissions, which were not completed until mid-January, before the judgment can issue. And so all of those things taken together mean that I think this is an extraordinary and unusual case, and I'm very hopeful that when we get beyond this one, the whole process will return to its original intention, which was to be a very speedy process.

Y pwynt arall rwy'n credu y dylai'r Aelodau ei gofio yw hyn —ac nid yw hyn yn anghyffredin i'r Cynulliad hwn—rydym i gyd yn dod o hyd i'n traed ar dir newydd, os caf ei roi felly. I roi enghraifft, nid yw'r Goruchaf Lys erioed o'r blaen wedi gofyn am gyflwyniadau pellach ar ôl cyrraedd y pwynt lle'r oedd yn ymddangos ei fod ar fin rhoi dyfarniad. Deallaf erbyn hyn fod achos arall, sydd wedi ei wneud, ond cyn y cyfeiriad hwn, ni allai neb ddweud wrthyf pryd y cafodd ei wneud mewn gwirionedd. Y pwynt ynglŷn â hyn, wrth gwrs, yw bod hynny ynddo'i hun o reidrwydd yn achosi rhagor o oedi, sy'n anffodus am fod y Goruchaf Lys yn llys prysur iawn ac mae'n gorfod ceisio gwneud amser ar gyfer trafodaethau pellach ar y cyflwyniadau pellach hynny, na chawsant eu cwblhau tan ganol mis Ionawr, cyn y gellir traddodi dyfarniad. Ac felly mae pob un o'r pethau hynny gyda'i gilydd yn golygu fy mod yn credu bod hwn yn achos eithriadol ac anarferol, ac rwy'n obeithiol iawn, pan fydd yr achos hwn y tu ôl i ni, y bydd y broses gyfan yn dychwelyd at ei bwriad gwreiddiol, sef bod yn broses gyflym iawn.

I will say this final matter, if I may: the whole process, of course, is a very unusual process. As members of the Supreme Court have said on numerous occasions, these are the first cases in which they are asked to act as a constitutional court. The importance of that is this: normally, the Supreme Court, by the time a case gets to them, have the benefit of an argument at a first instance court, an argument at the court of appeal, and the arguments have become gradually refined, the evidence is clear, and it's relatively straightforward from a factual point of view by the time the matter gets to the Supreme Court. In these references, they are effectively asked to deal with the matter as what we lawyers call the court of first instance, as well as the court of final appeal, and that introduces complications. And I think that is what's behind the receipt of further submissions in this reference.

Os caf ddweud un peth i gloi: mae'r broses gyfan, wrth gwrs, yn broses anarferol iawn. Fel y mae aelodau o'r Goruchaf Lys wedi ei ddweud ar sawl achlysur, dyma'r achosion cyntaf lle y gofynnir iddynt weithredu fel llys cyfansoddiadol. Pwysigrwydd hynny yw hyn: fel arfer, erbyn i achos ei gyrraedd, mae gan y Goruchaf Lys fantais dadl yn llys y gwrandawiad cyntaf, dadl yn y llys apêl, ac mae'r dadleuon wedi eu mireinio'n raddol, mae'r dystiolaeth yn glir, ac mae'n gymharol syml o safbwynt ffeithiol erbyn i'r mater gyrraedd y Goruchaf Lys. Yn y cyfeiriadau hyn, gofynnir iddynt ymdrin â'r mater i bob pwrpas fel yr hyn rydym ni gyfreithwyr yn ei alw'n llys y gwrandawiad cyntaf, yn ogystal â'r llys apêl terfynol, ac mae hynny'n peri cymhlethdodau. Ac rwy'n credu mai dyna sydd wrth wraidd y broses o dderbyn cyflwyniadau pellach yn y cyfeiriad hwn.

14:36

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Counsel General, two points. One is whether you will be continuing to pursue the issue, particularly in future private Members' Bills, whereby the person who brings the Bill doesn't actually have any apparent status in terms of anything that is happening with regard to the Supreme Court.

Gwnsler Cyffredinol, dau bwynt. Un yw a fyddwch yn parhau i fynd ar drywydd y mater, yn enwedig mewn Biliau Aelod Preifat yn y dyfodol, lle nad oes gan yr unigolyn sy'n cyflwyno'r Bil unrhyw statws mewn gwirionedd mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd o ran y Goruchaf Lys?

The other point, though, of course, is that you'll be aware that the Scottish Parliament has now started a process of bringing similar legislation, almost based identically on the Welsh Bill. What will be your role in that? Will you actually be engaged with the Scottish Parliament in any matters that arise on that particular legislation?

Fodd bynnag, y pwynt arall, wrth gwrs, yw y byddwch yn ymwybodol fod Senedd yr Alban bellach wedi dechrau proses o gyflwyno deddfwriaeth debyg, yn seiliedig fwy neu lai'n union ar Fil Cymru. Beth fydd eich rôl chi yn hynny? A fyddwch mewn gwirionedd yn ymgysylltu â Senedd yr Alban ar unrhyw faterion sy'n codi ynghylch y ddeddfwriaeth benodol honno?

14:36

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

To answer the second point first, I think it unlikely that I'll be directly engaged with the Scottish Parliament, and that's because—to address the first part of your question—let it be understood, I understand what I would expect to be frustration on the part of Members who have promoted a Bill to be, as it were, excluded from considerations, to some extent. It arises, I'm afraid, from the constitutional position, which is that the parties to references—or the referees and the respondents to these references—are the law officers. On the one hand, myself—or whoever is the Counsel General—and, on the other hand, the Attorney General, or, I suppose, potentially, the Solicitor General, but actually the Act says it's the Attorney General, for our references. Those are the parties. In this reference, of course, we have an additional party, who sought to be an additional respondent, and were allowed to be—the Association of British Insurers. Those are the parties.

I ateb yr ail bwynt yn gyntaf, credaf ei bod yn annhebygol y byddaf yn ymwneud yn uniongyrchol â Senedd yr Alban, ac mae hynny oherwydd—i gyfeirio at ran gyntaf eich cwestiwn—gadewch inni fod yn glir, rwy'n deall yr hyn y byddwn yn disgwyl iddo fod yn rhwystredigaeth ar ran yr Aelodau sydd wedi hyrwyddo Bil i gael ei eithrio, fel petai, o'r trafodaethau, i ryw raddau. Mae'n codi, yn anffodus, o'r sefyllfa gyfansoddiadol, sef mai'r rhai sy'n bartïon i'r cyfeiriadau—neu'r rhai sy'n cyfeirio a'r rhai sy'n ymateb i'r cyfeiriadau hyn—yw swyddogion y gyfraith. Ar y naill law, myfi—neu bwy bynnag yw'r Cwnsler Cyffredinol—ac ar y llaw arall, y Twrnai Cyffredinol, neu am wn i, o bosibl, y Cyfreithiwr Cyffredinol, ond mewn gwirionedd mae'r Ddeddf yn dweud y Twrnai Cyffredinol, ar gyfer ein cyfeiriadau. Dyna'r partïon. Yn y cyfeiriad hwn, wrth gwrs, mae gennym barti ychwanegol, a geisiodd fod yn ymatebydd ychwanegol, a chawsant fod—Cymdeithas Yswirwyr Prydain. Dyna'r partïon.

The particular difficulty with information not being available, I think, is caused by the unusual situation we're in, with the judgment that was proposed to be given, and then wasn't. It has been made perfectly plain that the further submissions are not matters that can be disclosed or discussed with anybody outside the parties to the hearing and the court.

Achosir y drafferth benodol ynghylch gwybodaeth nad yw ar gael, rwy'n credu, gan y sefyllfa anarferol rydym ynddi, gyda'r dyfarniad y bwriadwyd ei roi, ac yna na roddwyd. Gwnaed yn gwbl eglur nad yw'r cyflwyniadau pellach yn faterion y gellir eu datgelu neu eu trafod gydag unrhyw ac eithrio'r partïon yn y gwrandawiad a'r llys.

### Cyfraith Amaethyddol

### Agricultural Law

14:38

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. Pa drafodaethau, felly, y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith eraill ynglŷn â chyfraith amaethyddol? OAQ(4)0073(CG)*

*2. What discussions, therefore, has the Counsel General had with other law officers regarding agricultural law? OAQ(4)0073(CG)*

14:38

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is not my intention to make statements about discussions I've had with law officers, or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention, designed to preserve the confidentiality of those discussions, and the relationship between the law officers.

Nid yw'n fwriad gennyf wneud datganiadau am drafodaethau rwyf wedi eu cael gyda swyddogion y gyfraith, na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Dyma gonfensiwn sefydledig, a gynlluniwyd i ddiogelu cyfrinachedd y trafodaethau hynny, a'r berthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

14:38

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n meddwl, rywsut, eich bod chi wedi darllen y frawddeg yna o'r blaen. A gaf i jest eich cyfeirio chi at Reoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014? Fe basiwyd y rheoliadau hyn y llynedd, ac fe heriwyd y rheoliadau gan grŵp o amaethwyr yn y mynyddoedd, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru. Fe gyfeiriwyd yr heriad yna i'r Uchel Lys, o dan adolygiad barnwrol. Fe benderfynodd y Llywodraeth beidio hyd yn oed amddiffyn yr achos yn yr Uchel Lys. Rydw i am ofyn i chi, os fedrwch chi esbonio, sut y cyrhaeddwyd at y penderfyniad hwnnw, a pha wersi ydych chi fel Llywodraeth wedi eu dysgu o'r broses yma, ac a oedd yna o gwbl unrhyw fethiant yn y cyngor cyfreithiol a gafwyd y tu ôl i'r rheoliadau hyn.

I think, somehow, I've heard that sentence read by you before. Can I just refer you to the Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme (Provisional Payment Region Classification) (Wales) Regulations 2014? The regulations were passed last year, and the regulations were challenged by a group of farmers in the uplands, particularly in mid Wales. That challenge was referred to the High Court for judicial review. The Government decided not to even defend the case in the High Court. I'm going to ask you if you can explain how that decision was arrived at, and what lessons you as a Government have learned from this process, and whether there was any failing in the legal advice provided behind those regulations.

14:39

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I put it this way? However attractively put, the question invites me to disclose matters of legal privilege in relation to advice within Government, and I cannot do that. What I would say is that, you know, in any litigation process, the position is that parties take their initial position, and then they modify them according to how the matter progresses. I don't propose to discuss, or give any further information about, exactly what the process was in this particular case, or how the decision was arrived at that led to the consent Order, but I would say this: I have so far not had referred to me anything that causes me concern about the way that process proceeded and the decisions that were made along the way, whether it be by lawyers who are my responsibility or anyone else. It is obvious, I hope, that when any case is caused to be compromised in the way that one was, there may well be lessons to be learnt from that experience, and I can assure Members that, as usual in these situations, officials are undertaking a lessons-learnt exercise to consider whether things could, or ought to, have been done differently.

A gaf i ei roi fel hyn? Waeth pa mor ddeniadol y caiff ei roi, mae'r cwestiwn yn fy ngwahodd i ddatgelu materion braint gyfreithiol mewn perthynas â chyngor o fewn y Llywodraeth, ac ni allaf wneud hynny. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud, wyddoch chi, yw mai'r sefyllfa mewn unrhyw broses ymgyfreitha yw bod partïon yn cymryd safbwynt cychwynnol, ac yna'n ei addasu yn ôl sut y mae'r mater yn datblygu. Nid wyf yn bwriadu trafod, neu roi unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â beth yn union oedd y broses yn yr achos penodol hwn, na sut y gwnaed y penderfyniad a arweiniodd at y Gorchymyn cydsynio, ond byddwn yn dweud hyn: hyd yma, nid oes dim wedi'i gyfeirio ataf sy'n peri pryder i mi ynglŷn â'r ffordd y datblygodd y broses honno a'r penderfyniadau a wnaed ar hyd y ffordd, boed gan gyfreithwyr sy'n gyfrifoldeb i mi neu unrhyw un arall. Pan fydd achos yn cael ei beryglu yn y ffordd a ddigwyddodd i'r un dan sylw, gobeithio ei bod hi'n amlwg y gallai'n rhwydd fod gwersi i'w dysgu o'r profiad hwnnw, a gallaf sicrhau'r Aelodau, yn ôl yr arfer yn y sefyllfaoedd hyn, fod swyddogion yn cynnal ymarferiad gwersi a ddysgwyd i ystyried a allai pethau, neu a ddylent fod wedi cael eu gwneud yn wahanol.

14:40

## 3. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Difrifol (Memorandwm Rhif 2)

## 3. Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill (Memorandum No. 2)

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is the Legislative Consent Motion on the Serious Crime Bill (Memorandum No. 2). I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu Difrifol (Memorandwm Rhif 2). Galwaf ar y Gweinidog gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5673 Leighton Andrews

Motion NDM5673 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddu Difrifol sy'n ymwneud ag ymddygiad cyfyngol neu orthrechol mewn perthnasoedd personol neu deuluol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Serious Crime Bill relating to controlling or coercive behaviour in intimate or family relationships, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:41

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I welcome this opportunity to explain the background to this legislative consent motion. The UK Government introduced the Serious Crime Bill into Parliament on 5 June last year and it is expected to receive Royal Assent by the end of March. Following a public consultation at the end of last year, the Home Office is now seeking to create a specific offence by way of a late amendment to the Bill to close a gap in the law relating to controlling or coercive behaviour as a form of domestic abuse. In doing so, the intention is to criminalise certain kinds of behaviour that are controlling or coercive and that take place in intimate or family relationships.

Rwy’n croesawu’r cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Troseddu Difrifol i’r Senedd ar 5 Mehefin y llynedd a disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Mawrth. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyr y llynedd, mae’r Swyddfa Gartref bellach yn ceisio creu trosedd benodol drwy gyfrwng gwelliant hwyr i’r Bil er mwyn cau bwlch yn y gyfraith sy’n ymwneud ag ymddygiad cyfyngol neu orthrechol fel ffurf ar gam-drin domestig. Wrth wneud hynny, y bwriad yw troseddoli rhai mathau o ymddygiad cyfyngol neu orthrechol mewn perthnasoedd personol neu deuluol.

It means that, for the first time, perpetrators who control their partners through emotional and psychological abuse, or by restricting their personal or financial freedom, could face criminal sanctions in the same way as those who use physical violence. We, therefore, support this provision. It complements work that we are already doing in Wales to improve the public service response to domestic abuse and other forms of gender-based violence and sexual violence. I believe that the provisions relating to such an offence fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales. I am, however, content that these provisions should be made in the Bill for both England and Wales to ensure the devolved and non-devolved aspects of tackling criminal justice issues are fully integrated. I believe, therefore, that it is more effective and appropriate for the provision to be taken forward at the same time in the same legislative instrument.

Mae’n golygu am y tro cyntaf y gallai troseddwyr sy’n rheoli eu partneriaid drwy gam-drin emosiynol a seicolegol, neu drwy gyfyngu ar eu rhyddid personol neu ariannol, wynebu cosbau troseddol yn yr un modd â rhai sy’n defnyddio trais corfforol. Rydym felly’n cefnogi’r ddarpariaeth hon. Mae’n ategu gwaith rydym eisoes yn ei wneud yng Nghymru i wella ymateb y gwasanaethau cyhoeddus i gam-drin domestig a mathau eraill o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Credaf fod y darpariaethau sy’n ymwneud â throsedd o’r fath yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, rwy’n fodlon y dylid cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil ar gyfer Cymru a Lloegr i sicrhau bod agweddau datganoledig a heb eu datganoli o fynd i’r afael â materion cyfiawnder troseddol yn gwbl integredig. Credaf, felly, ei bod yn fwy effeithiol ac yn briodol i’r ddarpariaeth gael ei chyflwyno ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

However, this late amendment has caused difficulties in terms of timing. The Serious Crime Bill is reaching its final stages in the UK Parliament and so we have had to move quickly in order to seek agreement to this legislative consent motion. Normally, we would have had the benefit of scrutiny by an Assembly committee and it is unfortunate that timing here has not allowed us that opportunity. However, after careful consideration, we think that that provision is important and we ask the Assembly to support this motion even without full committee scrutiny. I move.

Fodd bynnag, mae'r gwelliant hwyr hwn wedi achosi anawsterau o ran amseru. Mae'r Bil Troseddu Difrifol yn cyrraedd ei gamau terfynol yn Senedd y DU ac felly rydym wedi gorfod symud yn gyflym er mwyn ceisio sicrhau cytundeb i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Fel arfer, byddem wedi manteisio ar waith craffu gan un o bwyllgorau'r Cynulliad ac mae'n anffodus nad yw amser wedi caniatáu inni gael y cyfle hwnnw. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yn ofalus, credwn fod y ddarpariaeth honno yn bwysig a gofynnwn i'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn er nad yw wedi bod yn destun craffu gan bwyllgor llawn. Rwy'n cynnig.

14:43

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you know, the criminalisation of controlling and coercive behaviour is something that Plaid Cymru has been campaigning on in Parliament, and I am very pleased to see the Welsh Government choose to agree to these provisions in the Serious Crime Bill. I appreciate obviously your comments about further scrutiny here, but it would be a shame to miss this opportunity, so we will definitely be supporting this consent motion today.

Weinidog, fel y gwyddoch, mae troseddoli ymddygiad cyfyngol a gorthrechol yn fater y mae Plaid Cymru wedi bod yn ymgyrchu arno yn y Senedd, ac rwy'n falch iawn o weld Llywodraeth Cymru yn dewis cytuno i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil Troseddu Difrifol. Yn amlwg, rwy'n gwerthfawrogi eich sylwadau am graffu pellach yma, ond byddai'n drueni colli'r cyfle hwn, felly byddwn yn bendant yn cefnogi'r cynnig cydsyniad hwn heddiw.

I've just got one or two questions on the policy implications. I wondered if you'd given any thought yet to how you might publicise this change to service providers here in Wales to ensure that the law, as it will be, is reflected in practice. I wonder if you'd set out for us what impact this change will have on your Government's approach to domestic abuse. Lastly, will this change need to be reflected in the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill at Stage 3?

Un neu ddau o gwestiynau sydd gennyf ar y goblygiadau polisi. Roeddwn i'n meddwl tybed a ydych wedi ystyried eto sut y gallech roi cyhoeddusrwydd i'r newid hwn i ddarparwyr gwasanaeth yma yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y gyfraith, fel y bydd, yn cael ei hadlewyrchu'n ymarferol. Tybed a allwch amlinellu pa effaith y bydd y newid hwn yn ei gael ar agwedd eich Llywodraeth tuag at gam-drin domestig. Yn olaf, a fydd angen i'r newid hwn gael ei adlewyrchu yn y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ar Gam 3?

14:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

14:44

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Can I thank the Plaid Cymru spokesperson for her support for our approach to this issue? I'm glad that she recognises the difficulties in respect of scrutiny. In respect of the implications for our work in the field of domestic abuse, I'm certainly clear that we will need to give further thought to how we publicise the implications of the new offence, as it were. I think that it's premature to do that, prior to the passage of the amendment at Westminster, but we will certainly be giving consideration to that.

A gaf fi ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am ei chefnogaeth i'n hymagwedd tuag at y mater hwn? Rwy'n falch ei bod yn cydnabod yr anawsterau o ran craffu. O ran y goblygiadau ar gyfer ein gwaith ym maes cam-drin domestig, rwy'n bendant o'r farn y bydd angen i ni ystyried ymhellach sut rydym yn mynd i roi cyhoeddusrwydd i oblygiadau'r drosedd newydd, fel petai. Rwy'n meddwl ei bod hi'n rhy gynnar i wneud hynny, cyn taith y gwelliant drwy San Steffan, ond byddwn yn sicr yn ystyried hynny.

In respect of the implications for the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, I began to outline some of those reflections at committee last week, and I don't think that I have, at this stage, anything to add to what was said in discussions in committee last week. I am grateful, Llywydd, for the opportunity today to bring this LCM forward. I think we have made significant progress in this area ourselves. I think, with the introduction of our own Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, Wales is leading the way, and I think it is only right that we take these steps today to ensure that people subjected to coercive and controlling behaviour do not have to live their lives in fear.

O ran y goblygiadau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), dechreuais amlinellu rhai o'r syniadau hynny mewn pwyllgor yr wythnos diwethaf, ac nid wyf yn meddwl ar hyn o bryd fod gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn a ddywedwyd mewn trafodaethau yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf. Rwy'n ddiolchgar, Lywydd, am y cyfle heddiw i gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn ein hunain. Yn sgil cyflwyno ein Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ein hunain, rwy'n meddwl bod Cymru yn arwain y ffordd, ac nid yw ond yn iawn, yn fy marn i, ein bod yn cymryd y camau hyn heddiw i sicrhau nad yw pobl sy'n dioddef ymddygiad cyfyngol a gorthrechol yn gorfod byw mewn ofn.

14:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:46 — Senedd.tv Fideo Video

## 4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## 4. Questions to the Assembly Commission

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions for the Assembly Commission and the first question is from Mike Hedges and will be answered by Commissioner Peter Black.

Symudwn yn awr at gwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad. Daw'r cwestiwn cyntaf gan Mike Hedges a bydd yn cael ei ateb gan y Comisiynydd Peter Black.

### App Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### National Assembly for Wales App

14:46 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygu app Cynulliad Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0085(AC)*

*1. Will the Commission provide an update on the development of a National Assembly for Wales ap? OAQ(4)0085(AC)*

14:46 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

Thank you for that question. Beta versions of the Assembly app are now live and available to download on Windows and Android smartphones. We're currently going through the validation process with Apple to get the app installed on their store for use on iPhones. We will be seeking users' views on this version of the app and we're looking at making the app compatible for use on tablet devices.

Diolch am y cwestiwn. Mae fersiynau Beta o ap y Cynulliad bellach yn fyw ac ar gael i'w lawrlwytho ar Windows a ffonau clyfar Android. Ar hyn o bryd rydym yn mynd drwy'r broses ddilysu gydag Apple i gael yr ap wedi'i osod yn eu storfa i'w ddefnyddio ar iPhones. Byddwn yn ceisio barn defnyddwyr am y fersiwn hon o'r ap ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o wneud yr ap yn gydnaws i'w ddefnyddio ar ddyfeisiau llechen.

14:46 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Can I very much welcome that response? For people who have been following this discussion, this is the fifth time I've asked questions regarding this app. I'm very pleased with the answer. Just three questions following on from it: when do you expect the app to become available for Apple devices? How will it be advertised, and will there be an official launch?

A gaf fi groesawu'r ymateb hwnnw'n fawr iawn? Ar gyfer pobl sydd wedi bod yn dilyn y drafodaeth hon, dyma'r pumed tro i mi ofyn cwestiynau ynglŷn â'r app. Rwy'n fodlon iawn gyda'r ateb. Tri chwestiwn bach i ddilyn ohono: pa bryd ydych chi'n disgwyl y bydd yr app ar gael ar gyfer dyfeisiau Apple? Sut y bydd yn cael ei hysbysebu, ac a fydd yna lansiad swyddogol?

14:46 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid I'm not able to give a date for when Apple are able to validate the device. Their process is one that is known only to them and not to many other people outside of Apple, and we will obviously have to wait for them to go through that process. In terms of a formal launch, I would like to have a formal launch once we are content that it is available on all devices, and we will clearly try to do that.

Rwy'n ofni na allaf roi dyddiad ar gyfer pa bryd y bydd Apple yn gallu dilysu'r ddyfais. Mae eu proses yn un nad yw'n hysbys i neb ac eithrio hwy eu hunain a fawr o neb arall y tu allan i Apple, ac yn amlwg, bydd yn rhaid inni aros iddynt fynd drwy'r broses honno. O ran lansiad ffurfiol, byddwn yn hoffi cael lansiad ffurfiol pan fyddwn yn fodlon ei fod ar gael ar bob dyfais, a byddwn yn amlwg yn ceisio gwneud hynny.

14:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now, we move to question 2, which will be answered by Commissioner Sandy Mewies, and it's from Simon Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiwn 2, a fydd yn cael ei ateb gan y Comisiynydd Sandy Mewies, a daw gan Simon Thomas.

### Ymgysylltu â Phobl Ifanc

### Engagement with Young People

14:47 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud i ymgysylltu â phobl ifanc? OAQ(4)0086(AC)*

*2. Will the Commission make a statement on what the Assembly is doing to engage with young people? OAQ(4)0086(AC)*

14:47 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

Can I thank Simon Thomas for that question? Members will know that the Presiding Officer and party leaders signed the Assembly's young people's charter last July and the Commission has been in contact with 763 primary, and 6,427 secondary, school children since that time. Also, 36 youth organisations have been engaged with us for the first time and that work is now supported by a qualified youth worker. Our work on youth engagement has enabled young people to contribute to five Assembly Committee inquiries and, in November, the Presiding Officer launched a Wales-wide conversation about votes at 16. We're also developing new ways of promoting information about how young people are involved in Assembly business and the impact their contributions are having on the Assembly's work, because you will understand that one of the regrets we've heard in the past is that when young people have been consulted they haven't had feedback as to what goes on.

A gaf fi ddiolch i Simon Thomas am y cwestiwn? Bydd yr Aelodau'n gwybod bod y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau wedi llofnodi siarter pobl ifanc y Cynulliad fis Gorffennaf diwethaf ac mae'r Comisiwn wedi bod mewn cysylltiad â 763 o blant ysgolion cynradd a 6,427 o blant ysgolion uwchradd ers hynny. Hefyd, rydym wedi ymgysylltu â 36 o sefydliadau ieuenctid am y tro cyntaf ac mae'r gwaith hwnnw bellach yn cael ei gefnogi gan weithiwr ieuenctid cymwysedig. Mae ein gwaith ar ymgysylltu â phobl ifanc wedi galluogi pobl ifanc i gyfrannu at ymchwiliadau pump o Bwyllgorau'r Cynulliad ac ym mis Tachwedd, lansiodd y Llywydd drafodaeth drwy Gymru gyfan ynghylch pleidleisio yn 16 oed. Hefyd, rydym yn datblygu ffyrdd newydd o hyrwyddo gwybodaeth ynglŷn â sut y mae pobl ifanc yn cymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad a'r effaith y mae eu cyfraniadau yn ei chael ar waith y Cynulliad, oherwydd fe fyddwch yn deall mai un o'r pethau y mae pobl wedi bod yn gresynu yn eu cylch yn y gorffennol yw'r ffaith nad yw pobl ifanc wedi cael adborth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar ôl i ni ymgynghori â hwy yn y gorffennol.

14:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, diolch i'r Comisiynydd am yr ateb yna. Wrth gwrs, mae pobl ifanc yn licio technoleg newydd megis apps ac mae'n beth braf i weld hynny'n digwydd, ond, yn fwy na dim, fel mae'r Comisiynydd newydd grybwyll, maen nhw'n licio cysylltu wyneb yn wyneb a chael adborth yn ôl ynglŷn â'r hyn y mae eu hymgysylltiad nhw wedi'i wneud, a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, fe benderfynodd y Llywodraeth i ddiddymu'r syniad o senedd i bobl ifanc. Penderfyniad y Llywodraeth, wrth gwrs, oedd hynny, ond mae'n gadael Cymru fel yr unig wlad, bron, yng ngorllewin Ewrop heb senedd ffurfiol i gyd-fynd â'r gwaith y mae'r Comisiynydd newydd sôn amdano. Er fy mod i'n gweld bod pobl ifanc yn cael mwy o lais mewn trafodaethau pwyllgor a'r Cynulliad ar hyn o bryd, rwy'n gresynu nad oes yna senedd ffurfiol hefyd yn cyfateb i'r Senedd hon. Felly, a oes yna unrhyw gynlluniau i ddatblygu hynny gan y Comisiwn ei hunan?

Well I thank the Commissioner for that response. Of course, young people enjoy new technology such as apps and it is good to see that development, but, more than anything, as the Commissioner has just mentioned, they like to engage face to face and have feedback on what their engagement has meant, and the difference that that engagement has made. In that context, the Government decided to do away with the concept of a youth parliament. That was a decision taken by Government, but it does leave Wales as virtually the only nation in western Europe that doesn't have a formal parliament running alongside the work that the Commissioner has just spoken about. Although I see that young people are having a greater voice in discussions in committees and the Assembly, I do regret the fact that there is no formal parliament corresponding to this Senedd. So, are there any plans to develop that sort of thing by the Commission itself?

14:49 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our plans on youth engagement were actually developed on what young people told us and, overwhelmingly, I have to say that they called for practical widespread engagement with the business of the Assembly, rather than a formalised youth assembly. We are confident that the delivery of the Assembly's youth engagement strategy will continue to involve thousands of young people, and not just a few youth parliamentarians, in the Assembly's work, but we are going to monitor the situation.

Mewn gwirionedd, cafodd ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc eu datblygu yn ôl yr hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym ac roedd y mwyafrif llethol ohonynt, rhaid i mi ddweud, yn sôn eu bod wedi galw am ymgysylltiad eang ymarferol â gwaith y Cynulliad, yn hytrach na chynulliad ieuenctid wedi'i ffurfioli. Rydym yn hyderus y bydd y broses o gyflawni strategaeth ymgysylltu â phobl ifanc y Cynulliad yn parhau i gynnwys miloedd o bobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad, ac nid llond llaw o seneddwyr ifanc yn unig, ond rydym yn mynd i fonitro'r sefyllfa.

If I can give you perhaps some figures: last time, over 2,783 young people responded to our recycling inquiry. We collected evidence for the Enterprise and Business Committee's assisting young people into work inquiry, in which a total of 2,008 young people took part. We also asked over 1,000 young people for their views about the curriculum, including the financial literacy and inclusion Bill, legal highs and alcohol misuse. Over 1,000 young people have contributed to the online poll about lowering the voting age since it was launched at the end of November, and the results of that consultation will be discussed in July. So, those are some of the things that have gone on, but I can assure the Member that we will be looking at this and monitoring it to see that it is working and delivering what we want it to deliver.

Os caf roi rhai ffigurau: y tro diwethaf, ymatebodd dros 2,783 o bobl ifanc i'n hymchwiliad i ailgylchu. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i gynorthwyo pobl ifanc i mewn i waith, a chymerodd cyfanswm o 2,008 o bobl ifanc ran ynddo. Hefyd, fe ofynnon ni i dros 1,000 o bobl ifanc am eu barn ar y cwricwlwm, gan gynnwys y Bil llythrennedd ariannol a chynhwysiant, anterth cyfreithlon a chamddefnyddio alcohol. Mae dros 1,000 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y bleidlais ar-lein ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio ers ei lansio ddiwedd mis Tachwedd, a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn cael eu trafod ym mis Gorffennaf. Felly, dyna rai o'r pethau sydd wedi digwydd, ond gallaf sicrhau'r Aelod y byddwn yn edrych ar hyn, yn monitro i weld ei fod yn gweithio ac yn cyflawni'r hyn rydym am iddo ei gyflawni.

14:51 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, can I say that it's very good we're discussing engagement with young people today when we hear that we've got a new children's commissioner, who has been appointed? I know that Sally Holland will be a great champion for children's rights. But I wondered if the Commission could tell us what work has been done by the Commission to engage with Gypsy and Traveller children.

Yn gyntaf oll, a gaf fi ddweud ei bod yn dda iawn ein bod yn trafod ymgysylltu â phobl ifanc heddiw a ninnau'n clywed ein bod wedi cael comisiynydd plant newydd, sydd wedi cael ei phenodi? Gwn y bydd Sally Holland yn hyrwyddwr gwych ar gyfer hawliau plant. Ond tybed a allai'r Comisiwn ddweud wrthym pa waith sydd wedi cael ei wneud gan y Comisiwn i ymgysylltu â phlant Sipsiwn a Theithwyr.

14:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Work has already taken place with several groups located across Wales, and the outreach team are working with the Travelling Ahead forum, which is Wales-wide, to look at how we can work together more widely. Gypsy and Traveller young people have also contributed directly to a number of committee inquiries, and, perhaps specifically, the groups that we've already worked with are Inspirational Traveller Dimension, based in Flintshire, Equal Voice in Torfaen, and Monkton Priory Community Primary School in Pembrokeshire, as well as Cardiff's Traveller Education Service.

Mae gwaith eisoes wedi digwydd gyda nifer o grwpiau ledled Cymru, ac mae'r tîm allgymorth yn gweithio gyda fforwm Teithio Ymlaen, drwy Gymru gyfan, i edrych ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn fwy eang. Mae pobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr hefyd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o ymchwiliadau pwyllgorau, ac yn benodol efallai, y grwpiau rydym eisoes wedi gweithio gyda hwy yw Inspirational Traveller Dimension yn Sir y Fflint, Llais Cyfartal yn Nhorfaen, ac Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen yn Sir Benfro, yn ogystal â Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Caerdydd.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Commissioner.

Diolch i chi, Gomisiynydd.

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr M4 a Thrafnidiaeth

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: The M4 and Transport

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 4 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.*

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the next item, which is the Welsh Conservatives debate on the M4 and transport, and I call on Byron Davies to move the motion.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar yr M4 a thrafnidiaeth, a galwaf ar Byron Davies i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5675 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cytundeb diweddar rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar drydaneiddio rheilffyrdd, a allai leihau lefelau traffig ar yr M4.

2. Yn credu bod angen prosiect trafnidiaeth effeithlon, ystyriol a strwythuredig sy'n rhoi gwerth am arian i economi Cymru a bod yn rhaid iddo gael ei roi ar waith ar y cyfle cyntaf er mwyn lleddfu tagfeydd cronig ar yr M4 o amgylch Casnewydd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad llawn a chyflym o'r holl opsiynau, gan gynnwys rhoi ystyriaeth gyfartal i'r llwybr glas, gyda'r prif nod o wella capasiti'r M4 er budd modurwyr a busnesau.

*Cynigiwyd y cynnig.*

Motion NDM5675 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Welcomes the recent agreement between the Welsh Government and UK Government on rail electrification, which could reduce traffic levels on the M4.

2. Believes the Welsh economy needs an efficient, considered and structured transport project that delivers value for money, and that this must be put into effect at the earliest opportunity in order to alleviate chronic congestion on the M4 around Newport.

3. Calls on the Welsh Government to commission a full and swift review of all options, including giving the blue route equal consideration, with the principal aim of improving M4 capacity for the benefit of motorists and businesses.

*Motion moved.*

14:52 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. I'm always extremely pleased to lead a debate on transport infrastructure, especially on an issue that is so important to the Welsh and UK economy as the capacity issues on the M4, as they continue to stifle our economy. So, I formally move the Welsh Conservatives' motion tabled under the name of Paul Davies.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwyf bob amser yn hynod o falch o gael arwain dadl ar seilwaith trafnidiaeth, yn enwedig ar fater sydd mor bwysig i economi Cymru a'r DU â phroblemau capasiti'r M4, gan eu bod yn parhau i dagu ein heconomi. Felly, rwy'n cynnig yn ffurfiol y cynnig a roddwyd gerbron gan y Ceidwadwyr Cymreig ac a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

At the outset, I can say, in terms of the amendments, that we will not be supporting amendment 1, as I think that that clearly incorporates too much of a delay. As far as amendment 2 is concerned, we will not be supporting that as that is more or less, again, incorporated within our motion, as indeed is amendment 3, which we will not be supporting, but we will support amendment 4, in terms of investment throughout Wales.

Ar y cychwyn, gallaf ddweud, o ran y gwelliannau, na fyddwn yn cefnogi gwelliant 1, gan fy mod yn meddwl bod hwnnw'n amlwg yn cynnwys gormod o oedi. O ran gwelliant 2, ni fyddwn yn cefnogi hwnnw gan ei fod, fwy neu lai, unwaith eto, wedi ei ymgorffori yn ein cynnig ni, fel yn wir y mae gwelliant 3, ac ni fyddwn yn cefnogi hwnnw, ond byddwn yn cefnogi gwelliant 4, mewn perthynas â buddsoddi ledled Cymru.

I've said many times in this Chamber that I'm proud that the UK Conservative-led Government has taken action in the form of supplying early borrowing powers to this Government to get on and build a much-needed relief road to tackle the issues surrounding the Brynglas tunnels. The question is whether the black route is deliverable and whether the Minister and her officials ruled out other options too hastily and now may well regret doing so.

Rwyf wedi dweud sawl gwaith yn y Siambr hon fy mod yn falch fod Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi rhoi camau ar waith i ddarparu pwerau benthyg cynnar i'r Llywodraeth hon allu symud ymlaen i adeiladu ffordd liniaru fawr ei hangen i oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â thwnelau Bryn-glas. Y cwestiwn yw i ba raddau y mae'n bosibl cyflawni'r llwybr du ac a yw'r Gweinidog a'i swyddogion wedi diystyru opsiynau eraill ar ormod o frys ac efallai'n wir, erbyn hyn, eu bod yn difaru gwneud hynny.

At the outset, I want to remind the Chamber of the livelihoods that this issue puts at risk across Wales, and not just in south-east Wales. This is an issue of national significance, recognised by the priority that it has been given by the UK Government. Now, I have attended many meetings with businesses, freight transport companies and investors, and the message is always the same: an accident at, the closure of, or congestion at, the Brynglas tunnels can put their operating profits at risk on a month-to-month basis. These are very real concerns, particularly when they discuss whether to invest in their Welsh operations, to start up in Wales, or, indeed, to move their operations. So, inaction is no longer an option, and, through the good offices of the Treasury in London, the Welsh Government finally has the means to act. But, as we see, through potential judicial review, public inquiries and other legal action, we are facing many years of possible dithering and delay.

Ar y cychwyn, hoffwn atgoffa'r Siambr am y risg y mae'r mater hwn yn ei achosi i fywoliaeth pobl ledled Cymru, ac nid yn ne-ddwyrain Cymru yn unig. Mae hwn yn fater o bwys cenedlaethol, a gydnabyddir gan y flaenoriaeth a roddwyd iddo gan Lywodraeth y DU. Yn awr, rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda busnesau, cwmnïau cludo nwyddau a buddsoddwyr, ac mae'r neges bob amser yr un fath: gall damwain, cau'r ffordd, neu dagfeydd yn nhwnelau Bryn-glas roi eu helw gweithredol mewn perygl ar sail fisol. Mae'r rhain yn bryderon real iawn, yn enwedig pan fyddant yn trafod a ddylent fuddsoddi yn eu gweithgarwch yng Nghymru, dechrau busnesau yng Nghymru, neu'n wir, symud eu gweithgarwch. Felly, nid yw peidio â gweithredu yn opsiwn mwyach, a thrwy swyddfeydd y Trysorlys yn Llundain, o'r diwedd mae gan Lywodraeth Cymru fodd o weithredu. Ond fel y gwelwn, drwy adolygiad barnwrol posibl, ymchwiliadau cyhoeddus a chamau cyfreithiol eraill, rydym yn wynebu nifer o flynyddoedd o betruso ac oedi posibl.

Now, the Federation of Small Businesses went further, saying, and I quote, that the black route is a £1 billion mistake and that what we need is an integrated transport solution with immediate relief in this part of Newport. Waiting another 15 years is a situation they cannot accept.

Yn awr, aeth y Ffederasiwn Busnesau Bach ymhellach, gan ddweud, a dyfynnaf, fod y llwybr du yn gamgymeriad gwerth £1 biliwn, ac mai'r hyn sydd ei angen arnom yw ateb trafnidiaeth integredig a mesurau lliniaru ar unwaith yn y rhan hon o Gasnewydd. Mae aros 15 mlynedd arall yn sefyllfa na allant ei derbyn.

At the heart of our motion, there is a deep belief that this Labour Government has overlooked the blue route, which is a spade-ready project to address chronic congestion on the M4 around Newport, which is a major barrier to economic growth and job creation across south and west Wales, our industrial engine room here in Wales.

Yn sail i'n cynnig, mae yna gred ddofn fod y Llywodraeth Lafur hon wedi esgeuluso'r llwybr glas, prosiect parod i'w adeiladu i fynd i'r afael â thagfeydd cronig ar yr M4 o amgylch Casnewydd, sy'n rhwystr mawr i dwf economaidd a chreu swyddi ar draws de a gorllewin Cymru, ein hinjan ddiwydiannol yma yng Nghymru.

Alongside industry experts, I doubt the capacity forecasts for the M4, which are now out of date following the announcement from the UK and Welsh Governments on Valleys electrification and south Wales metro developments, which call into question Labour's premature rejection, as I say, of the blue route. Capacity is a significant factor, but I would argue the biggest issue with the M4 around Newport is the non-existent resilience.

Ochr yn ochr ag arbenigwyr y diwydiant, rwy'n amau'r rhagolygon capasiti ar gyfer yr M4, sydd bellach wedi dyddio yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau trydaneiddio'r Cymoedd a metro de Cymru, ac sy'n bwrw amheuaeth, fel y dywedais, dros wrthodiad cyn pryd Llafur o'r llwybr glas. Mae capasiti yn ffactor arwyddocaol, ond byddwn yn dadlau mai'r broblem fwyaf gyda'r M4 o amgylch Casnewydd yw'r ffaith nad yw'n gydnerth o gwbl.

At present, the road has very poor resilience to disruption, whether caused by roadworks, accidents or extreme weather. This is partly due to the lack of the alternative routes available when such incidents occur. The problem is not new; we have had 15 years of this sort of dithering, if you like, by Labour Ministers and Labour-led Governments here, particularly here at Cardiff bay. We must commission a full and swift investigation to include the blue route, which could deliver the improvements in M4 capacity without another decade of delays, which will undoubtedly blight the Welsh Government's preferred route.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gydnerthedd sydd gan y ffordd i wrthsefyll problemau, naill ai ar ffurf gwaith ffordd, damweiniau neu dywydd garw. Mae hyn yn rhannol oherwydd y diffyg llwybrau amgen sydd ar gael pan fo pethau fel hyn yn digwydd. Nid yw'r broblem yn newydd; rydym wedi cael 15 mlynedd o'r math hwn o betruso, os mynnwch, gan Weinidogion Llafur a Llywodraethau dan arweiniad Llafur yma, yn enwedig yma ym Mae Caerdydd. Mae'n rhaid i ni gomisiynu ymchwiliad llawn a chyflym i gynnwys y llwybr glas, a allai gyflawni'r gwelliannau mewn perthynas â chapasiti'r M4 heb ddegawd arall o oedi, a fydd yn ddi-os yn bla ar lwybr dewisol Llywodraeth Cymru.

I want to further evidence why I feel so strongly that the Minister and her officials have either intentionally dropped, or perhaps misunderstood the potential of, the blue route. Casting back to the initial M4 corridor enhancement measures consultation, the proposal for a new motorway was not included as an option for the M4 improvements. Thus, clarity is needed in regards to how the black route, an extensive three-lane motorway, has been decided upon as the preferred route.

Rwyf am roi tystiolaeth bellach i egluro pam rwy'n teimlo mor gryf fod y Gweinidog a'i swyddogion wedi cael gwared yn fwriadol ar y llwybr glas, neu efallai wedi camddeall ei botensial. Gan edrych yn ôl ar yr ymgynghoriad cychwynnol ar fesurau gwella coridor yr M4, nid oedd yr argymhelliad i gael traffordd newydd wedi ei gynnwys yn opsiwn ar gyfer gwelliannau'r M4. Felly, mae angen eglurder ynghylch sut y penderfynwyd mai'r llwybr du, traffordd helaeth â thair lôn, yw'r llwybr a ffafrir.

The Arup report, commissioned by the Minister, which looked at the blue route, demonstrated a 40% optimistic weighting. When asked whether the black route contained the same kind of weighting, no detail on the formation of the costings was produced: in fact, complete silence on this to date—somewhat suspicious and could potentially skew any decision. The side-lining of the blue route raises serious questions on the validity of the environmental report, as the strategic environmental assessment directive states that reasonable, realistic alternatives should be included within an environmental report that are sufficiently distinct to enable meaningful comparisons to be made of the environmental implications of each.

Dangosodd adroddiad Arup, a gomisiynwyd gan y Gweinidog, ac a edrychodd ar y llwybr glas, bwysoliad optimistaidd o 40%. Pan ofynnwyd a oedd y llwybr du yn cynnwys yr un math o bwysoliad, ni chynhyrchwyd unrhyw fanylion ar y modd y ffurfiwyd y costau: yn wir, cafwyd tawelwch llwyr ar hyn hyd yma—sydd braidd yn amheus ac mae'n bosibl y gallai ystumio unrhyw benderfyniad. Mae bwrw'r llwybr glas o'r neilltu yn codi cwestiynau difrifol ynghylch dilysrwydd yr adroddiad amgylcheddol, gan fod y gyfarwyddeb asesu amgylcheddol strategol yn datgan y dylai adroddiad o'r fath gynnwys dewisiadau rhesymol a realistig eraill sy'n ddigon gwahanol i'w gwneud hi'n bosibl cymharu goblygiadau amgylcheddol pob un mewn modd ystyrlon.

The Welsh Government, I say, therefore must be clearer on the ways in which they have assessed the alternatives leading them to their preference for the black route. This has huge potential for a legal headache, especially as concerns about the blue route's short shrift are so well documented. In fact, our own Environment and Sustainability Committee have echoed these concerns regarding the validity of the strategic environmental assessment directive process, and has reported unwillingness on the part of the transport Minister to discuss the matter. I'm sure that members of the Environment and Sustainability Committee will agree with me that it's almost contemptuous of their report.

Rwy'n dweud felly fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynglŷn â'r ffyrdd y mae wedi asesu'r dewisiadau amgen gan ei harwain i ddewis y llwybr du. Mae perygl enfawr y gallai hyn achosi pen tost cyfreithiol, yn enwedig gan fod pryderon ynghylch cyn lleied o sylw a gafodd y llwybr glas wedi eu cofnodi mor dda. Yn wir, mae ein Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ein hunain wedi adleisio'r pryderon hyn ynglŷn â dilysrwydd proses y gyfarwyddeb asesu amgylcheddol strategol, ac wedi cofnodi amharodrwydd ar ran y Gweinidog trafnidiaeth i drafod y mater. Rwy'n siŵr y bydd aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cytuno â mi fod hon yn agwedd bron yn sarhaus tuag at eu hadroddiad.

Finally, to date, the Welsh Government has failed to shed any light on the status of the blue route proposals assessment. I am a huge supporter of a new road to assist the capacity issues around the Brynglas tunnels and Newport, as a regular user, in fact. I'm not solely led by environmental concerns, although I share their concerns on the black route. We need early recognition of any mistakes made by the Government in relation to this project now, so we can reassess and go forward quickly to commission a new road; be it a motorway or express way, we can ill afford a change of heart in five years' time—we need it now.

Yn olaf, hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â thaflu unrhyw oleuni ar statws yr asesiad o gynigion y llwybr glas. Mewn gwirionedd, rwy'n gefnogwr brwd i'r syniad o gael ffordd newydd i helpu gyda'r problemau capasiti o amgylch twnelau Bryn-glas a Chasnewydd fel defnyddiwr rheolaidd. Nid pryderon amgylcheddol yn unig sy'n fy arwain, er fy mod yn rhannu eu pryderon ynghylch y llwybr du. Mae angen cydnabod yn gynnar unrhyw gamgymeriadau a wnaed gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r prosiect hwn yn awr, er mwyn i ni allu ailasesu a symud ymlaen yn gyflym i gomisiynu ffordd newydd; boed yn draffordd neu'n wibffordd, ni allwn fforddio newid meddwl ymhen pum mlynedd—mae angen gwneud hynny yn awr.

So, I'll end my opening remarks in a kind of unusual way, particularly for me, by supporting and echoing a fellow comrade, Mick Antoniw, when he stated quite simply on ITV Wales that it could have been handled much better. Indeed it could have, and, Members, I commend this motion to the Chamber and hope you will support it. Thank you.

Felly, gorffennaf fy sylwadau agoriadol mewn ffordd sy'n eithaf anarferol, i mi yn arbennig, drwy gefnogi ac adleisio cyd-Aelod, Mick Antoniw, pan ddywedodd yn syml ar ITV Wales y gallai'r mater fod wedi cael ei drin yn llawer gwell. Fe allai yn wir, Aelodau, ac rwy'n cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr ac yn gobeithio y byddwch yn ei gefnogi. Diolch yn fawr.

14:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected four amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on the Minister for Economy, Science and Transport to formally move amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y cyd i gynnal Astudiaeth fanwl o'r Effaith Amgylcheddol ar lwybr dewisol Llywodraeth Cymru, ac na fydd gwaith adeiladu'n dechrau ar ffordd liniaru'r M4 cyn etholiad nesaf y Cynulliad.*

*Notes the joint commitment of the Welsh Government and Welsh Liberal Democrats to a detailed Environmental Impact Study on the Welsh Government's preferred route, and that no construction of the M4 relief road will begin before the next Assembly election.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

14:59

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I formally move, Presiding Officer.

Rwy'n cynnig yn ffurfiol, Lywydd.

14:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 2 and 4 tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 2 a 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth lawn a chyfartal i'r llwybr glas wrth iddi barhau i ddatblygu ei chynigion ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.*

*Calls on the Welsh Government to give full and equal consideration to the Blue Route as it continues to develop its proposals for the M4 corridor around Newport.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynllun gwariant ehangach ar gyfer y seilwaith trafnidiaeth yn arwain at fuddsoddiad ac adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg ar hyd a lled y wlad, nid dim ond o amgylch yr M4 yng Nghasnewydd.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its wider transport infrastructure expenditure plan results in a fair distribution of resources and investment throughout the country, not just around the M4 in Newport.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2 a 4.*

*Amendments 2 and 4 moved.*

14:59 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Can I welcome today's motion? We in Plaid Cymru, as you will know, have invested a lot of time as a party trying to make the case for an early delivery, affordable new M4 project and for the blue route, which we believe offers that, to be properly considered as a way forward. We've been eager, I think, to build a consensus on that. I'm pleased that we've had support from individual Members across the Chamber, on both the Labour and Conservative benches. Although we're disappointed that the Liberal Democrats have wavered on this, we're pleased now that the Conservative party is on board officially, as it were. [Interruption.] Well, you ask why you've wavered. You've effectively given the Government a licence to delay progress and not to consider the blue route, and in my eyes that's wavering. So we have—

Diolch, Lywydd. A gaf fi groesawu'r cynnig heddiw? Rydym ni ym Mhlaid Cymru, fel y gwyddoch, wedi buddsoddi llawer o amser fel plaid yn ceisio cyflwyno'r achos dros ddarparu prosiect newydd yr M4 yn gynnar, ac yn fforddiadwy, a thros ystyriaeth briodol i'r llwybr glas fel ffordd ymlaen, gan y credwn ei fod yn cynnig hynny. Rydym wedi bod yn awyddus, rwy'n credu, i adeiladu consensws ar hynny. Rwy'n falch ein bod wedi cael cefnogaeth gan Aelodau unigol ar draws y Siambr, ar feinciau'r Blaid Lafur a'r meinciau Ceidwadol. Er ein bod yn siomedig fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi simsanu ynglŷn â hyn, rydym yn falch yn awr bod y blaid Geidwadol o blaid hyn yn swyddogol, fel petai. [Torri ar draws.] Wel, rydych yn gofyn pam eich bod wedi simsanu. I bob pwrpas rydych chi wedi rhoi trwydded i'r Llywodraeth oedi rhag camu ymlaen a pheidio ag ystyried y llwybr glas, ac yn fy marn i, simsanu yw hynny. Felly mae gennym—

15:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you take an intervention on that?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ynglŷn â hynny?

15:00 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly.

Yn sicr.

15:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our amendment suggests the actual road infrastructure that is suggested by the blue route. Why on earth would you think that that is different to what you've asked for? We simply asked for public transport in addition to what you've asked for in your own amendment. That's absurd.

Mae ein gwelliant mewn gwirionedd yn argymell y seilwaith ffyrdd sy'n cael ei awgrymu gan y llwybr glas. Pam ar y ddaear y byddech yn meddwl bod hynny'n wahanol i'r hyn rydych chi wedi gofyn amdano? Yn syml iawn, fe ofynnon ni am drafnidiaeth gyhoeddus yn ychwanegol at yr hyn y gofynnoch chi amdano yn eich gwelliant eich hunain. Mae hynny'n hurt.

15:01 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The point I make is that you've given the Government a licence to delay, until after the election, a decision on this, when actually what I'd like is an early decision now for the blue route to be in contention for that early decision. So, we have a motion from the Conservatives that states what we've been arguing, which is that we do need an answer to congestion in the Newport area, that we need to move ahead towards what should be, yes, an effective answer to the problem, but that value for money as well as issues like environmental impact should be considered too.

Y pwynt rwy'n ei wneud yw eich bod wedi rhoi trwydded i'r Llywodraeth oedi rhag gwneud penderfyniad ar hyn tan ar ôl yr etholiad, a'r hyn yr hoffwn i ei weld mewn gwirionedd yw penderfyniad cynnar yn awr i'r llwybr glas gael ei ystyried ar gyfer gwneud penderfyniad cynnar. Felly, mae gennym gynnig gan y Ceidwadwyr sy'n datgan yr hyn rydym ni wedi bod yn ei ddadlau, sef ein bod angen ateb i dagfeydd yn ardal Casnewydd, bod angen i ni symud ymlaen tuag at yr hyn a ddylai fod, ie, yn ateb effeithiol i'r broblem, ond y dylid ystyried gwerth am arian yn ogystal â materion megis yr effaith ar yr amgylchedd hefyd.

Let me just to speak on our amendments. Amendment 2 in the name of Elin Jones recognises the point the Conservatives make on the blue route and calls for full and equal consideration of that route as the proposals for the M4 are developed further. This amends the original motion, which called for a full and swift review of all options. We were just of the opinion that perhaps it isn't clear how a full and swift review of all options would be compatible with the existing process around the M4, which includes a judicial review, and, later, a public inquiry, environmental impact study and so on. But, certainly, our amendment and the motion are in the same spirit. Amendment 4 reflects Plaid Cymru's priority to ensure that transport infrastructure expenditure results in fair distribution of resources and investment throughout the country, not just around the M4 in the Newport area, and that is a vital point at the heart of this debate.

Gadewch i mi siarad ynglŷn â'n gwelliannau. Mae gwelliant 2 yn enw Elin Jones yn cydnabod y pwynt y mae'r Ceidwadwyr yn ei wneud am y llwybr glas ac yn galw am ystyriaeth lawn a chyfartal o'r llwybr hwnnw wrth i'r cynigion ar gyfer yr M4 gael eu datblygu ymhellach. Mae hyn yn diwygio'r cynnig gwreiddiol, a oedd yn galw am adolygiad llawn a chyflym o'r holl opsiynau. Yn syml, roeddem o'r farn efallai nad yw'n glir sut y byddai adolygiad llawn a chyflym o'r holl opsiynau yn gydnaws â'r broses bresennol mewn perthynas â'r M4, sy'n cynnwys adolygiad barnwrol, ac yn ddiweddarach, ymchwiliad cyhoeddus, astudiaeth o'r effaith ar yr amgylchedd ac yn y blaen. Ond yn sicr, mae ein gwelliant a'r cynnig yn yr un ysbryd. Mae gwelliant 4 yn adlewyrchu blaenoriaeth Plaid Cymru i sicrhau bod canlyniadau gwariant ar seilwaith trafnidiaeth yn ddosbarthiad teg o adnoddau a buddsoddiad ar hyd a lled y wlad, nid yn unig o amgylch yr M4 yn ardal Casnewydd, ac mae hwnnw'n bwynt hollbwysig sy'n ganolog i'r ddadl hon.

Plaid Cymru has raised this with Government. We're told that investment is allocated on need rather than geographically, but there are examples of need in the west and the north in particular that are not being addressed, particularly when we think about the infrastructure to the west of Swansea, the lack of resilience in parts of the A55 and the need for a longer-term vision around nationwide connectivity within Wales as well as connectivity out of Wales. That vision also has to include rail as well as roads, but I link rail to the M4 project because, when we take responsibility for rail infrastructure investment within Wales, Plaid Cymru will want to spend more on rail than the UK Government certainly has done traditionally. We'll want to open new stations and so on over the medium to the longer term, and to construct new lines. We'll need to access borrowing powers in order to do that, and that's part of the reason that we haven't been supportive of the black route. The black route would be a black hole financially.

Mae Plaid Cymru wedi codi hyn gyda'r Llywodraeth. Gwyddom fod buddsoddiad yn cael ei ddyrannu ar sail angen yn hytrach nag yn ddaearyddol, ond ceir enghreifftiau o angen yn y gorllewin a'r gogledd yn arbennig, nad ydynt yn cael sylw, yn enwedig pan fyddwn yn meddwl am y seilwaith i'r gorllewin o Abertawe, diffyg cydnerthedd rhannau o'r A55 a'r angen am weledigaeth ar gyfer y tymor hwy o ran cysylltedd cenedlaethol yng Nghymru yn ogystal â chysylltedd allan o Gymru. Mae'n rhaid i'r weledigaeth honno gynnwys rheilffyrdd yn ogystal â ffyrdd, ond rwy'n cysylltu rheilffyrdd â phrosiect yr M4, oherwydd, pan fyddwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fuddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru, bydd Plaid Cymru yn awyddus i wario mwy ar y rheilffyrdd nag y mae Llywodraeth y DU yn sicr wedi ei wneud yn draddodiadol. Byddwn yn awyddus i agor gorsafoedd newydd ac yn y blaen dros y tymor canolig i'r tymor hwy, ac adeiladu llinellau newydd. Bydd angen i ni allu defnyddio pwerau benthyg er mwyn gwneud hynny, a dyna ran o'r rheswm nad ydym wedi cefnogi'r llwybr du. Byddai'r llwybr du yn dwll du yn ariannol.

We need a more value-for-money and affordable solution, so amendment 4 is about a fair distribution of resources across the country, rather than following the same spending patterns that UK Governments have been beholden to.

Mae arnom angen mwy o werth am arian ac ateb fforddiadwy, felly mae gwelliant 4 yn ymwneud â dosbarthu adnoddau'n deg ar draws y wlad, yn hytrach na dilyn yr un patrymau gwario y mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymrwymedig iddynt.

Rwyf yn falch bod y farn yn caledi yma yn y Siambr ar hyn y mae'r Llywodraeth yn dymuno ei wneud. Rwy'n croesawu rŵan fod y Ceidwadwyr yn ymuno â ni ac eraill ar y mater yma. Mae angen datrysiad buan, ond fel yr wyf wedi gwneud y pwynt dro ar ôl tro, mae'n rhaid i'r datrysiad fod yn un cynaliadwy, ac mae'n rhaid i'r datrysiad fod yr un cywir ar gyfer anghenion Cymru yn yr hirdymor.

I am pleased that the stance is hardening here in this Chamber in terms of what the Government wishes to do. I welcome the fact that the Conservatives have joined with us—and others—on this issue. We need an early resolution to this, but, as I have made the point time and time again, that resolution must be sustainable and that resolution must be the right one for the needs of Wales in the longer term.

15:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Eluned Parrott to move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Eluned Parrott.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Eluned Parrott.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella ffordd ddosbarthu ddeheuol yr A48 a ffordd fynediad gwaith dur yr A4810 ger gwaith dur Llanwern yng Nghasnewydd, fel rhan o strategaeth drafnidiaeth integredig ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn cynnwys buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith cludo nwyddau ar drenau a gwella llwybrau strategol lleol.*

*Calls on the Welsh Government to improve the A48 southern distributor road and A4810 steelworks access road near Newport's Llanwern steelworks, as part of an integrated transport strategy for south-east Wales incorporating investment in public transport, rail freight infrastructure and the improvement of strategic local routes.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

15:04

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. I'd like to thank the Welsh Conservatives for bringing this brave debate today. However, I am very happy to talk about transport. While we talk about particular challenges and projects, I still think it's valuable to just take that step back and look at the bigger picture. The fundamental question we have here is: how do we move people and goods effectively across the whole of our nation?

Diolch, Lywydd. Cynigiaf welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl ddewr hon heddiw. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i siarad am drafnidiaeth. Er ein bod yn siarad am heriau a phrosiectau penodol, rwy'n dal i feddwl ei bod yn werth cymryd cam yn ôl ac edrych ar y darlun ehangach. Y cwestiwn sylfaenol sydd gennym yma yw: sut ydym yn symud pobl a nwyddau yn effeithiol ar draws ein cenedl gyfan?

The links to England and south-east Wales, of course, are crucial, economically, but we forget about the economic development of the rest of Wales through its transport infrastructure at our peril. There's a horrible temptation, as well, to look at the grand-gesture projects, be that a road, or indeed, a public transport scheme that we can all get behind, but we can't allow the rest of Wales to be forgotten. The economic links between north Wales and the north-west of England, for example, are critical to ensuring that economic development in Wales benefits our communities more equally and we don't see an increasing of a north-south divide with a tendency for the investment and indeed, public investment to gravitate towards the city regions that we are developing.

Mae'r cysylltiadau â Lloegr a de-ddwyrain Cymru, yn hanfodol yn economaidd, wrth gwrs, ond wiw i ni anghofio am ddatblygiad economaidd gweddill Cymru drwy ei seilwaith trafnidiaeth. Mae yna demtasiwn ofnadwy, yn ogystal, i edrych ar y prosiectau rhwysgfawr, boed hynny ar ffurf ffordd, neu gynllun trafnidiaeth cyhoeddus yn wir, y gallwn ni i gyd ei gefnogi, ond ni allwn ganiatáu i weddill Cymru gael ei anghofio. Mae'r cysylltiadau economaidd rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, er enghraifft, yn hanfodol i sicrhau bod datblygu economaidd yng Nghymru o fudd i'n cymunedau yn fwy cyfartal ac nad ydym yn gweld mwy a mwy o raniad rhwng y gogledd a'r de gyda thueddiad i fuddsoddiadau, a buddsoddiadau cyhoeddus yn wir, i ogwyddo tuag at y dinas-ranbarthau rydym yn eu datblygu.

But, returning to south-east Wales, we do have pinch points in moving both people and goods, but I don't believe that the automatic response to too much traffic on our roads is to build more roads. Evidence from elsewhere frequently suggests that building new motorways, particularly in grand-gesture projects, has a tendency to increase the amount of traffic. We need to create a more integrated solution, in my view, and we need to look to the future to a more sustainable solution for the problems that we face, not a 1970s solution to a particular problem.

Ond, gan ddychwelyd at dde-ddwyrain Cymru, mae gennym fannau cyfyng wrth symud pobl a nwyddau, ond nid wyf yn credu mai'r ymateb awtomatig i ormod o draffig ar ein ffyrdd yw adeiladu mwy o ffyrdd. Mae tystiolaeth o fannau eraill yn aml yn awgrymu bod adeiladu traffyrdd newydd, yn enwedig prosiectau rhwysgfawr, yn tueddu i gynyddu traffig. Mae angen i ni greu ateb mwy integredig, yn fy marn i, ac mae angen i ni edrych i'r dyfodol i sicrhau ateb mwy cynaliadwy i'r problemau a wynebwn, nid ateb o'r 1970au i broblem benodol.

We know, for example, that much of the traffic on the M4 out of Newport is travelling just a few junctions, and this suggests to me that we could valuably encourage behaviour change by encouraging more use of active and public transport, to encourage people to leave their cars at home and travel in different ways. The question is, of course, though: what exactly is that going to look like? I would suggest that the Welsh Government really urgently now need to publish detailed plans for what their plans for the south Wales metro actually look like. We need to see how our communities are going to be linked up, not only to assist people in the present, so that they can reach their work and their schools and their public services, but also, of course, so that businesses and home builders and other organisations can also plan for the future.

Gwyddom, er enghraifft, nad yw llawer o'r traffig ar yr M4 y tu allan i Gasnewydd yn teithio mwy nag ychydig o gyffyrdd, ac mae hyn yn awgrymu y byddai'n werth inni hybu newid ymddygiad drwy annog mwy o ddefnydd o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn annog pobl i adael eu ceir gartref a theithio mewn ffyrdd gwahanol. Wrth gwrs, y cwestiwn yw: sut beth yn union fyddai hynny? Byddwn yn awgrymu bod gwir angen yn awr i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau manwl ar frys i ddangos sut gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer metro de Cymru mewn gwirionedd. Mae angen i ni weld sut y mae ein cymunedau yn mynd i gael eu cysylltu, nid yn unig i gynorthwyo pobl yn y presennol, er mwyn iddynt allu cyrraedd eu gwaith a'u hysgolion a'u gwasanaethau cyhoeddus, ond hefyd, wrth gwrs, er mwyn i fusnesau ac adeiladwyr cartrefi a sefydliadau eraill hefyd allu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

A metro system, of course, is not just about the trains. We do need, as well, a fully integrated bus service where the buses are meeting the trains at stations and go, obviously, where the tracks can't necessarily go. Buses are often overlooked, but they are such an important part of our transport infrastructure: they carry far more passengers in any given year than our train system ever will, or ever could. We cannot forget how important they are, particularly in rural Wales, in connecting together our market towns and our rural communities.

Wrth gwrs, nid ymwneud â threnau'n unig y mae system metro. Mae angen gwasanaeth bws wedi ei integreiddio'n llawn hefyd lle y bydd bysiau'n cyfarfod â'r trenau yn y gorsafoedd ac yn mynd, yn amlwg, lle na all rheilffyrdd fynd o reidrwydd. Caiff bysiau eu hanwybyddu'n aml, ond maent yn rhan mor bwysig o'n seilwaith trafnidiaeth: maent yn cario llawer mwy o deithwyr mewn unrhyw flwyddyn nag y bydd ein system trenau byth yn ei wneud, a byth yn gallu ei wneud. Ni allwn anghofio pa mor bwysig ydynt, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, yn cysylltu ein trefi marchnad a'n cymunedau gwledig gyda'i gilydd.

We need to know, Minister, if we are working to the Mark Barry plans that have previously been published, or if there is a new plan being drawn up, and how extensive that is. We need to understand what the timetable for that is, whether it will be something that is delivered in stages, or whether we are looking for something that's more significant all in one go. There are some relatively easy early projects, clearly: connecting Newport to the Ebbw Vale line. That priority is a very important one in my own region, creating some kind of—

Mae angen i ni wybod, Weinidog, os ydym yn gweithio yn ôl cynlluniau Mark Barry a gyhoeddwyd yn flaenorol, neu a oes cynllun newydd yn cael ei lunio, a pha mor eang ydyw. Mae angen i ni ddeall beth yw'r amserlen ar ei gyfer, a fydd yn rhywbeth sy'n cael ei gyflwyno fesul cam, neu a ydym yn edrych am rywbeth mwy arwyddocaol i gyd ar yr un pryd. Mae'n amlwg fod rhai prosiectau cynnar sy'n gymharol hawdd: cysylltu Casnewydd â llinell Glynebwy. Mae'r flaenoriaeth honno'n un bwysig iawn yn fy ardal fy hun, er mwyn creu rhyw fath o—

15:08

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:08

## Eluned Parrott [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Yes, indeed.

Gwnaf, yn wir.

15:08

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

You say, 'in your own region'. It is, of course, in my constituency. There are no Liberal Democrats in the south-east Wales region, and it is not in the interests of the people whom I represent in the Ebbw valley, for journey times on that line to be increased.

Rydych yn dweud, 'yn eich ardal eich hun'. Y mae, wrth gwrs, yn fy etholaeth i. Nid oes unrhyw Ddemocratiaid Rhyddfrydol yn ardal de-ddwyrain Cymru, ac nid yw cynyddu amseroedd teithio ar y rheilffordd honno er budd y bobl rwy'n eu cynrychioli yng Nghwm Ebwy.

15:08

## Eluned Parrott [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

But it may be in the interests of people living in the Ebbw valley to be able to access work and, indeed, in the interests of the people of Newport and the shops and retailers of Newport for the people of the Ebbw valley to be able to access Newport, which is the county town of that traditional region.

Ond efallai y bydd o fudd i bobl sy'n byw yng Nghwm Ebwy i allu cyrraedd y gwaith ac yn wir, er budd pobl Casnewydd a siopau a manwerthwyr Casnewydd i bobl Cwm Ebwy allu cyrraedd Casnewydd, sef tref sirol yr ardal honno yn draddodiadol.

If you had allowed me to finish my sentence, in my own region, there is also the opportunity to develop stations and disconnected communities, such as the east of Cardiff, and perhaps developing a station at St Mellons, which is something that I've called for on many occasions, previously.

Pe baech chi wedi gadael i mi orffen y frawddeg, yn fy ardal i, mae yna gyfle hefyd i ddatblygu gorsafoedd a chymunedau datgysylltiedig, fel dwyrain Caerdydd, a datblygu gorsaf yn Llaneirwg, efallai, sy'n rhywbeth rwyf i wedi galw amdano ar sawl achlysur yn flaenorol.

In terms of turning to the amendments, our amendment—and amendments 1 and 2, as well, actually; I'm surprised at the Conservatives. You're suggesting that the reason for rejecting it is that it would string out a solution to the problems that we face, but you've actually asked for a review of all options in your motion, essentially going back to a drawing board. I have to say that that's surely adding even more time to the process.

O ran troi at y gwelliannau, a'n gwelliant ni—a gwelliannau 1 a 2, yn ogystal, mewn gwirionedd; rwy'n synnu at y Ceidwadwyr. Rydych yn awgrymu mai'r rheswm dros ei wrthod yw y byddai'n hwyhau'r amser cyn dod o hyd i ateb i'r problemau a wynebwn, ond mewn gwirionedd rydych wedi gofyn am adolygiad o'r holl opsiynau yn eich cynnig, gan fynd yn ôl i'r cychwyn i bob pwrpas. Mae'n rhaid i mi ddweud bod hynny'n sicr o ychwanegu mwy fyth o amser at y broses.

In terms of the budget agreement that Plaid Cymru referred to, the agreement we have made adds no time to the overall process, but ensures that no contract for building will begin in this Assembly term. There is no further delay, but what I would suggest is that what we need is an integrated solution, and not amendments designed to drive divisions between parties in this Assembly who, actually, fundamentally agree with one another here.

O ran y cytundeb cyllidebol y cyfeiriodd Plaid Cymru ato, nid yw'r cytundeb a luniwyd gennym ni yn ychwanegu dim amser at y broses yn gyffredinol, ond mae'n sicrhau na fydd unrhyw gontract ar gyfer adeiladu yn dechrau yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Nid oes unrhyw oedi pellach, ond byddwn yn ei awgrymu mai'r hyn rydym ei angen yw ateb integredig, nid diwygiadau wedi eu cynllunio i greu rhaniadau rhwng y pleidiau yn y Cynulliad hwn sydd, mewn gwirionedd, yn cytuno â'i gilydd yma yn y bôn.

15:09

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do agree that, certainly, the opposition parties fundamentally agree with one another here, apart from perhaps one notable person, who's the exception. But I want to focus my contribution on the environmental concerns that remain around the project and the need to also consider the lack of focus on the north Wales transport infrastructure. I'm very grateful to Eluned Parrott for raising it in her contribution.

Wel, yn bendant, rwy'n cytuno bod y gwrthbleidiau yn cytuno â'i gilydd yn y bôn, ar wahân i un person amlwg, efallai, sy'n eithriad. Ond rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y pryderon amgylcheddol sy'n parhau ynghlwm wrth y prosiect a'r angen hefyd i ystyried y diffyg ffocws ar seilwaith trafnidiaeth y gogledd. Rwy'n ddiolchgar iawn i Eluned Parrott am dynnu sylw ato yn ei chyfraniad.

I do recognise that there is a need to tackle the bottleneck in the south-eastern area of Wales and that there is an impact on businesses. There's a perception that the road is of an inadequate level to deal with the volume of traffic. However, there are substantial public transport initiatives that are coming forward, not least the metro project that has been referred to earlier and the electrification of the Valleys line, which will substantially improve the transport links and relieve some of the pressure on the route. The lack of transparency surrounding the selection criteria for the project is of major concern, and Byron Davies has already mentioned those in his submission.

Rwy'n cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r dagfa yn ardal de-ddwyrain Cymru a bod yna effaith ar fusnesau. Ceir canfyddiad nad yw'r ffordd yn gallu ymdopi'n ddigonol â lefel y traffig. Fodd bynnag, mae mentrau trafnidiaeth gyhoeddus sylweddol yn dod ymlaen, yn enwedig y prosiect metro y cyfeiriwyd ato'n gynharach a thrydaneiddio llinell y Cymoedd, a fydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn sylweddol ac yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau ar y llwybr. Mae diffyg tryloywder ynghylch y meini prawf dethol ar gyfer y prosiect yn peri pryder mawr, ac mae Byron Davies eisoes wedi crybwyll y rheini yn ei gyflwyniad.

The Government's preferred black route involves building a new road that will only be accessible for travellers entering Wales across the Severn bridge and not coming down the main link to the midlands, the A449 at the Coldra. This route will cut through the Gwent levels, an area identified as a historic landscape of outstanding historic interest, and disturbs over 8.5 km of a site of special scientific interest, which is an important breeding corridor for many wildlife species. Gaining permission to move or disturb these species may take years of legal discussions, particularly in relation to EU treaty obligations, and may delay this project much further.

Mae llwybr du dewisol y Llywodraeth yn golygu adeiladu ffordd newydd a fydd ond yn hygyrch i deithwyr sy'n dod i Gymru ar draws pont Hafren, ac nid yn dod i lawr y prif gyswllt â chanolbarth Lloegr, yr A449 yn y Coldra. Bydd y llwybr yn torri drwy wastadeddau Gwent, ardal y nodwyd ei bod yn dirwedd hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol eithriadol, ac aflonyddu ar fwy na 8.5 km o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, sy'n goridor bridio pwysig i lawer o rywogaethau bywyd gwyllt. Gallai cael caniatâd i symud neu darfu ar y rhywogaethau hyn gymryd blynyddoedd o drafodaethau cyfreithiol, yn enwedig mewn perthynas â rhwymedigaethau cytuniad UE, a gallai beri mwy fyth o oedi ar gyfer y prosiect hwn.

The alternative route, the blue route, poses the least level of environmental threat to the surrounding area, according to the Welsh transport and appraisal guidance issued in March 2013, and has a higher biodiversity rating than the proposals for the new motorway. Additionally, as this route is already partly constructed, or, at least, there is part construction on that route, further environmental impacts will be mitigated. Many stakeholders, such as the RSPB, Friends of the Earth and Natural Resources Wales have called for the blue route to be given further consideration, but to no avail. The NRW report on the route expressed concerns on finding major negative impacts on the area that the black route cuts through. They've claimed they were sidelined in the consultation process, and it was suggested that the scoring should be lowered to minor negative impacts. NRW also raises issues surrounding soil contamination, greenhouse gas emissions and water quality.

Y llwybr amgen, y llwybr glas, sy'n creu'r lefel leiaf o fygythiad amgylcheddol i'r ardal gyfagos, yn ôl y canllawiau trafnidiaeth a gwerthuso ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, ac mae ganddo statws bioamrywiaeth uwch na'r cynigion ar gyfer y draffordd newydd. Yn ogystal, gan fod y llwybr hwn eisoes wedi ei adeiladu'n rhannol, neu o leiaf, mae gwaith adeiladu rhannol ar y llwybr hwnnw, bydd effeithiau amgylcheddol pellach yn cael eu lliniaru. Mae llawer o randdeiliaid, megis yr RSPB, Cyfeillion y Ddaear a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi galw am roi ystyriaeth bellach i'r llwybr glas, ond yn ofer. Mynegodd adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y llwybr bryderon yn sgil dod o hyd i effeithiau negyddol sylweddol ar yr ardal y mae'r llwybr du yn torri drwyddi. Maent wedi honni eu bod wedi cael eu gwthio o'r neilltu yn ystod y broses ymgynghori, ac awgrymwyd y dylai'r drefn sgorio gael ei gostwng i gynnwys mân effeithiau negyddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â halogi pridd, allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ansawdd dŵr.

The important thing, in terms of fairness—and we hear a lot about fairness in this Assembly—is that there is a fairness to the other regions of Wales that needs to be considered, and not only to north Wales, but also to west Wales. The key reality is that the cost of this project is going to, yet again, see major, huge investment in south Wales to the exclusion of investment elsewhere, and I think that that is wrong. We know that, for the same price, the Welsh Government's transport expert up in north Wales said that the whole of the A55 could be turned into a motorway—for that £1 billion price tag. Now, that would be from Chester to Anglesey, and yet we're just talking about a bypass here, near Newport, that's going to cost a similar amount. Now, when you're looking at value for money, I don't think that that delivers value for money, and I think there are other parts of Wales that require investment and that need that investment. They have economic development needs. They want to kickstart their economies, and it's very important. I know my colleague, Paul Davies, has argued long and hard for the dualling of the A40. I think, in terms of fairness and equity, it is vital that the Welsh Government, when they're looking at their transport projects, don't see an airport in Cardiff, electrification of the lines to Swansea, the metro lines project, and all the Valley lines. People elsewhere in Wales, Minister, are looking at you and going, 'What about us? What about us?'

Y peth pwysig, o ran tegwch-ac rydym yn clywed llawer am degwch yn y Cynulliad-yw bod angen ystyried tegwch i ranbarthau eraill Cymru, nid yn unig gogledd Cymru, ond gorllewin Cymru hefyd. Y realiti allweddol yw bod cost y prosiect hwn yn mynd i olygu buddsoddiad enfawr, unwaith eto, yn ne Cymru ar draul buddsoddiad mewn mannau eraill, ac rwy'n meddwl bod hynny'n anghywir. Gwyddom fod arbenigwr trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yng ngogledd Cymru wedi dweud y gellid troi'r A55 ar ei hyd yn draffordd am yr un pris-am £1 biliwn. Yn awr, byddai hynny o Gaer i Ynys Môn, ac eto rydym yn sôn yn unig am ffordd osgoi yma, ger Casnewydd, sy'n mynd i gostio swm tebyg. Yn awr, pan edrychwch ar werth am arian, nid wyf yn credu bod hynny'n rhoi gwerth am arian, ac rwy'n meddwl bod rhannau eraill o Gymru eisiau'r buddsoddiad hwnnw ac angen buddsoddiad o'r fath. Mae ganddynt anghenion datblygu economaidd. Maent yn awyddus i roi hwb i'w heconomïau, ac mae'n bwysig iawn. Gwn fod fy nghyd-Aelod, Paul Davies, wedi dadlau'n hir ac yn frwd dros ddeuoli'r A40. O ran tegwch a chyfiawnder, rwy'n credu ei bod hi'n allweddol na ddylai Lywodraeth Cymru, wrth iddynt edrych ar eu prosiectau trafnidiaeth, weld maes awyr yng Nghaerdydd, trydaneiddio llinellau i Abertawe, prosiect llinellau'r metro, a holl reilffyrdd y Cymoedd. Mae pobl mewn rhannau eraill o Gymru, Weinidog, yn edrych arnoch ac yn gofyn, 'Beth amdanom ni? Beth amdanom ni? '

15:15 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Undoubtedly, there are major issues surrounding the M4 around Newport that need to be addressed, and I think that that's probably a common view right across the Chamber. On a number of occasions, we have rehearsed the issues and potential solutions. I'm quite clear and on record, Llywydd, as believing that public transport solutions and taking forward the metro system, together with better traffic management, offers the best solution to those issues. We have electrification as a very useful part of the work that's required for a metro system. That electrification, to some extent, is already committed to, which I think helps to put this in a good position in terms of the necessary work. We had some traffic management in place, such as the variable speed limits, which I think has been useful. We know that personalised travel planning can be very useful. I think that, in the Cardiff area for example, it achieved a 12% reduction in car-as-driver use, and I think that a scheme of that nature with regard to the M4 around Newport would be very useful. That's something that could happen in the short term as well as being part of the longer term solution.

Yn ddi-os, mae materion o bwys yn codi ynghylch yr M4 o gwmpas Casnewydd ac mae angen mynd i'r afael â hwy. Credaf mai dyna'r farn gyffredin yn ôl pob tebyg ar draws y Siambr. Ar sawl achlysur, rydym wedi ailadrodd y problemau a'r atebion posibl. Cofnodwyd fy marn yn eithaf clir, Lywydd, mai atebion trafnidiaeth gyhoeddus a bwrw ymlaen â'r system metro, ynghyd â systemau rheoli traffig gwell, sy'n cynnig yr ateb gorau i'r problemau hynny. Mae gennym drydaneiddio fel rhan ddefnyddiol iawn o'r gwaith sydd ei angen ar gyfer system metro. I ryw raddau, mae ymrwymiad wedi ei roi i'r trydaneiddio hwnnw eisoes, sy'n helpu i roi hyn mewn sefyllfa dda o ran y gwaith sydd ei angen, rwy'n credu. Rhoddwyd camau ar waith i reoli traffig, megis y terfynau cyflymder amrywiol, sydd wedi bod yn ddefnyddiol yn fy marn i. Gwyddom y gall cynllunio teithio personol fod yn ddefnyddiol iawn. Yn ardal Caerdydd, er enghraifft, rwy'n credu ei fod wedi arwain at 12% o ostyngiad yn y defnydd o'r car fel gyrrwr, ac rwy'n meddwl y byddai cynllun o'r math hwnnw mewn perthynas â'r M4 o amgylch Casnewydd yn ddefnyddiol iawn. Mae hynny'n rhywbeth a allai ddigwydd yn y tymor byr yn ogystal â bod yn rhan o'r ateb tymor hwy.

I think, with the metro, what we clearly need now is priority programmes and timelines so that we can make urgent and necessary progress. I think that part of that priority programme should be the Newport to Ebbw Vale passenger rail link, which I think would be very beneficial to both Ebbw Vale and Newport, and would benefit communities in those areas, recognising Newport's traditional importance in terms of work, leisure and retail for the Ebbw Vale area.

Gyda'r metro, rwy'n credu mai'r hyn sy'n amlwg ei angen yn awr yw rhaglenni blaenoriaeth ac amserlenni i ni allu gwneud y cynnydd sydd ei angen ar frys. Rwy'n credu y dylai cyswllt rheilffordd i deithwyr rhwng Casnewydd a Glynebwy fod yn rhan o'r rhaglen flaenoriaeth, gan fy mod o'r farn y byddai hynny'n fuddiol iawn i Lynebwy a Chasnewydd, ac o fudd i gymunedau yn yr ardaloedd hynny, gan gydnabod pwysigrwydd traddodiadol Casnewydd o safbwynt gwaith, hamdden a manwerthu i ardal Glynebwy.

Also, Llywydd, as part of this general debate that I referred to, I think that the issues around the relief road across the Gwent levels are again very well rehearsed. They have very serious environmental issues that I think are very well recognised. The Gwent levels are a historic landscape. They are very precious environmentally; that's why they have a number of protections in place, and that must be recognised—that very special status, to which we should give very high priority indeed, and make sure that anything that happens doesn't detrimentally affect those areas to the extent that that very special nature is undermined.

Hefyd, Lywydd, yn rhan o'r drafodaeth gyffredinol hon y cyfeiriais ato, rwy'n meddwl bod y problemau sy'n ymwneud â ffordd liniaru ar draws gwastadeddau Gwent unwaith eto wedi eu hailadrodd droeon. Maent yn cynnwys materion amgylcheddol difrifol iawn sydd wedi cael cryn sylw, rwy'n credu. Mae gwastadeddau Gwent yn dirwedd hanesyddol. Maent yn werthfawr iawn yn amgylcheddol; dyna pam y mae nifer o fesurau gwarchod ar waith ar eu cyfer, ac mae'n rhaid cydnabod hynny—y statws arbennig iawn y dylem roi blaenoriaeth uchel iawn iddo yn wir, a sicrhau nad oes dim sy'n digwydd yn effeithio'n niweidiol ar yr ardaloedd hynny gan danseilio eu natur hynod o arbennig.

When it comes to the proposed blue route, Llywydd, I must say that what I hear from my constituents is that very many communities—an awful lot of people—in Newport live alongside that blue route; Communities First areas and others. What they tell me is that they do not want increased noise and increased pollution. They worry about nitrogen dioxide and particulate matter, and health risks for example. I have had communications to that effect from residents who would be affected. You know, increasing the volume of traffic on that road to the extent that the blue route would, if that was the preferred solution, really would detrimentally affect the quality of life for all those communities existing along that blue route, and I do not support it in any way.

O ran y llwybr glas arfaethedig, Lywydd, rhaid imi ddweud mai'r hyn rwy'n ei glywed gan fy etholwyr yw bod llawer iawn o gymunedau—nifer enfawr o bobl—yng Nghasnewydd yn byw ar hyd y llwybr glas hwnnw; Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac eraill. Yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyf yw nad ydynt eisiau mwy o sŵn a llygredd. Maent yn poeni am nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol, a risgiau iechyd er enghraifft. Rwyf wedi cael gohebiaeth i'r perwyl hwnnw gan drigolion a fyddai'n cael eu heffeithio. Wyddoch chi, byddai cynyddu cyfaint y traffig ar y ffordd honno i'r graddau y byddai'r llwybr glas yn ei wneud, os mai dyna oedd yr ateb a ffafrid, yn cael effaith wirioneddol niweidiol ar ansawdd bywyd i'r holl gymunedau sydd eisoes yn byw ar hyd y llwybr glas, ac nid wyf yn ei gefnogi mewn unrhyw ffordd.

Another element, though, of the choice that needs to be made, of course, sitting alongside the environmental impact of an M4 relief road is climate change. We know that there are issues around induced demand, greater traffic volume using an M4 relief road, the actual construction process, as well as the materials involved, and, indeed, disturbed soil, much of it peat, which is very valuable indeed as a carbon store. So, in any decision as to which is the best way forward, that effect on climate change of an M4 relief road has to be factored into the equation. We know, from the 'Centre for Cities' report recently out, that Newport, in terms of emissions, was 63 out of 64 cities in terms of having the highest emissions per capita. So, there are very real issues here in terms of the environment and in terms of climate change that have to be an important part of the decision-making process.

Serch hynny, elfen arall o'r dewis sydd angen ei wneud, wrth gwrs, ochr yn ochr ag effaith amgylcheddol ffordd liniaru'r M4 yw newid yn yr hinsawdd. Gwyddom fod yna broblemau'n ymwneud â galw wedi'i ysgogi, mwy o gyfaint traffig yn defnyddio ffordd liniaru'r M4, y broses adeiladu ei hun, yn ogystal â'r deunyddiau dan sylw, ac yn wir, amharu ar bridd, a llawer ohono'n fawn, sy'n werthfawr iawn yn wir ar gyfer storio carbon. Felly, mewn unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen, rhaid cynnwys effaith ffordd liniaru'r M4 ar y newid yn yr hinsawdd yn yr hafaliad. Gwyddom o adroddiad 'y Ganolfan ar gyfer Dinasoedd' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fod Casnewydd, o ran allyriadau, yn safle 63 allan o 64 o ddinasoedd o ran lefel allyriadau uchaf y pen. Felly, mae problemau go iawn yma o ran yr amgylchedd ac o ran newid yn yr hinsawdd sy'n rhaid eu cynnwys yn rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau.

So, for all of these reasons, Llywydd, my preferred option, for the reasons that I have stated, is getting on with that metro system with real urgency and aligning that with better traffic management and smarter travel choices.

Felly, am bob un o'r rhesymau hyn, Lywydd, fy opsiwn dewisol, am y rhesymau rwyf wedi eu datgan, yw datblygu'r system metro ar fyrder go iawn ac alinio hynny â gwell systemau rheoli traffig a dewisiadau teithio doethach.

15:20

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

I welcome the opportunity to speak in this debate today. It is a debate that obviously has been raging for many years—some 20 to 25 years now, I think it is. When you actually look at the congestion around Newport, I think the one thing that is crystal clear to everyone is that the status quo cannot continue. That is blindingly obvious to everyone. The one thing, obviously, that is the game changer, I would suggest, in the formula, is the ability now, with the announcement on electrification and the metro system, to seriously look at how, as John Griffiths was talking about, that modal shift—. I have been here since 2007, and I think that we spent the best part of that Assembly talking about moving on to sustainable towns initiatives, and a modal shift from cars into buses and onto bikes. Let's face it, it hasn't happened.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw. Mae'n ddadl sy'n amlwg wedi bod yn mynd rhagddi ers blynyddoedd lawer—tua 20 i 25 mlynedd bellach, rwy'n meddwl. Pan edrychwch ar y tagfeydd o amgylch Casnewydd, rwy'n meddwl mai'r un peth sy'n gwbl eglur i bawb yw na all y sefyllfa bresennol barhau. Mae hynny'n gwbl amlwg i bawb. Wrth reswm, fe fyddwn yn awgrymu mai'r un peth a allai newid popeth yn y fformiwla, yw'r gallu yn awr, gyda'r cyhoeddiad ar drydaneiddio a'r system metro, i edrych o ddifrif ar sut y byddai'r newid moddol hwnnw, fel y soniodd John Griffiths—. Rwyf wedi bod yma ers 2007, ac rwy'n meddwl ein bod wedi treulio'r rhan orau o'r Cynulliad hwnnw yn siarad am symud ymlaen at fentrau trefi cynaliadwy, a newid moddol o geir i fysiau a beiciau. Gadewch i ni wynebu'r ffaith, nid yw wedi digwydd.

Funnily enough, I was in a garage the other day, and they were saying that they sold in excess of 100 cars over one weekend. The car is embedded in many people's psychology, and it is a mark of success for many people—the type of car that they drive. Now, people might disagree around this Chamber with that statement, but that is a fact, that is. What we've got to deal with is the reality that the situation that we face around Newport is that the limited bit of motorway that we have in Wales, at certain times of the day, is gridlocked. It is used not for motorway purposes, which is to try and shift traffic as quickly as possible; it is used as a relief road for Newport, in effect. If you drive from by the Celtic Manor through to Tredegar park, you basically, in a 10-mile stretch—a little over 10 miles—have got six motorway junctions on that road, where traffic can enter that piece of M4 motorway. Now, that, clearly, is unsustainable in the current climate, along with the congestion that is around the Brynglas tunnels.

Yn rhyfedd ddigon, roeddwn mewn garej y diwrnod o'r blaen, ac roeddent yn dweud eu bod wedi gwerthu mwy na 100 o geir mewn un penwythnos. Mae'r car yn rhan annatod o seicoleg llawer o bobl, ac mae'n arwydd o lwyddiant i lawer o bobl—y math o gar y maent yn ei yrru. Yn awr, efallai y bydd pobl yn anghytuno gyda'r datganiad hwnnw yn y Siambr, ond mae'n ffaith. Yr hyn sy'n rhaid i ni ymdopi ag ef yw'r realiti mai'r sefyllfa sy'n ein hwynebu o amgylch Casnewydd yw bod y darn cyfyngedig o draffordd sydd gennym yng Nghymru, ar adegau penodol o'r dydd, yn wynebu tagfeydd llwyr. Nid yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion traffordd, sef ceisio symud traffig cyn gynted ag y bo modd; mae'n cael ei ddefnyddio fel ffordd liniaru ar gyfer Casnewydd, i bob pwrpas. Os ydych yn gyrru o ymyl y Celtic Manor drwodd i barc Tredegar, darn o ffordd 10 milltir o hyd yn y bôn—ychydig dros 10 milltir—mae gennych chwech o gyffyrdd traffyrdd ar y ffordd honno, lle y gall traffig ymuno â'r rhan honno o draffordd yr M4. Yn awr, yn amlwg, mae hynny'n anghynaladwy yn yr hinsawdd bresennol, ynghyd â'r tagfeydd o amgylch twnelau Bryn-glas.

But, as I said in my opening remarks, where I do think the game changer has come into place now is the ability for us to look at how we can promote and co-ordinate the metro system into the transport infrastructure that south-east Wales, in particular—but stretching all the way to Swansea—can benefit from, and really make that change, if it is built correctly, if it has the facilities for a park-and-ride option and, ultimately, is efficient in delivering people from point A—i.e. where they live—to point B, where they need to work, and home at the end of the day. And, when you look at south-east Wales and further afield, down as far as Swansea, you are talking about a catchment area of two thirds of the population of Wales, in effect, living within that area. That is, by any stretch of the imagination, when Government is planning its transport policy, a considerable part of any population to have to look to cater for and to actually allocate its resources.

Ond fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, rwy'n credu mai'r hyn sydd wedi digwydd i newid popeth yn awr yw ein bod yn gallu edrych ar sut i hyrwyddo a chydlynu'r system metro yn y seilwaith trafnidiaeth y gall de-ddwyrain Cymru yn benodol elwa ohono—ond yn ymestyn yr holl ffordd i Abertawe. Gallwn wneud y newid hwnnw mewn gwirionedd os caiff ei adeiladu'n gywir, os yw'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer opsiwn parcio a theithio ac yn y pen draw, os yw'n effeithlon am gario pobl o bwynt A—hynny yw, lle y maent yn byw—i bwynt B, lle y mae angen iddynt weithio, ac adref ar ddiwedd y dydd. Ac os edrychwch ar dde-ddwyrain Cymru a thu hwnt, i lawr gyn belled ag Abertawe, rydych yn sôn am ddalgylch o ddwy ran o dair o boblogaeth Cymru, i bob pwrpas, sy'n byw o fewn yr ardal honno. Pa ffordd bynnag yr edrychwch ar y peth, pan fydd y Llywodraeth yn cynllunio ei pholisi trafnidiaeth, mae honno'n rhan sylweddol o unrhyw boblogaeth i orfod ceisio dyrannu ei hadnoddau a darparu ar ei chyfer.

But it is vital that other parts of Wales are not forgotten in the important infrastructure improvements that are required. Anyone who has travelled the A55, for example, in north Wales, and the gridlock that blights that piece of road on a constant basis—not just on a periodic basis, but a constant basis—cannot say that it is tolerable to turn a blind eye to the improvements that are required on that vital piece of infrastructure in north Wales, which, ultimately, the north Wales economy depends on. When we look at west Wales, my colleague Paul Davies has championed the case—and Angela Burns has championed the case—for the A40 to be dualled. That is a trans-European highway, that is. That is through to Fishguard and on to the Irish republic. It is vital now—. The Minister, in fairness to her, has given positive noises on the ability for the Welsh Government to engage in the dualling of this A40, and I very much hope that progress can be made on that. That, again, is a vital piece of the infrastructure network that—. If we are serious about developing an economy that can create quality jobs and can create sustainable businesses, we need to have a sign above Wales that says, 'Wales is open for business'.

Ond mae'n hanfodol nad yw rhannau eraill o Gymru yn cael eu hanghofio yn y gwelliannau seilwaith pwysig sydd eu hangen. Ni all unrhyw un sydd wedi teithio ar yr A55 yng ngogledd Cymru, er enghraifft, a'r tagfeydd sy'n bla ar y darn hwnnw o ffordd yn gyson—nid o bryd i'w gilydd ond yn barhaus—ddweud y gellir goddef troi llygad dall at y gwelliannau sydd eu hangen ar y darn hanfodol hwnnw o seilwaith yng ngogledd Cymru y mae economi gogledd Cymru yn dibynnu arno yn y pen draw. Pan edrychwn ar y gorllewin, mae fy nghyd-Aelod Paul Davies wedi hyrwyddo'r achos—ac mae Angela Burns wedi hyrwyddo'r achos—dros ddeuoli'r A40. Mae honno'n briffordd draws-Ewropeaidd yn wir. Mae'n mynd drwodd i Abergwaun ac ymlaen i Weriniaeth Iwerddon. Mae'n hanfodol yn awr—. Mae'r Gweinidog, er tegwch iddi, wedi rhoi'r argraff ei bod yn gadarnhaol ynglŷn â gallu Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y gwaith o ddeuoli'r A40, ac rwy'n gobeithio'n fawr y gellir camu ymlaen ar hynny. Mae hwnnw, unwaith eto, yn ddarn hanfodol o rwydwaith y seilwaith sydd—. Os ydym o ddifrif ynghylch datblygu economi a all greu swyddi o safon a busnesau cynaliadwy, mae angen i ni gael arwydd uwchben Cymru sy'n dweud, 'mae Cymru ar agor i fusnes'.

But, time and again, mid Wales is forgotten in this equation, and that is wholly wrong. My colleague Russell George, behind me, has championed the cause of the Newtown bypass, which we are hopeful will be delivered shortly. There are real constraints in the road infrastructure and travel options—whether that be the bus options or whether it be the more sustainable options of train transport from the Heart of Wales line, to make that connection between Aberystwyth and Shrewsbury—that we need to be focused on. So, when we look at the M4 options, we have to be—and the Government, in particular, have to be—clear that they can meet their other obligations to other parts of Wales and the important infrastructure improvements that they require. But above all, it is now time to be crystal clear in benchmarking both proposals, so that we can see that we get the best option, the best value for money, and the option that works, with the exciting opportunity that the south Wales metro proposal has for the communities across the whole of south-east Wales.

Ond dro ar ôl tro, mae canolbarth Cymru yn cael ei anghofio yn yr hafaliad hwn, ac mae hynny'n gwbl anghywir. Mae fy nghyd-Aelod, Russell George y tu ôl i mi, wedi hyrwyddo achos ffordd osgoi'r Drenewydd, ac rydym yn obeithiol y bydd yn cael ei darparu cyn bo hir. Mae cyfyngiadau go iawn yn y seilwaith ffyrdd ac opsiynau teithio—boed hynny'n opsiynau bws neu'n opsiynau mwy cynaliadwy fel trafnidiaeth trên o reilffordd Calon Cymru, i wneud y cysylltiad rhwng Aberystwyth a'r Amwythig—ac mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arnynt. Felly, wrth edrych ar opsiynau'r M4, mae'n rhaid i ni—a rhaid i'r Llywodraeth, yn arbennig—fod yn glir y gall fodloni ei rhwymedigaethau eraill i rannau eraill o Gymru a'r gwelliannau pwysig sydd eu hangen i'r seilwaith. Ond yn fwy na dim, mae'n bryd inni fod yn hollol glir wrth feincnodi'r ddau gynnig, er mwyn inni allu gweld ein bod yn cael y dewis gorau, y gwerth gorau am arian, a'r opsiwn sy'n gweithio, gyda'r cyfle cyffrous y mae metro de Cymru yn ei gynnig ar gyfer y cymunedau ar hyd a lled de-ddwyrain Cymru.

15:25 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by saying that I very much welcome the agreement reached on electrification, between the Welsh Government and the UK Government? I welcome the electrification of the lines through the south Wales Valleys, and the main line, and I welcome the opportunities it offers. I'm also very grateful for the Minister visiting Ebbw Vale just before Christmas to start work on the new station in Ebbw Vale town. It is something that will help strengthen the transport infrastructure within the constituency and the borough of Blaenau Gwent, but will also help complete a promise made from the Welsh Government some years ago and, I hope, the start of further improvements on that line.

I have to say, reading through the motion as it is on the order paper, I did feel that the motion was somewhat inadequate—the starter rather than the main course. The Conservatives seem to not understand the context in which these decisions are taken and the consequences of decisions taken around the M4. I agree very much—and I very much agree with most of what my friend from Newport East said about the integration of different modes and forms of transport, but where I probably disagree with my friend from Newport East is that I do believe that road must play a role in reducing the issues around the M4 in Newport. I prefer the blue route, and I'm not convinced, as Members will be aware, by the Government's arguments in this matter. I do not believe that the current black route, as proposed, provides the best options for relieving the tensions and difficulties around the M4 in Newport. But neither do they provide the integrated, sustainable transport network that we were promised in the Labour manifesto. The purpose of a Welsh Government's transport policy must be to help reduce poverty, to increase sustainability and to connect people with jobs and training. I disagree with those in this Chamber—I think Rhun ap Iorwerth edged towards this direction—who simply want to see some sort of mathematical equation, putting lumps of money in different places to achieve some sort of fake equality across the country. We must have clear objectives of transport policy, and the budgets must follow those objectives. What I want to see—[Interruption.] I will take an intervention.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod yn croesawu'n gynnes iawn y cytundeb a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar drydaneiddio? Rwy'n croesawu'r bwriad i drydaneiddio'r llinellau drwy Gymoedd de Cymru, a'r brif linell ac rwy'n croesawu'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Hefyd, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ymweld â Glynebwy ychydig cyn y Nadolig i ddechrau gweithio ar yr orsaf newydd yn nhref Glynebwy. Mae'n rhywbeth a fydd yn helpu i gryfhau'r seilwaith trafnidiaeth yn yr etholaeth a bwrdeistref Blaenau Gwent, ond bydd hefyd yn helpu i gwblhau addewid a wnaed gan Lywodraeth Cymru rai blynyddoedd yn ôl, a dechrau gwelliannau pellach ar y llinell honno, rwy'n gobeithio.

Rhaid i mi ddweud, wrth ddarllen drwy'r cynnig fel y mae ar y papur gorchymyn, roeddwn yn teimlo ei fod braidd yn annigonol—y cwrs cyntaf yn hytrach na'r prif gwrs. Nid yw'r Ceidwadwyr i'w gweld yn deall cyd-destun y penderfyniadau hyn a chanlyniadau penderfyniadau a wnaed ynghylch yr M4. Cytunaf yn fawr iawn—ac rwy'n cytuno i raddau helaeth iawn â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd fy nghyfaill o ddwyrain Casnewydd am integreiddio gwahanol foddau a ffurfiau ar drafnidiaeth, ond lle rwy'n anghytuno â fy nghyfaill o ddwyrain Casnewydd, mae'n debyg, yw fy mod yn credu bod yn rhaid i'r ffordd chwarae rhan yn y broses o leihau'r problemau sy'n codi mewn perthynas â'r M4 yng Nghasnewydd. Mae'n well gen i'r llwybr glas, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi'n llwyr, fel y gŵyr yr Aelodau, gan ddadleuon y Llywodraeth ar y mater hwn. Nid wyf yn credu bod y llwybr du ar hyn o bryd, fel y'i cynigiwyd, yn cynnig yr opsiynau gorau ar gyfer lleddfu tensiynau ac anawsterau o amgylch yr M4 yng Nghasnewydd. Ond nid ydynt ychwaith yn darparu'r rhwydwaith trafnidiaeth integredig a chynaliadwy a addawyd i ni ym maniffesto Llafur. Diben polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, o reidrwydd, yw helpu i leihau tlodi, er mwyn cynyddu cynaliadwyedd a chysylltu pobl â swyddi a hyfforddiant. Rwy'n anghytuno â'r rhai yn y Siambr hon—rwy'n credu bod Rhun ap Iorwerth wedi anelu i'r cyfeiriad hwnnw—sydd ond eisiau gweld rhyw fath o hafaliad mathemategol, gan roi lympiau o arian mewn gwahanol lefydd i gyflawni rhyw fath o gydraddoldeb ffug ar draws y wlad. Rhaid inni gael polisi trafnidiaeth gydag amcanion clir, a rhaid i'r cyllidebau ddilyn yr amcanion hynny. Yr hyn rwyf am ei weld—[Torri ar draws.] Rwyf am gymryd ymyriad.

15:27 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The point I make is quite simply that we need to keep money in reserve in order to deliver on strategic objectives for transport in Wales.

Y pwynt rwy'n ei wneud yn syml iawn yw bod angen i ni gadw arian wrth gefn er mwyn cyflawni amcanion strategol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.

15:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And I very much agree with that point. But what I want to do is to look further this afternoon than simply resolving an argument over blue or black. I want to see a regional solution in south Wales that is rooted in sustainability and a far-sighted commitment to the place of public transport, as was described in the Labour manifesto, to resolving the issues around the M4 in and around Newport. I would be grateful if the Minister could outline to us how she believes the national transport plan will help deliver the vision of the metro. I referred at the beginning of my remarks this afternoon to her visit to Ebbw Vale before Christmas, but we want to see a plan for the improvement of services across that line—a new station in Abertillery, new Services that will serve both Abertillery and Ebbw Vale on a regular basis, and a commitment to the Valley lines as a fundamental part of the metro. I want to see investment in rail as a key part of what we're seeking to do.

Ac rwy'n cytuno i raddau helaeth iawn â'r pwynt hwnnw. Ond yr hyn rwyf am ei wneud yw edrych ymhellach y prynhawn yma na dim ond datrys dadl ynghylch glas neu ddu. Rwyf am weld ateb rhanbarthol yn ne Cymru sydd wedi ei wreiddio mewn cynaliadwyedd ac ymrwymiad pellgyrhaeddol i le trafnidiaeth gyhoeddus, fel y disgrifiodd maniffesto'r blaid Llafur, yn y broses o ddatrys y materion sy'n gysylltiedig â'r M4 yng Nghasnewydd a'r cylch. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu sut y mae'n credu y bydd y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn helpu i wireddu gweledigaeth y metro. Cyfeiriais ar ddechrau fy sylwadau y prynhawn yma at ei hymweliad â Glynebwy cyn y Nadolig, ond rydym am weld cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau ar hyd y llinell honno—gorsaf newydd yn Abertyleri, gwasanaethau newydd i wasanaethu Abertyleri a Glynebwy yn rheolaidd, ac ymrwymiad i reilffyrdd y Cymoedd fel rhan sylfaenol o'r metro. Rwyf am weld buddsoddi mewn rheilffyrdd fel rhan allweddol o'r hyn rydym yn ceisio ei wneud.

But, I also take the point that Eluned Parrott made about buses. All too often we do not regard buses with the level of importance and priority that they deserve. I'm speaking here to the Labour Party possibly more than others, but I would like to see the re-regulation of bus services. I would like to see us moving to deliver on investment in buses, to connect people with the rail services and to connect people with training, with opportunities for work and to ensure that we do have a properly funded public transport infrastructure in Wales. So, I hope the Minister, in replying to this debate this afternoon, will certainly answer the questions around the M4 in Gwent, but won't simply do that—will outline to us a vision of how we see transport policy moving, how public transport will be a fundamental part of how we resolve these issues, and that we see not a solution in the black route around Newport, but a regional solution across south-east Wales that would have the improvement of the economy and the eradication and reduction of poverty as its objectives. Thank you.

Ond rwyf hefyd yn derbyn y pwynt a wnaeth Eluned Parrott am fysiau. Yn rhy aml, nid ydym yn ystyried bod bysiau â'r un lefel o bwysigrwydd a blaenoriaeth ag y maent yn ei haeddu. Rwy'n siarad yn y fan hon â'r Blaid Lafur yn fwy nag eraill o bosibl, ond hoffwn weld ail-reoleiddio gwasanaethau bysiau. Hoffwn ein gweld yn symud ymlaen i gyflawni'r broses o fuddsoddi mewn bysiau, er mwyn cysylltu pobl â'r gwasanaethau rheilffordd a chysylltu pobl â hyfforddiant, gyda chyfleoedd ar gyfer gwaith ac i sicrhau bod gennym seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i gyllido'n briodol yng Nghymru. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma, yn sicr yn ateb y cwestiynau ynglŷn â'r M4 yng Ngwent, ond nid yn unig hynny-y bydd yn amlinellu gweledigaeth ynglŷn â sut rydym yn gweld polisi trafnidiaeth yn symud, sut y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan sylfaenol o'r modd y byddwn yn datrys y materion hyn, ac nad ateb yn y llwybr du o gwmpas Casnewydd a welwn, ond ateb rhanbarthol ar draws de-ddwyrain Cymru, a'i amcanion fydd gwella'r economi a dileu a lleihau tlodi. Diolch yn fawr.

15:30 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Congestion around the Brynglas tunnels has a detrimental impact on business, not just in Newport and Cardiff, but across my region of South Wales West as well. The South Wales Chamber of Commerce has said that the biggest barrier to trade between south Wales and England is not the Severn estuary, but the M4 around Newport. Members will remember that the Prime Minister rightly described the Brynglas tunnels as the foot on the windpipe of the Welsh economy. Now, the M4 serves two-thirds of the Welsh population and is the main artery for nourishing that part of our economy responsible for over two-thirds of Welsh GDP. While congestion at Newport causes exasperation for local commuters in the south east, delays and bottlenecks at that end of the M4 also disrupt the flow of traffic and, indeed, the good humour of drivers on their way to my region and further west.

Mae tagfeydd o amgylch twnelau Bryn-glas yn cael effaith niweidiol ar fusnes, nid yn unig yng Nghasnewydd a Chaerdydd, ond ar draws fy rhanbarth, gorllewin de Cymru, yn ogystal. Mae Siambr Fasnach De Cymru wedi dweud nad aber afon Hafren yw'r rhwystr mwyaf i fasnachu rhwng de Cymru a Lloegr, ond yr M4 o amgylch Casnewydd. Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Prif Weinidog wedi disgrifio twnelau Bryn-glas yn gywir fel y droed ar bibell wynt economi Cymru. Yn awr, mae'r M4 yn gwasanaethu dwy ran o dair o boblogaeth Cymru a dyma'r brif rydweli ar gyfer bwydo'r rhan honno o'n heconomi sy'n gyfrifol am dros ddwy ran o dair o gynnyrch domestig gros Cymru. Er bod tagfeydd yng Nghasnewydd yn achosi rhwystredigaeth i gymudwyr lleol yn y de-ddwyrain, mae oedi a thagfeydd ar ben draw'r M4 hefyd yn amharu ar lif y traffig ac yn wir, ar dymer dda gyrwyr ar eu ffordd i fy rhanbarth ac ymhellach i'r gorllewin.

So, as this motion urges the Welsh Government to undertake a swift review of the options for improvements to the eastern end of the M4, I would like any such review to take into account the impact of other existing restrictions further west as well—the cumulative effect of those together with the problems in the east—to ensure that the final decision isn't just a fix for a local problem. Whatever works best for the west is also a factor.

Felly, gan fod y cynnig hwn yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cyflym o'r opsiynau ar gyfer gwelliannau i ben dwyreiniol yr M4, hoffwn i unrhyw adolygiad o'r fath ystyried effaith cyfyngiadau presennol eraill ymhellach i'r gorllewin yn ogystal—effaith gronnus hynny ynghyd â'r problemau yn y dwyrain—i sicrhau nad yw'r penderfyniad terfynol ond yn ateb cyflym ar gyfer problem leol yn unig. Mae beth bynnag sy'n gweithio orau ar gyfer y gorllewin yn ffactor hefyd.

Now, it's easy, of course, to make the point about Welsh Government dithering on the Brynglas problem. If it had been dealt with earlier, indeed perhaps when there was a Labour Government in Westminster, we might now be in the position where we could be looking with real intent at resolving the problems of the capacity and design of the M4 as it heads west. There are a number of us in this Chamber, I think, who drive daily somewhere along the stretch of motorway between junction 33 and junction 48. I'm not getting up at 4 a.m., David Rees, to avoid it. The fact that we survive that junction 33 scrum every morning is a testament to our driving and not to the design of that junction. Some days you have to make a choice between being hit by a lorry or travelling on to the next junction and facing the kind of city traffic congestion that makes you late for committee and the icy stare of the Chair of the Children, Young People and Education Committee. More importantly, of course, that junction is western businesses' access into the commercial heart of the capital city and vice versa.

Yn awr, mae'n hawdd gwneud y pwynt am Lywodraeth Cymru yn petruso ynglŷn â phroblem Bryn-glas wrth gwrs. Pe bai wedi cael sylw yn gynharach, pan oedd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn wir, efallai y byddem yn awr mewn sefyllfa lle y gallem fod yn edrych gyda bwriad go iawn ar ddatrys problemau capasiti a chynllun yr M4 wrth iddi anelu tua'r gorllewin. Rwy'n meddwl bod nifer ohonom yn y Siambr hon yn gyrru bob dydd i rywle ar hyd y darn o'r draffordd rhwng cyffordd 33 a chyffordd 48. Nid wyf yn mynd i godi am 4 o'r gloch i'w osgoi, David Rees. Llwyddwn i oroesi sgrym cyffordd 33 bob bore diolch i'n gallu gyrru ein hunain, ac nid i gynllun y gyffordd honno. Ar rai dyddiau, rhaid i chi ddewis rhwng cael eich taro gan lori neu deithio ymlaen i'r gyffordd nesaf ac wynebu'r math o dagfeydd traffig dinesig sy'n eich gwneud yn hwyr i'r pwyllgor ac edrychiad rhewllyd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Yn bwysicach, wrth gwrs, y gyffordd honno yw'r ffordd orllewinol i mewn ac allan i fusnesau at galon fasnachol y brifddinas.

Then, of course, there is Port Talbot. Now, let's not talk about junction 41 closure for a minute, rather junction 41 danger. In fact, the design of all three Port Talbot slip roads doesn't really accommodate the volume of traffic on this stretch of motorway, and they would never have been built like that if it had been designed in the last 30 years or so. The nearest equivalents I've seen on a major highway in other countries are the slip roads of the autostrada near Naples, and I really think we could be doing better than that. The speed restriction, which is now enforced, does go some way to alleviate that danger, but permanent speed restrictions on a strategic European route is surely not a state of affairs of which we can be proud.

Wedyn, wrth gwrs, mae Port Talbot. Yn awr, gadewch i ni siarad am gau cyffordd 41 am funud, yn hytrach na pherygl cyffordd 41. Mewn gwirionedd, nid yw cynllun tair ffordd ymuno ac ymadael Port Talbot yn darparu ar gyfer cyfaint y traffig ar y darn hwn o'r draffordd mewn gwirionedd, ac ni fyddent byth wedi cael eu hadeiladu fel hynny pe baent wedi cael eu cynllunio yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Yr hyn sydd debycaf iddynt a welais ar brif ffyrdd mewn gwledydd eraill yw ffyrdd ymuno ac ymadael yr autostrada ger Naples, ac rwy'n meddwl yn wir y gallem fod yn gwneud yn well na hynny. Mae'r cyfyngiad cyflymder, sy'n cael ei orfodi erbyn hyn, yn mynd beth o'r ffordd i leddfu'r perygl, ond 'does bosibl fod cyfyngiadau cyflymder parhaol ar lwybr Ewropeaidd strategol yn sefyllfa y gallwn fod yn falch ohoni.

There's a new local distributor road, of course. Is that what you were going to ask me about?

Mae yna ffordd ddosbarthu leol newydd, wrth gwrs. Ai dyna roeddech chi'n mynd i ofyn i mi amdano?

15:33

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you appear to have opened a can of worms. But do you agree, actually—. You say that the permanent speed restriction is not the panacea. The 50 mph limit has been there since I can remember, so, in a sense, there is a permanent speed restriction. It is the enforcement of that speed restriction that's important, because the fact that it is not being enforced means that people are actually exceeding the speed limit and causing some of the problems. So, really, that speed restriction is something that needs to be enforced, and that's the importance of what we're looking at now.

Wel, mae'n ymddangos eich bod wedi dechrau rhywbeth yn awr. Ond a ydych yn cytuno, mewn gwirionedd—. Rydych yn dweud nad yw'r cyfyngiad cyflymder parhaol yn ateb i bob dim. Mae'r cyfyngiad 50 mya wedi bod yno ers y gallaf gofio, felly, ar un ystyr, mae yna gyfyngiad cyflymder parhaol. Gorfodi'r cyfyngiad cyflymder hwnnw sy'n bwysig, gan fod y ffaith nad yw'n cael ei orfodi'n golygu bod pobl yn gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder ac yn achosi rhai o'r problemau. Felly, mewn gwirionedd, mae'r cyfyngiad cyflymder yn rhywbeth y mae angen ei orfodi, a dyna pa mor bwysig yw'r hyn rydym yn edrych arno ar hyn o bryd.

15:33 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and that's the point I was just making. When I've been in the same position as you, and been able, even if I haven't done it, to sail through that area more quickly than 50 mph, that enforcement is now something we're all very aware of—let's put it that way. I just want to talk about the distributor road, though, because that was designed to take local traffic off the motorway, and I recommend anyone heading west to Port Talbot to try it out some time. You'll virtually have the road to yourself, but you really do have a genuinely awe-inspiring view of the steel works if you use that road. But you still have to drive at 50 mph on that road as well, so that's not actually speeding up transit either.

Yn hollol, a dyna'r pwynt roeddwn yn ei wneud. Pan wyf i wedi bod yn yr un sefyllfa â chi, ac wedi gallu hwylio drwy'r ardal yn gyflymach na 50 mya, hyd yn oed os nad wyf wedi gwneud hynny, mae'r orfodaeth honno bellach yn rhywbeth rydym i gyd yn ymwybodol iawn ohoni—gadewch i ni ei roi felly. Rwyf i eisiau cyfeirio at y ffordd ddosbarthu, fodd bynnag, gan fod honno wedi ei chynllunio i gymryd traffig lleol oddi ar y draffordd, ac rwy'n argymell i unrhyw un sy'n mynd i'r gorllewin i Bort Talbot i roi cynnig arni ryw dro. Cewch y ffordd i chi'ch hun fwy neu lai, ond fe gewch olygfa wirioneddol aruthrol o'r gwaith dur os defnyddiwch y ffordd honno. Ond mae'n dal i fod yn rhaid i chi yrru ar 50 milltir yr awr ar y ffordd honno hefyd, felly nid yw hynny'n cyflymu teithiau ychwaith, mewn gwirionedd.

Morning tailbacks extend all the way to the Briton Ferry bridge. Great fun if you're hoping that a high-sided lorry will you let you merge into the traffic on a windy day, and all this, of course, exacerbated by the two-lane capacity for much of that journey—particularly problematic when there are long-term road works. Now, I appreciate that much of this should be directed at UK Government, but my point is this: we might be better placed to do that if Welsh Government hadn't faffed around for so long on the great eastern problem; not only just faffed around, but ended up without a solid buy-in for the eventual decision.

Mae tagfeydd y bore yn ymestyn yr holl ffordd i bont Llansawel. Llawer o hwyl os ydych yn gobeithio y bydd lori ochr uchel yn gadael i chi ymuno â'r traffig ar ddiwrnod gwyntog, ac mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn cael ei waethygu gan gapasiti dwy lôn am lawer o'r daith-sy'n arbennig o anodd lle y ceir gwaith ffordd hirdymor. Yn awr, rwy'n gwerthfawrogi y dylai llawer o hyn gael ei gyfeirio at Lywodraeth y DU, ond fy mhwynt yw hwn: efallai y byddem mewn gwell sefyllfa i wneud hynny pe na bai Llywodraeth Cymru wedi tindroi am gymaint o amser ar broblem fawr y dwyrain; nid yn unig tindroi, ond cyrraedd sefyllfa lle nad yw wedi sicrhau cefnogaeth solet i'r penderfyniad yn y pen draw.

I just want to finish on a couple of points, Llywydd. Some 84% of tourism visits to Wales are made by road, so that 'Croeso i Gymru' sign may be viewed a little ruefully as people cross the bridge. But finally, and importantly, those ambulance response times—54% of the call-out targets in ABMU not being met. We've already heard reference to the number of ambulances and emergency vehicles we see trying to negotiate those bottlenecks. This debate is not just about inconvenience and economic consequences; it's about safety.

Rwyf am orffen ar un neu ddau o bwyntiau, Lywydd. Mae tua 84% o ymweliadau twristiaeth â Chymru yn defnyddio'r ffyrdd, felly mae'n bosibl y bydd yr arwydd 'Croeso i Gymru' i'w weld braidd yn druenus wrth i bobl groesi'r bont. Ond yn olaf, ac yn bwysig, amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans—nid yw 54% o dargedau galw allan Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cael eu cyrraedd. Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriad at nifer yr ambiwlansys a cherbydau argyfwng a welwn yn ceisio goresgyn y tagfeydd hynny. Nid dadl am anghyfleustra a chanlyniadau economaidd yn unig yw hon; mae'n ymwneud â diogelwch.

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Economy, Science and Transport, to speak on behalf of the Government—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i siarad ar ran y Llywodraeth—Edwina Hart.

15:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, Presiding Officer. And it was certainly good to hear, once again, people's comments about the M4 corridor, and electrification. If I concentrate, in the first instance, on the issue that doesn't divide us, which, of course, is electrification.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Ac roedd yn sicr yn dda clywed, unwaith eto, sylwadau pobl am goridor yr M4, a thrydaneiddio. Os canolbwyntiaf, yn y lle cyntaf, ar y mater nad yw'n ein rhannu, sef trydaneiddio, wrth gwrs.

In terms of electrification, it is very important that, on 25 November, we announced our agreement with the Department for Transport on the funding of rail modernisation and electrification in south Wales. It brings significant potential to introduce real change to the transport systems in Wales, as part of a package of public transport improvements. And I think, as both Eluned Parrott and Alun Davies alluded to, it's about the integration of public transport, and this being a key part of that. Because it has significant potential for opportunities for employment, growing supply chains, to the local sourcing of skills and materials, for improving our skills base in, for example, electrical engineering, and securing community benefits. But, of course, this is only one element of improving links, I think, and we've got to recognise that. But, even after rail electrification, significant capacity issues would remain on the M4 corridor, and I think that we do have to acknowledge that.

O ran trydaneiddio, mae'n bwysig iawn ein bod, ar 25 Tachwedd, wedi cyhoeddi ein cytundeb gyda'r Adran Drafnidiaeth ar gyllido'r gwaith o foderneiddio'r rheilffyrdd a thrydaneiddio yn ne Cymru. Mae'n creu potensial sylweddol i gyflwyno newid gwirioneddol i systemau trafnidiaeth yng Nghymru, fel rhan o becyn o welliannau trafnidiaeth gyhoeddus. Ac rwy'n meddwl, fel y dywedodd Eluned Parrott ac Alun Davies, ei fod yn ymwneud ag integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac mae hyn yn rhan allweddol o hynny. Oherwydd mae iddo botensial sylweddol o ran cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, tyfu cadwyni cyflenwi, gwneud defnydd o sgiliau a deunyddiau lleol, gwella ein sylfaen sgiliau mewn peirianneg drydanol, er enghraifft, a sicrhau manteision cymunedol. Ond wrth gwrs, un elfen yn unig o wella cysylltiadau yw hyn yn fy marn i, ac mae'n rhaid i ni gydnabod hynny. Ond hyd yn oed ar ôl trydaneiddio'r rheilffyrdd, byddai problemau capasiti sylweddol yn parhau ar goridor yr M4, a chredaf fod yn rhaid i ni gydnabod hynny.

As people have said, there's been dithering. Well, I wouldn't say there's been dithering. I think the indications around here about what people feel about these issues shows why it's been difficult to get to a decision-making process on the issues around the M4. So, let's have a degree of honesty about this, because a lot of Ministers I've served with in Government have a lot of angst on the issues around the M4, and what should be done. And, when you realise that opinion is like that—even though the Confederation of British Industry and the Institute of Directors have come out very strongly in terms of the present proposals—you can understand why there are issues there.

Fel y mae pobl wedi ei ddweud, mae yna betruso wedi bod. Wel, ni fyddwn i'n dweud fod petruso wedi bod. Rwy'n meddwl bod yr arwyddion o gwmpas y fan hon ynglŷn â beth y mae pobl yn teimlo am y materion hyn yn dangos pam y mae wedi bod yn anodd cyrraedd y broses o wneud penderfyniadau ar y materion sy'n gysylltiedig â'r M4. Felly, gadewch inni gael rhywfaint o onestrwydd am hyn, gan fod llawer o Weinidogion rwyf wedi cydweithio â hwy yn y Llywodraeth yn boenus iawn ynghylch y materion sy'n ymwneud â'r M4, a'r hyn y dylid ei wneud. Ac wrth ichi sylweddoli mai dyna'r farn—er bod Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad y Cyfarwyddwyr wedi mynegi'n gryf iawn eu bod o blaid yr argymhellion presennol—gallwch ddeall pam y mae problemau gyda hyn.

Commuters and businesses alike are frustrated by unreliable journey times, and stop-start conditions during peak hours, and we do have to realise this. But what we need is a sustainable, long-term solution, addressing the economic, social and environmental issues, which have worsened over the years. That's why we did the plan.

Mae cymudwyr a busnesau fel ei gilydd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd amseroedd teithio annibynadwy, a'r teithiau herciog yn ystod yr oriau brig, ac mae'n rhaid i ni sylweddoli hyn. Ond yr hyn rydym ei angen yw ateb hirdymor cynaliadwy, sy'n mynd i'r afael â'r problemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wedi gwaethygu dros y blynyddoedd. Dyna pam y gwnaethom y cynllun.

Now, if I can speak a little, if I may, about the blue route. Our analysis shows that the blue route would cost between £600 million and £800 million, dependent on the inclusion of the free-flow M4 connections. At these costs, the return investment will be very low, the cost being greater than the benefits achieved. The blue route will be subject to the same statutory processes as the plan, it would require land acquisition and the demolition of a large number of residential, commercial and industrial properties, it could be subject to similar challenges to the current proposals, and could not be delivered any sooner. Furthermore, the blue route would utilise the so-called southern distributor road, which was built under private finance initiative contract, and any changes would require modifications to that contract, and potential increase in cost.

Yn awr, os caf sôn ychydig am y llwybr glas. Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai'r llwybr glas yn costio rhwng £600 miliwn ac £800 miliwn, yn dibynnu ar gynnwys cysylltiadau rhydd-lif â'r M4. Ar y costau hyn, bydd yr enillion ar fuddsoddiad yn isel iawn, a'r gost yn fwy na'r manteision a gyflawnir. Bydd y llwybr glas yn ddarostyngedig i'r un prosesau statudol â'r cynllun, byddai angen caffael tir a dymchwel nifer fawr o eiddo preswyl, masnachol a diwydiannol, gallai fod yn destun heriau tebyg i'r cynigion presennol, ac ni ellid ei gyflawni'n gynt. Ar ben hynny, byddai'r llwybr glas yn defnyddio'r ffordd ddosbarthu ddeheuol fel y'i gelwir, a adeiladwyd o dan gontract menter cyllid preifat, a byddai unrhyw newidiadau yn galw am addasu'r contract hwnnw, a chynnydd posibl yn y gost.

In addition to failing to significantly reduce noise and air quality on the existing M4, the blue route would exacerbate such issues for the residents, which, in fact, John Griffiths alluded to, along the route of the southern distributor road and the steelwork access road, due to the similarly inefficient mix of local and other traffic. Matters will also be complicated by the likely objection from the Health and Safety Executive, in relation to COMAH and the hydrogen installation in the vicinity of Llanwern, and the results of appraisals suggested, you know—. Well we did actually publish this, didn't we, in the strategic appraisal of alternatives. So, let's be clear what that blue route means when we're actually discussing it.

Yn ogystal â methu â lleihau sŵn ac ansawdd aer yn sylweddol ar yr M4 fel y mae, byddai'r llwybr glas yn gwaethygu problemau o'r fath i'r preswylwyr, fel y soniodd John Griffiths mewn gwirionedd, ar hyd llwybr y ffordd ddosbarthu ddeheuol a'r ffordd fynediad i'r gwaith dur, oherwydd cymysgedd aneffeithlon tebyg o draffig lleol a thraffig arall. Bydd y problemau hefyd yn cael eu cymhlethu gan wrthwynebiad tebygol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mewn perthynas â Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr a'r safle hydrogen yng nghyffiniau Llanwern, ac roedd canlyniadau arfarniadau yn awgrymu, wyddoch chi—. Wel fe gyhoeddon ni hyn mewn gwirionedd, oni wnaethom, yn y gwerthusiad strategol o ddewisiadau amgen. Felly, gadewch i ni fod yn glir ar yr hyn y mae'r llwybr glas yn ei olygu wrth i ni fynd ati i'w drafod.

Can I say, that's why I'm unable to accept the amendments laid by Elin Jones and Aled Roberts, as we have considered a range of options, including the blue route, on an equal footing? But, to ensure a comprehensive assessment, variations to the blue route were also explored, but with even the most attractive version, which was the free-flowing connections to the M4, giving very little relief. Whilst many positive claims have been made about the blue route, I don't think that the evidence supports it in certain areas.

A gaf fi ddweud mai dyna pam na allaf dderbyn y gwelliannau a gyflwynwyd gan Elin Jones ac Aled Roberts, gan ein bod wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys y llwybr glas, ar sail gyfartal? Ond er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn gynhwysfawr, archwiliwyd amrywiadau i'r llwybr glas hefyd, ond nid oedd y fersiwn fwyaf deniadol hyd yn oed, sef y cysylltiadau rhydd-lif â'r M4, ond yn lliniaru ychydig iawn. Er bod llawer o honiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud am y llwybr glas, nid wyf yn credu bod y dystiolaeth yn ei gefnogi mewn rhai meysydd.

Can I say as well, I was quite surprised with some of the remarks made in the debate about me being contemptuous, I have to say, to Byron Davies, about committee reports? I am never contemptuous of committee reports. I value committee reports that come to me, I attend committee, and give evidence, and I certainly try and be very positive in my response to committee reports, and will continue to do so. I do not hold this Assembly in contempt in any way, and I think, perhaps, people should look at their own record of attendance at committees, rather than criticise me as the Minister for being contemptuous about certain issues.

A gaf fi ddweud hefyd fy mod wedi synnu braidd gan rai o'r sylwadau a wnaed yn y ddadl yn honni fy mod i'n sarhaus, rhaid i mi ddweud, tuag at Byron Davies, ynglŷn ag adroddiadau pwyllgorau? Nid wyf byth yn sarhaus tuag at adroddiadau pwyllgorau. Rwy'n gwerthfawrogi adroddiadau pwyllgorau sy'n cael eu cyflwyno i mi, rwy'n mynychu pwyllgorau, ac yn rhoi tystiolaeth, ac rwy'n sicr yn ceisio bod yn gadarnhaol iawn yn fy ymateb i adroddiadau pwyllgorau, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Nid wyf yn sarhaus tuag at y Cynulliad hwn mewn unrhyw ffordd, ac rwy'n meddwl, efallai, y dylai pobl edrych ar eu cofnod presenoldeb eu hunain mewn pwyllgorau, yn hytrach na fy meirniadu i fel y Gweinidog am fod yn sarhaus ynghylch materion penodol.

Can I also indicate to Antoinette Sandbach that I do take umbrage about this notion that I'm not a transport Minister for the whole of Wales? I can assure you—in the work that was undertaken by my colleague Lesley Griffiths, and on the work that she's been doing in looking at systems in north Wales—that we are very keen on electrification in north Wales, clearly to look at the transport issues and now having very good relationships across the border, very supportive—.. I believe that one of the Ministers in the Wales Office, Alun Cairns, is hosting a meeting about electrification in north Wales. We are very supportive of what is going on in terms of that business case and will contribute.

A gaf fi hefyd ddweud wrth Antoinette Sandbach fy mod yn ddig ynglŷn â'r syniad hwn nad ydw i'n yn Weinidog trafnidiaeth ar gyfer Cymru gyfan? Gallaf eich sicrhau—yn y gwaith a wnaed gan fy nghyd-Aelod, Lesley Griffiths, a'r gwaith y mae hi wedi bod yn ei wneud yn edrych ar systemau yng ngogledd Cymru—ein bod yn awyddus iawn i weld trydaneiddio'n digwydd yn y gogledd, yn amlwg i edrych ar y problemau trafnidiaeth a'r berthynas dda iawn yn awr ar draws y ffin, yn gefnogol iawn—. Credaf fod un o'r Gweinidogion yn Swyddfa Cymru, Alun Cairns, yn cynnal cyfarfod ynghylch trydaneiddio yn y gogledd. Rydym yn gefnogol iawn i'r hyn sy'n digwydd o ran yr achos busnes hwnnw a byddwn yn cyfrannu.

When we come to the issues around what isn't being spent in north Wales, as I've indicated before, west Wales are the poor relations here and, in terms of west Wales, I will do what I can in terms of strategic links into west Wales, because it is important to recognise, particularly following on from the very difficult situation within Murco, about the importance of recognising what strategic links we need to sites like this.

Pan ddown at y materion sy'n ymwneud â'r hyn nad yw'n cael ei wario yn y gogledd, fel y dynodais o'r blaen, gorllewin Cymru yw'r perthnasau tlawd yma ac o ran gorllewin Cymru, byddaf yn gwneud yr hyn a allaf o ran cysylltiadau strategol i mewn i orllewin Cymru, gan ei bod yn bwysig cydnabod, yn enwedig yn sgil y sefyllfa anodd iawn gyda Murco, pwysigrwydd y cysylltiadau strategol sydd eu hangen arnom â safleoedd fel hyn.

Now, there's a whole pot of money, but not a big pot of money, so it's very important that we get the balance right. To Eluned Parrott, I would say, on the metro, that we are based on those proposals, but I will be making a further statement about the metro and that and what further issues we now have to discuss to add to the proposals about how money can be spent and the type of timescales that we are envisaging. Because the metro is a project, but there are certainly some quick wins in terms of developing some stations, and everything, and the integration, particularly, of buses into this discussion and possibly trams, and how we deal with these issues, will be absolutely integral to the delivery of that project.

Yn awr, mae yna bot o arian, ond nid yw'n bot mawr o arian, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y cydbwysedd cywir. Byddwn yn dweud wrth Eluned Parrott ynglŷn â'r metro, ein bod yn seilio'n gwaith ar y cynigion hynny, ond byddaf yn gwneud datganiad pellach am y metro, a'r materion pellach sy'n rhaid i ni eu trafod yn awr er mwyn ychwanegu at y cynigion ynglŷn â sut y gellir gwario'r arian a'r math o amserlen rydym yn ei rhagweld. Oherwydd prosiect yw'r metro, ond mae yna rai enillion cyflym yn sicr o ran datblygu rhai gorsafoedd, a phopeth, ac integreiddio, yn arbennig bysiau, yn rhan o'r drafodaeth hon a thramiau o bosibl, a bydd y modd rydym yn delio â'r materion hyn yn rhan gwbl annatod o gyflwyno'r prosiect hwnnw.

Can I say to Alun Davies, in terms of the national transport plan, that is all about delivering an integrated system for transport in Wales and I share very much the issues he mentioned particularly about deregulation of buses, which has been a constant issue and concern, because I do think that when buses were regulated rather better, we had better outcomes in terms of certain areas? So, I look forward to enhanced powers we might have in the future on some of these particular issues.

A gaf fi ddweud wrth Alun Davies, o ran y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, mai mater o gyflwyno system integredig ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru ydyw yn llwyr ac rwy'n rhannu'r syniadau a grybwyllodd yn fawr iawn yn enwedig o ran dadreoleiddio bysiau, sydd wedi bod yn broblem ac yn bryder cyson? Pan oedd bysiau'n cael eu rheoleiddio ychydig yn well, rwy'n credu ein bod yn cael canlyniadau gwell mewn rhai meysydd. Felly, edrychaf ymlaen at bwerau ychwanegol y gallem eu cael yn y dyfodol ar rai o'r materion penodol hyn.

Can I say that it's useful to have this dialogue and discussion on these matters, but I think it's important to recognise that there's a lot of information out there in terms of what we're undertaking? If I can also say to Members, they can be assured that I will update them regularly on the basis of what we're doing on these major projects and will certainly look forward to their comments in terms of the consultation on the national transport plan when I am able to respond and see whether we want to make any amendments to it in light of any dialogue that occurs within this Chamber. Can I thank you, Presiding Officer, for what has been a good debate in terms of expressions of opinion?

A gaf fi ddweud ei bod yn ddefnyddiol cael y ddeialog hon a thrafodaeth ar y materion hyn, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod yna lawer o wybodaeth ar gael o ran yr hyn rydym yn ei wneud? Os caf fi ddweud wrth yr Aelodau hefyd, gallant fod yn sicr y byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt yn rheolaidd am yr hyn rydym yn ei wneud ar y prosiectau mawr hyn, a byddaf yn sicr yn edrych ymlaen at eu sylwadau o ran yr ymgynghoriad ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol pan fyddaf yn gallu ymateb a gweld a ydym am wneud newidiadau iddo yng ngoleuni unrhyw drafodaeth sy'n digwydd yn y Siambr hon. A gaf fi ddiolch i chi, Lywydd, am yr hyn a fu'n ddadl dda o ran mynegi barn?

15:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I now call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Diolch yn fawr. Galwaf yn awr ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

15:42

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, like many AMs, I'm sure, have been inundated by letters from people living in south Monmouthshire and Magor and wider Wales, bitterly concerned about the Welsh Government's proposals for the new M4 across the Gwent levels—concerned and disappointed. Disappointed because the creation of the Assembly was supposed to get away from this old, heavy-handed way of doing things and to provide sustainable local solutions to local problems.

Rwyf fi, fel llawer o Aelodau'r Cynulliad, rwy'n siŵr, wedi cael llif o lythyrau gan bobl sy'n byw yn ne Sir Fynwy a Magwyr a Chymru yn ehangach, yn bryderus tu hwnt ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 newydd ar draws gwastadeddau Gwent—yn bryderus ac yn siomedig. Yn siomedig gan fod creu'r Cynulliad i'n symud i ffwrdd oddi wrth yr hen ffordd drwsgl o wneud pethau a darparu atebion lleol cynaliadwy i broblemau lleol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:43.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:43.*

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Now, how on earth ploughing a six-lane motorway through five sites of special scientific interest is supposed to meet the Assembly's sustainability criteria is anyone's guess. That point was made eloquently by John Griffiths earlier. John Griffiths said that climate change needs to be factored into the equation; environmental concerns need to be factored into the equation and to say that there's a lack of confidence that all of that has been factored into any equation to date would be an understatement. So, it was surprising that the so-called 'black route' came to be the preferred route so quickly, flying in the face of concerned parties and even the Assembly's own environmental committee before it even had the chance to report.

Yn awr, ni allwn ond dyfalu sut ar y ddaear y mae tyllu traffordd chwe lôn drwy bum safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig i fod i gwrdd â meini prawf cynaliadwyedd y Cynulliad. Gwnaed y pwynt hwnnw'n huawdl gan John Griffiths yn gynharach. Dywedodd John Griffiths fod angen cynnwys newid yn yr hinsawdd yn yr hafaliad; mae angen cynnwys pryderon amgylcheddol yn yr hafaliad a byddai dweud bod yna ddiffyg hyder fod hyn oll wedi ei gynnwys mewn unrhyw hafaliad hyd yma yn llai na hanner y gwir. Felly, roedd yn syndod bod yr hyn a elwir yn 'llwybr du' wedi dod yn llwybr a ffafrir mor gyflym, yn gwbl groes i farn partïon pryderus a phwyllgor yr amgylchedd y Cynulliad ei hun hyd yn oed, a hynny cyn iddo gael cyfle i adrodd.

There were, of course, alternatives: creating new tunnels at Brynglas was considered by the previous Minister and closing some of the plethora of minor junctions onto the current motorway was also considered. The Welsh Conservatives are disappointed that the Minister discounted a number of other potential routes in favour of the black route. But we are most concerned that one route, the blue route, never even got into the consultation, despite some initial pre-consultation consideration—I accept that.

Roedd yna ddewisiadau eraill wrth gwrs: ystyriodd y Gweinidog blaenorol y syniad o greu twnelau newydd ym Mryn-glas, ynghyd â chau rhai o'r llu o fân gyffyrdd ar y draffordd bresennol. Mae Ceidwadwyr Cymru yn siomedig fod y Gweinidog wedi diystyru nifer o lwybrau posibl eraill o blaid y llwybr du. Ond ein pryder mwyaf yw'r ffaith na chafodd un llwybr, y llwybr glas, ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hyd yn oed, er gwaethaf peth ystyriaeth cyn ymgynghori—rwy'n derbyn hynny.

Byron Davies, in a comprehensive contribution, kicking off this debate, called for an integrated transport system—a call echoed by Alun Davies. Fancy that—an integrated transport system. How often do we talk about that, but not actually do anything to make sure that that actually comes into fruition? This must be one of the aims of this Assembly. It would also be helpful if we had a spade-ready option, as Byron Davies said, rather than a scheme over which the timings of the delivery of that scheme are less than clear and could be held up in the courts.

Galwodd Byron Davies, yn ei gyfraniad cynhwysfawr i agor y ddadl hon, am system drafnidiaeth integredig-galwad a adleisiwyd gan Alun Davies. Meddyliwch wir-system drafnidiaeth integredig. Pa mor aml y siaradwn am hynny, a gwneud dim byd i sicrhau ei fod yn dwyn ffrwyth mewn gwirionedd? Rhaid i hyn fod yn un o amcanion y Cynulliad hwn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai gennym opsiwn parod i ddechrau, fel y dywedodd Byron Davies, yn hytrach na chynllun gydag amserlenni aneglur ar gyfer ei gyflawni ac a allai wynebu oedi yn y llysoedd.

Rhun ap Iorwerth called for an end—I would say 'echo', but I'm not supposed to say that there was an echo; there were a lot of echoes in the Chamber in this debate and other debates between Plaid Cymru and the Welsh Conservatives. You called for an end to the delays, and time to get the blue route onto the agenda is what you called for. As you've said, the black route is potentially a black hole into which the Assembly's finances could fall.

Galwodd Rhun ap Iorwerth—byddwn yn dweud 'adleisiodd', ond nid wyf i fod i ddweud fod yna adlais; roedd yna lawer o adleisiau yn y Siambr yn y ddadl hon a dadleuon eraill rhwng Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig. Fe alwoch am roi diwedd ar yr oedi, ac amser i gael y llwybr glas ar yr agenda. Fel y dywedasoch, mae'n bosibl mai twll du yw'r llwybr du, a gallai cyllid y Cynulliad gwympo i mewn iddo.

Let's look at the cost. The black route: an estimated cost of £1 billion, and that's just the estimate. It's interesting hearing some of the estimates for the blue route being pushed up whilst the estimates for the black route are being pushed down, almost against all the natural inflationary pressures that we've come to expect. So, let's not assume that that £1 billion estimate is where the final cost would be. In any case, the black route remains the most expensive option, and not only that, but as I said, it will, of course, cut across five sites of special scientific interest on the Gwent levels. We know that the Assembly will have access to early borrowing powers and that's been welcomed, but this will not cover the whole cost of the new road, so other transport schemes will have to be dealt with and have to be cut. What consequences will that have for transport schemes across the rest of Wales?

Gadewch i ni edrych ar y gost. Y llwybr du: cost amcangyfrifedig o £1 biliwn, ac amcangyfrif yn unig yw hynny. Mae'n ddiddorol clywed rhai o'r amcangyfrifon ar gyfer y llwybr glas yn cael eu gwthio i fyny tra bod yr amcangyfrifon ar gyfer y llwybr du yn cael eu gwthio i lawr, bron yn erbyn yr holl bwysau chwyddiannol naturiol rydym wedi dod i'w disgwyl. Felly, gadewch i ni ragdybio mai'r amcangyfrif hwnnw o £1 biliwn fydd y gost derfynol. Y llwybr du yw'r opsiwn drutaf o hyd beth bynnag, ac nid yn unig hynny, ond fel y dywedais wrth gwrs, bydd yn torri ar draws pum safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ar wastadeddau Gwent. Rydym yn gwybod y bydd y Cynulliad yn cael arfer pwerau benthyg cynnar ac mae hynny wedi ei groesawu, ond ni fydd hyn yn talu am gost gyfan y ffordd newydd, felly bydd yn rhaid ymdrin â chynlluniau trafnidiaeth eraill, a bydd yn rhaid eu torri. Beth fydd canlyniadau hynny i gynlluniau trafnidiaeth ar draws gweddill Cymru?

Antoinette Sandbach highlighted the lack of transparency, as she saw it. You brought your experience of the environment committee to this Chamber. I heard the Minister say that she'd given evidence to the environment committee and to other committees indeed, which is quite true. I know that, many times, the Minister has been robust with these committees. We think it's a shame that this decision was rushed into before the full consequence of the environmental committee report could be reported to this Chamber and could be dealt with by Assembly Members. So, yes, there was discussion at the environment committee. We all recognised and accepted that, but it is a shame that adequate time wasn't given for this Chamber to consider it.

Amlygodd Antoinette Sandbach y diffyg tryloywder, fel yr oedd hi'n ei weld. Daethoch â'ch profiad o bwyllgor yr amgylchedd i'r Siambr hon. Clywais y Gweinidog yn dweud ei bod wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgor yr amgylchedd ac i bwyllgorau eraill hefyd, sy'n hollol wir. Gwn fod y Gweinidog wedi bod yn gadarn gyda'r pwyllgorau hyn sawl gwaith. Credwn ei bod yn drueni ein bod wedi rhuthro'r penderfyniad cyn y gellid adrodd ar ganlyniadau llawn adroddiad pwyllgor yr amgylchedd i'r Siambr hon a'i drafod gan Aelodau'r Cynulliad. Felly, oedd, roedd yna drafodaeth ym mhwyllgor yr amgylchedd. Roeddem i gyd yn sylweddoli ac yn derbyn hynny, ond mae'n drueni na roddwyd digon o amser i'r Siambr hon ei ystyried.

Antoinette, you also drew attention to the Cardiff-centric nature of Welsh Government policy. The Welsh Government might deny that there is that Cardiff-centric nature, but that is certainly the perception out there, and we need a whole-Wales solution to our transport problems that delivers road schemes and rail schemes to other parts of Wales as well. Andrew R.T. Davies spoke of the importance of not forgetting the other parts of Wales. You mentioned mid Wales, south-west Wales and projects across all those. In many ways, you took Alun Davies's arguments about a regional solution and you put it into a national setting.

Antoinette, fe dynnoch chi sylw hefyd at natur Caerdydd-ganolog polisi Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gwadu bod natur Caerdydd-ganolog o'r fath yn bodoli, ond dyna'n sicr yw'r canfyddiad ar lawr gwald, ac mae angen ateb ar gyfer Cymru gyfan i'n problemau trafnidiaeth sy'n darparu cynlluniau ffyrdd a chynlluniau rheilffyrdd i rannau eraill o Gymru hefyd. Siaradodd Andrew RT Davies am bwysigrwydd peidio ag anghofio'r rhannau eraill o Gymru. Fe sonioch am ganolbarth Cymru, de-orllewin Cymru a phrosiectau ar draws yr ardaloedd hynny. Mewn sawl ffordd, fe gymeroch chi ddadleuon Alun Davies ynglŷn ag ateb rhanbarthol a rhoi cyd-destun cenedlaethol iddynt.

Now, we know that the Institute of Welsh Affairs have backed the blue route. The Federation of Small Businesses have spoken of the merits of the blue route and it would, of course, entail the upgrading of the A48 and the road through the city's former steelworks. Those arguments have been well-versed. I think part of the confusion surrounding the blue route is the misconception that it is an alternative motorway. It isn't. The blue route proposal recognises that we already have a motorway called the M4, which is adequate for a majority of the time, and seeks to provide a peak congestion, a rush-hour solution, a release valve, if you like, whatever form that takes. There is no doubt at all that the purchase of the steelworks road by the previous Minister made the blue route far more viable than it was before. I would urge any Assembly Members who've not been along that steelworks road to take a trip along it sometime. It is a fantastic investment. It's just such a shame that there was no follow-through afterwards from the Welsh Government, having made the initial investment, to develop it. But, as you say, there is still time. Yes, the blue route would require the demolition of some industrial buildings, some warehouses and the realignment of the existing road. But I find it strange that those arguments are used to outweigh the arguments that say that it is not right in this day and age to put a six-lane motorway through five areas of scientific interest across the Gwent levels, currently untouched by industry. So, I think we need a rebalancing of the argument.

Yn awr, gwyddom fod y Sefydliad Materion Cymreig wedi cefnogi'r llwybr glas. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi siarad am rinweddau'r llwybr glas ac wrth gwrs, byddai'n golygu uwchraddio'r A48 a'r ffordd drwy hen waith dur y ddinas. Mae'r dadleuon hynny wedi cael eu gwyntyllu'n dda. Rwy'n credu mai rhan o'r dryswch ynglŷn â'r llwybr glas yw'r camsyniad mai traffordd amgen ydyw. Nid yw hynny'n wir. Mae cynnig y llwybr glas yn cydnabod bod traffordd gennym eisoes, sef yr M4, sy'n ddigonol y rhan fwyaf o'r amser, ac sy'n ceisio darparu ateb ar gyfer tagfeydd brig, ateb oriau brig, falf rhyddhau, os mynnwch chi, ar ba ffurf bynnag. Nid oes amheuaeth o gwbl fod prynu'r ffordd i'r gwaith dur gan y Gweinidog blaenorol yn gwneud y llwybr glas yn llawer mwy addawol nag o'r blaen. Byddwn yn annog unrhyw Aelodau Cynulliad nad ydynt wedi bod ar hyd ffordd y gwaith dur i fynd ar hyd-ddi rywdro. Mae'n fuddsoddiad gwych. Yr unig drueni yw na wnaed gwaith dilynol wedyn ar ei datblygu gan Lywodraeth Cymru ar ôl gwneud y buddsoddiad cychwynnol. Ond fel y dywedwch, mae yna amser o hyd. Iawn, byddai'r llwybr glas yn galw am ddymchwel rhai adeiladau diwydiannol, rhai warysau ac ail-alinio'r ffordd bresennol. Ond rwy'n ei chael yn rhyfedd fod y dadleuon hynny'n cael eu defnyddio i orbwyso'r dadleuon sy'n dweud nad yw'n iawn yn yr oes sydd ohoni i roi traffordd chwe lôn drwy bump o ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol ar draws gwastadeddau Gwent sydd heb eu cyffwrdd hyd yma. Felly, rwy'n credu bod angen inni ail-gydbwyso'r ddadl.

Eluned Parrott gave a slight misquote. There are different versions of it. But, yes, we don't need—you look horrified at that suggestion, Eluned—a 1980s, I think you said '1970s', solution to a twenty-first century problem. This Assembly and devolution is about fresh thinking, approaching things from a new route and doing things that provide local solutions and help local people. Eluned Parrott, you also spoke about the well-known tendency of road building to increase car use. There is no doubt that that happens in the longer term, and we need a solution that fits in with more reliance on rail.

Cafwyd camddyfyniad bach gan Eluned Parrott. Mae gwahanol fersiynau ohono. Ond nac oes, nid oes arnom angen—rydych chi i weld yn arswydo at yr awgrym, Eluned—ateb o'r 1980au, rwy'n credu eich bod chi wedi dweud 1970au, i broblem unfed ganrif ar hugain. Mae'r Cynulliad hwn a datganoli yn ymwneud â syniadau newydd, mynd i'r afael â phethau o gyfeiriad newydd a gwneud pethau sy'n cynnig atebion lleol ac yn helpu pobl leol. Eluned Parrott, fe siaradoch chi hefyd am y duedd gyfarwydd o adeiladu ffyrdd er mwyn cynyddu'r defnydd o geir. Nid oes amheuaeth fod hynny'n digwydd yn y tymor hwy, ac mae angen ateb sy'n cydweddu'n well â mwy o ddibyniaeth ar y rheilffyrdd.

The metro system—this has not been mentioned enough. The metro system should be considered as part of the solution and, you know what, the Welsh Government can talk on the one hand about building roads if it wants to; it can talk on the other hand about investing in the metro and sustainable transport if it wants to; but what you can't say to the public is, 'We need both. We need to have an over-reliance on roads and, at the same time, we need to plough loads and loads more money into the metro system'. We need to make up our minds on that, and I personally am very excited by the metro scheme. I think that the Welsh Government is right to be looking at the metro and, yes, we are right to be looking at solutions to the M4 as well. But let's get away from this old top-down thinking, which won't actually deliver a sustainable solution in the long term, but in the meantime, it will destroy a part of Wales that I think is very important to us and very important to future generations, and which should be safeguarded at all costs.

Dylai'r system metro—nid yw hyn wedi cael ei grybwyll yn ddigonol. Dylid ystyried y system metro yn rhan o'r ateb, a wyddoch chi beth, gall Llywodraeth Cymru siarad ar y naill law ynghylch adeiladu ffyrdd os yw'n dymuno; gall siarad ar y llaw arall am fuddsoddi yn y metro a thrafnidiaeth gynaliadwy os yw'n dymuno; ond yr hyn na allwch ddweud wrth y cyhoedd yw, 'Mae arnom angen y ddau. Mae angen cael gorddibyniaeth ar ffyrdd ac ar yr un pryd, mae angen llwytho pentyrrau'n rhagor o arian i mewn i'r system metro'. Mae angen i ni benderfynu'n iawn ynglŷn â hyn, ac rwyf i'n bersonol yn gyffrous iawn ynghylch y cynllun metro. Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn iawn i edrych ar y metro, ac mae'n iawn inni edrych ar atebion i'r M4 hefyd. Ond gadewch i ni symud i ffwrdd o'r hen ffordd o feddwl o'r brig i lawr, nad yw'n mynd i gynnig ateb cynaliadwy yn y tymor hir mewn gwirionedd, ond yn y cyfamser, bydd yn dinistrio rhan o Gymru y credaf sy'n bwysig iawn i ni ac yn bwysig iawn i genedlaethau'r dyfodol, ac y dylid ei diogelu ar bob cyfrif.

I'm happy to support this motion.

Rwy'n hapus i gefnogi'r cynnig hwn.

15:50

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 6. Dadl Plaid Cymru: Caledi a'r Polisi Ariannol

## 6. Plaid Cymru Debate: Austerity and Fiscal Policy

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, amendment 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3 and 4 in the name of Jane Hutt. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected.*

15:50

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 6 is the Plaid Cymru debate on austerity and fiscal policy and I call on Leanne Wood to move the motion.

Eitem 6 yw dadl Plaid Cymru ar y polisi caledi a'r polisi cyllidol a galwaf ar Leanne Wood i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5678 Elin Jones

Motion NDM5678 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at yr effaith y mae'r polisi o lymder wedi'i gael ar gymunedau ledled Cymru, sydd wedi arwain at:

1. Regrets the impact the policy of austerity has had on communities throughout Wales, which has resulted in:

a) economi Cymru yn colli dros £1 biliwn drwy doriadau i amddiffyn cymdeithasol;

a) the loss of over £1 billion to the Welsh economy in cuts to social protection;

b) cynnydd yn nibyniaeth pobl ar fanciau bwyd;

b) an increase in the dependency of people on food banks;

c) toriadau i wariant llywodraeth leol sydd wedi arwain at gau asedau cymunedol a thynnu gwasanaethau yn ôl;

c) cuts to local government spending which has resulted in closure of community assets and the withdrawal of services;

d) cynnydd yn y bwlch cyfoeth rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf; ac

d) an increase in the wealth gap between the richest and poorest; and

e) parhad mewn anghydbwysedd economaidd gyda gorddibyniaeth parhaus ar wasanaethau ariannol a chyfoeth yn cael ei ganolbwyntio mewn un cornel o'r wladwriaeth Brydeinig.

e) the continuation of economic imbalance with a continued over-dependency on financial services and a concentration of wealth in one corner of the British state.

2. Yn galw am:

2. Calls for:

a) rhoi terfyn ar economeg o lymder;

a) an end to austerity economics;

b) ail-gydbwyso grym a chyfoeth o fewn y wladwriaeth Brydeinig;

b) a rebalancing of power and wealth within the British state;

c) mabwysiadu polisïau economaidd a fydd yn arwain at swyddi newydd mewn sectorau cynaliadwy;

c) the adoption of economic policies that will result in new jobs in sustainable sectors;

d) cynyddu'r isafswm cyflog i gyflog byw;

d) an increase of the minimum wage to that of the living wage;

e) rhoi terfyn ar ddatgymalu'r wladwriaeth les;

e) an end to the dismantling of the welfare state;

f) cydraddoldeb ariannol rhwng Cymru a'r Alban; a

f) financial parity for Wales with Scotland; and

g) datganoli ysgogiadau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

g) the devolution of fiscal levers to the National Assembly for Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr.

Thank you.

Austerity has become a commonly used word in politics today, so what does 'austerity' mean? The Oxford dictionary defines austerity as,

Mae cyni neu "austerity" yn Saesneg wedi dod yn eiriau a ddefnyddir yn gyffredin mewn gwleidyddiaeth heddiw, felly beth yw ystyr 'austerity'? Mae geiriadur Rhydychen yn diffinio 'austerity' fel hyn:

'difficult economic conditions created by government measures to reduce public expenditure'.

'amodau economaidd anodd a grëwyd gan fesurau llywodraeth i leihau gwariant cyhoeddus'.

But, what does it mean to the parents who are losing nursery or library services, or consultant-led services in their local hospital? Or to the older people who used to mitigate their loneliness by going to the local day centre that has now shut, or to one of the 40,000 people who were forced to use a food bank in the past six months? Austerity, for so many people, has meant hardship. It has meant pain, and there is a lot more of it to come.

Ond beth y mae'n ei olygu i rieni sy'n colli gwasanaethau meithrin neu lyfrgelloedd, neu wasanaethau meddygon ymgynghorol yn eu hysbyty lleol? Neu i'r bobl hŷn a oedd yn arfer lleddfu eu hunigrwydd drwy fynd i'r ganolfan ddydd leol sydd bellach wedi cau, neu i un o'r 40,000 o bobl a gafodd eu gorfodi i ddefnyddio banc bwyd yn ystod y chwe mis diwethaf? Mae caledi, i gynifer o bobl, wedi golygu adfyd. Mae wedi golygu poen, ac mae llawer mwy ohono i ddod.

The week before last, Members of Parliament from each of the three parties represented on the other side of this Chamber voted to sign up to Westminster's austerity charter. That charter commits to at least £30 billion of additional cuts. It's explicit about targeting those cuts at those with the least. Plaid Cymru voted against that charter because we simply cannot see how there can be more cuts to public services, more attacks on people's costs and standards of living.

Yr wythnos cyn diwethaf, pleidleisiodd Aelodau Seneddol o bob un o'r tair plaid ar ochr arall y Siambr hon dros gefnogi siarter caledi San Steffan. Mae'r siarter honno'n ymrwymo i o leiaf £30 biliwn o doriadau ychwanegol. Mae'n eglur ynghylch targedu'r toriadau hynny tuag at y rhai sydd â'r lleiaf. Pleidleisiodd Plaid Cymru yn erbyn y siarter yn syml am na allwn weld sut y gellir gwneud mwy o doriadau i wasanaethau cyhoeddus, mwy o ymosodiadau ar gostau pobl a safonau byw.

Many of the people I speak to are deeply concerned about what more cuts will mean. What services or safety net will we have left after five more years of this? So, why have people, and our public safety net, had to take such a hit? First of all, it's worth reiterating the point that Plaid Cymru has been making since the banks crashed in 2008: people bailed out the banks, and now the people themselves are paying the price for the bankers' mistakes. We must remember who is responsible for this crash. We know that it was not caused by the parents of small children now without nursery provision, or those unable to make ends meet because the minimum wage is too low. It was not caused by those children who can no longer have music or swimming lessons, or who no longer have a youth club, or playing facilities, or a local library, or those using food banks; while those who are largely responsible for the crash have been able to largely carry on untouched, continuing to reap big bonuses.

Mae llawer o'r bobl rwy'n siarad â hwy'n poeni'n fawr am yr hyn y bydd mwy o doriadau yn ei olygu. Pa wasanaethau neu rwyd ddiogelwch fydd ar ôl i ni ar ôl pum mlynedd arall o hyn? Felly, pam y bu'n rhaid i bobl, a'n rhwyd ddiogelwch cyhoeddus, ddioddef cymaint o ergyd? Yn gyntaf oll, mae'n werth ailadrodd y pwynt y mae Plaid Cymru wedi bod yn ei wneud ers cwymp y banciau yn 2008: y bobl a achubodd y banciau, ac yn awr mae'r bobl eu hunain yn talu'r pris am gamgymeriadau'r bancwyr. Rhaid i ni gofio pwy sy'n gyfrifol am y cwymp. Gwyddom na chafodd ei achosi gan rieni plant bach sydd heb ddarpariaeth feithrin mwyach, neu'r rheini na allant gael dau ben llinyn am fod yr isafswm cyflog yn rhy isel. Ni chafodd ei achosi gan y plant nad ydynt yn gallu cael gwersi cerddoriaeth neu wersi nofio mwyach, neu sydd heb glwb ieuenctid, neu gyfleusterau chwarae, neu lyfrgell leol, neu'r rhai sy'n defnyddio banciau bwyd; tra bo'r rhai sy'n bennaf gyfrifol am y cwymp wedi gallu dal ati i raddau helaeth heb eu cyffwrdd, a pharhau i ennill taliadau bonws mawr.

It's pretty obvious, from the point of fairness, who should be paying more. It's those who are instead being allowed by Government to avoid or evade paying a fair share of tax; those who are responsible for the UK being the only G7 country where the gap between richest and poorest is actually widening. So, has this austerity been worth all the pain? Has it achieved what it set out to achieve? The answer to those questions is 'no'.

Mae'n eithaf amlwg, o safbwynt tegwch, pwy ddylai fod yn talu mwy. Y rhai y mae'r Llywodraeth yn caniatáu iddynt osgoi talu cyfran deg o dreth; y rheini sy'n gyfrifol am y ffaith mai'r DU yw'r unig wlad G7 lle y mae'r bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf mewn gwirionedd yn lledu. Felly, a yw'r caledi hwn wedi bod yn werth yr holl boen? A yw wedi cyflawni'r hyn y bwriadai ei gyflawni? Yr ateb i'r cwestiynau hynny yw 'na'.

In 2010, the Chancellor had two principal goals: eliminating the deficit by 2015, and maintaining the UK's AAA credit rating. We're only approximately halfway to eliminating the deficit. Despite years of hurt and swingeing cuts, the UK's deficit is already over £86 billion for this financial year so far. The UK's debt is £1.4 trillion and it is growing. The coveted AAA credit rating has been downgraded by one agency. According to Credit Suisse, wealth inequality has risen four times faster in the seven years after the crash compared with the seven years before. This supports the case put forward by French economist, Thomas Piketty: the richest are getting richer quicker than ever before.

Yn 2010, roedd gan y Canghellor ddau brif nod: dileu'r diffyg erbyn 2015, a chynnal statws credyd AAA y DU. Rydym tua hanner ffordd yn unig tuag at ddileu'r diffyg. Er gwaethaf blynyddoedd o boen a thoriadau llym, mae diffyg y DU eisoes dros £86 biliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon hyd yma. Mae dyled y DU yn £14 triliwn ac mae'n tyfu. Mae'r statws credyd AAA chwenychedig wedi cael ei israddio gan un asiantaeth. Yn ôl Credit Suisse, mae anghydraddoldeb cyfoeth wedi codi bedair gwaith yn gyflymach yn ystod y saith mlynedd ar ôl y cwymp o'i gymharu â'r saith mlynedd cyn hynny. Mae hyn yn cefnogi'r achos a gyflwynodd yr economegydd Ffrengig, Thomas Piketty: mae'r cyfoethocaf yn tyfu'n gyfoethocach yn gynt nag erioed o'r blaen.

We should all be alarmed when the International Monetary Fund, of all people, are warning of the dangers of further austerity. It's worth noting, too, that the austerity plans of Tories and Labour differ only slightly, with Labour committed to further deep cuts in public expenditure, just as they had planned the 40% cuts to capital projects in their budget of March 2010.

Dylai pawb ohonom ddychryn pan fo'r Gronfa Ariannol Ryngwladol, o bawb, yn rhybuddio am beryglon caledi pellach. Mae'n werth nodi, hefyd, mai ychydig iawn o wahaniaethau sydd rhwng cynlluniau llymder y Torïaid a Llafur, gyda Llafur wedi ymrwymo i doriadau dwfn pellach mewn gwariant cyhoeddus, yn union fel roeddent wedi cynllunio toriadau o 40% i brosiectau cyfalaf yn eu cyllideb ym mis Mawrth 2010.

And it's not just here: the politics of austerity has dominated the thinking of European politics for some time. It's been presented to us as the only option. We are told, just as Mrs Thatcher told us, that there is no alternative. Those of us who are proposing an alternative approach are told that we are fantasists. I'm sure that the people of Greece don't see an anti-austerity approach as fantasy, and the result of the Greek elections means that now the whole of Europe must consider whether bailing out the financial system at the expense of jobs, public services and communities is really in the interests of our citizens.

Ac nid yma'n unig y mae'n digwydd: mae gwleidyddiaeth caledi wedi llywio ffordd o feddwl gwleidyddiaeth Ewropeaidd ers peth amser. Fe'i cyflwynwyd i ni fel yr unig opsiwn. Dywedir wrthym, yn union fel y dywedodd Mrs Thatcher wrthym, nad oes dewis arall. Mae'r rhai ohonom sy'n cynnig dull amgen yn cael ein galw'n ffantasïwyr. Rwy'n siŵr nad yw pobl Gwlad Groeg yn ystyried bod dull gwrth-gyni yn ffantasi, ac mae canlyniad etholiadau Groeg yn golygu bellach bod yn rhaid i Ewrop gyfan ystyried a yw achub croen y system ariannol ar draul swyddi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau o fudd i'n dinasyddion mewn gwirionedd.

Plaid Cymru does not accept that there is any inevitability about our poverty. In the same vein, we do not accept that austerity is inevitable, either. We have hope and we know that a different way is possible. So, what does Plaid Cymru's alternative to the damaging ideology of austerity look like? Firstly, redistribution. We want to place a legal duty on the Government for macroeconomic policy to be geared towards an equalising and levelling up of wealth per head, which would make for a much fairer economy in terms of prosperity and opportunity. Other measures that would follow on from this legal duty include a UK convergence fund, like there is in the European Union, where under-performing areas are supported. Industrial policy to sector-rebalance the economy away from financial services and towards manufacturing and advanced engineering. A system whereby areas with the lowest gross value added are prioritised for infrastructure spending and investment. We want the minimum wage to rise to the living wage, because a day's work should pay a fair wage. There's a principle to uphold here: no-one should work full time and not earn enough to live on—no-one.

Nid yw Plaid Cymru yn derbyn bod dim sy'n anochel ynglŷn â'n tlodi. Yn yr un modd, nid ydym yn derbyn bod caledi yn anochel ychwaith. Mae gennym obaith a gwyddom fod ffordd wahanol yn bosibl. Felly, sut beth yw dewis amgen Plaid Cymru yn lle ideoleg niweidiol caledi? Yn gyntaf, ailddosbarthu. Rydym am osod dyletswydd gyfreithiol ar y Llywodraeth i anelu polisi macroeconomaidd tuag at wneud cyfoeth y pen yn fwy cyfartal a gwastad, a fyddai'n creu economi lawer tecach o ran ffyniant a chyfle. Mae mesurau eraill a fyddai'n dilyn o'r ddyletswydd gyfreithiol hon yn cynnwys cronfa gydgyfeirio yn y DU, fel a geir yn yr Undeb Ewropeaidd, lle y mae ardaloedd sy'n tangyflawni yn cael cymorth. Polisi diwydiannol i ail-gydbwyso sectorau'r economi i ffwrdd oddi wrth y gwasanaethau ariannol a thuag at weithgynhyrchu ac uwch beirianneg. System lle y caiff ardaloedd gyda'r gwerth ychwanegol crynswth isaf eu blaenoriaethu ar gyfer gwariant ar seilwaith a buddsoddi. Rydym eisiau i'r isafswm cyflog godi i lefel cyflog byw, oherwydd dylai diwrnod o waith dalu cyflog teg. Mae yna egwyddor i'w chynnal yma: ni ddylai neb weithio amser llawn a methu ennill digon i fyw arno-neb.

15:58

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for taking an intervention. I want to welcome the comments you made on the living wage, but as you are now, as Jonathan Edwards described, in a pact, in a block with the Green Party, do you confirm that you reject their proposal to have a universal and minimum payment that would mean the tax threshold starting at £3,744, affecting over 70% of those on the minimum wage?

Diolch am dderbyn ymyriad. Rwyf am groesawu'r sylwadau a wnaethoch ar y cyflog byw, ond gan eich bod yn awr, fel y disgrifiodd Jonathan Edwards, mewn cytundeb, mewn bloc gyda'r Blaid Werdd, a ydych yn cadarnhau eich bod yn gwrthod eu cynnig i gael taliad cyffredinol a sylfaenol a fyddai'n golygu bod y trothwy treth yn dechrau ar £3,744, gan effeithio ar dros 70% o'r rheini sydd ar yr isafswm cyflog?

15:58

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would have thought, Mick Antoniw, that with your experience in politics, you would understand the differences between two political parties, even though they might be prepared to work and co-operate together. Plaid Cymru is not the Green Party.

Mick Antoniw, gyda'ch profiad mewn gwleidyddiaeth, fe fyddwn wedi tybied y byddech yn deall y gwahaniaethau rhwng dwy blaid wleidyddol, er y gallent fod yn barod i gydweithio a chydweithredu â'i gilydd. Nid Plaid Cymru yw'r Blaid Werdd.

Plaid Cymru believes that the public sector can be a force for good, and we reject this false contest between the private and the public sector. If rail services can provide improved services and better value for money in public hands, then so be it. If we want energy prices kept down all the time, not just after elections, then let's break the big six monopoly with a public company.

Mae Plaid Cymru yn credu y gall y sector cyhoeddus fod yn rym er daioni, ac rydym yn gwrthod y gystadleuaeth ffug rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Os gall gwasanaethau trên ddarparu gwasanaethau gwell a gwell gwerth am arian mewn dwylo cyhoeddus, boed fel y bo. Os ydym am gadw prisiau ynni i lawr drwy'r amser, nid ar ôl etholiadau'n unig, yna gadewch i ni dorri monopoli mawr y chwe chwmni drwy gael cwmni cyhoeddus.

Austerity and unfettered market economics is a choice, and where savings are made in public spending is a matter of choice, too. Plaid Cymru wants to end the £120 billion a year tax evasion and avoidance. Other parties would rather take billions out of social protection. While our own First Minister has engaged in an unedifying haggling process to get Scotland's rejected nuclear weapons relocated to Wales, Plaid Cymru wants to cancel the renewal of Trident weapons of mass destruction, saving £100 billion. Other parties here would rather freeze child benefit and exacerbate child poverty; Plaid Cymru wants to end tax relief for millionaire pensioners, saving £15 billion a year. Some parties would rather break up and sell off our NHS. Plaid Cymru wants to invest in it to make sure it's fit for now and for the future.

Mae caledi ac economeg ddilyffethair y farchnad yn ddewis, ac mae lle i wneud arbedion mewn gwariant cyhoeddus yn fater o ddewis hefyd. Mae Plaid Cymru eisiau rhoi terfyn ar y £120 biliwn a gollir bob blwyddyn drwy osgoi talu treth. Byddai'n well gan bleidiau eraill dynnu biliynau allan o nawdd cymdeithasol. Er bod ein Prif Weinidog ein hunain wedi cymryd rhan mewn proses fargeinio warthus i adleoli'r arfau niwclear y mae'r Alban yn eu gwrthod i Gymru, mae Plaid Cymru eisiau dileu'r broses o adnewyddu arfau dinistr torfol Trident, gan arbed £100 biliwn. Byddai'n well gan bleidiau eraill yma rewi budd-dal plant a gwaethygu tlodi plant; mae Plaid Cymru eisiau rhoi terfyn ar ostyngiad treth i bensiynwyr sy'n filiwnyddion, gan arbed £15 biliwn y flwyddyn. Byddai'n well gan rai pleidiau chwalu a gwerthu ein GIG. Mae Plaid Cymru eisiau buddsoddi ynddo i wneud yn siŵr ei fod yn addas ar gyfer y presennol ac ar gyfer y dyfodol.

Hand in hand with the choice as to whether or not London-based parties back austerity is whether or not they also back home rule for Wales. We can decide for ourselves if we want to follow a different course to Westminster's race to the bottom. By demanding and securing parity of powers and parity of resources for our country by gaining home rule, we can not only build the country our people want to see but also put in place the building blocks for the society that we want to create. Parity for resources means that Wales gets the same spending per head as Scotland, and why should we not? This would give us an additional £1.2 billion a year to invest in our country and in our communities. We're not asking for more than the going rate, but we should not be prepared to settle for anything less either.

Law yn llaw â'r dewis ynglŷn ag a yw pleidiau Llundain yn cefnogi caledi, mae'r dewis hefyd a ydynt yn cefnogi ymreolaeth i Gymru ai peidio. Gallwn benderfynu drosom ein hunain os ydym am ddilyn llwybr San Steffan ar ras i'r gwaelod. Drwy fynnu a sicrhau pwerau cyfartal a chydraddoldeb o ran adnoddau ar gyfer ein gwlad drwy ennill ymreolaeth, gallwn nid yn unig adeiladu'r wlad y mae ein pobl am ei gweld, ond hefyd gallwn roi'r cerrig sylfaen yn eu lle ar gyfer y gymdeithas rydym am ei chreu. Mae cydraddoldeb o ran adnoddau yn golygu bod Cymru'n cael yr un gwariant y pen â'r Alban, a pham na ddylem ei gael? Byddai hyn yn rhoi £1.2 biliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i'w fuddsoddi yn ein gwlad ac yn ein cymunedau. Nid ydym yn gofyn am fwy na'r raddfa gyfredol, ond ni ddylem fod yn barod i fodloni ar lai na hynny ychwaith.

Wales's needs are evident and Wales's disproportionate suffering at the hands of welfare reform, as demonstrated by the Wales Audit Office, has been made clear.

Mae anghenion Cymru yn amlwg ac mae dioddefaint anghymesur Cymru yn sgil diwygio lles, fel y dangoswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, wedi ei ddarlunio'n eglur.

I'll finish by saying this to the parties opposite: once you've made your choice on austerity and on home rule, I very much hope that you will have the courage to look the people of Wales in the eyes and justify your decision. It is duplicitous and hypocritical to make grand statements condemning the consequences of austerity in this Chamber and in your communities, only to then support your counterparts scurrying through the lobbies at Westminster to vote for more austerity and for more cuts and for more pain.

Fe orffennaf drwy ddweud hyn wrth y pleidiau gyferbyn: wedi i chi wneud eich dewis ynghylch caledi ac ymreolaeth, rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn ddigon dewr i edrych i fyw llygaid pobl Cymru a chyfiawnhau eich penderfyniad. Mae gwneud datganiadau mawreddog yn condemnio canlyniadau caledi yn y Siambr hon yn eich cymunedau, a chefnogi eich cyd-bleidwyr sy'n rhuthro drwy'r lobïau yn San Steffan i bleidleisio dros ragor o galedi a mwy o doriadau a mwy o boen yn dwyllodrus ac yn rhagrithiol.

As the leader of the Party of Wales, I can tell people in Wales today this without any hesitation: these are the values that guide us in Plaid Cymru. Plaid Cymru stands for investment, and not cuts. Plaid Cymru stands for the rebalancing of power and wealth, not austerity. Plaid Cymru stands for home rule, not London rule. And we want you to stand with us for these values and for Wales.

Fel arweinydd Plaid Cymru, gallaf ddweud hyn wrth bobl Cymru yma heddiw heb oedi dim: dyma'r gwerthoedd sy'n ein harwain ym Mhlaid Cymru. Mae Plaid Cymru yn sefyll dros fuddsoddi, nid toriadau. Mae Plaid Cymru yn sefyll dros ail-gydbwyso grym a chyfoeth, nid caledi. Mae Plaid Cymru yn sefyll dros ymreolaeth, nid rheolaeth Llundain. Ac rydym am i chi sefyll gyda ni dros y gwerthoedd hyn a thros Gymru.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected four amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected. I call on Mark Isherwood to move amendment 1 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Yn cydnabod yr angen am reolaeth economaidd ddarbodus gan lywodraethau ar bob lefel a'r angen i ddarparu sicrwydd economaidd i bobl Cymru a'r DU.*

*Recognises the need for prudent economic management by Governments at all levels and the need to deliver economic security for the people of Wales and the UK.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:02

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Responsible politics is about recognising the need for prudent economic management by Governments at all levels, in order to deliver economic security for the people of Wales and the UK. Greece's new left-wing nationalist anti-austerity administration is pledged to reneging on agreed terms set by lenders, reminding us that no lender will finance a left-wing nationalist anti-austerity party here with the same agenda.

Diolch. Mae gwleidyddiaeth gyfrifol yn ymwneud â chydnabod yr angen am reolaeth economaidd ddarbodus gan Lywodraethau ar bob lefel, er mwyn darparu sicrwydd economaidd i bobl Cymru a'r DU. Mae gweinyddiaeth newydd wrth-gyni adain chwith genedlaetholgar Gwlad Groeg yn addo cefnu ar y telerau cytunedig a osodwyd gan fenthycwyr, gan ein hatgoffa na fydd unrhyw fenthyciwr yn ariannu plaid wrth-gyni adain chwith genedlaetholgar gyda'r un agenda yma.

This UK Government faced hard choices, which, if not tackled, would have had lenders closing the door to the UK and therefore Wales. Britain had suffered the deepest recession since the 1930s, had the second biggest structural deficit of any advanced economy, and unemployment had increased by nearly £0.5 million. Thanks to the hard work of the people of Wales and Britain, public sector borrowing will fall from 10.2% of GDP in 2009-10 to 5% this year.

Wynebodd Llywodraeth bresennol y DU ddewisiadau anodd, a fyddai, pe nad eid i'r afael â hwy, wedi golygu bod benthycwyr yn cau'r drws ar y DU ac felly ar Gymru. Roedd Prydain wedi dioddef y dirwasgiad dyfnaf ers y 1930au, roedd ganddi'r diffyg strwythurol gwaethaf ond un o blith unrhyw un o'r economïau datblygedig, ac roedd diweithdra wedi cynyddu bron i £0.5 miliwn. Diolch i waith caled pobl Cymru a Phrydain, bydd cyfraddau benthyca'r sector cyhoeddus yn disgyn o 10.2% o'r cynnyrch domestig gros yn 2009-10 i 5% eleni.

It was 2005 when the International Monetary Fund criticised the then UK Labour Government's approach to public finances and called for fiscal consolidation, meaning spending cuts. The National Audit Office reported that Messrs Brown and Balls were warned three years before the financial crash that they needed to set up emergency plans to handle a banking crisis, but did nothing about it. We now know that Eds Miliband and Balls knew in 2007 the economy was going to crash in 2008 and wanted an early general election before the public found out. Organisation for Economic Co-operation and Development figures show the UK has had the fifth-smallest austerity programme amongst the top 20 developed nations, whereas countries that followed a path of borrow, bust and bail-out suffered higher cuts and the greatest squeeze on living standards.

Yn 2005, beirniadodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol agwedd Llywodraeth Lafur y DU ar y pryd tuag at gyllid cyhoeddus a galwodd am atgyfnerthu cyllidol, sy'n golygu toriadau yn y gwariant. Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod Mr Brown a Mr Balls wedi cael rhybudd dair blynedd cyn y cwymp ariannol fod angen iddynt sefydlu cynlluniau argyfwng i ddelio â'r argyfwng bancio, ond ni wnaethant ddim am y peth. Rydym bellach yn gwybod bod Ed Miliband ac Ed Balls yn gwybod yn 2007 fod yr economi yn mynd i fethu yn 2008 ac eisiau etholiad cyffredinol cynnar cyn i'r cyhoedd gael gwybod. Mae ffigurau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dangos mai'r DU oedd â'r rhaglen galedi leiaf ond pedair o blith yr 20 gwlad fwyaf datblygedig, tra bod gwledydd a ddilynodd lwybr o fenthyca, methu a chael eu hachub wedi dioddef toriadau gwaeth a'r wasgfa fwyaf ar safonau byw.

Labour claims that Conservative plans would take spending back to the levels of the 1930s, but the independent Office for Budget Responsibility confirms that this would mean spending on public services at the level it was in 2002-03 under Labour. The poverty gap between the richest and poorest widened under Labour. However, ONS figures last May showed that UK wealth and inequality was broadly the same as in 2006. The top tax rate has been high in every month of this UK Government and in all but one month of the previous Labour Government's 154 months in power, and the richest 1% now pay 30% of income tax—a record high. The top 5% of earners now pay 50% of tax; the bottom 50% pay only 10% of tax.

Mae Llafur yn honni y byddai cynlluniau'r Ceidwadwyr yn mynd â gwariant yn ôl i lefelau'r 1930au, ond mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol yn cadarnhau y byddai hyn yn golygu gwariant ar wasanaethau cyhoeddus ar y lefel yr oedd yn 2002-03 o dan Lafur. Lledodd y bwlch tlodi rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf o dan Lafur. Fodd bynnag, mae ffigurau ONS ar gyfer mis Mai diwethaf yn dangos bod cyfoeth ac anghydraddoldeb yn y DU yr un fath yn fras ag yn 2006. Mae'r gyfradd dreth uchaf wedi bod yn uchel ym mhob mis y bu Llywodraeth bresennol y DU mewn grym ac ym mhob un ond un mis o'r 154 mis blaenorol pan oedd Llywodraeth Lafur mewn grym, ac mae'r 1% cyfoethocaf yn awr yn talu 30% o'r dreth incwm—y lefel uchaf erioed. Mae'r 5% sy'n ennill fwyaf bellach yn talu 50% o'r dreth; nid yw'r 50% isaf ond yn talu 10% o'r dreth.

Between 1998 and 2008, 90% of private sector jobs were created in London and south England. Since 2010, 75% have been outside London and the vicinity. Some 1.75 million more people are working and a record 30.8 million are now in work. Three quarters of the new jobs are full time, and wages, excluding bonuses, are rising faster than inflation. There are 760,000 more businesses and 25,000 business start-up loans have been approved, including 712 across Wales, and a future Conservative Government would triple that by 2020. A fortnight ago, the head of the IMF said that the UK is leading the way internationally, and last week the EY ITEM Club upgraded their 2015 and 2016 growth forecasts for the UK economy and said that real disposable incomes will rise by 3.7% this year.

Rhwng 1998 a 2008, crëwyd 90% o swyddi'r sector preifat yn Llundain a de Lloegr. Ers 2010, mae 75% wedi bod y tu allan i Lundain a'r cyffiniau. Mae tua 1.75 miliwn yn fwy o bobl yn gweithio ac mae mwy nag erioed o'r blaen, 30.8 miliwn, bellach mewn gwaith. Mae tri chwarter y swyddi newydd yn rhai amser llawn, ac mae cyflogau, ac eithrio taliadau bonws, yn codi'n gyflymach na chwyddiant. Ceir 760,000 yn fwy o fusnesau a chymeradwywyd 25,000 o fenthyciadau cychwyn busnes, gan gynnwys 712 ar draws Cymru, a byddai Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol yn treblu'r nifer erbyn 2020. Bythefnos yn ôl, dywedodd pennaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol fod y DU yn arwain y ffordd yn rhyngwladol, a'r wythnos diwethaf uwchraddiodd yr EY ITEM Club eu rhagolygon twf ar gyfer yr economi yn 2015 a 2016 a dweud y bydd incwm gwario gwirioneddol yn codi 3.7% eleni.

However, the problems in the eurozone are a reminder that the warning lights are flashing on economies across the globe. The global economy is still struggling, with the eurozone teetering on the brink of a possible third recession, emerging markets slowing down, and challenges in Russia and the Ukraine.

Fodd bynnag, mae'r problemau yn ardal yr ewro yn ein hatgoffa bod y goleuadau rhybudd yn fflachio ar economïau ar draws y byd. Mae'r economi fyd-eang yn dal i wynebu trafferthion, gydag ardal yr ewro yn gwegian ar y dibyn i drydydd dirwasgiad posibl, gyda marchnadoedd sy'n datblygu yn arafu, a heriau yn Rwsia a'r Wcráin.

The head of the independent Institute for Fiscal Studies has warned that Labour policy risks adding £170 billion to the national debt by 2030, threatening the UK's economic security and the economic security of everyone living here, leaving us hamstrung in the event of an economic downturn. When it comes to all the day-to-day spending that Government does, for instance, on health, welfare and pensions, Conservatives plan to balance the books by 2017-18. In Canada and Sweden, centre-left Governments put in place surplus rules after budget crises. They had amongst the strongest public finances of all major economies during the recent crisis and have not had to make significant cuts to public services. Lying in the shade of their mythical money tree, Plaid Cymru have slept through the lessons learned in the high-debt eurozone economies that borrowers borrow but lenders set the terms. If Plaid Cymru got their way, debt would be even higher, and, if a real economic storm hit again, the fallout would be—

Mae pennaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid annibynnol wedi rhybuddio bod perygl y gallai polisi Llafur ychwanegu £170 biliwn at y ddyled genedlaethol erbyn 2030, gan fygwth diogelwch economaidd y DU a diogelwch economaidd pawb sy'n byw yma, gan ein gadael mewn sefyllfa amhosibl pe bai dirywiad economaidd yn digwydd. O ran holl wariant y Llywodraeth o ddydd i ddydd, er enghraifft, ar iechyd, lles a phensiynau, mae'r Ceidwadwyr yn cynllunio i gydbwyso'r llyfrau erbyn 2017-18. Yng Nghanada a Sweden, mae Llywodraethau i'r chwith o'r canol wedi rhoi rheolau arian dros ben ar waith ar ôl argyfyngau cyllidebol. Roedd ganddynt gyllid cyhoeddus a oedd ymhlith y cryfaf o'r holl economïau mawr yn ystod yr argyfwng diweddar ac nid ydynt wedi gorfod gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus. Yng nghysgod eu coeden arian chwedlonol, mae Plaid Cymru wedi cysgu drwy'r gwersi a ddysgwyd gan economïau â dyledion mawr yn ardal yr ewro fod y rhai sy'n cael benthyg yn benthyca, ond y rhai sy'n rhoi benthyg sy'n gosod y telerau. Pe bai Plaid Cymru yn cael eu ffordd, byddai'r ddyled hyd yn oed yn fwy, a phe bai storm economaidd go iawn yn taro unwaith eto, byddai'r canlyniadau'n—-

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish please.

Gorffennwch os gwelwch yn dda.

16:08 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—catastrophic.

[Yn parhau.]—drychinebus.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*1. Yn nodi yr etifeddodd Llywodraeth Glymblaid y DU y diffyg ariannol mwyaf erioed mewn cyfnod o heddwch.*

*2. Yn croesawu, diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth Glymblaid y DU:*

*a) bod y diffyg yn y gyllideb wedi cael ei haneru;*

*b) bod buddsoddiad net y sector cyhoeddus yn uwch fel cyfran o CMC nag yr oedd rhwng 1997 a 2010;*

*c) bod 1.8 miliwn o swyddi wedi cael eu creu;*

*d) bod treth incwm wedi cael ei thorri £800 ar gyfer 1.2 miliwn o weithwyr yng Nghymru sydd ar incwm isel a chanolig drwy godi trothwy'r dreth incwm i £10,500, gan arbed 153,000 o bobl rhag talu treth incwm yn gyfan gwbl;*

*e) bod y Banc Buddsoddi Gwyrdd cyntaf yn y byd wedi cael ei sefydlu.*

*f) bod cyflogwyr yn cael £2,000 o arian yn ôl ar y dreth y maent yn ei thalu ar eu gweithwyr.*

*g) y dilëwyd cynlluniau i dalu llai i weithwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru dim ond am eu bod yn byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr.*

*h) bod y gyfradd gyflogaeth ar y lefel uchaf erioed o £30.8 miliwn, yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.*

*i) bod tâl rheolaidd wedi cynyddu 1.8 y cant a thâl yn y sector preifat wedi cynyddu 2.2 y cant, sy'n cynrychioli cynnydd uwch na chwyddiant mewn cyflogau gweithwyr, yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.*

*3. Yn credu:*

*a) na all rhaglen flaengar gael ei darparu gan Lywodraeth sy'n fethdalwr;*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Delete all and replace with:*

*1. Notes that the UK Coalition Government inherited the largest peacetime deficit in history.*

*2. Welcomes that thanks to the Liberal Democrats in the UK Government:*

*a) the budget deficit has been halved;*

*b) public sector net investment is higher as a proportion of GDP than it was between 1997 and 2010;*

*c) 1.8 million jobs have been created;*

*d) income tax has been cut by £800 for 1.2 million low and middle income Welsh workers by raising the income tax threshold to £10,500, taking 153,000 people out of paying income tax altogether;*

*e) the world's first Green Investment Bank has been established;*

*f) employers receive £2,000 cash back on the tax they pay on their employees; and*

*g) plans to pay Welsh public sector workers less for simply living outside London and south-east England have been scrapped;*

*h) The rate of employment is at a record high of 30.8 million, according to Office of National Statistics figures;*

*i) Regular pay is up 1.8 per cent and private sector pay is up 2.2 per cent, representing above inflation wage increases for workers' pay, according to Office of National Statistics figures.*

*3. Believes that:*

*a) a progressive agenda cannot be delivered by a bankrupt Government;*

*b) na fyddai mynnu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth San Steffan yn bosibl yng nghyd-destun Cymru annibynnol; ac*

*b) that demanding additional funding from the Westminster Government would not be possible in the context of an independent Wales; and*

*c) y dylem gydbwyso'r gyllideb erbyn 2018, torri trethi ar gyfer pobl sy'n ennill cyflogau isel a chanolig a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus digonol ar gael, gan greu cyfleoedd i bawb.*

*c) we should balance the budget by 2018, cut taxes for low and middle earners and ensure decent public services, creating opportunity for everyone.*

*4. Yn galw am:*

*4. Calls for:*

*a) lleihad teg yn y diffyg ariannol drwy sicrhau bod pobl sy'n ennill cyflogau uchel a'r bobl gyfoethocaf yn talu eu rhan, gan gynnwys drwy gyflwyno treth plastai wedi'i fandio;*

*a) fair deficit reduction through ensuring high earners and the wealthiest pay their share, including through the introduction of a banded mansion tax;*

*b) rheolau ariannol newydd i gydbwyso'r gyllideb wrth ganiatáu ar gyfer buddsoddi cynhyrchiol;*

*b) new fiscal rules to balance the budget while allowing for productive investment;*

*c) toriad pellach o £400 yn y dreth incwm ar gyfer pobl sydd ar gyflog isel a chanolig;*

*c) a further cut of £400 on income tax for low and middle earners;*

*d) gweithredu cynigion Silk Rhan 1 ar bwerau ariannol i Gymru yn llawn; a*

*d) full implementation of the Silk Part 1 proposals on financial powers for Wales; and*

*e) cyllid teg i Gymru, drwy gynyddu grant bloc Cymru i lefel deg dros gyfnod Senedd a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd drwy sefydlu llawr Barnett ar lefel sy'n adlewyrchu'r angen i Gymru gael ei hariannu'n deg.*

*e) fair funding for Wales, by increasing the Welsh block grant to an equitable level over a Parliament and address the imbalance by immediately entrenching a Barnett floor set at a level which reflects the need for Wales to be funded fairly.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

16:08

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 2 in the name of Aled Roberts. My Liberal Democrat colleagues in London are not making tough financial decisions because of ideology. Financial discipline is not ideological; it's absolutely crucial for effective government, and the coalition inherited the largest peacetime deficit in history—that must not be forgotten. In March 2010, Alistair Darling, the Labour Chancellor of the Exchequer, said that, if Labour were re-elected, public spending cuts would be tougher and deeper than those implemented by Margaret Thatcher. Those promised cuts from Alistair Darling and Labour would inevitably have led to a cut in the Welsh block grant. Labour Members in this Chamber cannot ignore that fact no matter how much they would like to. The fact that health is ring-fenced in England means that the Welsh Government may have faced bigger cuts in the Welsh block grant if Labour had somehow won the election. That said, we do need to sort out the issue of fair funding for Wales. The Welsh Liberal Democrats are the only party to put forward a credible and affordable plan to do this by updating the work of Holtham and topping up the grant over the next Parliament.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 2 yn enw Aled Roberts. Nid yw fy nghydweithwyr ymhlith y Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn gwneud penderfyniadau ariannol anodd oherwydd ideoleg. Nid yw disgyblaeth ariannol yn ideolegol; mae'n gwbl hanfodol er mwyn cael llywodraeth effeithiol, ac etifeddodd y glymblaid y diffyg mwyaf a welwyd erioed mewn cyfnod o heddwch—rhaid i ni beidio ag anghofio hynny. Ym mis Mawrth 2010, dywedodd Alistair Darling, Canghellor Llafur y Trysorlys, pe bai Llafur yn cael eu hail-ethol, y byddai'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn galetach ac yn ddyfnach na'r rhai a weithredwyd gan Margaret Thatcher. Byddai'r toriadau hynny a addawyd gan Alistair Darling a Llafur yn anochel wedi arwain at doriad yn y grant bloc i Gymru. Ni all Aelodau Llafur yn y Siambr hon anwybyddu'r ffaith honno ni waeth faint y byddent yn hoffi gwneud hynny. Mae'r ffaith fod arian iechyd yn Lloegr wedi'i glustnodi yn golygu y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi wynebu toriadau mwy yn y grant bloc i Gymru pe bai Llafur, rywsut, wedi ennill yr etholiad. Wedi dweud hynny, mae angen i ni roi trefn ar broblem ariannu teg i Gymru. Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw'r unig blaid i gyflwyno cynllun credadwy a fforddiadwy i wneud hyn drwy ddiweddaru gwaith Holtham ac ychwanegu at y grant dros y Senedd nesaf.

It has been interesting to observe the relationship that Plaid Cymru have had with French President François Hollande. When he was first elected in 2012, they talked about him a lot. When France's economy started to stall and unemployment grew, that changed. Figures released yesterday showed France's unemployment levels are at record levels: 11.1%. Over 3.3 million French workers are claiming unemployment benefit. It's probably not surprising they don't talk about Mr Hollande any more. But things are looking much better this side of the channel. The ONS announced yesterday that GDP grew by 0.5% in the fourth quarter of 2014. GDP is now above pre-2008 crash levels. Last week, we heard that 30.8 million people are in work in the UK—more than ever before—and there are around 700,000 job vacancies across the country. That's a rise in employment of 37,000 between September and November 2014, compared to June to August 2014, and a rise of 512,000 on this time last year.

Mae wedi bod yn ddiddorol sylwi ar y berthynas sydd rhwng Plaid Cymru ac Arlywydd Ffrainc, François Hollande. Pan gafodd ei ethol gyntaf yn 2012, roeddent yn sôn llawer amdano. Pan ddechreuodd economi Ffrainc rygnu ac wrth i ddiweithdra dyfu, newidiodd hynny. Mae ffigurau a ryddhawyd ddoe yn dangos bod lefelau diweithdra Ffrainc yn uwch nag erioed: 11.1%. Mae dros 3.3 miliwn o weithwyr Ffrainc yn hawlio budd-dal diweithdra. Mae'n debyg nad yw'n syndod nad ydynt yn siarad am Mr Hollande mwyach. Ond mae pethau'n edrych yn llawer gwell yr ochr hon i'r sianel. Cyhoeddodd yr ONS ddoe fod y cynnyrch domestig gros wedi tyfu 0.5% ym mhedwerydd chwarter 2014. Mae'r cynnyrch domestig gros yn awr yn uwch na'r lefel cyn y cwymp yn 2008. Yr wythnos diwethaf, clywsom fod 30.8 miliwn o bobl yn gweithio yn y DU—mwy nag erioed o'r blaen—ac mae tua 700,000 o swyddi gwag ar draws y wlad. Dyna gynnydd mewn cyflogaeth o 37,000 rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2014, o'i gymharu â Mehefin i Awst 2014, a chynnydd o 512,000 o gymharu â'r adeg hon y llynedd.

A record number of women are in work—14.4 million, 68.2%. Unemployment is now at 5.8%—the lowest level in six years. The number of unemployed has fallen by 600,000 since 2010. Pay is now rising faster than inflation. Compared to this time last year, pay is up 1.7%, whilst consumer price index inflation is 0.5%. Youth unemployment has fallen by 171,000 in the last year. The number of young people claiming jobseeker's allowance has fallen every month for the past three years and is at its lowest level since the 1970s.

Mae'r nifer uchaf erioed o fenywod mewn gwaith—14.4 miliwn, sef 68.2%. Mae diweithdra yn awr yn 5.8%—y lefel isaf ers chwe blynedd. Mae nifer y di-waith wedi gostwng 600,000 ers 2010. Mae cyflog yn awr yn codi'n gyflymach na chwyddiant. O'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae cyflogau wedi cynyddu 1.7%, tra bo chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr yn 0.5%. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi gostwng 171,000 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y bobl ifanc sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith wedi gostwng bob mis am y tair blynedd diwethaf ac ar ei lefel isaf ers y 1970au.

Here in Wales, there are 22,000 fewer unemployed people since 2010. All this positive news would not have happened without Liberal Democrats in Government, building a stronger economy and taking these tough decisions. To paraphrase the Lib Dem Business Secretary, Vince Cable, a progressive agenda cannot be delivered by a bankrupt Government.

Yma yng Nghymru, mae 22,000 yn llai o bobl yn ddi-waith ers 2010. Ni fyddai'r holl newyddion cadarnhaol hwn wedi digwydd heb y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth, yn adeiladu economi gryfach ac yn gwneud y penderfyniadau anodd hyn. I aralleirio Ysgrifennydd Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol, Vince Cable, nid oes modd i Lywodraeth sy'n fethdalwr ddarparu rhaglen flaengar.

I'm not a fan of austerity; no-one with an ounce of compassion could be, but I'm also not a fan of burying your head in the sand and pretending we do not have to deal with issues like deficit and debt. If we don't deal with them, it would have a catastrophic impact on the stability of our economy, and, as a result, a catastrophic impact on the future of our children. Thank you.

Nid wyf yn cefnogi caledi; ni fyddai neb ag owns o dosturi yn ei gefnogi, ond nid wyf yn cefnogi claddu eich pen yn y tywod ac esgus nad oes yn rhaid i ni ddelio â phroblemau fel diffyg a dyled ychwaith. Os nad ydym yn delio â hwy, byddai'n cael effaith drychinebus ar sefydlogrwydd ein heconomi, ac o ganlyniad, yn cael effaith drychinebus ar ddyfodol ein plant. Diolch yn fawr.

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business to move formally amendments 3 and 4 tabled in her name.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig yn ffurfiol gwelliannau 3 a 4 a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*Amendment 3—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 1c) dileu 'toriadau i wariant llywodraeth leol' a rhoi yn ei le 'y toriad digyffelyb o £1.5 biliwn gan Lywodraeth y DU i Grant Bloc Llywodraeth Cymru';*

*In point 1c) delete 'cuts to local government spending' and replace with 'the unprecedented £1.5bn cut by the UK Government to the Welsh Government Block Grant';*

*Gwelliant 4—Jane Hutt*

*Amendment 4—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2f) a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2f) and replace with:*

*setliad ariannol teg ar frys i Gymru gan weithredu cyllid gwaelodol a fydd yn arwain at fwy o gydraddoldeb ariannol â'r Alban a gweddill y DU;*

*a fair funding settlement urgently for Wales with the implementation of a funding floor, leading to greater financial parity with Scotland and the rest of the UK;*

*Cynigiwyd gwelliannau 3 a 4.*

*Amendments 3 and 4 moved.*

16:11

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Formally.

16:12

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth sôn am gysylltiadau gwleidyddol, mae'n ddiddorol iawn, wrth gwrs, fod Peter Black wedi cyflwyno araith o bum munud heb gyfeirio unwaith at Nick Clegg. Mae'n siŵr bod yna reswm am hynny hefyd.

Talking about political connections, it is very interesting, of course, that Peter Black has presented a speech of five minutes without referring once to Nick Clegg. I am sure that there is a reason for that also.

Roedd yna gyhuddiad—

There was an allegation—

*Peter Black a gododd—*

*Peter Black rose—*

16:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, after 20 seconds.

Peter Black, ar ôl 20 eiliad.

16:12

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I apologise for missing the very important role that Nick Clegg played in this programme? [Laughter.]

A gaf fi ymddiheuro am fethu'r rôl bwysig iawn a chwaraeodd Nick Clegg yn y rhaglen hon? [Chwerthin.]

16:12

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's very easily missed. [Laughter.]

Byddai'n hawdd iawn ei fethu. [Chwerthin.]

Roedd yna gyhuddiad gwleidyddol a oedd yn boblogaidd iawn degawdau yn ôl pan ddechreuais i yn y byd gwleidyddol, lle'r oedd gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol yn aml iawn yn cael eu cyhuddo o wybod cost pob peth, ond eu bod yn methu â sylweddoli gwerth unrhyw beth. Fe ddaeth y cyhuddiad hwnnw yn ôl i'm meddwl i wrth wrando ar Mark Isherwood a oedd yn amlwg iawn yn ymwybodol o gost pob peth ond yn methu â gweld beth oedd oblygiadau toriadau llym i gyllideb o ran gwerth y math o wasanaethau sy'n hanfodol i lawer iawn o bobl yn ein cymunedau ni. Oherwydd, pan rydym yn colli gwasanaethau, rydym yn colli gwasanaethau y mae'r bobl fwyaf bregus ein cymunedau ni yn gwbl ddibynnol arnyn nhw.

There was a political allegation that was very popular decades ago when I started my work in the political sphere, whereby politicians and political parties were often accused of knowing the cost of everything, but the value of nothing. That allegation came back to mind when I listened to Mark Isherwood, who was very clearly aware of the cost of everything, but could not see what the implications of the swingeing cuts were in terms of the value of the kinds of services that are crucial to many people in our communities. Because, when we lose services, we lose services that the most vulnerable people in our communities are entirely dependent upon.

Wrth wrando ar Leanne Wood yn cyflwyno'r ddadl yma, roedd yn ddiddorol i weld bod llawer iawn o'r gwasanaethau yr oedd hi'n sôn amdanyn nhw sydd yn prysur ddiflannu yn wasanaethau sydd yn cael eu cyflwyno i'n cymunedau ni un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan ein hawdurdodau lleol ni. Yr hyn yr ydym yn ei weld, wrth gwrs, gyda'r toriadau llym yma, yw bod y toriadau'n cael eu cyflwyno yn San Steffan gan y glymblaid yn y fan honno, yn cael eu trosglwyddo wedyn i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn y fan hon, ond wedyn yn cael eu trosglwyddo ymlaen i awdurdodau lleol, ac awdurdodau lleol yn gorfod gwneud y penderfyniadau anodd ynglŷn â'r peth sydd yn mynd i gael ei dorri a pha wasanaeth y maen nhw'n gorfod ei atal er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu creu cyllidebau cytbwys sydd yn gynaliadwy yn lleol. Rydym yn gweld, yn ddyddiol bron, trafodaethau ar lefel leol ynglŷn â gwasanaethau sydd yn gorfod cael eu hatal oherwydd y toriadau yma.

In listening to Leanne Wood putting forward this debate, it was interesting to see that very many of the services that she mentioned that are rapidly disappearing are services that are offered in our communities either wholly or partly by our local authorities. What we see, of course, with these swingeing cuts, is that the cuts are made in Westminster by the coalition in that place, are then passed on to the budget of the Government in the Assembly here, but then passed on again to local authorities, and local authorities have to make the difficult decisions about what is to be cut and what service they are going to have to stop in order to ensure that they can balance their budgets and have sustainable budgets on a local level. We seen, on a daily basis almost, discussions on a local level about services that have to be stopped because of these cuts.

Pan fo awdurdodau lleol yn wynebu'r mathau hynny o benderfyniadau anodd, un o'r pethau sydd ei angen arnyn nhw ydy sicrwydd: sicrwydd am y dyfodol—yn y tymor byr, yn y tymor canol ac yn y tymor hir—eu bod nhw'n gallu gweld eu dyfodol nhw, dyfodol eu cyllidebau nhw, a gwybod sut y gallan nhw wneud toriadau a fydd ddim, yn y pen draw, yn dinistrio y strwythurau y maen nhw wedi'u creu y tu mewn i'w cymunedau. Ond yr hyn rŷm ni wedi'i weld, yn enwedig yn natganiad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ddoe, yw bod y sicrwydd hwnnw wedi cael ei danseilio'n llwyr. Fe roedd awdurdodau lleol wedi cael cais gan Lywodraeth Cymru i ddatgan diddordeb mewn cyfuniadau gwirfoddol, ac fe ddaeth chwech o gynghorau a gwneud hynny. Fe wrthodwyd pob un o'r ceisiadau hynny, er bod un ohonyn nhw yng nghyd-destun y dymuniad am gyfuniad gwirfoddol rhwng siroedd Dinbych a Chonwy—yn unol â'r hyn yr oedd y Prif Weinidog yn dweud oedd y gefnlen ar gyfer dyfodol awdurdodau lleol, sef comisiwn Williams a'i argymhellion ef. Felly, mae awdurdodau lleol, sydd yn gorfod dioddef effeithiau'r toriadau ariannol yma, nawr mewn sefyllfa lle nad ŷn' nhw ddim yn gwybod beth yw eu dyfodol nhw. Y cyfan y maen nhw'n gallu ei wneud ydy ceisio creu cyllidebau cytbwys yn y tymor byr.

When local authorities face those kinds of difficult decisions, one of the things that they need is certainty: certainty about the future—in the short term, in the medium term and in the long term—that they can see their future, the future of their budgets, and know how they can make cuts that won't ultimately destroy those structures that they have created within their communities. But what we've seen, especially in the Minister for Public Services' statement yesterday, is that those assurances have been undermined entirely. Local authorities had received a request from the Welsh Government to declare an interest in voluntary mergers, and six of those councils did as much. All of those bids were rejected, even though one of them was in the context of a desire for a voluntary merger between the counties of Denbighshire and Conwy—in accordance with what the First Minister said was the backdrop for the future of local authorities, namely the Williams commission and his recommendations. Therefore, local authorities, which have to suffer the effects of these financial cuts, are now in a position where they don't know what their future is. All they can do is try to create balanced budgets in the short term.

Mae hynny'n mynd i arwain at weld gwasanaethau hanfodol yn diflannu yn ein cymunedau ni. Nid oes yna neb yn cynorthwyo yr awdurdodau lleol hynny i geisio cynllunio ar gyfer y dyfodol, i geisio gwneud y gorau o'r sefyllfa anodd y maen nhw wedi ei hetifeddu. Nid oes yna neb yn eu cynnal nhw yn y penderfyniadau anodd sy'n eu hwynebu nhw. Y bobl sy'n mynd i ddioddef o ganlyniad i hynny yw'r bobl fregus hynny yn ein cymunedau ni sydd yn dibynnu ar lyfrgelloedd, sydd yn dibynnu ar glybiau cinio—

That is going to lead to seeing crucial services disappearing in our communities. There is no-one supporting those local authorities to try to plan for the future, to try to make the best of this difficult situation that they have inherited. There is no-one to support them in these difficult decisions that face them. The people who are going to suffer as a result of that are those vulnerable people in our communities, who are dependent on libraries, who are dependent on dining clubs—

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Finish, please.

16:17

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Fe wnes i dderbyn un ymyrraeth gan Peter Black.

I did allow one intervention from Peter Black.

16:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You did. You still need to finish.

16:17 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ac felly, fe ddof i at derfyn fy nghyfraniad i, sef os ŷm ni am sylweddoli gwerth y gwasanaethau y mae ein hawdurdodau lleol ni yn eu cyflawni, hyd yn oed yn y cyd-destun yma o doriadau llym, mae angen cynhaliaeth ac mae angen sicrwydd arnyn nhw, ac mae yna gyfrifoldeb arnom ni i gynnig y sicrwydd hwnnw iddyn nhw.

And so, I will bring my contribution to a conclusion, which is that if we want to realise the value of the services that our local authorities are delivering, even in this context of swingeing cuts, there needs to support and certainty for them, and there is a responsibility on us to offer that certainty to them.

16:17 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with Leanne Wood that nobody who's working full time should not have enough to live on. What a disgraceful statistic that is, and yet it's an absolute truism. We've only got to look at the numbers now claiming housing benefit: up from just over 4 million in November 2008 to over 5 million in February 2014. Whilst, numerically, there may be more of such people living in other parts of the country, proportionately, there are more of them in Wales. So, there are now 10,000 more people on housing benefit than there were before, and these are people who are, in the main, working, but simply not earning enough to pay their rent. So, I cannot agree with the analysis presented by Mark Isherwood that the strategy of the UK coalition Government is a panacea leading to a healthy economy. We do not have a healthy economy. Since the crash caused by the bankers' blow-out, we still do not have an economy that is re-engineered towards manufacturing and away from the service sector. We still have an economy that is built on personal debt.

Rwy'n cytuno â Leanne Wood na ddylai neb sy'n gweithio amser llawn fethu cael digon i fyw arno. Am ystadegyn gwarthus yw hwnnw, ac eto mae'n berffaith wir. Nid oes ond angen i ni edrych ar y niferoedd sydd bellach yn hawlio budd-dal tai: i fyny o ychydig dros 4 miliwn ym mis Tachwedd 2008 i dros 5 miliwn ym mis Chwefror 2014. Er y gallai fod mwy o bobl o'r fath yn byw mewn rhannau eraill o'r wlad, yn rhifyddol, ar gyfartaledd, mae mwy ohonynt yng Nghymru. Felly, erbyn hyn mae 10,000 yn fwy o bobl ar fudd-dal tai nag o'r blaen, ac mae'r rhain yn bobl sydd, ar y cyfan, yn gweithio, ond yn syml, nid ydynt yn ennill digon i dalu eu rhent. Felly, ni allaf gytuno â'r dadansoddiad a gyflwynodd Mark Isherwood fod strategaeth Llywodraeth glymblaid y DU yn ateb i bob problem gan arwain at economi iach. Nid oes gennym economi iach. Ers y cwymp a achoswyd gan sbri y bancwyr, rydym yn dal i fod heb economi wedi'i hailgyfeirio tuag at weithgynhyrchu ac i ffwrdd oddi wrth y sector gwasanaethu. Mae'n dal i fod gennym economi sy'n seiliedig ar ddyled bersonol.

The particular issue I just want to focus on in this debate is the impact of the bedroom tax, which has created an absolute storm of problems for people in Wales. Many of you will have read the Wales Audit Office report on the impact of welfare reform, and you will note that only 14% of those affected by the bedroom tax—and, therefore, seeing a reduction in the weekly amount of money they get—have been able to actually move. That has left 30,000 families in Wales who need to transfer, need to downsize their housing, or need to take in a lodger and who haven't done so. In many cases, they haven't even applied for a transfer, because they are struggling to try and maintain the payments by making up the shortfall in their rent by using the money they're supposed to be using for food. So, I am particularly concerned with the impact on these 30,000 people who, yes, are paying their rent—because they have to pay their rent; otherwise, they will be eventually thrown out—but who are nevertheless suffering a significant increase in personal debt. A 51% increase in personal debt among social housing tenants who are affected by the bedroom tax means that it is not a long-term, sustainable policy. These people are going to be trapped in the ghastly consequences of this bedroom tax, just in the way that people were trapped in the ghastly consequences of the poll tax under the Thatcher Government.

Y mater penodol rwy'n awyddus i ganolbwyntio arno yn y ddadl hon yw effaith y dreth ystafell wely, sydd wedi creu storm enfawr o broblemau i bobl yng Nghymru. Bydd llawer ohonoch wedi darllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar effaith diwygio lles, ac fe nodwch mai dim ond 14% o'r rhai a effeithir gan y dreth ystafell wely-ac felly, sy'n cael llai o arian bob wythnos-a allodd symud mewn gwirionedd. Mae hynny wedi gadael 30,000 o deuluoedd yng Nghymru sydd angen trosglwyddo, symud i dŷ llai o faint, neu gymryd lletywr, ond heb wneud hynny. Mewn llawer o achosion, nid ydynt wedi gwneud cais i drosglwyddo hyd yn oed, am eu bod yn ei chael hi'n anodd ceisio cynnal y taliadau drwy wneud iawn am y diffyg yn eu rhent drwy ddefnyddio'r arian y maent i fod i'w ddefnyddio ar fwyd. Felly, rwy'n arbennig o bryderus am yr effaith ar y 30,000 o bobl sydd yn talu eu rhent-am fod rhaid iddynt dalu eu rhent; fel arall, byddent yn cael eu troi allan yn y pen draw-ond sydd er hynny'n dioddef cynnydd sylweddol yn eu dyled bersonol. Mae dyledion personol wedi cynyddu 51% ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol sy'n cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely, sy'n golygu nad yw'n bolisi cynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r bobl hyn yn mynd i gael eu caethiwo yng nghanlyniadau erchyll y dreth ystafell wely, yn y ffordd y câi pobl eu caethiwo yng nghanlyniadau erchyll treth y pen o dan Lywodraeth Thatcher.

We have a very difficult problem to try and help them dig themselves out of it, because the small housing that these people need to escape the bedroom tax is simply not available. The Wales Audit Office report talks about the demand for larger homes reducing. In Cardiff, it's absolutely not the case. There is an absolute demand for housing of all different sizes, and absolutely very, very little ability for the council to move them into properties that will avoid them getting into debt. So, this is a very long-term problem that is going to require partnership arrangements by organisations, both voluntary and public, and in some cases private, to prevent these people suffering eventual homelessness, and then a very much more expensive solution if they've got children who are eligible for public housing.

Mae gennym broblem anodd iawn i geisio'u helpu i gloddio eu hunain allan ohoni, yn syml iawn am nad yw'r tai bychan sydd eu hangen ar y bobl hyn i ddianc rhag y dreth ystafell wely ar gael. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud bod y galw am dai mwy o faint yn lleihau. Yng Nghaerdydd, nid yw hynny'n wir o gwbl. Mae galw pendant am dai o bob gwahanol faint, ac ychydig iawn iawn o allu sydd gan y cyngor i'w symud i eiddo a fydd yn eu galluogi i osgoi mynd i ddyled. Felly, mae hon yn broblem hirdymor iawn sy'n mynd i alw am drefniadau partneriaeth gan sefydliadau gwirfoddol a chyhoeddus, ac mewn rhai achosion sefydliadau preifat, er mwyn atal y bobl hyn rhag dioddef digartrefedd yn y pen draw, ac ateb llawer iawn drutach os oes plant ganddynt sy'n gymwys i gael tai cyhoeddus.

So, I would commend the proposal by the UK Labour Party to have a mansion tax, which is one very quick way of redistributing money out of London and into areas like Wales, in order to increase the amount of money we have to spend on the NHS. We have to rebalance the economy and not build it simply on personal debt and the service industry. This is not something that is being done by the UK coalition Government. I hope and pray we don't have a repeat of that after May.

Felly, byddwn yn cymeradwyo'r cynnig gan Blaid Lafur y DU i gael treth plasty, sydd yn un ffordd gyflym iawn o ailddosbarthu arian allan o Lundain ac i ardaloedd fel Cymru, er mwyn cynyddu faint o arian sydd gennym i'w wario ar y GIG. Mae'n rhaid i ni ail-gydbwyso'r economi ac nid ei hadeiladu'n syml ar ddyled bersonol a'r diwydiant gwasanaethu. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth glymblaid y DU. Rwy'n gobeithio ac yn gweddïo na welwn hynny'n cael ei ailadrodd ar ôl mis Mai.

16:22 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid that Jenny Randerson's prayers are unlikely to be answered in May—

Rwy'n ofni bod gweddïau Jenny Randerson yn annhebygol o gael eu hateb ym mis Mai—

16:22 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rathbone, not Randerson.

Rathbone, nid Randerson.

16:22 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Did I say Randerson? That's usually one of the Liberal Democrats' mistakes, not mine, so I shall apologise profusely to both people concerned for that mistake. I hope I get the minutes—or the seconds—back.

Randerson ddywedais i? Dyna un o gamgymeriadau'r Democratiaid Rhyddfrydol fel arfer, nid fi, felly ymddiheuraf o waelod calon i'r ddau berson dan sylw am y camgymeriad. Rwy'n gobeithio y caf y cofnodion yn ôl.

The reason her hopes and prayers will not be answered after May, of course, is that unless we have a Government in the UK that is listening to the anti-austerity voices of Plaid Cymru and the SNP, then we will not have that alternative take, which, as Jenny Rathbone quite rightly pointed out, is based on an economy that has grown on the back of service industries completely and utterly, with the contraction in industry and in construction over the last six months. Indeed, the whole economic approach at the moment is based on a great deceit: the great deceit that cuts will lead to growth; the great deceit that cuts in public services are somehow an ideological pure form of economic growth. It is rubbish. It is outwith the mainstream economic thoughts.

Y rheswm na chaiff ei gobeithion a'i gweddïau eu hateb ar ôl mis Mai, wrth gwrs, yw oni bai ein bod yn cael Llywodraeth yn y DU sy'n gwrando ar leisiau gwrth-gyni Plaid Cymru a'r SNP, yna ni chawn yr olwg arall honno ar bethau a grybwyllwyd gan Jenny Rathbone yn gwbl briodol, yn seiliedig ar economi sydd wedi tyfu ar gefn diwydiannau gwasanaethu yn gyfan gwbl ac yn llwyr, gyda'r crebachu mewn diwydiant ac mewn adeiladu dros y chwe mis diwethaf. Yn wir, mae'r ymagwedd economaidd gyfan ar hyn o bryd yn seiliedig ar dwyll mawr: y twyll mawr y bydd toriadau yn arwain at dwf; y twyll mawr fod torri gwasanaethau cyhoeddus rywsut yn ffurf ideolegol pur ar dwf economaidd. Rwtsh yw hynny. Mae y tu allan i syniadau economaidd y brif ffrwd.

We are told, in Plaid Cymru, and others such as the Greek Syriza party, that somehow this is unusual, unorthodox economics. I'm sorry. Actually, we have the orthodox economics here: that the way out of depression and the way to economic growth is through investment—chosen, careful investment that repays over time. That is the actual orthodoxy, and it is the Conservatives lamentably, unfortunately, topped up by the Liberal Democrats, who never used to believe this—read their 2010 manifesto; it never said anything of this—who have taken an ideological slash-and-burn approach to public services and have led to the current state of play, of austerity in Wales attacking our communities, attacking women and families much more than others, as well. That great deceit has now been realised by some, even in the Labour Party. Peter Hain has woken up to it. He has written a book about it, indeed. It may have something to do with that.

Dywedir wrthym, ym Mhlaid Cymru, ac eraill megis plaid Syriza yng Ngwlad Groeg, mai economeg anarferol, anuniongred yw hon rywsut. Mae'n ddrwg gen i. A dweud y gwir, gennym ni y mae'r economeg uniongred: mai'r ffordd allan o ddirwasgiad a'r ffordd tuag at dwf economaidd yw drwy fuddsoddi—buddsoddiadau wedi eu dewis yn ofalus sy'n ad-dalu dros amser. Dyna'r uniongrededd go iawn, ac yn anffodus, yn druenus, y Ceidwadwyr, gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol wrth eu cefnau nad oedd yn arfer credu hyn—darllenwch eu maniffesto yn 2010; ni soniai air am hyn—sydd wedi mabwysiadu agwedd ideolegol o dorri a llosgi tuag at wasanaethau cyhoeddus ac wedi arwain at y sefyllfa bresennol o galedi yng Nghymru, gan ymosod ar ein cymunedau, ac ymosod hefyd ar fenywod a theuluoedd lawer mwy nag ar eraill. Mae rhai wedi gweld drwy'r twyll mawr hwnnw bellach, hyd yn oed yn y Blaid Lafur. Mae Peter Hain wedi deffro iddo. Mae wedi ysgrifennu llyfr am y peth, yn wir. Efallai bod ganddo rywbeth i'w wneud â hynny.

16:24

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Other books are available.

Mae llyfrau eraill ar gael.

16:24

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Other books are available—indeed, yes. [Laughter.] There's a big place in Swansea where you can get lots of books, I understand.

Mae llyfrau eraill ar gael—oes, yn wir. [Chwerthin.] Rwy'n deall bod yna le mawr yn Abertawe lle y gallwch gael llawer o lyfrau.

But, you know, he has been calling for investment now as an alternative to the austerity measures. He never voted for it, mind you. While he was in Parliament, he never, ever, a single time, voted against the austerity measures. Indeed, a year ago, he supported the Charter for Budget Responsibility.

Ond wyddoch chi, mae wedi bod yn galw am fuddsoddi yn awr fel dewis amgen yn lle'r mesurau caledi. Ni phleidleisiodd dros hynny erioed, cofiwch chi. Tra oedd yn y Senedd, ni phleidleisiodd erioed, nid unwaith, yn erbyn y mesurau caledi. Yn wir, flwyddyn yn ôl, cefnogodd y Siarter Cyfrifoldeb am Gyllidebau.

At a time, as they say, of universal deceit, telling the truth can be a revolutionary act. It wasn't Orwell who said that, but somebody did, certainly. There are two truths that need to be told in this debate. The first truth is an uncomfortable one for the Labour Party, but it's true: George Osborne has delivered Alistair Darling's budgetary plans. We are in the position today that we would have been had we followed Alistair Darling's original budget and his foretelling in 2010. The second truth is that the Charter for Budget Responsibility would have meant that no Labour Chancellor ever, apart from Gordon Brown on one occasion, could have delivered their budget. That is the truth of the budget that the Welsh Labour MPs have signed up to, twice now. [Interruption.] Yes, it is. It is twice now—most recently, a couple of weeks ago. That Charter for Budget Responsibility would not have allowed the welfare state to be created, would not have allowed Wilson to be Prime Minister during the 1960s, would not have allowed Tony Blair and Gordon Brown to operate their budgets, apart from one, and possibly a second year. That is what Labour has done by swallowing the Conservatives' austerity line.

Fel y dywedir, ar adeg o dwyll cyffredinol, gall dweud y gwir fod yn weithred chwyldroadol. Nid Orwell a ddywedodd hynny, ond fe wnaeth rhywun, yn sicr. Mae dau wirionedd sy'n rhaid eu crybwyll yn y ddadl hon. Y gwirionedd cyntaf yw'r un anghyfforddus i'r Blaid Lafur, ond mae'n wir: mae George Osborne wedi cyflwyno cynlluniau cyllidebol Alistair Darling. Rydym yn y sefyllfa heddiw y byddem wedi bod ynddi pe bawn wedi dilyn cyllideb wreiddiol Alistair Darling a'i ddarogan yn 2010. Yr ail wirionedd yw y byddai'r Siarter Cyfrifoldeb am Gyllidebau wedi golygu na fyddai unrhyw Ganghellor Llafur erioed, ar wahân i Gordon Brown ar un achlysur, wedi gallu cyflwyno eu cyllideb. Dyna wirionedd y gyllideb y mae ASau Llafur Cymru wedi ei chefnogi, ddwywaith bellach. [Torri ar draws.] Ydy, mae'n wir. Mae'n ddwywaith bellach-gwpwl o wythnosau yn ôl, yn fwyaf diweddar. Ni fyddai'r Siarter Cyfrifoldeb am Gyllidebau wedi caniatáu i'r wladwriaeth les gael ei chreu, ni fyddai wedi caniatáu i Wilson fod yn Brif Weinidog yn ystod y 1960au, ni fyddai wedi caniatáu i Tony Blair a Gordon Brown weithredu eu cyllidebau, ar wahân i un, ac o bosibl ail flwyddyn. Dyna beth y mae Llafur wedi ei wneud drwy lyncu mesurau caledi y Ceidwadwyr.

Things are worse for Wales because this grand coalition for austerity has also been a grand coalition against Welsh fair public funding. If we go back to 2010, we see very clear commitments from the two parties now in Government in Westminster to not only reform Barnett, but to change it completely. The Liberal Democrat manifesto, on page 92—it takes a long read to get there, but it's there—says that the current Barnett formula is to be replaced with a new needs-based formula for Scotland, Wales and Northern Ireland. David Cameron said that the Barnett formula had come to the end of its life, and that we needed to replace it with a needs-based formula. These promises were swept away by the vow—the vow to Scotland that said clearly that Barnett was here to stay in perpetuity. That, I suppose you could argue, was a last-ditch attempt to keep the union, and you could argue it worked, but there are consequences to that. The consequence is that the argument for parity with Scotland for Welsh funding is now irresistible, unopposable and must be delivered. That parity means at least £1.2 billion extra within our Welsh budget purse for us to spend on public services in Wales. That is the key to fighting austerity in Wales. If we don't get a Government in May that performs that for Wales, then we'll have been let down, once again, dreadfully by the Labour Party or any other unionist party that may be in Government.

Mae pethau'n waeth ar Gymru gan fod y glymblaid fawreddog dros galedi hefyd wedi bod yn glymblaid fawreddog yn erbyn ariannu cyhoeddus teg yng Nghymru. Os awn yn ôl i 2010, gwelwn ymrwymiadau clir iawn gan y ddwy blaid sy'n arwain y Llywodraeth yn San Steffan yn awr nid yn unig i ddiwygio Barnett, ond i'w newid yn llwyr. Mae maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol, ar dudalen 92—mae cryn dipyn o ddarllen cyn i chi gyrraedd yno, ond mae yno—yn dweud bod fformiwla gyfredol Barnett i gael ei disodli gan fformiwla newydd sy'n seiliedig ar angen ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedodd David Cameron fod fformiwla Barnett wedi dod i ddiwedd ei hoes, a bod angen i ni osod fformiwla sy'n seiliedig ar angen yn ei lle. Ysgubwyd yr addewidion hyn ymaith gan yr addewid—yr addewid i'r Alban a ddywedai'n glir fod Barnett yma i aros am byth. Mae'n debyg y gallech ddadlau mai ymgais derfynol i geisio cadw'r undeb oedd honno, a gallech ddadlau ei fod wedi gweithio, ond mae yna ganlyniadau i hynny. Y canlyniad yw bod y ddadl dros gydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid i Gymru bellach yn anorchfygol, yn anwrthodadwy ac yn rhywbeth sy'n rhaid ei gyflawni. Golyga cydraddoldeb o'r fath o leiaf £1.2 biliwn yn ychwanegol ym mhwrs cyllideb Cymru i ni ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dyna'r allwedd i ymladd caledi yng Nghymru. Os nad ydym yn cael Llywodraeth ym mis Mai sy'n cyflawni hynny dros Gymru, yna byddwn wedi cael cam ofnadwy, unwaith eto, gan y Blaid Lafur neu unrhyw blaid unoliaethol arall a allai fod yn y Llywodraeth.

16:27

## Mick Antoniw [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

In the time allowed, there's only an opportunity to make a number of points, but it is an important debate, because it raises a number of issues that are going to affect us over the coming months. There are a few things I would like to do about setting the record straight.

Yn yr amser a ganiateir, nid oes ond cyfle i wneud nifer o bwyntiau yn unig, ond mae'n ddadl bwysig, gan ei bod yn codi nifer o faterion sy'n mynd i effeithio arnom dros y misoedd nesaf. Mae ychydig o bethau yr hoffwn ei wneud i gywiro camargraffiadau.

For the first 10 years of the last Labour Government, we experienced the highest level of consistent economic growth and expansion of public services since the second world war. By 2007, Government borrowing as a percentage of GDP was only 0.1% higher than when Labour came into office 10 years earlier. By investing in, and growing, the economy, Labour saved the NHS by trebling its funding, and massively transformed the fabric of schools, higher education, social and welfare services, massively cutting child poverty and increasing earnings for the lower paid.

Am 10 mlynedd gyntaf y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, fe gawsom y lefel uchaf o dwf economaidd cyson ac ehangu gwasanaethau cyhoeddus ers yr ail ryfel byd. Erbyn 2007, nid oedd benthyca'r Llywodraeth fel canran o'r cynnyrch domestig gros ond 0.1% yn uwch na phan ddaeth Llafur i rym 10 mlynedd yn gynharach. Drwy fuddsoddi yn yr economi a'i thyfu, achubodd Llafur y GIG drwy dreblu ei gyllid, a thrawsnewidiodd wead ysgolion, addysg uwch, gwasanaethau cymdeithasol a lles yn eithriadol, gan leihau tlodi plant yn aruthrol a chynyddu enillion y rhai ar y cyflogau isaf.

The international economic collapse then occurred, affecting every major economy in the world. It was a consequence of international banking malpractice and deregulation, which began across Europe and America in the 1980s. Gordon Brown and many other world leaders adopted a common anti-austerity economic investment programme to restore growth to the world economies. We rejected austerity, and it was working. At the time the Tories took over Government in 2010, the economy was growing. However, the coalition Government adopted an austerity agenda, cutting the Future Jobs Fund programme, cutting welfare, and cutting school building and industrial development investment by billions of pounds. As an inevitable consequence, we sank into recession not once, but twice, and the coalition Government deliberately chose to target the public sector, and to make the poorest and most vulnerable pay for the failings of the financial system.

Yna digwyddodd y cwymp economaidd rhyngwladol, gan effeithio ar bob economi fawr yn y byd. Canlyniad camymddwyn ym maes bancio rhyngwladol a dadreoleiddio ydoedd, a ddechreuodd ar draws Ewrop ac America yn y 1980au. Mabwysiadodd Gordon Brown a llawer o arweinwyr eraill y byd raglen o fuddsoddiadau economaidd gwrth-gyni cyffredin er mwyn adfer twf economïau'r byd. Gwrthodwyd mesurau caledi gennym, ac roedd yn gweithio. Pan ddaeth y Torïaid i rym yn 2010, roedd yr economi yn tyfu. Fodd bynnag, mabwysiadodd y Llywodraeth glymblaid agenda caledi, gan dorri rhaglen Cronfa Swyddi'r Dyfodol, cyflwyno toriadau lles, a thorri biliynau o bunnoedd oddi ar fuddsoddiadau ar gyfer adeiladu ysgolion a datblygu diwydiannol. Canlyniad anochel hyn oedd ein bod wedi suddo i ddirwasgiad nid unwaith, ond ddwywaith, a dewisodd y Llywodraeth glymblaid dargedu'r sector cyhoeddus yn fwriadol, a gwneud i'r tlotaf a'r mwyaf agored i niwed dalu am fethiannau'r system ariannol.

16:29 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you have time to give way?

A oes gennych amser i ildio?

16:29 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I will do.

Oes, ac fe wnaf.

16:29 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't completely disagree with what the Member has said, and he's put his finger on a lot of truths there. Can he explain two things very quickly: why did the Labour Party allow the Conservatives and Lib Dems to set this agenda, that said that it was Gordon Brown and overspending in public services that had bust the economy? It is not true; I accept that. Why, therefore, were there proposed cuts in infrastructure spending in Alistair Darling's final budget, which I think goes against the austerity argument that he's making?

Nid wyf yn llwyr anghytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud, ac mae wedi rhoi ei fys ar lawer o wirioneddau. A all egluro dau beth yn gyflym iawn: pam y caniataodd y Blaid Lafur i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol osod yr agenda hon, a ddywedai mai Gordon Brown a gorwario mewn gwasanaethau cyhoeddus a oedd wedi arwain at fethiant yr economi? Nid yw'n wir; rwy'n derbyn hynny. Pam, felly, y cafwyd toriadau arfaethedig mewn gwariant ar seilwaith yng nghyllideb olaf Alistair Darling, sy'n gwrth-ddweud y ddadl ynghylch caledi y mae'n ei gwneud, rwy'n credu?

16:30 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first thing is that we didn't set the coalition Government's agenda. But the second point is: what Labour did adopt was an actual capital investment programme of billions and billions of pounds, which was then cut by the coalition Government, and it was that investment programme that would have been aimed at increasing growth and creating jobs and increasing the economy to enable us to pay for public services. That, actually, is what anti-austerity is about, and that, ironically, is what Syriza was actually arguing about this very morning.

Yn y lle cyntaf, nid ni a osododd agenda'r Llywodraeth glymblaid. Ond yr ail bwynt yw hwn: yr hyn a wnaeth y Blaid Lafur ei fabwysiadu oedd rhaglen fuddsoddi cyfalaf go iawn gwerth biliynau a biliynau o bunnoedd, a gafodd ei thorri gan y Llywodraeth glymblaid, a'r rhaglen fuddsoddi honno a fyddai wedi cael ei hanelu tuag at gynyddu twf a chreu swyddi a gwella'r economi er mwyn ein galluogi i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Ymwneud â hynny y mae gwrth-gyni a dweud y gwir, a hynny, yn eironig ddigon yw'r hyn roedd Syriza yn dadlau yn ei gylch mewn gwirionedd y bore yma.

The problem is that the idea that you can get out of recession by destroying the public sector, which is the coalition's position, is really incompetence of the greatest magnitude, yet this is the belief that actually underpins the Tory ideology. And if they are elected in May, they will cut a further—

Y broblem yw bod y syniad y gallwch godi allan o'r dirwasgiad drwy ddinistrio'r sector cyhoeddus, sef safbwynt y glymblaid, yn dangos anghymhwystra o'r mwyaf, ac eto dyma'r gred sy'n sail i ideoleg y Torïaid mewn gwirionedd. Ac os cânt eu hethol ym mis Mai, byddant yn torri rhagor —

16:31 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:31 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, no; I've only got a certain amount of time. They will cut a further £50 billion from public spending, whilst at the same time cutting £7 billion-worth of tax for the richest in our society. The social impact of this would be to destroy public services completely, and that is because they do not value public services such as libraries, leisure and community centres, and would see an end to what remains of our public sector. And this is the stark choice identified by the Institute for Fiscal Studies, which confirmed that the choice is actually between Tory cuts of £50 billion or Labour investment of £50 billion in our economy to grow jobs and to preserve public services. Now, I was in agreement with Simon and Leanne to a certain point, but, I have to say, nationalism also offers no solution whatsoever, and I have to say that Plaid Cymru are bereft of any credibility. They, in fact, have rejected a progressive, fair funding formula for the whole of the UK, preferring instead a nationalist, nation-to-nation negotiation, which rejects our historic common interests and solidarity—

Na, na; ychydig o amser sydd gennyf. Byddant yn torri £50 biliwn arall oddi ar wariant cyhoeddus, ac ar yr un pryd yn torri gwerth £7 biliwn oddi ar drethi'r cyfoethocaf yn ein cymdeithas. Effaith gymdeithasol hyn fyddai dinistrio gwasanaethau cyhoeddus yn gyfan gwbl, a hynny oherwydd nad ydynt yn gwerthfawrogi gwasanaethau cyhoeddus megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfannau cymunedol, a byddent yn rhoi diwedd ar yr hyn sy'n weddill o'n sector cyhoeddus. A dyma'r dewis anodd a nodwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a gadarnhaodd mai dewis ydyw rhwng toriadau Torïaidd o £50 biliwn neu fuddsoddiad Llafur o £50 biliwn yn ein heconomi i dyfu swyddi ac i gadw gwasanaethau cyhoeddus. Yn awr, roeddwn yn cytuno gyda Simon a Leanne hyd at bwynt, ond rhaid i mi ddweud hefyd nad yw cenedlaetholdeb yn cynnig unrhyw ateb o gwbl, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod Plaid Cymru yn brin o unrhyw hygrededd. Mewn gwirionedd, maent wedi gwrthod fformiwla flaengar a theg ar gyfer cyllido'r DU gyfan, gan ddewis trafodaethau rhwng cenedlaetholwyr o un genedl i'r llall yn lle hynny, sy'n ymwrthod â'n buddiannau hanesyddol a'n hundod cyffredin—

16:32 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:32 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I haven't got time, sorry.

Na, nid oes gennyf amser, mae'n ddrwg gennyf.

[Continues.]—with other working-class communities and regions of the UK. That was the point you made very clearly in the debate a few weeks ago in this Assembly. So, we will not adopt this sort of bizarre, Fisher-Price economics of Plaid Cymru, which calls for independence on one hand and an increased financial subsidy on the other, but we will invest to create jobs and growth. Labour is the anti-austerity party, because we are the only party that is capable of forming a progressive Government committed to investing billions of pounds and committed to the abolition of the bedroom tax, abolition of zero hours; committed to reforming benefits to develop a living wage; committed to a mansion tax; committed to a 50% tax to fund public services; committed to remaining in the European Union and protect the social chapter and employment rights; committed to building housing for need; and committed to building an equal and socially just society.

[Yn parhau.]—gyda chymunedau dosbarth gweithiol a rhanbarthau eraill y DU. Dyna oedd y pwynt a wnaethoch yn glir iawn yn y ddadl ychydig wythnosau yn ôl yn y Cynulliad hwn. Felly, ni fyddwn yn mabwysiadu'r math hwn o economeg Fisher-Price, rhyfedd gan Blaid Cymru, sy'n galw am annibyniaeth ar y naill law a mwy o gymhorthdal ariannol ar y llaw arall, ond byddwn yn buddsoddi i greu swyddi a thwf. Llafur yw'r blaid wrth-gyni, gan mai ni yw'r unig blaid a all ffurfio Llywodraeth flaengar sy'n ymrwymedig i fuddsoddi biliynau o bunnoedd, sy'n ymrwymedig i ddiddymu'r dreth ystafell wely a diddymu contractau dim oriau; sy'n ymrwymedig i ddiwygio budd-daliadau er mwyn datblygu cyflog byw; sy'n ymrwymedig i dreth plasty; sy'n ymrwymedig i dreth o 50% i ariannu gwasanaethau cyhoeddus; sy'n ymrwymedig i aros yn yr Undeb Ewropeaidd ac amddiffyn y bennod gymdeithasol a hawliau cyflogaeth; sy'n ymrwymedig i adeiladu tai yn ôl yr angen; ac sy'n ymrwymedig i adeiladu cymdeithas gyfartal a chyfiawn yn gymdeithasol.

16:33 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leanne Wood was spot-on when she said that those who have been made to shoulder the burden of austerity have not been those who were responsible for the financial crash, but rather the most vulnerable—it is those who are in need, who are disabled or ill, who have been hurt the most by the shift in the political discourse that casts them as a drain on public funds, to be treated with condescension and suspicion, while at the same time, of course, the rich get richer. The financial industries that caused global catastrophe have continued to profit and, in some cases, multinational corporations have even profited from the privatisation of the very systems that are now meting out austerity measures. When citizens advice bureaux did research into the impact of welfare reform on benefit claimants in Wales, they found that the majority of people had experienced a reduction in their household income and that the overwhelming impression is that participants are merely surviving, as opposed to living any kind of fulfilling life. And I think that, in twenty-first century Britain—one of the wealthiest states in the world—this is unacceptable.

Roedd Leanne Wood yn llygad ei lle pan ddywedodd nad y rhai a oedd yn gyfrifol am y cwymp ariannol yw'r rhai sydd wedi cael eu gorfodi i ysgwyddo baich caledi, ond yn hytrach y rhai mwyaf agored i niwed—y rhai sydd mewn angen, sy'n anabl neu'n sâl, sydd wedi cael eu brifo fwyaf gan y newid yn y drafodaeth wleidyddol sy'n eu darlunio fel straen ar arian cyhoeddus, i'w trin yn nawddoglyd a chyda drwgdybiaeth, tra bo'r cyfoethog ar yr un pryd, wrth gwrs, yn tyfu'n gyfoethocach. Mae'r diwydiannau ariannol a achosodd drychineb fyd-eang wedi parhau i elwa ac mewn rhai achosion, mae corfforaethau rhyngwladol hyd yn oed wedi elwa o breifateiddio'r union systemau sydd bellach yn cyflwyno mesurau caledi. Pan gyflawnodd y canolfannau cyngor ar bopeth ymchwil i effaith diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru, gwelsant fod y rhan fwyaf o bobl wedi profi gostyngiad yn incwm yr aelwyd ac mai'r argraff lethol yw mai llwyddo i oroesi yn unig y mae'r rhai a ymatebodd, yn hytrach na'u bod yn byw bywyd cyflawn o unrhyw fath. Ac yn yr unfed ganrif ar hugain ym Mhrydain—un o'r gwladwriaethau cyfoethocaf yn y byd—credaf fod hyn yn annerbyniol.

Now, the UK Government is acting with a dangerous combination of incompetence and cruelty. They seem set on punishing vulnerable people, but also seem incapable of putting their policies into action efficiently. Now, I've spoken many times here about the bedroom tax, because it is, I think, emblematic of this failed approach to welfare reform. The bedroom tax is supposed to cut the housing benefit bill by solving a problem that doesn't exist, that of under-occupation of social housing. But, with very few smaller houses available for families to move into, it has instead caused two thirds of those affected to fall into rent arrears, and one seventh are facing eviction. So, it's been a disaster. Two thirds of those affected by the bedroom tax are disabled, and, in many cases, the bedrooms the Government says are not needed are used to store medical equipment or to house carers. Ten per cent of bedroom tax homes have been altered by local authorities to meet the specific needs of the disabled tenants, and the cost of rehousing in these cases is significant.

Yn awr, mae Llywodraeth y DU yn gweithredu gyda chyfuniad peryglus o anghymhwystra a chreulondeb. Ymddengys eu bod yn benderfynol o gosbi pobl sy'n agored i niwed, ond maent hefyd yn ymddangos yn analluog i roi eu polisïau ar waith yn effeithlon. Yn awr, rwyf wedi sôn lawer gwaith yma am y dreth ystafell wely, am ei fod yn arwydd o'r ymagwedd ddiffygiol hon tuag at ddiwygio lles, rwy'n credu. Mae'r dreth ystafell wely i fod i dorri'r bil budd-dal tai drwy ddatrys problem nad yw'n bodoli, sef tanfeddiannaeth tai cymdeithasol. Ond gan mai ychydig iawn o dai llai o faint sydd ar gael i deuluoedd symud iddynt, yn lle hynny mae wedi peri i ddwy ran o dair o'r rhai yr effeithir arnynt i fynd i ôl-ddyled ar eu rhent, ac mae un o bob saith yn wynebu cael eu troi allan. Felly, mae wedi bod yn drychineb. Mae dwy ran o dair o'r rhai a effeithir gan y dreth ystafell wely yn anabl, ac mewn llawer o achosion, caiff yr ystafelloedd gwely y mae'r Llywodraeth yn honni nad oes mo'u hangen eu defnyddio i storio cyfarpar meddygol neu fel llety i ofalwyr. Mae deg y cant o gartrefi treth ystafell wely wedi cael eu newid gan awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion penodol y tenantiaid anabl, ac mae'r gost o ailgartrefu yn yr achosion hyn yn sylweddol.

Applicants to local authorities for the discretionary housing payment have increased by 250%, and there's been a surge in empty homes as housing associations struggle to let the larger properties. So, any savings in housing benefit are not real savings. Extra costs to mitigate the effects of the bedroom tax are being passed down to local authorities and to the poorest amongst us. It has failed in its policy aims. But that's just one part of the sweeping reforms to the benefits system that prioritises the prospect of saving money over the wellbeing of those in need, and a failure to even acknowledge that a benefits system like housing benefit is a subsidy on low-wage employers.

Mae nifer y ceisiadau i awdurdodau lleol am y taliadau tai yn ôl disgresiwn wedi codi 250%, a chafwyd ymchwydd yn nifer y cartrefi gwag wrth i gymdeithasau tai ei chael hi'n anodd gosod eiddo mwy o faint. Felly, nid yw'r arbedion mewn budd-dal tai yn arbedion gwirioneddol. Mae costau ychwanegol i liniaru effeithiau'r dreth ystafell wely yn cael eu trosglwyddo i lawr i awdurdodau lleol ac i'r tlotaf yn ein plith. Mae wedi methu yn ei nodau polisi. Ond rhan yn unig yw honno o'r diwygiadau ysgubol i'r system fudd-daliadau sy'n blaenoriaethu'r posibilrwydd o arbed arian dros les y rhai sydd mewn angen, a methiant hyd yn oed i gydnabod fod system fudd-daliadau fel budd-dal tai yn gymhorthdal i gyflogwyr sy'n talu cyflogau isel.

Take, for example, the personal independence payment, or PIP. It replaces the disability living allowance and is designed to help cover the extra cost of living with an illness or a disability. The primary aim behind replacing DLA with PIP is to save 20% of the budget, as opposed to meeting disabled people's needs as appropriately as possible. It introduced regular capability tests and redefined the threshold of support. Its introduction has been a scandal. There's a backlog for assessment that's months long, and less than one fifth of applicants have been processed. Thirty per cent of Macmillan benefit advisers know someone who has died while still waiting for their assessment for PIP, to help cover the cost of living with cancer. I highlighted the plight of those with degenerative conditions who are regularly facing reassessment and forced to repeatedly appeal—and they're winning, of course—when the Department for Work and Pensions withdraws or presents no evidence at tribunal. What a waste of resources, and why put people through the stress and humiliation of repeated assessments?

Er enghraifft, ystyriwch y taliad annibyniaeth bersonol, neu PIP. Mae'n disodli'r lwfans byw i'r anabl ac mae wedi'i gynllunio i helpu i dalu am gost ychwanegol byw gyda salwch neu anabledd. Y prif nod wrth gael PIP yn lle'r Lwfans Byw i'r Anabl yw arbed 20% o'r gyllideb, yn hytrach na bodloni anghenion pobl anabl mor briodol â phosibl. Cyflwynodd brofion gallu rheolaidd a ailddiffiniodd y trothwy cymorth. Mae ei gyflwyno wedi bod yn sgandal. Ceir ôl-groniad o bobl sy'n aros am asesiad dros lawer o fisoedd, ac mae llai nag un o bob pump o'r hawlwyr wedi cael eu prosesu. Mae tri deg y cant o gynghorwyr budd-daliadau Macmillan yn adnabod rhywun a fu farw tra oeddent yn dal i aros i gael eu hasesu ar gyfer PIP er mwyn helpu i dalu costau byw gyda chanser. Rwyf wedi tynnu sylw at ddioddefaint rhai â chyflyrau dirywiol sy'n wynebu ailasesiad rheolaidd ac sy'n cael eu gorfodi i apelio dro ar ôl tro—ac maent yn ennill, wrth gwrs—pan fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn tynnu'n ôl neu'n methu â chyflwyno tystiolaeth gerbron y tribiwnlys. Am wastraff adnoddau, a pham rhoi pobl drwy straen a chywilydd asesiadau ailadroddus?

Now, this chaos is echoed within the sanctions regime. More than—well, nearly 900,000 people were subject to benefit sanctions in 2014, and the evidence suggests that sanctions apply indiscriminately, sometimes bizarrely; many stories exist, and I'm sure that you've heard of one: for example, the story of the man sanctioned for withdrawing from the assessment because he was having a heart attack at the time.

Yn awr, caiff yr anhrefn ei adleisio yn y gyfundrefn gosbau. Roedd mwy na-wel, bron i 900,000 o bobl yn destunau cosbau o ran budd-daliadau yn 2014, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cosbau yn cael eu rhoi'n ddiwahân, weithiau am resymau rhyfedd iawn; mae llawer o straeon yn bodoli, ac rwy'n siŵr eich bod wedi clywed am un: er enghraifft, y stori am y dyn a gosbwyd am dynnu'n ôl o'r asesiad oherwydd ei fod yn cael trawiad ar y galon ar y pryd.

So, in my view, the changes to the welfare system done in the name of financial prudence and austerity are in fact ideologically driven punishment of those who are vulnerable and in need, and it is profoundly unjust to ask those who are innocent of any wrongdoing to pay the price for the mistakes of the financial sector—

Felly, yn fy marn i, mae'r newidiadau i'r system les a wneir yn enw doethineb ariannol a chaledi mewn gwirionedd yn gosbau wedi eu hysgogi'n ideolegol yn erbyn pobl sy'n agored i niwed ac mewn angen, ac mae'n eithriadol o anghyfiawn i ofyn i'r rhai sy'n ddieuog o unrhyw gamwedd i dalu'r pris am gamgymeriadau'r sector ariannol—

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

16:38

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and the failure of the regulators in the past. Thank you.

[Yn parhau.]—a methiant y rheoleiddwyr yn y gorffennol. Diolch yn fawr.

16:38

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I do welcome the opportunity to respond to Plaid Cymru's debate, and to speak in support of our amendments to reflect the Welsh Government's response to the austerity policies of the UK coalition Government. Members have described powerfully this afternoon the adverse impacts on our budgets, our public finances, our economy and our communities in Wales. The Welsh Government's block grant for delivering day-to-day public services has been cut by £1.5 billion in real terms over the past five years by the UK Government, and our capital budget has been cut by 30%.

Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i ddadl Plaid Cymru, ac i siarad o blaid ein gwelliannau i adlewyrchu ymateb Llywodraeth Cymru i bolisïau caledi Llywodraeth glymblaid y DU. Mae aelodau wedi disgrifio'n rymus y prynhawn yma yr effeithiau andwyol ar ein cyllidebau, ein cyllid cyhoeddus, ein heconomi a'n cymunedau yng Nghymru. Mae'r grant bloc i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd wedi gweld toriad o £1.5 biliwn mewn termau real dros y pum mlynedd diwethaf gan Lywodraeth y DU, ac mae ein cyllideb gyfalaf wedi gweld toriad o 30%.

There's no doubt that the most vulnerable people and communities in Wales have borne the impact of fiscal austerity. Changes to the welfare system have reduced incomes by several hundred million pounds, disproportionately affecting residents in Neath Port Talbot, Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil and their local economies. It's interesting—I'm sure Members across the Chamber will have seen the coalition's social policy record, which was published this week and lays it out clearly. Researchers from the London School of Economics and Manchester University warn that cuts to benefits and cuts to tax credits hit low-income families hardest and

'made no impact on the deficit'

because they were offset by tax cuts for better-off households.

Now, our approach as a Welsh Labour Government has been—our purpose—over the past five years to mitigate, to shield and to prioritise our reducing spending to make sure that we target our resources most effectively, to support our universal services, particularly in terms of health and education, and also to initiate actions to support vulnerable communities as they deal with cuts in welfare payments. For example, our discretionary assistance fund, which provides help to people in emergency situations, assisted 27,000 people in 2013. I think the experience and knowledge of what life is like for many of the most vulnerable in our communities come from all those volunteers who work in our food banks. If you look at the number of people in Wales helped by the Trussell Trust foodbanks in 2013-14, it was 79,000 people, an increase of 120% over the prior year. People who are volunteers in our communities know what it's like for people at the sharp end of these cuts to welfare payments.

Jenny Rathbone did refer to the auditor general's report on the impact of welfare reform in Wales, and I'm glad the Public Accounts Committee is considering scrutinising this report. We have sought to mitigate the impact of the bedroom tax. We've had to allocate £20 million of investment from our social housing grant in one and two-bedroomed houses. And I do also pay tribute to the way Jocelyn Davies has consistently campaigned and spoken up against the bedroom tax, as of course have all Members in the Labour Party as well. It will, of course, be abolished by a future Labour Government. But, of course, you have to recognise, as you said, Jocelyn, it's causing poverty, distress, and it's resulting in extra costs. It's failed on every level.

Nid oes amheuaeth mai'r bobl a'r cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru sydd wedi dioddef effaith caledi ariannol. Mae newidiadau i'r system les wedi torri sawl can miliwn o bunnoedd oddi ar incymau, gan effeithio'n anghymesur ar drigolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful a'u heconomïau lleol. Mae'n siŵr y bydd yr Aelodau ar draws y Siambr wedi gweld record y glymblaid ar bolisi cymdeithasol, a gyhoeddwyd yr wythnos hon ac sy'n ei osod allan yn glir. Mae ymchwilwyr o Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Manceinion yn rhybuddio bod toriadau i fudd-daliadau a thoriadau i gredydau treth yn taro teuluoedd ar incwm isel yn galetach na neb arall ac

'nid yw'n cael unrhyw effaith ar y diffyg'

oherwydd cânt eu gwrthbwyso gan doriadau treth i deuluoedd mwy cefnog.

Yn awr, ein hymagwedd fel Llywodraeth Lafur Cymru—ein diben—dros y pum mlynedd diwethaf yw lliniaru, gwarchod a blaenoriaethu ein gwariant gostyngol i wneud yn siŵr ein bod yn targedu ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol, er mwyn cefnogi ein gwasanaethau cyffredinol, yn enwedig o ran iechyd ac addysg, a hefyd i gychwyn gwaith i gefnogi cymunedau sy'n agored i niwed wrth iddynt ymdopi â thoriadau mewn taliadau lles. Er enghraifft, cynorthwyodd ein cronfa gymorth yn ôl disgresiwn, sy'n rhoi cymorth i bobl mewn sefyllfaoedd argyfyngus, 27,000 o bobl yn 2013. Rwy'n meddwl bod profiad a gwybodaeth o sut beth yw bywyd i lawer o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau yn dod gan yr holl wirfoddolwyr sy'n gweithio yn ein banciau bwyd. Os edrychwch ar nifer y bobl yng Nghymru a gafodd help gan fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn 2013-14, roedd yn 79,000 o bobl, sef cynnydd o 120% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae pobl sy'n wirfoddolwyr yn ein cymunedau yn gwybod sut y mae hi ar bobl yn nannedd y toriadau hyn mewn taliadau lles.

Cyfeiriodd Jenny Rathbone at adroddiad yr archwilydd cyffredinol ar effaith diwygio lles yng Nghymru, ac rwy'n falch fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried craffu ar yr adroddiad hwn. Rydym wedi ceisio lliniaru effaith y dreth ystafell wely. Rydym wedi gorfod dyrannu £20 miliwn o fuddsoddiad o'n grant tai cymdeithasol tuag at dai un a dwy ystafell wely. Ac rwyf hefyd yn talu teyrnged i'r modd y mae Jocelyn Davies wedi ymgyrchu a siarad yn erbyn y dreth ystafell wely yn gyson, fel y mae pob Aelod o'r Blaid Lafur wedi ei wneud wrth gwrs. Bydd yn cael ei ddiddymu gan Lywodraeth Lafur yn y dyfodol wrth gwrs. Ond mae'n rhaid i chi gydnabod, fel y dywedoch chi, Jocelyn, mae'n achosi tlodi, trallod, ac yn arwain at gostau ychwanegol, wrth gwrs. Mae wedi methu ar bob lefel.

We've had to counteract the austerity economics driven by the UK Government with our economic programmes. Over the medium term, the economy in Wales has performed strongly. Since 1999, household incomes have increased at a faster pace in Wales than in the UK. We've intervened successfully in the recession. I, of course, go back to what we did with our fiscal stimulus packages. I remember Plaid Cymru, who we were in Government with, and the Welsh Liberal Democrats supported our fiscal stimulus packages and, of course, we had our pioneering ProAct and ReAct schemes. That is about the kind of economic approach that we need to take.

Rydym wedi gorfod gwrthsefyll economeg caledi sy'n cael ei hysgogi gan Lywodraeth y DU drwy ein rhaglenni economaidd. Dros y tymor canolig, mae'r economi yng Nghymru wedi perfformio'n gryf. Ers 1999, mae incwm cartrefi wedi cynyddu yn gyflymach yng Nghymru nag yn y DU. Rydym wedi ymyrryd yn llwyddiannus yn y dirwasgiad. Rwy'n mynd yn ôl, wrth gwrs, at yr hyn a wnaethom gyda'n pecynnau ysgogiad cyllidol. Rwy'n cofio Plaid Cymru, a oedd gyda ni yn y Llywodraeth, a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi ein pecynnau ysgogiad cyllidol ac wrth gwrs, roedd gennym ein cynlluniau arloesol, ProAct a ReAct. Dyna'r math o ymagwedd economaidd y mae angen inni ei choleddu.

Of course, in terms of our success as a Welsh Labour Government, we do have that record of inward investment into Wales being at its highest for 30 years. Since devolution, we've experienced the largest increase in exports of any other part of the UK. I think it is very important that we attract businesses and jobs to Wales, as we are doing, but we do need those powers, more powers, to invest in key infrastructure projects. Of course roads are important—we have been debating that this afternoon—but also integrated public transport, and it's also about housing, schools and the sort of flood-prevention schemes that Carl Sargeant announced this week—a £1.2 million flood-prevention scheme for Beaumaris. Again, I know that will be warmly welcomed in that community and across Wales. I think also Members would welcome the fact that the Construction Industry Training Board said today that more than 5,300 new construction sector jobs would be created over the next five years as a result of the way in which we have sought to maximise our capital programmes. But, I do agree with Peter Black that, if we are going to achieve that kind of fairness in the delivery of public services, we would be better served if a funding floor were implemented for Wales. It would lead to greater financial parity with Scotland and the rest of the UK and it would ensure convergence in funding levels with England through the Barnett formula would be halted when public expenditure starts to rise again.

Wrth gwrs, o ran ein llwyddiant fel Llywodraeth Lafur Cymru, mae gennym record o fewnfuddsoddi i Gymru sydd ar ei uchaf ers 30 mlynedd. Ers datganoli, rydym wedi gweld cynnydd uwch mewn allforion nag unrhyw ran arall o'r DU. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn denu busnesau a swyddi i Gymru, fel rydym yn ei wneud, ond rydym angen pwerau, mwy o bwerau, i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol. Wrth gwrs bod ffyrdd yn bwysig—rydym wedi bod yn trafod hynny y prynhawn yma—ond trafnidiaeth gyhoeddus integredig hefyd, ac mae'n ymwneud â thai, ysgolion a'r math o gynlluniau atal llifogydd a gyhoeddodd Carl Sargeant yr wythnos hon—cynllun atal llifogydd gwerth £1.2 miliwn ar gyfer Biwmares. Unwaith eto, rwy'n gwybod y bydd yn cael croeso cynnes yn y gymuned honno ac ar draws Cymru. Rwy'n credu hefyd y byddai'r Aelodau'n croesawu'r ffaith fod Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu wedi dweud heddiw y byddai mwy na 5,300 o swyddi newydd yn cael eu creu yn y sector adeiladu dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i'r ffordd rydym wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar ein rhaglenni cyfalaf. Ond rwy'n cytuno â Peter Black, os ydym yn mynd i sicrhau'r math hwnnw o degwch wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, byddem yn cael gwasanaeth gwell pe bai cyllid gwaelodol ar waith ar gyfer Cymru. Byddai'n arwain at fwy o gydraddoldeb ariannol gyda'r Alban a gweddill y DU a byddai'n sicrhau bod cydgyfeirio lefelau cyllid â Lloegr drwy fformiwla Barnett yn cael ei atal pan fyddai gwariant cyhoeddus yn dechrau cynyddu eto.

I think many will want to recall—I certainly do in terms of my financial planning—the prospects that are set out for us by the Chancellor and the remarks he made in relation to his autumn statement. Let's just go back to the targets that he set, because I think this debate does allow us to look at future prospects and forecasts, and they fill me with foreboding in terms of what the Chancellor said. He set out targets for the next Parliament if he was in charge—targets that, according to the Institute for Fiscal Studies, can only be achieved by spending cuts on a colossal scale, taking total Government spending to its lowest level as a proportion of national income since before the last war. That's what the independent Institute for Fiscal Studies said. His message was: 'Austerity cuts, more to come, and they will bite even deeper, and, indeed, another £12 billion to go off welfare benefits'. On Monday this week, the Prime Minister said they would cut the welfare cap, putting more children into risk of poverty.

Rwy'n credu y bydd llawer yn awyddus i gofio—rwy'n bendant yn awyddus i wneud hynny o ran fy nghynlluniau ariannol—y rhagolygon a osodwyd ar ein cyfer gan y Canghellor a'r sylwadau a wnaeth mewn perthynas â'i ddatganiad yn yr hydref. Gadewch i ni fynd yn ôl at y targedau a osododd, oherwydd credaf fod y ddadl hon yn ein galluogi i edrych ar ragamcanion a rhagolygon yn y dyfodol, ac maent yn fy llenwi â phryder o ran yr hyn a ddywedodd y Canghellor. Roedd yn nodi targedau ar gyfer y Senedd nesaf pe bai ef wrth y llyw—targedau na ellir eu cyflawni, yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ond drwy doriadau ar raddfa enfawr yn y gwariant, gan fynd â chyfanswm gwariant y Llywodraeth i'w lefel isaf fel cyfran o incwm cenedlaethol ers cyn y rhyfel diwethaf. Dyna a ddywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol annibynnol. Ei neges oedd: 'Mae rhagor o doriadau caledi i ddod, a byddant yn mynd hyd yn oed yn ddyfnach, ac yn wir, bydd £12 biliwn arall yn dod oddi ar fudd-daliadau lles'. Ddydd Llun yr wythnos hon, dywedodd y Prif Weinidog y byddent yn torri'r cap lles, gan roi mwy o blant mewn perygl o dlodi.

But alarm bells rang all over the UK and who said on Christmas Eve:

Ond pwy a achosodd i glychau larwm ganu ar hyd a lled y DU pan ddywedodd ar Noswyl Nadolig:

'The Tory agenda to keep reducing public spending beyond what is necessary would result in the wilful destruction of important parts of our public services'?

'Byddai agenda'r Toriaid i ddal ati i leihau gwariant cyhoeddus y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol yn arwain at fynd ati'n fwriadol i ddinistrio rhannau pwysig o'n gwasanaethau cyhoeddus'?

The Chief Secretary to the Treasury, Danny Alexander.

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Danny Alexander.

So, you know, there's a lot of recognition in terms of the prospects ahead, which, of course, we have got to work against, and, of course, we all have that opportunity in the coming weeks in terms of the way we cast our votes in Wales. But it is very important as well, in terms of the Welsh Government, that we prepare and make sure that we can show that fiscal austerity doesn't work. That's why I do believe this debate is so important.

Felly, wyddoch chi, mae llawer o sylweddoliad o ran y rhagolygon i ddod, y bydd yn rhaid inni weithio yn eu herbyn, wrth gwrs, a bydd pawb ohonom yn cael cyfle i wneud hynny dros yr wythnosau nesaf o ran sut y byddwn yn bwrw ein pleidleisiau yng Nghymru. Ond mae'n bwysig iawn hefyd, o ran Llywodraeth Cymru, ein bod yn paratoi ac yn gwneud yn siŵr y gallwn ddangos nad yw caledi cyllidol yn gweithio. Dyna pam rwy'n credu bod y ddadl hon mor bwysig.

Finally, I would say, Deputy Presiding Officer, that, you know, we have an opportunity here to unite. Thanks to past and present budget agreements, we've put more money into tackling pupil deprivation, funding apprenticeships—

Yn olaf, fe fyddwn yn dweud, Ddirprwy Lywydd, fod gennym gyfle yma i uno, wyddoch chi. Diolch i gytundebau cyllidebol yn y gorffennol a'r presennol, rydym wedi rhoi mwy o arian tuag at fynd i'r afael ag amddifadedd disgyblion, cyllido prentisiaethau—

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude quickly now.

Gorffennwch yn gyflym yn awr.

16:46

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—pioneering new ways of funding health and social care. Can we unite in support of a funding floor to secure fair funding for Wales in the St David's Day process?

[Yn parhau.]—arloesi gyda ffyrdd newydd o gyllido iechyd a gofal cymdeithasol. A gawn ni uno i gefnogi cyllid gwaelodol er mwyn sicrhau cyllid teg i Gymru yn y broses Ddydd Gŵyl Dewi?

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call Leanne Wood to reply to the debate.

A galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.

16:46

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Thanks to all the Members for their contributions. Those who were honest enough to defend their position on austerity have pointed to the jobs created under the Westminster coalition, and I will accept that another of the Chancellor's goals was to increase the number of jobs in the private sector to compensate for those lost in the public sector, and I will concede that there has been success on this front. But what it has meant, in large part, has been reduced wages, more part-time work and more zero-hours contracts. And that's why, hand in hand with our fight against austerity, must go also the fight for improved industrial relations and workers' rights, which is why Plaid Cymru has called for a royal commission with a view to repealing those trade union laws that have resulted in trade unions being too weak to defend their members against the attacks on their rights.

Diolch. Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau. Mae'r rhai a oedd yn ddigon gonest i amddiffyn eu safbwynt ar galedi wedi tynnu sylw at y swyddi a grëwyd o dan y glymblaid yn San Steffan, a byddaf yn derbyn mai un arall o amcanion y Canghellor oedd cynyddu nifer y swyddi yn y sector preifat i wneud iawn am y rhai a gollwyd yn y sector cyhoeddus, a byddaf yn cyfaddef y bu llwyddiant yn hyn o beth. Ond yr hyn y mae wedi golygu, i raddau helaeth, yw cyflogau is, mwy o waith rhan-amser a mwy o gontractau dim oriau. A dyna pam, law yn llaw â'n brwydr yn erbyn caledi, y mae'n rhaid cael y frwydr dros well cysylltiadau diwydiannol a hawliau gweithwyr, a dyna pam y mae Plaid Cymru wedi galw am gomisiwn brenhinol gyda golwg ar ddiddymu'r deddfau undebau llafur sydd wedi arwain at wneud undebau llafur yn rhy wan i amddiffyn eu haelodau yn erbyn yr ymosodiadau ar eu hawliau.

I'd like to focus my closing remarks on the effects of austerity on the health service. There are multiple reasons for the problems people are facing in the health system, be it long waiting lists, crowded departments, late ambulances or difficulty in getting a GP appointment. Whatever the causes of these problems—and often there are many causes—there is no doubt that another five years of austerity will only exacerbate those causes and make the problems even worse.

Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau i gloi ar effeithiau caledi ar y gwasanaeth iechyd. Mae rhesymau lluosog dros y problemau y mae pobl yn eu hwynebu yn y system iechyd, boed yn rhestrau aros hir, yn adrannau gorlawn, yn ambiwlansys hwyr neu'n anhawster i gael apwyntiad gyda meddyg teulu. Beth bynnag sy'n achosi'r problemau hyn—ac yn aml mae llawer o achosion—nid oes amheuaeth y bydd pum mlynedd arall o galedi yn gwaethygu'r achosion hynny a gwneud y problemau hyd yn oed yn waeth.

In England, patient charging and privatisation will undoubtedly result in cuts to the health budget. And because of the Barnett formula, those cuts in England will be felt in the health service here in Wales. That's why we must be prepared not just to fight austerity but we must also be prepared to reject austerity's twin, which is privatisation. It's also why we must keep up the pressure and keep putting the case to decouple Wales's funding from decisions made in England. And it's also why we must continue to fight for parity with Scotland—not more parity, Minister: parity and nothing less.

Yn Lloegr, bydd codi tâl ar gleifion a phreifateiddio yn ddi-os yn arwain at doriadau i'r gyllideb iechyd. Ac oherwydd fformiwla Barnett, bydd y toriadau yn Lloegr yn cael eu teimlo yn y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Dyna pam y mae'n rhaid i ni fod yn barod nid yn unig i ymladd caledi ond rhaid i ni hefyd fod yn barod i wrthod cymar caledi, sef preifateiddio. Dyma pam y mae'n rhaid i ni hefyd gynnal y pwysau a dal ati i gyflwyno'r achos dros ddatgysylltu cyllid Cymru o benderfyniadau a wneir yn Lloegr. A dyma pam hefyd y mae'n rhaid i ni barhau i ymladd dros gydraddoldeb gyda'r Alban—nid mwy o gydraddoldeb, Weinidog: cydraddoldeb a dim llai.

To close, it's worth remembering this. Our welfare safety net and our public services infrastructure were hard fought for. They didn't come without a fight, in large part by those returning from the front line after the second world war. That was a time when the majority of people had nothing. Of course, as usual, the very wealthy and the aristocracy didn't really feel the pain; ordinary working people took the most pain and, of course, they were the ones who had the most to gain from the building of a welfare safety net. We owe it to those people, to our parents, our grandparents and our great-grandparents, because it was their demands that created a safety net that was to care for people from the cradle to the grave. Austerity risks taking that away, and that is why Plaid Cymru will continue to present the case for an alternative to austerity, because we owe it to both our future and our past.

I gloi, mae'n werth cofio hyn. Ymladdwyd yn galed i sicrhau ein rhwyd ddiogelwch lles a'n seilwaith gwasanaethau cyhoeddus. Ni ddaethant heb frwydr, i raddau helaeth gan y rhai a oedd yn dychwelyd o'r rheng flaen ar ôl yr ail ryfel byd. Roedd yn adeg pan nad oedd dim oll gan y rhan fwyaf o bobl. Wrth gwrs, fel arfer, nid oedd y cyfoethog iawn a'r uchelwyr yn teimlo'r boen mewn gwirionedd; gweithwyr cyffredin a oedd yn dioddef y boen fwyaf ac wrth gwrs, hwy oedd â'r mwyaf i'w ennill o greu rhwyd ddiogelwch lles. Mae dyletswydd arnom i'r bobl hynny, i'n rhieni, ein teidiau a'n neiniau a'n hen neiniau a'n hen deidiau, am mai eu galwadau hwy a greodd y rhwyd ddiogelwch a oedd yn mynd i ofalu am bobl o'r crud i'r bedd. Mae caledi yn peryglu dyfodol honno, a dyna pam y bydd Plaid Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddewis arall yn lle caledi, oherwydd dyna yw ein dyletswydd i'n dyfodol a'n gorffennol.

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item to voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Yr Economi

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, gwelliannau 2, 4 a 5 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Jane Hutt.*

## 7. Welsh Liberal Democrats Debate: The Economy

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, amendments 2, 4 and 5 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Jane Hutt.*

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Eitem saith yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar yr economi. Galwaf ar Eluned Parrott i wneud y cynnig.

Item seven is the Welsh Liberal Democrats debate on the economy. I call on Eluned Parrott to move the motion.

Cynnig NDM5676 Aled Roberts

Motion NDM5676 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod cael mynediad at gyfalaf ariannol i fusnesau Cymru yn hanfodol er mwyn hybu twf yn y sector preifat.

1. Notes that access to financial capital for Welsh businesses is essential to encourage growth in the private sector.

2. Yn nodi bod gwella sgiliau poblogaeth Cymru yn hanfodol i gynyddu cynhyrchiant a rhoi mantais gystadleuol i economi Cymru.

2. Notes that up skilling the Welsh population is crucial to increasing productivity and putting the Welsh economy at a competitive advantage.

3. Yn nodi bod ein natur wledig a'n daearyddiaeth yn golygu bod angen cynigion arloesol a radical i dyfu ein heconomi a gwella cysylltedd.

3. Notes that our rurality and geography mean that innovative and radical proposals are needed to grow our economy and improve connectivity.

4. Yn credu bod yna lawer o gryfderau a fydd yn helpu i adeiladu economi Cymru, fel y ffaith ein bod yn agos at farchnadoedd y DU a'r UE, pocedi cyfredol o arloesi a rhagoriaeth, a chapasiti hyfforddi.

4. Believes that there are many strengths that will help build the Welsh economy such as our proximity to UK and EU markets, existing pockets of innovation and excellence, and training capacity.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio, a mynd i'r afael â diffyg datblygiad yng Nghymru gydag ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru, gan gynnwys drwy:

5. Calls on the Welsh Government to deliver a balanced, integrated, export-led economic strategy and address Wales's underdevelopment with a long-term commitment to investing in Wales's people, business and infrastructure, including by:

a) creu banc datblygu yng Nghymru;

a) creating a Welsh development bank;

b) datblygu rhwydweithiau o ymgynghorwyr i ddarparu cymorth busnes proffesiynol;

b) developing networks of advisors to provide professional business support;

c) ymgorffori sgiliau ehangach megis entrepreneuriaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cwricwlwm;

c) embedding wider skills such as entrepreneurship, leadership and management into the curriculum;

d) datganoli mwy o bwerau dros ddatblygu economaidd o Fae Caerdydd, yn uniongyrchol i gymunedau;

d) decentralising more powers over economic development from Cardiff Bay, directly to communities;

e) gwella ein seilwaith trafnidiaeth drwy gefnogi trydaneiddio Prif Linell Reilffordd Arfordir y Gogledd, datblygu awdurdodau trafnidiaeth teithwyr i reoleiddio trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau darpariaeth addas; ac ariannu astudiaeth ddichonoldeb i adfer y cysylltiadau rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin i gysylltu â'r rhwydwaith presennol; ac

e) improving our transport infrastructure by supporting electrification of the North Wales Coast Main Line, developing passenger transport authorities to regulate public transport and ensure suitable provision; and funding a feasibility study into reinstating the rail links between Aberystwyth and Carmarthen to link up with the existing network; and

f) lansio adolygiad radical a systematig o'r modd y mae ardrethi busnes yn cael eu gweithredu yng Nghymru.

f) launching a radical and systematic review of the way that business rates are run in Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:50

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. It is a real pleasure to introduce the debate today, and I would like to thank Members across the Chamber for the positive spirit of the amendments that have been laid, which, by and large, seek to add to what we've laid out and will discuss during the course of today's debate. Of course, Wales's economic challenges have been entrenched for generations, and, clearly, it is going to take a concerted and long-term strategic drive to turn that around in a meaningful way. The Welsh economy has three major structural challenges, in my view: firstly, a lack of capital availability; secondly, skills levels that are relatively poorer than those of many of our neighbours and competitors; and, finally, a peripheral location on the edge of Europe, which isn't then effectively addressed by our infrastructure and our ability then to reach markets.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser go iawn gennyf gyflwyno'r ddadl heddiw, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau ar draws y Siambr am ysbryd cadarnhaol y gwelliannau a gyflwynwyd, sydd ar y cyfan yn ceisio ychwanegu at yr hyn rydym wedi ei gyflwyno ac y byddwn yn ei drafod yn ystod y ddadl heddiw. Wrth gwrs, mae heriau economaidd Cymru wedi gwreiddio ers cenedlaethau, ac yn amlwg, mae'n mynd i gymryd ymgyrch strategol gydunol a hirdymor i newid hynny mewn ffordd ystyrlon. Mae tair her strwythurol fawr yn wynebu economi Cymru, yn fy marn i: yn gyntaf, diffyg argaeledd cyfalaf; yn ail, lefelau sgiliau sy'n gymharol dlotach na rhai llawer o'n cymdogion a'n cystadleuwyr; ac yn olaf, lleoliad ymylol ar gyrion Ewrop, mater nad eir i'r afael ag ef yn effeithiol gan ein seilwaith a'n gallu wedyn i gyrraedd marchnadoedd.

I don't believe that these challenges are insurmountable, but they are significant because they are reflected, of course, in the latest statistics from the ONS, which show that, once again, despite some promising signs of growth, Wales has the lowest GVA per head in the UK. But it is clear as well that, to overcome them, I think we need to ensure that all of our policy interventions are effectively focused and working together. GVA is not the only measurement by which we should assess an economy's success. However, in terms of long-term economic growth, it is an important indicator. I think that all of us in this Chamber can agree that, in Wales, obviously, we'd want to see a strong and vibrant economy with sustainable growth over a long period of time. And the vision that we as Welsh Liberal Democrats are setting out today is of a Wales that has a population with a robust and flexible set of high-quality skills, Welsh businesses that are exporting around the world and have the confidence to do so, and a modern infrastructure that is ready for the future but is also sustainable and can be delivered in the present time. Our economic strategy seeks to deliver a balanced export-led economic strategy by improving Wales's skills and innovation, access to finance and capital and access to worldwide markets.

Nid wyf yn credu bod yr heriau hyn yn anorchfygol, ond maent yn bwysig am eu bod yn cael eu hadlewyrchu, wrth gwrs, yn ystadegau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n dangos, unwaith eto, er gwaethaf rhai arwyddion addawol o dwf, mai Cymru sydd â'r GYC isaf y pen yn y DU. Ond i'w goresgyn, mae'n amlwg hefyd bod angen i ni sicrhau bod ein holl ymyriadau polisi yn meddu ar ffocws effeithiol ac yn gweithio gyda'i gilydd. Nid GYC yw'r unig fesur y dylem ei ddefnyddio i asesu llwyddiant economi. Fodd bynnag, o ran twf economaidd yn y tymor hir, mae'n ddangosydd pwysig. Rwy'n meddwl y gall pob un ohonom yn y Siambr hon gytuno y byddem yn amlwg am weld economi gref a bywiog yng Nghymru gyda thwf cynaliadwy dros gyfnod hir o amser. A'r weledigaeth rydym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei hamlinellu heddiw yw Cymru a chanddi boblogaeth â set gadarn a hyblyg o sgiliau o ansawdd uchel, busnesau yng Nghymru sy'n allforio ar draws y byd ac sydd â'r hyder i wneud hynny, a seilwaith modern sy'n barod ar gyfer y dyfodol, ond sydd hefyd yn gynaliadwy ac y gellir ei gyflawni yn y presennol. Mae ein strategaeth economaidd yn ceisio darparu strategaeth economaidd gytbwys sy'n cael ei harwain gan allforio drwy wella sgiliau ac arloesedd Cymru, mynediad at gyllid a chyfalaf, ac i farchnadoedd ledled y byd.

It is crucial that central Government here in Cardiff takes the lead in creating the environment to achieve growth by investing in Wales's infrastructure, skills and export support. And, of course, there are activities ongoing that are designed to do exactly those things, but I think we need a change in our culture inside and outside this Chamber if we're going to see long-term and meaningful change to Wales's economic future. Politically, we need to ensure that long-term goals survive the whims of political change, and that means robust governance structures that continue to deliver agreed and shared objectives beyond a five-year electoral cycle. It is a real challenge to deliver a long-term economic strategy within a political context, and we have to understand how a strategy such as city regions, for example, which is professedly a 20-year economic strategy, will last and survive if there are changes in direction every five years. We cannot allow that to happen. We have to set a robust governance structure to allow those strategies to thrive and to survive and also to define how those strategies sit together and how they work.

Mae'n hanfodol fod y Llywodraeth ganolog yma yng Nghaerdydd yn cymryd yr awenau o ran creu amgylchedd i gyflawni twf drwy fuddsoddi yn seilwaith a sgiliau Cymru, a chymorth ar gyfer allforio. Ac wrth gwrs, ceir gweithgareddau sydd ar y gweill a gynlluniwyd i wneud yr union bethau hynny, ond rwy'n credu bod angen newid yn ein diwylliant y tu mewn a'r tu allan i'r Siambr hon os ydym yn mynd i weld newid hirdymor ac ystyrlon i ddyfodol economaidd Cymru. Yn wleidyddol, mae angen i ni sicrhau bod y nodau hirdymor yn goroesi mympwyon newid gwleidyddol, ac mae hynny'n golygu strwythurau llywodraethu cadarn sy'n parhau i gyflawni amcanion cytunedig a rennir y tu hwnt i gylch etholiadol pum mlynedd. Mae'n her go iawn i gyflwyno strategaeth economaidd hirdymor o fewn cyd-destun gwleidyddol, ac mae'n rhaid i ni ddeall sut y bydd strategaeth o'r fath fel dinas-ranbarthau, er enghraifft, sy'n strategaeth economaidd 20 mlynedd addefedig, yn para a goroesi os oes newidiadau yn y cyfeiriad bob pum mlynedd. Ni allwn ganiatáu i hynny ddigwydd. Mae'n rhaid i ni osod strwythur llywodraethu cadarn i ganiatáu i'r strategaethau hynny ffynnu a goroesi, a hefyd i ddiffinio sut y mae'r strategaethau hynny yn cydweddu â'i gilydd a sut y maent yn gweithio.

I think that, societally, though, we also need a culture change there too, because, as a nation, we need to lift our eyes above the horizon and encourage not only today's businesses, but also, actually, tomorrow's entrepreneurs growing up in our schools today to look at the whole world and see it as an endless opportunity rather than, you know, a difficult challenge and something that is going to be difficult to achieve. We need to look to the world, and, if the National Assembly uses its leadership to effect that kind of culture change in Wales, I really do believe that we can build a more confident and more internationalist country. We should be very proud of our country's assets and proactive in selling them too, not only to attract investment to this country, but also to support international trade and those businesses in Wales who want to take the excellent produce that we have to offer to the world as well.

Fodd bynnag, credaf fod angen newid diwylliannol arnom yn gymdeithasol hefyd, oherwydd fel cenedl, mae angen i ni godi ein llygaid uwchben y gorwel ac annog nid yn unig busnesau heddiw, ond hefyd, mewn gwirionedd, entrepreneuriaid yfory sy'n tyfu i fyny yn ein hysgolion heddiw i edrych ar y byd i gyd a'i weld fel cyfle diddiwedd yn hytrach na her anodd, wyddoch chi, a rhywbeth sy'n mynd i fod yn anodd ei gyflawni. Mae angen i ni edrych ar y byd, ac os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio ei arweinyddiaeth i greu'r math hwnnw o newid diwylliant yng Nghymru, rwy 'n credu'n wirioneddol y gallwn adeiladu gwlad fwy hyderus a mwy rhyngwladol. Dylem fod yn falch iawn o asedau ein gwlad ac yn rhagweithiol wrth eu gwerthu hefyd, nid yn unig i ddenu buddsoddiad i'r wlad hon, ond hefyd i gefnogi masnach ryngwladol a'r busnesau yng Nghymru sydd am gynnig y cynnyrch rhagorol sydd gennym i'r byd yn ogystal.

In terms of some of the specific elements, I'd like to begin by outlining some of the detail of our economic strategy by talking about access to finance, which, as I said at the beginning, is the first of those three key structural challenges facing the Welsh economy today. The stage 2 review, 'Access to Finance Review' conducted by Professor Dylan Jones-Evans published in November 2013, of course, highlighted a number of areas in which Wales's economy is hindered by a lack of access to finance. For example, the report estimates that a funding gap of around £500 million exists in businesses that want to get access to funding, but have been refused support by banks in Wales. Despite the UK banking sector telling us that it remains ready to lend, the value of borrowing actually approved to SMEs in Wales fell by 30% in the period between the second half of 2011 and publication of the report. At the point of publication, borrowing levels for small firms had fallen during the previous two years, and lending approvals even to medium-sized firms with good prospects for growth had flatlined as well during that previous year. That is obviously a major difficulty.

O ran rhai o'r elfennau penodol, hoffwn ddechrau drwy amlinellu rhai o fanylion ein strategaeth economaidd drwy siarad am fynediad at gyllid, sef y gyntaf o'r tair her strwythurol allweddol, fel y dywedais ar y dechrau, sy'n wynebu economi Cymru heddiw. Mae'r adolygiad cam 2, 'Yr Adolygiad Mynediad i Gyllid' a gynhaliwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans ac a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013, wedi tynnu sylw, wrth gwrs, at nifer o feysydd lle y caiff economi Cymru ei rhwystro gan ddiffyg mynediad at gyllid. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn amcangyfrif fod bwlch ariannu o tua £500 miliwn yn bodoli mewn busnesau sy'n dymuno cael mynediad at gyllid, ond y gwrthodwyd cymorth iddynt gan fanciau yng Nghymru. Er bod y sector bancio yn y DU yn dweud wrthym ei fod yn dal yn barod i roi benthyg, mae gwerth yr arian a gymeradwywyd i'w fenthyca i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi gostwng 30% yn y cyfnod rhwng ail hanner 2011 a chyhoeddi'r adroddiad. Ar adeg ei gyhoeddi, roedd lefelau benthyciadau i gwmnïau bach wedi disgyn yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, ac roedd cymeradwyaethau benthyca, hyd yn oed i gwmnïau canolig eu maint gyda rhagolygon da ar gyfer twf, wedi aros yn eu hunfan hefyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn amlwg, mae hynny'n anhawster mawr.

There's also an acknowledgement in the report that there's a lack of understanding and awareness amongst the business community of the different alternative sources of funding, too, and that's a challenge.

Mae yna gydnabyddiaeth yn yr adroddiad hefyd fod yna ddiffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg y gymuned fusnes o'r gwahanol ffynonellau cyllid eraill, hefyd, ac mae honno'n her.

So, overall, we agree with Professor Jones-Evans's analysis that public sector financial support in Wales seems to be fragmented and the organisation tasked with providing debt and equity finance to SMEs is not specifically focused on developing the Welsh economy. I would have to agree with that assessment.

Felly, ar y cyfan, rydym yn cytuno â dadansoddiad yr Athro Jones-Evans fod cymorth ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i'w weld yn ddarniog ac nad yw'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu cyllid i ariannu dyledion ac ecwiti i fusnesau bach a chanolig yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu economi Cymru. Byddai'n rhaid i mi gytuno â'r asesiad hwnnw.

Since the financial crisis, SMEs have regularly expressed their concerns about limited availability and the high cost of finance, and the Welsh Liberal Democrats believe that the current system of access to finance in Wales, particularly through Government channels, is not currently fit for purpose. The setting up of a Welsh development bank would enable small businesses to access finance and support. I do think it's important to bring those two things together, as we have seen in initiatives such as the start-up loan initiative from the UK Government, where advice and support is coupled with financial support; the success rates of those businesses and the robustness of those new businesses is very much enhanced. This is something that we would very much welcome.

Ers yr argyfwng ariannol, mae busnesau bach a chanolig wedi mynegi eu pryderon yn gyson am argaeledd cyfyngedig a chost uchel cyllid, ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu nad yw'r system bresennol o gael gafael ar gyllid yng Nghymru, yn enwedig drwy sianeli'r Llywodraeth, yn addas i'r diben ar hyn o bryd. Byddai sefydlu banc datblygu yng Nghymru yn galluogi busnesau bach i gael gafael ar gyllid a chymorth. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig dod â'r ddau beth at ei gilydd, fel y gwelsom mewn mentrau megis y fenter benthyciadau i gychwyn gan Lywodraeth y DU, lle y mae cyngor a chymorth i'w cael ynghyd â chymorth ariannol; mae cyfraddau llwyddiant a chadernid y busnesau newydd hynny yn cael ei wella'n fawr iawn. Mae hyn yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu'n fawr.

This concept, obviously, was supported in the Jones-Evans review, which recommended a development bank for Wales, and it recommended, as well, bringing together all financial support schemes for SMEs within the Welsh Government, the funds managed by Finance Wales and elements of Business Wales as well as UK Government schemes, such as UK export finance and the business growth fund. I think this could bring much-needed coherence to a market that is inestimably complex to a company that sets itself up not to be a finance expert but, perhaps, to be a manufacturer or, perhaps, to develop produce. It must support, I think, varied access to the finance market for small businesses, too, because there are many ways in which businesses, obviously, can be financed.

Yn amlwg, cafodd y cysyniad hwn ei gefnogi yn adolygiad Jones-Evans, a oedd yn argymell banc datblygu i Gymru, ac argymhellai hefyd y dylid dod â phob cynllun cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig at ei gilydd o dan adain Llywodraeth Cymru, gyda'r cronfeydd yn cael eu rheoli gan Cyllid Cymru ac elfennau o Busnes Cymru yn ogystal â chynlluniau Llywodraeth y DU, fel cyllid allforio y DU a'r gronfa twf busnesau. Rwy'n credu y gallai hyn ddod â chydlyniad mawr ei angen i farchnad sy'n annaearol o gymhleth i gwmni nad yw'n ymhonni ei fod yn arbenigwr ar gyllid, ond sydd efallai'n weithgynhyrchwr neu'n datblygu cynnyrch o bosibl. Rwy'n meddwl bod yn rhaid iddo gefnogi mynediad amrywiol i'r farchnad gyllid ar gyfer busnesau bach, hefyd, oherwydd mae'n amlwg fod nifer o ffyrdd o ariannu busnesau.

I think there's also another role that I would like to see a Welsh development bank play, and that's in terms of the support it offers. I think it could provide a much-needed additional source of engagement outside of Wales; it could provide support with Welsh companies' exporting, and it could engage with companies overseas and draw in inward investment, as well. Because of its size, it could have the ability to do several of those things together and in one place. I'd also task a Welsh development bank with advising on sources of alternative funding to SMEs, too. Between 2011 and 2013, more than 5,000 SMEs across the UK raised business funding from alternatives such as peer-to-peer lending, but only 37% of FSB members were even aware of any of these alternative finance providers, and fewer knew what those would involve for them. So, we would like to see a spread of alternative finance providers and to facilitate the emergence and growth of new lenders, in particular, by expanding the role and capability of local and community banks.

Rwy'n meddwl bod yna rôl arall hefyd yr hoffwn ei gweld ar gyfer banc datblygu yng Nghymru, a hynny o ran y gefnogaeth y mae'n ei chynnig. Rwy'n credu y gallai fod yn ffynhonnell ychwanegol fawr ei hangen ar gyfer ymgysylltu y tu allan i Gymru; gallai ddarparu cymorth gydag allforio gan gwmnïau o Gymru, a gallai ymgysylltu â chwmnïau tramor a denu buddsoddiad o'r tu allan yn ogystal. Oherwydd ei faint, gellid ei alluogi i wneud nifer o'r pethau hynny gyda'i gilydd ac mewn un lle. Buaswn hefyd yn gwneud cyngor ar ffynonellau cyllid amgen i fusnesau bach a chanolig yn rhan o gylch gorchwyl banc datblygu ar gyfer Cymru. Rhwng 2011 a 2013, cafodd dros 5,000 o fusnesau bach a chanolig ar draws y DU gyllid busnes drwy ffynonellau eraill fel benthyca rhwng cymheiriaid, ond 37% yn unig o aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach a oedd hyd yn oed yn gwybod am unrhyw un o'r darparwyr cyllid amgen hyn, a llai fyth yn gwybod beth fyddai'r rheini yn ei olygu iddynt hwy. Felly, hoffem weld amrywiaeth o ddarparwyr cyllid amgen a hwyluso datblygiad a thwf benthycwyr newydd, yn arbennig, drwy ehangu rôl a gallu banciau lleol a chymunedol.

But, there are, of course, opportunities where Wales is already well ahead of the curve. For example, we have excellent higher education institutions here in Wales that not only have a great capacity to train our people in very high level skills, but they also develop excellent intellectual property and business ideas, which develop and generate wealth. Because those businesses are based on excellent intellectual property, they are very robust and they tend to be very high in value, too.

Ond mae yna gyfleoedd, wrth gwrs, lle y mae Cymru eisoes ymhell ar y blaen. Er enghraifft, mae gennym sefydliadau addysg uwch rhagorol yma yng Nghymru sydd nid yn unig â gallu gwych i hyfforddi ein pobl mewn sgiliau lefel uchel iawn, ond maent hefyd yn datblygu eiddo deallusol a syniadau busnes ardderchog, sy'n datblygu ac yn cynhyrchu cyfoeth. Gan fod y busnesau hynny yn seiliedig ar eiddo deallusol rhagorol, maent yn gadarn iawn ac maent yn tueddu i fod yn uchel iawn eu gwerth, hefyd.

Wales also has a very rich history with co-operatives and, today, one in five people in Wales are a member of a co-op and 7,000 people are employed in one. So, we'd like to see the position of social enterprises and community development trusts improved and make it easier for them to tender for council and Welsh Government contracts, too. I really do believe that this is particularly important for two reasons: firstly, that that diversity in the economic structure is going to be more robust in difficult economic times, but I also think that that diversity has a peculiarly Welsh flavour, perhaps, but I believe that it will encourage a socially conscious and ethical economy in Wales and an economy that will be more sustainable in the long term.

Mae gan Gymru hanes cyfoethog iawn gyda mentrau cydweithredol a heddiw, mae un o bob pump o bobl yng Nghymru yn aelod o gwmni cydweithredol a 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi mewn cwmni o'r fath. Felly, byddem yn hoffi gweld sefyllfa mentrau cymdeithasol ac ymddiriedolaethau datblygu cymunedol yn gwella a'i gwneud yn haws iddynt dendro am gontractau gan y cynghorau, a chan Lywodraeth Cymru hefyd. Rwy'n credu'n gryf bod hyn yn arbennig o bwysig am ddau reswm: yn gyntaf, bod yr amrywiaeth hwn yn y strwythur economaidd yn mynd i fod yn fwy cadarn mewn cyfnod economaidd anodd, ond rwyf hefyd o'r farn fod blas Cymreig unigryw i'r amrywiaeth, efallai, ond rwy'n credu y bydd yn annog economi yn seiliedig ar ymwybyddiaeth gymdeithasol a moesegol yng Nghymru ac economi a fydd yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

I don't think that we need to ape other places' economic strategies. I think that we can build the economy that we want to see.

Nid wyf yn credu bod angen i ni ddynwared strategaethau economaidd mannau eraill. Credaf y gallwn adeiladu'r economi rydym ni am ei gweld.

17:00

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:00

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, go ahead.

Ie, ewch ymlaen.

17:00

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quickly, I thought I would give you a breather, more than anything else, Eluned, after that long speech. You mentioned social enterprises; do you agree with what the Enterprise and Business Committee reported, that, actually, the Welsh Government could do a lot more to support social enterprise entrepreneurship?

Yn gyflym, roeddwn i'n meddwl y byddwn yn rhoi seibiant i chi, yn fwy nag unrhyw beth arall, Eluned, ar ôl yr araith hir honno. Fe sonioch am fentrau cymdeithasol; a ydych yn cytuno â'r hyn y dywedodd y Pwyllgor Menter a Busnes, sef y gallai Llywodraeth Cymru wneud llawer mwy, mewn gwirionedd, i gefnogi entrepreneuriaeth mentrau cymdeithasol?

17:00

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, I think that there's a great diversity in terms of social enterprises, some of which, of course, are not for profit, some of which were set up as co-operatives, and some of which are profit-making businesses. There are, obviously, specific issues that those social enterprises face, and I'd like to see a little bit more work developed specifically within the Wales Co-operative Centre to make sure that social enterprises that are not co-operatives have an appropriate level of business support available to them. I know, perhaps, the Minister will mention that in her response. But, as I said, just to wrap up there—Nick, you stopped me during my last sentence—

Yn hollol, credaf fod yna amrywiaeth mawr o ran mentrau cymdeithasol, gyda rhai ohonynt, wrth gwrs, yn ddielw, rhai ohonynt wedi eu sefydlu fel cwmnïau cydweithredol, a rhai ohonynt yn fusnesau sy'n gwneud elw. Yn amlwg, mae yna faterion penodol y mae'r mentrau cymdeithasol hynny yn eu hwynebu, a hoffwn weld ychydig mwy o waith yn cael ei ddatblygu'n benodol gan Ganolfan Cydweithredol Cymru i sicrhau bod mentrau cymdeithasol nad ydynt yn gwmnïau cydweithredol yn cael lefel briodol o gymorth busnes. Rwy'n gwybod y bydd y Gweinidog yn sôn am hynny yn ei hymateb, efallai. Ond fel y dywedais, i orffen ar hynny-Nick, fe dorroch ar fy nhraws ar ganol fy mrawddeg olaf-

17:00

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry.

Mae'n ddrwg gennyf.

17:00

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We don't need, as I say, to ape other places' economic strategies, we can build on what we've already got. I think we can use Wales's assets, as I say, to build the economy that we want to see for the future, but it will take a long-term commitment.

Fel y dywedais, nid oes angen i ni ddynwared strategaethau economaidd mannau eraill, gallwn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes gennym. Rwy'n meddwl y gallwn ddefnyddio asedau Cymru, fel y dywedais, i adeiladu'r economi rydym ni am ei gweld ar gyfer y dyfodol, ond bydd yn galw am ymrwymiad hirdymor.

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the five amendments to the motion. I call on William Graham to move amendment 1 tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ail rifo yn unol â hynny:*

*Insert as a new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod bod sector preifat llwyddiannus, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn hanfodol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ledled Cymru a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.*

*Acknowledges that a successful private sector, including social enterprises, is vital for sustainable economic growth throughout Wales and the enhancement of public service provision.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:01

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I move the amendment in the name of Paul Davies?

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig y gwelliant yn enw Paul Davies?

Our economy has been beset by three fundamental problems: the biggest budget deficit in post-war history; a build-up of private debt accompanied by a global banking crash; and, third, an erosion of our competitiveness in an era when global competition, the race for our economic future, has rapidly accelerated. By 2008, the United Kingdom had already a structural deficit of more than 7%—the greatest of any G7 country. We have seen the broken model propelling our economy into an increasingly unsustainable position.

Mae ein heconomi wedi cael ei boddi gan dair problem sylfaenol: y diffyg mwyaf yn y gyllideb ers y rhyfel; ôl-groniad o ddyled breifat ynghyd â chwymp byd-eang y banciau; ac yn drydydd, erydiad ein gallu i gystadlu mewn cyfnod pan fo cystadleuaeth fyd-eang, y ras dros ein dyfodol economaidd, wedi cyflymu fwyfwy. Erbyn 2008, roedd gan y Deyrnas Unedig ddiffyg strwythurol o fwy na 7% eisoes—y mwyaf o bob un o'r gwledydd G7. Rydym wedi gweld y model toredig yn gwthio ein heconomi i sefyllfa gynyddol anghynaliadwy.

The Conservative-led coalition Government in the United Kingdom has a policy of deficit reduction, and that has now been cut by a third. There are 1.6 million more private sector jobs and 400,000 more businesses. Britain's economy will be growing faster than any of the other G7 countries by the middle of this year, and the Organisation for Economic Co-operation and Development has predicted an annual growth rate of over 3%. The UK Government really encourages British business, helping to win contracts in tough overseas markets by breaking down barriers to trade, including last month's new export action plan for the retail sector, which is assisting over 1,000 companies, including 600 SMEs, to deliver £0.5 billion-worth of new business for Britain over the next two years.

Mae gan Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig dan arweiniad y Ceidwadwyr bolisi o leihau diffyg, ac mae hwnnw bellach wedi gostwng o draean. Mae 1.6 miliwn yn fwy o swyddi yn y sector preifat a 400,000 yn rhagor o fusnesau. Bydd economi Prydain yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw un arall o wledydd y G7 erbyn canol eleni, ac mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi rhagweld cyfradd twf blynyddol o dros 3%. Mae Llywodraeth y DU yn mynd ati o ddifrif i annog busnesau Prydeinig, gan helpu i ennill contractau mewn marchnadoedd tramor anodd drwy chwalu rhwystrau i fasnach, yn cynnwys cynllun gweithredu allforio newydd y mis diwethaf ar gyfer y sector manwerthu, sy'n cynorthwyo dros 1,000 o gwmnïau, gan gynnwys 600 o fusnesau bach a chanolig, i ddarparu gwerth £0.5 biliwn o fusnes newydd i Brydain dros y ddwy flynedd nesaf.

I want to echo the First Minister's statement back in 2009:

Rwyf am adleisio datganiad y Prif Weinidog yn ôl yn 2009:

'Modern Wales stands for modern manufacturing, modern engineering and modern media.'

'Mae Cymru Fodern yn golygu gweithgynhyrchu modern, peirianneg fodern a chyfryngau modern.'

Despite this aspirational statement, little has been done to achieve these goals, and, after 15 years of successive Labour Governments, Wales remains the poorest part of the United Kingdom, with a rate of economic inactivity consistently above the UK average. Parts of Wales remain amongst the poorest parts of Europe—

Er gwaethaf y datganiad uchelgeisiol hwn, ychydig iawn a wnaed i gyflawni'r nodau hyn, ac ar ôl 15 mlynedd o Lywodraethau Llafur olynol, Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig o hyd, gyda chyfradd anweithgarwch economaidd sy'n gyson uwch na chyfartaledd y DU. Mae rhannau o Gymru yn parhau i fod ymhlith y rhannau tlotaf o Ewrop—

17:03

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:03

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I just finish this part? They are set to qualify for a third round of EU aid despite £4 billion of EU funds having been spent by Labour since 2000.

A gaf fi orffen y rhan hon? Maent ar y trywydd i fod yn gymwys ar gyfer trydedd rownd o gymorth yr UE er gwaethaf y ffaith fod £4 biliwn o arian yr UE wedi cael ei wario gan y Blaid Lafur ers 2000.

17:03 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. You started that section of your speech explaining how the benefit of the UK Government's benevolence is benefiting Wales in economic terms. You then went on and said that Wales remains poor. Do those two sentences not tell you that if we are to eradicate poverty, we don't need more of the same, we need to do something different?

Diolch yn fawr iawn. Fe ddechreuoch y rhan honno o'ch araith yn egluro sut y mae mantais caredigrwydd Llywodraeth y DU o fudd i Gymru mewn termau economaidd. Aethoch ati wedyn i ddweud fod Cymru yn parhau i fod yn dlawd. Onid yw'r ddwy frawddeg yn dweud wrthych, os ydym i ddileu tlodi nad oes angen mwy o'r un peth arnom, fod angen i ni wneud rhywbeth gwahanol?

17:03 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No; it means that what the UK Government is trying to attempt is being frustrated by the Labour Government here in Cardiff.

Na; mae'n golygu bod yr hyn mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei wneud yn cael ei rwystro gan y Llywodraeth Lafur yma yng Nghaerdydd.

The First Minister has also said that he wants to encourage young people to think of business as a worthwhile aspiration, and yet we hear of the planned cutback in the numbers of apprenticeships, coupled with a reduction in Jobs Growth Wales—hardly an environment for promoting worthwhile aspiration for our young people. The Minister also stated that he wants to enhance the commercial experience available at universities, so that they can be a better source of new, indigenous businesses. This cannot be done by one part of the economy. It is critical that the Government, educational providers and employers work together to ensure that it is not only hard, work-related skills that are considered important, but the development of all skills that could really make a difference, both to the individual and to their employer in the future.

Mae Prif Weinidog Cymru hefyd wedi dweud ei fod am annog pobl ifanc i feddwl am fusnes fel dyhead gwerth chweil, ac eto rydym yn clywed am y toriadau arfaethedig yn niferoedd y prentisiaethau, ynghyd â gostyngiad yn Twf Swyddi Cymru—go brin fod hwnnw'n amgylchedd ar gyfer hybu dyhead gwerth chweil ar gyfer ein pobl ifanc. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod am wella'r profiad masnachol sydd ar gael mewn prifysgolion, fel y gallant fod yn ffynhonnell well o fusnesau newydd, brodorol. Ni ellir gwneud hyn drwy un rhan o'r economi. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth, darparwyr addysg a chyflogwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad sgiliau caled, cysylltiedig â gwaith yn unig sy'n cael eu hystyried yn bwysig, ond datblygu'r holl sgiliau a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r unigolyn ac i'w gyflogwr yn y dyfodol.

To sustain economic growth, one has to look at the lead of the UK Conservative Government. The economy carries on growing and the UK is stronger, and jobs will continue to be created at record levels. Since 2010, over 1.7 million new jobs have been created in the economy, with new recruitment into the private sector far exceeding the posts lost in the public sector. Over 1 million of these jobs are in full-time posts, and the Welsh Conservatives believe in helping businesses to create more jobs to offset cuts in the public sector. Labour and their trade union paymasters claimed that this would not be possible. As far as they were concerned, economic growth could only be possible by increasing public spending and the number of public sector jobs. While we cut, at UK level, corporation tax rates, national insurance contributions and fuel duty, and embarked on a deregulatory programme to slash the costs of red tape to help business, Labour remained wedded to their dogmatic statist agenda. With every new job that is created in the private sector their claims are well and truly crushed. The record pace at which new jobs are being created is very encouraging. In the last year, about 700,000 more people found work and, with confidence in the economy rising, companies are planning to intensify their recruitment.

Er mwyn cynnal twf economaidd, rhaid edrych ar arweiniad Llywodraeth Geidwadol y DU. Mae'r economi yn parhau i dyfu ac mae'r DU yn gryfach, a bydd swyddi'n parhau i gael eu creu ar lefelau uwch nag erioed. Ers 2010, mae dros 1.7 miliwn o swyddi newydd wedi cael eu creu yn yr economi, gyda llawer mwy o weithwyr newydd yn cael eu recriwtio i'r sector preifat na'r swyddi a gollwyd yn y sector cyhoeddus. Mae dros 1 filiwn o'r swyddi hyn yn swyddi amser llawn, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn helpu busnesau i greu mwy o swyddi i wneud iawn am doriadau yn y sector cyhoeddus. Honnodd Llafur a'u meistri cyflog yn yr undebau llafur na fyddai hyn yn bosibl. O'u rhan hwy, nid oedd twf economaidd ond yn bosibl drwy gynyddu gwariant cyhoeddus a nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus. Er ein bod yn torri, ar lefel y DU, cyfraddau treth gorfforaeth, cyfraniadau yswiriant gwladol a threth ar danwydd, ac yn dechrau ar raglen ddadreoleiddio i dorri costau biwrocratiaeth er mwyn helpu busnesau, roedd Llafur yn parhau i ymlynu at ei hagenda wladoliaethol ddogmatig. Gyda phob swydd newydd sy'n cael ei chreu yn y sector preifat, caiff eu honiadau eu chwalu'n llwyr. Mae cyflymder creu swyddi newydd, na welwyd ei fath o'r blaen, yn galonogol iawn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, daeth tua 700,000 yn rhagor o bobl o hyd i waith a chyda hyder yn yr economi ar gynnydd, mae cwmnïau'n cynllunio i ddwysáu eu gweithgarwch recriwtio.

Crucially, the new jobs being created in the economy are benefiting diverse sections of society. The proportion of women in work now stands at a record 67.6%, the numbers of unemployed young people are falling, and long-term unemployment is down by 93,000 on last year. As jobs continue to be created and growth gets stronger, we should praise the private sector for their contribution in growing and rebuilding our economy. Figures confirm that recovery is on track, and our plan is building a stronger, healthier economy, protecting Britain from the economic storm with the fastest growth of any major economy in 2014. That means that more businesses are creating more jobs and more people with security of a wage to provide for their family. It means that we can afford to cut the deficit while investing in the things that matter to hard-working families: great schools, front-line health services, and apprenticeships so that young people can achieve. The Welsh Government would do well to follow this example.

Yn allweddol, mae'r swyddi newydd sy'n cael eu creu yn yr economi yn fanteisiol i rannau amrywiol o gymdeithas. Mae cyfran y menywod mewn gwaith bellach yn uwch nag erioed ar 67.6%, mae nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith yn gostwng, ac mae diweithdra hirdymor wedi gostwng 93,000 o gymharu â'r llynedd. Wrth i swyddi barhau i gael eu creu ac wrth i dwf gryfhau, dylem ganmol y sector preifat am eu cyfraniad i'r broses o dyfu ac ailadeiladu ein heconomi. Mae'r ffigurau'n cadarnhau bod adferiad ar y trywydd iawn, a'n cynllun yw adeiladu economi gryfach, iachach, sy'n diogelu Prydain rhag y storm economaidd gyda thwf cyflymaf unrhyw un o'r economïau mawr yn 2014. Mae hynny'n golygu bod mwy o fusnesau yn creu mwy o swyddi a mwy o bobl yn cael diogelwch cyflog i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Mae'n golygu ein bod yn gallu fforddio torri'r diffyg ariannol gan fuddsoddi yn y pethau sy'n bwysig i deuluoedd gweithgar: ysgolion gwych, gwasanaethau iechyd rheng flaen, a phrentisiaethau er mwyn i bobl ifanc allu cyflawni. Byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ddilyn yr esiampl hon.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 2, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 2, 4 and 5 tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Yn is-bwynt 5(e), mewnosoder ar ôl 'Prif Linell Reilffordd Arfordir y Gogledd':*

*In subpoint 5(e), insert after 'North Wales Coast Main Line':*

*'a Llinell y Gororau'.*

*'and the Wales Marches Line'.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:*

*Add as new sub-point at end of point 5:*

*ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach i roi rhyddhad o 100% i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £10,000 neu lai a rhyddhad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer y rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £10,001 a £15,000.*

*extending the Small Business Rate Relief Scheme to give all businesses with a Rateable Value of £10,000 or less 100% relief and tapered relief for those with a Rateable Value between £10,001 and £15,000.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:*

*Add as new sub-point at end of point 5:*

*sefydlu corff newydd i weithio ochr yn ochr â UKTI i adeiladu perthynas fasnachu rhwng busnesau Cymru a'r gymuned ryngwladol.*

*establishing a new body to work alongside UKTI to build trading relationships between Welsh businesses and the international community.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 4 a 5.*

*Amendments 2, 4 and 5 moved.*

17:06 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch am y cyfle i siarad. Ni wnaf siarad yn hir iawn. Nid wyf yn gwybod a yw'r cynnig yma'n enghraifft o'r hyn rydym yn mynd i'w weld rhwng rŵan a'r etholiad, ond mae gen i amheuon o ddifrif ynglŷn â gwerth yr hyn rydym yn ei drafod yn yr awr yma. Mae'n ymddangos i mi mai beth mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei wneud, mwy na dim, ydy gwneud rhyw 'cut and paste' ar brif egwyddorion eu maniffesto ar gyfer datblygu economaidd, ac ychwanegu rhyw un neu ddau o enghreifftiau penodol, o bosib ar gyfer impact mewn lleoedd penodol yng Nghymru.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you for the opportunity to contribute. I won't take too long. I don't know if this motion is an example of what we're likely to see between now and the election, but I have serious doubts about the value of what we're discussing during this hour. It appears to me that what the Liberal Democrats have done, more than anything, is to do some sort of cut and paste on the main principles of their manifesto for economic development, and to add a few specific examples in there, possibly for impact in specific areas of Wales.

17:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf ofyn i chi, felly, beth oedd pwrpas eich dadl chi eisoes?

May I ask you, therefore, what the purpose of your previous debate was?

17:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn gwybod bod 'austerity'—os mai'r dyna'r ddadl rydych chi'n cyfeirio ati—yn ymwneud yn benodol â strategaeth Llywodraeth Prydain, sy'n cael niwed ar hyd a lled Cymru, ac yn fater y mae'n bwysig iawn i'w drafod yma ar lawr y Cynulliad.

We know that austerity—if that's the debate that you're referring to—refers specifically to the strategy of the UK Government, which is causing damage the length and breadth of Wales, and is an important issue to be discussed here on the floor of the Assembly.

Mae'n rhaid i mi ddweud nid wyf yn anghytuno efo llawer sydd yn y cynnig yma. A dweud y gwir, mae llawer ohono fo'n gyfarwydd iawn: yr alwad am fanc datblygu i Gymru, er enghraifft, sy'n rhywbeth rydym wedi bod yn galw amdano fo er tro. Mae yna alw am astudiaeth dichonoldeb o adfer cysylltiad rheilffordd Caerfyrddin i Aberystwyth—ymgyrch sydd wedi cael ei harwain yma yn y Senedd gan Simon Thomas o Blaid Cymru. Rwy'n siŵr ei fod o wrth ei fodd rŵan o gael cefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ar hynny. A dweud y gwir, mae yna lawer iawn rwy'n cytuno efo fo yn y cynnig yma. Mae pwyntiau 1 i 4 yn ddatganiad eithaf amlwg, buaswn i'n dweud, o rai o'n prif heriau ni, ac egwyddorion cyffredinol sy'n rhaid i ni eu hystyried wrth drio cryfhau ein heconomi ni.

I have to say that I do not disagree with much of what's included in this motion. Indeed, much of it is well trodden: the need for a development bank for Wales, for example, is something that we have been calling for for quite some time. There is a call for a feasibility study of renewing the railway line between Carmarthen and Aberystwyth—a campaign that has been led here, in the Senedd, by Simon Thomas from Plaid Cymru. I am sure that he is now delighted to receive the support of the Liberal Democrats on that issue. To be honest, there's a great deal that I agree with in this motion. Points 1 to 4 are quite an obvious statement, I would say, of some of the main challenges facing us, and the general principles that we need to consider in trying to strengthen our economy.

Ond, gadewch i mi ddweud gair neu ddau am ein gwelliannau ni, sy'n ymwneud wedyn â phwynt 5. Ar welliant 2 yn gyntaf, tra bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn galw am gefnogaeth i drydaneiddio prif linell rheilffordd arfordir y gogledd—rydym yn cytuno efo hynny wrth reswm—rydym yn ychwanegu at hynny yr angen i drydaneiddio rheilffordd y gororau hefyd. Mae'n rhaid i ni feddwl yn nhermau trydaneiddio Cymru gyfan. Os ydym am gael system reilffordd integredig wirioneddol, nid yw rheilffordd drydan ar draws y gogledd a rheilffordd drydan ar draws y de, heb uchelgais o gael cyswllt wedi'i drydaneiddio rhyngddyn nhw, yn dda i ddim.

However, let me say a few words about our own amendments, which relate to point 5. On amendment 2, first of all, while the Liberal Democrats call for support for the electrification of the north Wales coast main line—we of course agree with that—we also add to that the need to electrify the Wales marches line also. We must think about electrifying the whole of the network in Wales. If we want a truly integrated railway system, an electrified line across north Wales and an electrified line across south Wales, without the aim of trying to create an electrified link between them, will be good for nothing.

Mae gwelliant 4 yn ychwanegu manylder at gynnig y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae Plaid Cymru wedi bod yn galw am hyn ers 2007 erbyn hyn. Mi wnaethon ni lwyddo i gyrraedd cyfaddawd efo Llafur yng nghlymblaid Cymru'n Un a sefydlu rhaglen rhyddhad, ond nid yw'r rhaglen yna'n mynd yn ddigon pell. Byddai ymestyn y rhaglen bresennol yn helpu pob busnes sydd â gwerth trethiannol o £15,000 neu lai ac yn helpu mwy na 83,000 o fusnesau yng Nghymru. Byddai cynnig rhyddhad o 100% i fusnesau sydd â gwerth trethiannol o £10,000 neu lai yn dod â mwy na 70,000 o fusnesau allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Byddai effaith y rhaglen yma ar yr economi yn sylweddol. Rwyf yn erfyn ar bob plaid yn y Siambr yma i bleidleisio o blaid y gwelliant yma.

Amendment 4 adds detail to the Liberal Democrats' motion. Plaid Cymru has been calling for this since 2007. We succeeded in reaching a compromise with Labour during the One Wales coalition and established a business rate relief scheme, but that does not go far enough. Extending the current programme would assist every business with a rateable value of £15,000 or less and it would assist more than 83,000 businesses in Wales. Providing 100% relief to businesses with a rateable value of £10,000 or less would bring more than 70,000 out of business rates entirely. The impact of this programme on the economy would be substantial. I urge every party in this Chamber to vote in favour of this amendment.

Yn olaf, yn ysbryd y rhestru yma o nifer o brif egwyddorion economaidd, mae gwelliant 5 yn adlewyrchu'n gweledigaeth ni o Gymru fel gwlad sy'n llwyddo fel allforiwr, efo cysylltiadau masnach cryf o gwmpas y byd. Diolch yn fawr.

Finally, in the spirit of listing main economic principles, amendment 5 reflects our vision of Wales as a successful exporter with strong international trade connections. Thank you very much.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig yn ffurfiol welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to formally move amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*Amendment 3—Jane Hutt*

*Ym mhwynt 5e) dileu 'datblygu awdurdodau trafnidiaeth teithwyr i reoleiddio trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau darpariaeth addas' a rhoi yn ei le 'datblygu model nad yw'n talu difidend fel rhan allweddol o ddarparu system drafnidiaeth integredig'.*

*In point 5e) delete 'developing passenger transport authorities to regulate public transport and ensure suitable provision' and replace with 'developing a not-for-dividend model as a key part of delivering an integrated transport system'.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

17:10

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Yn ffurfiol.

Formally.

17:10 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddweud yn y lle cyntaf mai pwrpas y cynnig yma heddiw ydy tanlinellu'r ffaith ein bod ni'n teimlo bod yn rhaid inni gefnogi pob cymuned yng Nghymru, a'r ffordd i'w cefnogi nhw ydy trwy adfywiad economaidd? Ond, nid ydym yn teimlo bod un ffordd o wneud hynny yn ateb i bob sefyllfa. Felly, rydym yn credu bod yna dueddiad, hwyrach, yn y ddadl yma ynglŷn â chreu parthau dinesig, bod yna sefyllfa lle mae dinasoedd eu hunain yn hunangynhaliol, ond nid yw hynny'n wir o'n trefi llai ni na'n hardaloedd gwledig ni. Rydym yn credu bod yna werth inni edrych ar rhai o'r polisïau sy'n cael eu cyflawni yn Lloegr. Nid wyf yn dweud bod Lloegr efo'r ateb i bob cwestiwn, ond rwyf yn meddwl ei bod hi yn werth edrych ar eu profiad nhw, lle mae'r City Deals, wrth gwrs, yn edrych ar y sefyllfa, nid yn unig o fewn rhai o'r dinasoedd, ond hefyd o fewn rhai o'r trefi marchnadoedd a hefyd o fewn ardaloedd gwledig. Yr hyn rydym ni'n teimlo y mae'n rhaid inni edrych arno fo fel Cynulliad, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru edrych arno fo, ydy bod yna dueddiad ar hyn o bryd yng Nghymru i bobl feddwl mai datganoli o Lundain i'r bae yma yng Nghaerdydd sydd yn digwydd, a bod dim datganoli i lawr i'n hardaloedd ni, bydded hynny yn y gorllewin, y gogledd neu'r canolbarth.

Can I say first of all that the purpose of this motion today is to underline the fact that we feel that we must support every community in Wales, and that the way to support them is through economic regeneration? But, we do not feel that one way of doing that is a solution to every situation. So, we believe that there is a tendency, perhaps, in this debate about the creation of city regions, for there to be a situation where cities themselves are self-sustaining, but that that is not true of our smaller towns and our rural areas. We believe that there is value in looking at some of the policies that are being delivered in England. I am not saying that England has the answer to every question, but I do think it's worth looking at their experience, where the City Deals, of course, look at the situation not only in some of the cities, but also in some market towns and in rural areas. What we feel that we have to look at, as an Assembly, and that the Welsh Government has to look at, is that there is a tendency at the moment in Wales for people to think that devolution from London to the bay here in Cardiff is what is happening, and that there is no devolution then down to our regions, be that in the west, the north or mid Wales.

Rydym hefyd yn ceisio tynnu sylw at y ffaith bod ein parthau mentrau ni hwyrach ddim mor llwyddiannus ag y dylen nhw fod. Mae Eluned Parrott wedi cyfeirio at rai o'r ystadegau, ond rwyf yn meddwl ei bod hi'n werth edrych ar y sefyllfa hyd yn oed yma yng Nghaerdydd, sef y parth mwyaf llwyddiannus os ydym yn edrych ar greu swyddi, ond eto lle dim ond 32% y cant o fusnesau o fewn y parth hwnnw sydd hyd yn oed yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn gweithredu o fewn parth. Rydym yn teimlo bod rhai o'r polisïau yn y cynnig hwn, gan gynnwys 'tax increment funding', yn ffordd newydd o edrych ar y sefyllfa a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i fenthyca arian ar sail yr ardrethi busnes y byddan nhw'n eu derbyn yn y dyfodol.

We are also trying to draw attention to the fact that our enterprise zones may not not be as successful as they should be. Eluned Parrott has referred to some of the statistics, but I think it's worth looking at the situation even here in Cardiff, which is the most successful zone if we look at job creation, but where only 32% per cent of businesses within the zone are even aware of the fact that they are operating within an enterprise zone. We feel that some of the policies in this motion, including tax increment funding, are a new way of looking at the situation that would enable local authorities to borrow money on the basis of the business rates that they will receive in the future.

Rydym hefyd yn meddwl, er bod yn rhaid inni fod yn onest ynglŷn â'r ffaith—fel mae rhai eraill wedi dweud eisoes—fod yna broblemau o ran yr isadeiledd digidol yma yng Nghymru. Rwy'n ymwybodol o'r buddsoddiad mae'r Llywodraeth wedi'i wneud, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gael cynllun yn yr hirdymor lle, hwyrach, os bydd newid polisïau o ran Llywodraeth—os byddwn yn gweld Llywodraeth o wahanol liw ar ôl 2016—byddwn yn dweud ein bod ni'n mynd i barhau efo'r sefyllfa yna.

We also think, although we must be honest about the fact—as others have already said—that there are problems with the digital infrastructure here in Wales. I am aware of the investment that the Government has made, but I think that we must have a long-term plan in which, perhaps, if there is a change in Government policies—if we see a Government of a different colour after 2016—we would say that we're going to continue with that situation.

Rwy’n meddwl mai’r peth mwyaf pwysig o ran denu buddsoddiad i Gymru yw rhai o’r ffaeleddau sydd gennym ni o ran ein rhwydwaith trafnidiaeth. Mae’n rhaid inni gael buddsoddiad mewn trafnidiaeth. Rwy’n croesawu’r ffaith, wrth gwrs, fod yna gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynglŷn â’r brif lein rhwng Abertawe a Llundain, ond mae’n rhaid inni adeiladu ar hynny. Rydym eisoes, mewn rhai o’r cynigion y prynhawn yma, wedi sôn am fuddsoddiad o ran metro de Cymru, ac rwyf yn derbyn cynnig Plaid Cymru. Dylem fod yn uchelgeisiol. Mae’n rhaid inni ddweud mai’r cam nesaf yw gweld buddsoddiad o ran rheilffordd arfordir Cymru. Ond, wrth gwrs, mae yna berygl, wrth inni weld yr HS2 a phethau yn mynd i Crewe, y bydd yna driongl yn y gogledd ddwyrain ac i lawr yma i Gaerdydd a fydd yn cael ei esgeuluso. Rwy’n meddwl bod yna broblemau ynglŷn â, hwyrach, y math o drenau a fydd ar gael os nad yw’r buddsoddiad yna yn cymryd lle. Rydym yn barod i alw ar Lywodraeth Cymru i roi arian mewn i weld yn union beth sydd o fewn ein gallu ni i’w wneud o ran y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, o achos bydd yna dwll, ‘really’, yn y rhwydwaith heblaw ein bod ni yn gwneud rhywbeth ynghylch hynny.

I think the most important thing in terms of attracting investment to Wales is some of the failings that we have in terms of our transport network. We must have investment in transport. I welcome the fact, of course, that there is agreement between the Welsh Government and the United Kingdom Government on the main line between Swansea and London, but we have to build on that. We have already, in some of the motions this afternoon, talked about investment in the south Wales metro, and I do accept the Plaid Cymru proposal. We should be ambitious. We have to say that the next step is to see investment in terms of the north Wales coast line. But, of course, there is a risk, as we see HS2 and so on go to Crewe, that there will be a triangle in the north-east and down to Cardiff that would be neglected. I think there is a problem, perhaps, in terms of the type of trains that will be available if that investment does not take place. We are prepared to call on the Welsh Government to put money in to see exactly what can be done within our powers in respect of the railway line between Carmarthen and Aberystwyth, because there is a gap, really, in the network if we don’t do anything about that.

Mae yna, wrth gwrs, broblem—ac rwy’n gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol o hyn—o ran y ffreit. Mae yna broblemau o ran nifer y lorïau ar yr A55—y ffaith bod yna ddim modd ar hyn o bryd i lawer iawn o ddefnydd gael ei wneud o’r rheilffordd i Gaergybi. Wrth gwrs, mae’r ffaith ein bod ni’n dweud bod ein porthladdoedd ni ar agor yn beth pwysig os ydym ni i ddenu buddsoddiad.

There is, of course, a problem—and I know that the Minister is aware of this—in terms of freight. There are problems in terms of the number of lorries on the A55—the fact that there is no way at present to make a great deal of use of the railway line to Holyhead. Of course, the fact that we say that our ports are open is an important message if we are to attract investment.

Yn gryno, felly, mae’n rhaid inni gefnogi ein cymunedau trefol a’n cymunedau gwledig. Mae’n rhaid inni ddweud bod yna barthau mentrau yma sy’n llwyddiannus, a’n bod ni’n dysgu’r gwersi o’r ochr draw i Glawdd Offa, ond hefyd ein bod ni’n awyddus fel cenedl i fuddsoddi yn yr isadeiledd digidol, a’n trafnidiaeth, er mwyn i’r sector busnes wybod bod Cymru yn agored i fusnes.

So, briefly, we do have to support our urban and rural communities. We do have to say that there are enterprise zones that are successful, and that we are learning lessons from England, and that we are eager as a nation to invest in digital infrastructure, and our transport, so that the business sector can know that Wales is open for business.

17:15

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think, in the previous debate in which I spoke this afternoon, I was disagreeing with Rhun ap Iorwerth at that time; I find myself in agreement with him during this debate. It's a curious motion—it reads something like a tick-box exercise, or a shopping list, on economic development issues. There appears to be little sense of purpose and no description of why we actually want to do these things. A catch-all debate on economic development—there's nothing intrinsically wrong with that, and, in fact, I agree with much that is on that shopping list, but I do believe that it lacks a sense of purpose, and lacks a sense of why we want to do these things. What is the purpose of public expenditure, a taxpayer intervention, in economic activity? For me, that purpose has to be clear. It has to increase and embed sustainability and a low-carbon economy in all of our economic activities and in all aspects of our economy. Only governments can actually deliver that, and I believe that this Government should be acting in order to deliver and to hardwire sustainability and a low-carbon economy in economic activity across the country.

Yn y ddadl flaenorol y siaradais ynddi y prynhawn yma, rwy’n credu fy mod yn anghytuno â Rhun ap Iorwerth ar y pryd; rwy’n gweld fy mod yn cytuno ag ef yn ystod y ddadl hon. Mae’n gynnig rhyfedd—mae’n darllen ychydig fel ymarfer ticio blychau, neu restr siopa, ar faterion datblygu economaidd. Nid yw’n ymddangos bod iddo fawr o ymdeimlad o ddiben ac ni cheir disgrifiad sy’n dweud pam rydym yn awyddus i wneud y pethau hyn mewn gwirionedd. Dadl gyffredinol ar ddatblygu economaidd—nid oes dim o’i le ar hynny yn y bôn, ac a dweud y gwir, rwy’n cytuno â llawer sydd ar y rhestr siopa, ond rwy’n credu nad yw’n cynnwys ymdeimlad o ddiben, ac ni cheir ymdeimlad o pam rydym am wneud y pethau hyn. Beth yw diben gwariant cyhoeddus, ymyrraeth trethdalwr, mewn gweithgarwch economaidd? I mi, rhaid i’r diben hwnnw fod yn glir. Rhaid iddo gynyddu ac ymgorffori cynaliadwyedd ac economi carbon isel ym mhob un o’n gweithgareddau economaidd ac ym mhob agwedd ar ein heconomi. Llywodraethau yn unig a all gyflawni hynny mewn gwirionedd, ac rwy’n credu y dylai’r Llywodraeth hon weithredu er mwyn darparu a gwneud cynaliadwyedd ac economi carbon isel yn rhan annatod o weithgarwch economaidd ar draws y wlad.

The other action that Government should be taking—or the purpose of Government action—should be to actually reduce and eradicate poverty. William Graham, in his remarks this afternoon, spoke about how economic growth can return to Wales and the impact that that can have on the country. Let me say this to William: we saw, a decade ago, the longest sustained period of growth since the nineteenth century. The Blair Governments delivered sustained economic growth across the whole of the United Kingdom. What we didn't see in Wales was the same reduction in poverty. So, that means that we need to do something differently, and, if we continue to follow the same economic model that has delivered growth but not eradicated poverty in the past, it is unlikely that that economic model will eradicate poverty in the future. And that means that we need to do something different if we are going to achieve an increase in equality in our society.

Y camau eraill y dylai'r Llywodraeth fod yn eu rhoi ar waith-neu'r hyn a ddylai fod yn ddiben i waith y Llywodraeth-yw lleihau a dileu tlodi mewn gwirionedd. Siaradodd William Graham, yn ei sylwadau y prynhawn yma, ynglŷn â sut y gall twf economaidd ddychwelyd i Gymru a'r effaith y gall hynny ei chael ar y wlad. Gadewch i mi ddweud hyn wrth William: ddegawd yn ôl, gwelsom y cyfnod parhaus hiraf o dwf ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyflwynodd Llywodraethau Blair dwf economaidd parhaus ar draws y cyfan o'r Deyrnas Unedig. Yr hyn nas gwelsom yng Nghymru oedd yr un gostyngiad mewn tlodi. Felly, mae hynny'n golygu bod angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol, ac os parhawn i ddilyn yr un model economaidd sydd wedi cyflwyno twf ond heb ddileu tlodi yn y gorffennol, mae'n annhebygol y bydd model economaidd o'r fath yn dileu tlodi yn y dyfodol. Ac mae hynny'n golygu bod angen i ni wneud rhywbeth gwahanol os ydym yn mynd i sicrhau mwy o gydraddoldeb yn ein cymdeithas.

I've read, in preparing for this debate, the Government's document on supporting business and the economy, and, again, it lists a lot of very good and very worthy interventions and activities that a Government has done, and should be doing, to intervene in any economy, but I'm disappointed that there is little discussion of how green growth can help transform the Welsh economy, and little recognition of the importance of sustainability in Government actions and ensuring that we do have sustainability at the heart of economic activity in the future. The Welsh Labour manifesto in 2011 mentioned the word 'sustainability' 60 times. I could only see three mentions in this document of the same word, and none of those referred to either climate change or environmental sustainability. So, we do need a strong focus on sustainability in the Government's programme, which doesn't appear to be there at the moment.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon, darllenais ddogfen y Llywodraeth ar gefnogi busnes a'r economi, ac unwaith eto, mae'n rhestru llawer o ymyriadau a gweithgarwch da a theilwng iawn a wnaeth y Llywodraeth, ac y dylai fod yn eu gwneud, i ymyrryd mewn unrhyw economi, ond rwy'n siomedig nad oes fawr o drafod ar sut y gall twf gwyrdd helpu i drawsnewid economi Cymru, ac ychydig iawn o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd cynaliadwyedd yng ngwaith y Llywodraeth a sicrhau bod gennym gynaliadwyedd wrth galon gweithgarwch economaidd yn y dyfodol. Defnyddiodd maniffesto Llafur Cymru yn 2011 y gair 'cynaliadwyedd' 60 gwaith. Deirgwaith yn unig y gwelais y gair yn cael ei grybwyll yn y ddogfen hon, ac nid oedd yr un o'r rhain yn cyfeirio at gynaliadwyedd o ran newid yn yr hinsawdd neu gynaliadwyedd amgylcheddol. Felly, mae angen ffocws cryf arnom ar gynaliadwyedd yn y rhaglen lywodraethu, nad yw'n ymddangos ei fod yno ar hyn o bryd.

We also need to see from Government a very clear statement on how it sees economic policy contributing to the wider objectives of tackling poverty. We need to understand how Government actions today will help eradicate poverty tomorrow. One of the disappointments, I feel, that we've found in the communities committee at the moment in reviewing the Government's work on the tackling poverty agenda is the lack of linkage and the lack of joint working and leadership in addressing economic issues and economic policy as a part of the wider tackling poverty agenda. We know—we know from experience—that trickle-down doesn't work. It hasn't worked in the past, and it's not going to work in the future. So, I hope that, in addressing this debate this afternoon, the Minister will answer some of those questions and put my mind to rest on some of those matters, but I hope also that we will actually, in terms of taking forward debates on economic development in this Chamber, whoever may be proposing future debates, recognise that there has to be a purpose to Government activity, but Government activity in sustaining and supporting economic development isn't simply listing actions and activities; it is doing so with a purpose, and that purpose must be a far-sighted purpose. And, if we are to have a purpose, I can say that sustainability and eradicating poverty must be the objective of this Government and future Welsh Governments.

Mae angen inni weld datganiad clir iawn gan y Llywodraeth ynglŷn â sut y mae'n gweld polisi economaidd yn cyfrannu at amcanion ehangach trechu tlodi. Mae angen i ni ddeall sut y bydd gwaith y Llywodraeth heddiw yn helpu i ddileu tlodi yfory. Un o'r siomedigaethau a welsom yn y pwyllgor cymunedau ar hyn o bryd wrth adolygu gwaith y Llywodraeth ar yr agenda trechu tlodi, rwy'n teimlo, yw'r diffyg cysylltedd a'r diffyg cydweithio ac arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â materion economaidd a pholisi economaidd fel rhan o'r agenda trechu tlodi ehangach. Gwyddom—gwyddom o brofiad—nad yw o'r brig i lawr yn gweithio. Nid yw wedi gweithio yn y gorffennol, ac nid yw'n mynd i weithio yn y dyfodol. Felly, wrth ymateb i'r ddadl y prynhawn yma, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ateb rhai o'r cwestiynau hynny a thawelu fy meddwl ynghylch rhai o'r materion hynny, ond rwy'n gobeithio hefyd y byddwn mewn gwirionedd, o ran bwrw ymlaen â'r dadleuon ar ddatblygu economaidd yn y Siambr hon, pwy bynnag fydd yn cynnig dadleuon yn y dyfodol, yn cydnabod bod yn rhaid cael diben i weithgarwch y Llywodraeth. Nid mater syml o restru camau gweithredu a gweithgareddau yw gweithgarwch y Llywodraeth o ran cynnal a chefnogi datblygiad economaidd; mae'n golygu gwneud hynny gydag ymdeimlad o ddiben, a rhaid i'r diben hwnnw fod yn ddiben pellgyrhaeddol. Ac os ydym am gael diben, a gaf fi ddweud bod yn rhaid i gynaliadwyedd a dileu tlodi fod yn nod i'r Llywodraeth hon a Llywodraethau Cymru yn y dyfodol.

17:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is essential to ensure that businesses, once they have the finance they need, can also access the markets they need, whether local to Wales or not. Getting the right advice on how to run and grow your business can be critical for this. Unfortunately, business advice in Wales suffers from fragmentation, bureaucracy and a lack of visibility. Small business management is complex, and requires competent advisers who have had experience of running a successful SME to provide advice on mentoring. In this way, some of the best forms of advice for business can often be from other business people. We would like to see networks of recommended and approved advisers in each region in order to provide professional business support. These business advice networks would be highly specialised and able to provide advice and support on different aspects of business. Businesses may require different aspects of support as they grow and develop, and the established advice networks must be able to provide this breadth of advice.

Mae'n hanfodol sicrhau bod busnesau, pan fydd ganddynt y cyllid sydd ei angen arnynt, hefyd yn gallu cyrraedd y marchnadoedd sydd eu hangen arnynt, boed yn lleol yng Nghymru neu fel arall. Gall cael y cyngor cywir ar sut i redeg a thyfu eich busnes fod yn allweddol ar gyfer hyn. Yn anffodus, mae cyngor busnes yng Nghymru yn dioddef yn sgil biwrocratiaeth, y ffaith ei fod yn ddarniog a diffyg gwelededd. Mae rheoli busnesau bach yn gymhleth, ac yn galw am gynghorwyr cymwys sydd wedi cael profiad o redeg busnes bach a chanolig llwyddiannus i ddarparu cyngor ar fentora. Fel hyn, bydd rhai o'r ffurfiau gorau ar gyngor i fusnesau yn aml yn cynnwys cyngor gan bobl fusnes eraill. Byddem yn hoffi gweld rhwydweithiau o gynghorwyr a argymhellwyd ac a gymeradwywyd ym mhob rhanbarth i ddarparu cymorth busnes proffesiynol. Byddai'r rhain yn rhwydweithiau cyngor busnes arbenigol iawn ac yn gallu darparu cyngor a chefnogaeth ar wahanol agweddau ar fusnes. Mae'n bosibl y bydd busnesau angen gwahanol fathau o gymorth wrth iddynt dyfu a datblygu, a rhaid i'r rhwydweithiau cyngor a sefydlwyd allu darparu'r ehangder hwn o gyngor.

It is not uncommon for start-ups to fail within the first year, and having access to appropriate support is vital to minimise the chances of this happening. This isn't about asking civil servants to provide business support; it's about linking existing small businesses that offer professional services, like accountancy and marketing expertise, with the businesses that need them.

Nid yw'n anghyffredin i fusnesau newydd fethu o fewn y flwyddyn gyntaf, ac mae cael gafael ar y gefnogaeth briodol yn allweddol er mwyn lleihau'r perygl y bydd hyn yn digwydd. Nid yw'n ymwneud â gofyn i weision sifil ddarparu cymorth busnes; mae'n ymwneud â chysylltu busnesau bach sydd eisoes yn bodoli ac sy'n cynnig gwasanaethau proffesiynol, megis arbenigedd cyfrifyddiaeth a marchnata, gyda'r busnesau sydd eu hangen.

Export promotion is a critical consideration for economic development, and can play a crucial role in driving forward economic growth. This does not necessarily have to be strictly international, but should seek to extend across the border to the rest of the UK, as well as to the EU and the rest of the world. Companies wanting to export goods should be offered support in getting the best deal, and economic strategies should always consider how to best promote export activities. In this sense, there should be a focus on matching a company's export potential to the right overseas market.

Mae hybu allforio yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer datblygu economaidd, a gall chwarae rhan hanfodol yn y broses o ysgogi twf economaidd. Nid oes rhaid i hyn fod yn hollol ryngwladol o reidrwydd, ond dylai geisio ymestyn ar draws y ffin i weddill y DU, yn ogystal ag i'r UE a gweddill y byd. Dylai cwmnïau sydd am allforio nwyddau gael cynnig cymorth i sicrhau'r fargen orau, a dylai strategaethau economaidd ystyried bob amser sut i hyrwyddo gweithgareddau allforio yn y ffordd orau. Yn hyn o beth, dylid sicrhau ffocws ar baru potensial allforio cwmni â'r farchnad dramor gywir.

Important to many businesses is the ability to access the public market and take advantage of government procurement as part of their client base. The bidding process in public contracts can often be lengthy and time consuming, and can be a source of frustration, particularly for small businesses. It would be beneficial, therefore, for local authorities to engage more proactively with local SMEs as part of their procurement strategy. The Federation of Small Businesses has said that every £1 spent by local authorities with an SME generates an additional 63p of benefit for local economies, compared to just 40p by large local firms. It would be beneficial for local authorities to audit businesses within their boundaries in order to understand the make-up of the local business environment. It would also help if local authorities undertook to design contracts that are accessible to businesses in their own areas. If you don't know the make-up of your local economy, you cannot design contracts that suit it.

Mae'r gallu i gyrraedd y farchnad gyhoeddus a manteisio ar drefniadau caffael llywodraeth fel rhan o'u sylfaen gleientiaid yn bwysig i lawer o fusnesau. Yn aml, gall y broses o ymgeisio am gontractau cyhoeddus fod yn hir a chymryd llawer o amser, a gall fod yn ffynhonnell rhwystredigaeth, yn enwedig i fusnesau bach. Byddai'n fuddiol, felly, i awdurdodau lleol ymgysylltu'n fwy rhagweithiol â busnesau bach a chanolig lleol fel rhan o'u strategaeth gaffael. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi dweud bod pob £1 a werir gan awdurdodau lleol ar fusnesau bach a chanolig yn cynhyrchu 63c ychwanegol o fudd i economïau lleol, o gymharu â 40c yn unig gan gwmnïau lleol mawr. Byddai'n fuddiol i awdurdodau lleol archwilio busnesau o fewn eu ffiniau er mwyn deall cyfansoddiad yr amgylchedd busnes lleol. Byddai hefyd o gymorth pe bai awdurdodau lleol yn mynd ati i lunio contractau sy'n hygyrch i fusnesau yn eu hardaloedd eu hunain. Os nad ydych yn gwybod beth yw cyfansoddiad eich economi leol, ni allwch lunio contractau sy'n gweddu iddi.

Wales must also ensure that it has a sufficient and appropriate skills base in order to achieve sustainable economic prosperity. As Eluned has already mentioned, Wales has a relatively low skills level, and this can be a concern for employers. Basic skills attainment is 1% lower in Wales than across the UK as a whole, and 4% lower than in Scotland. Higher skills attainment is 3% lower than across the UK and 7% lower than in Scotland. This is particularly frustrating because we do have a higher than average capacity to train people to a higher level, and some excellent universities. By affecting the productivity of the workforce in Wales, this low skills level can be a source of competitive disadvantage.

Rhaid i Gymru sicrhau hefyd bod ganddi sylfaen sgiliau ddigonol a phriodol er mwyn sicrhau ffyniant economaidd cynaliadwy. Fel y crybwyllodd Eluned eisoes, mae gan Gymru lefel sgiliau gymharol isel, a gall hyn fod yn destun pryder i gyflogwyr. Mae cyrhaeddiad sgiliau sylfaenol 1% yn is yng Nghymru nag ar draws y DU gyfan, a 4% yn is nag yn yr Alban. Mae cyrhaeddiad sgiliau uwch 3% yn is nag ar draws y DU a 7% yn is nag yn yr Alban. Mae hyn yn arbennig o rwystredig oherwydd bod gennym allu uwch na'r cyfartaledd i hyfforddi pobl i lefel uwch, ac mae gennym brifysgolion rhagorol. Drwy effeithio ar gynhyrchiant y gweithlu yng Nghymru, gall lefel isel o sgiliau o'r fath fod yn ffynhonnell anfantais gystadleuol.

In some ways this is exacerbated by the fact that the cost of employing staff is higher in the UK than in many other countries in Europe. Wales therefore cannot present itself as a low-wage destination for foreign investors, and a high skills base is critical for making the country an attractive business location. There are several ways in which Wales's chances of competing in the global business market can be improved: increased investment in education and training, so that businesses have access to the necessary twenty-first century skills; extending the Estyn inspection focus on behaviour in schools to cover the wider aspect of employability and life skills; embedding wider skills, such as entrepreneurship, leadership, management, communication, problem-solving, self-management and a good attitude to work into the curriculum; and ensuring that schools have high-quality and relevant work experience for pupils, engaging with local businesses in order to provide these opportunities. I'm the last person to argue that we should have a less-than-academic focus in our local schools, but we certainly do need to make sure that pupils, as well as focusing on the academic, also focus on the practical, and come out of school and college work-ready and able to take up opportunities as they present themselves.

Mewn rhai ffyrdd caiff hyn ei waethygu gan y ffaith bod y gost o gyflogi staff yn uwch yn y DU nag mewn llawer o wledydd eraill yn Ewrop. Felly, ni all Cymru ymhonni ei bod yn gyrchfan cyflog isel i fuddsoddwyr tramor, ac mae sylfaen sgiliau uwch yn hanfodol ar gyfer gwneud y wlad yn lleoliad busnes deniadol. Mae yna nifer o ffyrdd y gellid gwella gobaith Cymru o gystadlu yn y farchnad fusnes fyd-eang: mwy o fuddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant, fel bod busnesau yn gallu dod o hyd i'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain; ymestyn ffocws arolygu Estyn ar ymddygiad yn yr ysgolion i gynnwys yr agwedd ehangach o gyflogadwyedd a sgiliau bywyd; ymgorffori sgiliau ehangach, megis entrepreneuriaeth, arweinyddiaeth, rheolaeth, cyfathrebu, datrys problemau, hunanreolaeth ac ymagwedd dda tuag at waith yn y cwricwlwm; a sicrhau bod gan ysgolion brofiad gwaith perthnasol o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion, a'u bod yn ymgysylltu â busnesau lleol er mwyn darparu'r cyfleoedd hyn. Myfi yw'r person olaf i ddadlau y dylai fod gennym ffocws llai nag academaidd yn ein hysgolion lleol, ond yn sicr mae angen inni wneud yn siŵr bod disgyblion yn canolbwyntio ar yr ymarferol yn ogystal ag ar yr academaidd, ac yn gadael ysgol a choleg yn barod at waith ac yn gallu manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ymddangos.

17:25

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I wasn't originally going to speak in this debate, and in many ways, I wish I wasn't now—[Interruption.]—so, I will be brief. So many things have been mentioned. As many Members have said, it's one of those catch-all debates that has so much in it, bar the kitchen sink, that it's difficult to know where to start. Eluned Parrott, I think you deserve a medal, really, for getting, I think, an hour's presentation into 10 minutes at the start and still making it relatively understandable. So, congratulations on that. From what I gleaned out of your initial comments, business, infrastructure and exports were where you started this debate, and I didn't disagree with what you said and about the need for Wales to be an outward-looking country, not just with structures inside that work economically, but also that present us on the larger scale as well. Only last year, the Welsh Conservatives had a launch on exports, Destination Cymru, and how we can better sell and better brand Wales to the outside world, and I think many of us are singing from the same hymn sheet on that.

Yn wreiddiol, nid oeddwn yn mynd i siarad yn y ddadl hon, ac mewn sawl ffordd, hoffwn pe na bawn i'n gwneud hynny yn awr—[Torri ar draws.]—felly, fe fyddaf yn gryno. Mae cymaint o bethau wedi cael eu crybwyll. Fel y mae llawer o'r Aelodau wedi dweud, mae'n un o'r dadleuon cyffredinol hynny sy'n cynnwys popeth ond sinc y gegin, fel ei bod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Eluned Parrott, rwy'n credu eich bod yn haeddu medal yn wir am gynnwys gwerth awr o gyflwyniad mewn 10 munud ar y dechrau a dal i'w wneud yn gymharol ddealladwy. Felly, llongyfarchiadau ar hynny. O'r hyn a gesglais o'ch sylwadau cychwynnol, fe ddechreuoch chi'r ddadl hon gyda busnes, seilwaith ac allforion, ac nid oeddwn yn anghytuno â'r hyn a ddywedoch ac am yr angen i Gymru fod yn wlad sy'n edrych allan, nid yn unig gyda strwythurau o'i mewn sy'n gweithio'n economaidd, ond sydd hefyd yn ein cyflwyno ar y raddfa fwy hefyd. Y llynedd, cynhaliodd y Ceidwadwyr Cymreig lansiad ar allforion, Cyrchfan Cymru, a sut y gallwn frandio a gwerthu Cymru yn well i'r byd y tu allan, ac rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn rhannu'r un teimladau ynglŷn â hynny.

We certainly do need to do something different, I think, in the words of Alun Davies. I didn't disagree with the words you said, actually, Alun, in your contribution. You were very much picking up on some of the points I was making in the previous debate, which is the importance of sustainability. You said that—well, I think you said—there wasn't enough sustainability in your party's manifesto. I won't go down that route for fear of getting you into some trouble.

Yn sicr, rwy'n credu bod angen i ni wneud rhywbeth gwahanol, yng ngeiriau Alun Davies. Nid oeddwn i'n anghytuno â'r hyn roeddech yn ei ddweud yn eich cyfraniad, mewn gwirionedd, Alun. Roeddech yn bendant yn mynd ar drywydd rhai o'r pwyntiau roeddwn i'n eu gwneud yn y ddadl flaenorol, sef pwysigrwydd cynaliadwyedd. Fe ddywedoch-wel, rwy'n meddwl eich bod wedi dweud-nad oedd digon o gynaliadwyedd ym maniffesto eich plaid. Nid wyf am fynd i lawr y llwybr hwnnw rhag eich cael i drwbl.

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies rose—*

17:26 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But I certainly think that there is a problem with us—

Ond rwy'n sicr yn credu bod yna broblem pan fyddwn—

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you giving way?

A ydych yn ildio?

17:26 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In one moment.

Mewn eiliad.

[Continues.]—talking the talk of sustainability, but then, when it comes to employing policy, such as with road policy and with the M4 decision, not actually making sure that the Assembly's constitution plays out in practice. I give way to Alun Davies.

[Yn parhau.]—yn siarad yn fawr am gynaliadwyedd, ond wedyn, pan ddaw i arfer polisi, megis y polisi ffyrdd a phenderfyniad yr M4, nid ydym yn gwneud yn siŵr mewn gwirionedd bod cyfansoddiad y Cynulliad yn cael ei ddilyn yn ymarferol. Ildiaf i Alun Davies.

17:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope I made myself clear; I regret it if I did not do so. What I said was that there were 60 mentions of the word 'sustainability' in the Labour manifesto; what we have to do is to ensure that that appears in the programme for government as well.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi gwneud fy hun yn glir; mae'n edifar gennyf os na wnes hynny. Yr hyn a ddywedais oedd bod y gair 'cynaliadwyedd' yn cael ei grybwyll 60 o weithiau ym maniffesto Llafur; yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau bod hynny'n ymddangos yn y rhaglen lywodraethu hefyd.

17:27 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you've made that clear, and I think we do need greater adherence to sustainability, so I do worryingly find myself agreeing with you on that, Alun. But I shall consider that problem later.

Rwy'n credu eich bod wedi gwneud hynny'n glir, ac rwy'n meddwl bod angen i ni lynu mwy at gynaliadwyedd, felly er mawr ofid, rwy'n gweld fy hun yn cytuno â chi ar hynny, Alun. Ond byddaf yn ystyried y broblem honno yn nes ymlaen.

I would also agree with the Lib Dem debate that we do need to have a change to the way finance is accessed in Wales. Again, Welsh Conservative policy on changing Finance Wales into Invest Wales, a more public-facing, locally based banking situation, would be of benefit to businesses and would help open up access to business finance, even when that is limited—I accept that—within tight economic constraints, but I think it would allow more businesses to know that organisations like Finance Wales actually exist, because many don't know that at the moment.

Byddwn hefyd yn cytuno â dadl y Democratiaid Rhyddfrydol fod angen i ni newid y ffordd y ceir gafael ar gyllid yng Nghymru. Unwaith eto, byddai polisi'r Ceidwadwyr Cymreig ar newid Cyllid Cymru yn Buddsoddi Cymru, sefydliad bancio lleol ag iddo wedd fwy cyhoeddus, o fantais i fusnesau a byddai'n helpu i wella mynediad at gyllid busnes, hyd yn oed pan fo'r cyllid yn gyfyngedig—rwy'n derbyn hynny—o fewn cyfyngiadau economaidd llym, ond rwy'n credu y byddai'n caniatáu i fwy o fusnesau wybod bod sefydliadau fel Cyllid Cymru yn bodoli mewn gwirionedd, gan nad oes llawer yn gwybod ar hyn o bryd.

The debate moved on to electrification. I think, Rhun ap Iorwerth, yes, I'd like to see the Marches lines electrified and lines across Wales electrified, but we have to accept that, at least under the current UK coalition Government, which I know has come in for a little bit of complaint from parties in the previous Plaid Cymru debate—. If it wasn't for that UK coalition Government, then we wouldn't have had any electrification. So, we stand in Wales at the moment in a far better position than we did before. Yes, we want to have further progress, yes, we want to have more lines electrified, but let us look at where we're starting from: the electrification of the Great Western line and the electrification of the Valleys lines all being made possible by the UK Conservative and Lib Dem Government. So, that is to be welcomed.

Symudodd y ddadl ymlaen at drydaneiddio. Rhun ap Iorwerth, ie, rwy'n meddwl yr hoffwn i weld trydaneiddio rheilffyrdd y Gororau a rheilffyrdd ar draws Cymru, ond mae'n rhaid i ni dderbyn, dan Lywodraeth glymblaid y DU ar hyn o bryd o leiaf, y gwn ei bod wedi wynebu ychydig o gŵyn gan rai yn nadl flaenorol Plaid Cymru—. Oni bai am Lywodraeth glymblaid y DU, ni fyddem wedi cael unrhyw drydaneiddio. Felly, rydym mewn gwell sefyllfa o lawer yng Nghymru ar hyn o bryd nag o'r blaen. Ydym, rydym yn awyddus i symud ymlaen ymhellach, ydym, rydym yn awyddus i drydaneiddio mwy o reilffyrdd, ond gadewch inni edrych ar ble rydym yn dechrau ohono: trydaneiddio llinell y Great Western a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, oll yn cael eu gwneud yn bosibl gan Lywodraeth Geidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol y DU. Felly, mae hynny i'w groesawu.

I agree with Aled Roberts and his comments. You mentioned that devolution shouldn't stop at the Assembly. I would use an analogy: if devolution is our M4, then the Assembly shouldn't become the Brynglas tunnels of that M4. We need to see devolution carrying on through the Assembly to local government. I must say, I did agree with Professor Brian Morgan's idea about the devolution of business rates to local authorities, allowing local authorities to keep more of their business rates than they have previously. I know that there were problems with that, and the Minister has discussed those problems with me. I recognise that, but I do think that the idea of incentivising local authorities to promote economic growth and using business rates as a way of doing that was a good idea that needs more investigation. Yes, you need to look at the revenue support grant, and yes you need to look at the way that the grant is being divided up amongst authorities for those areas that don't have so much business success locally, but I think incentivising businesses is where we should be going.

Rwy'n cytuno ag Aled Roberts a'i sylwadau. Fe sonioch na ddylai datganoli ddod i ben yn y Cynulliad. Fe fyddwn yn defnyddio cyfatebiaeth: os mai datganoli yw ein M4, yna ni ddylai'r Cynulliad ddod yn dwnelau Bryn-glas yr M4 honno. Mae angen i ni weld datganoli sy'n rhedeg drwy'r Cynulliad ymlaen at lywodraeth leol. Rhaid i mi ddweud, rwy'n cytuno â syniad yr Athro Brian Morgan am ddatganoli ardrethi busnes i awdurdodau lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i gadw mwy o'u hardrethi busnes nag a wnaent yn flaenorol. Gwn fod yna broblemau gyda hynny, ac mae'r Gweinidog wedi trafod y problemau hynny gyda mi. Rwy'n cydnabod hynny, ond rwy'n credu bod y syniad o roi cymhelliad i awdurdodau lleol hyrwyddo twf economaidd a defnyddio ardrethi busnes fel ffordd o wneud hynny yn syniad da sy'n galw am ei archwilio ymhellach. Oes, mae angen i chi edrych ar y grant cynnal refeniw, ac oes, mae angen i chi edrych ar y ffordd y mae'r grant yn cael ei rannu ymhlith awdurdodau ar gyfer yr ardaloedd nad ydynt yn cael cymaint o lwyddiant busnes yn lleol, ond rwy'n meddwl mai cymell busnesau yw'r hyn y dylem ei wneud.

Finally, Presiding Officer, I supported our amendment at the very start when I intervened on Eluned Parrott. I think social enterprise and social entrepreneurship should be supported, and I refer the Minister to the findings of the Enterprise and Business Committee in that respect.

Yn olaf, Lywydd, roeddwn yn cefnogi ein gwelliant ar y cychwyn cyntaf pan ymyrrais ar Eluned Parrott. Rwy'n credu y dylid cefnogi mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaeth gymdeithasol, a chyfeiriaf y Gweinidog at ganfyddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes yn hynny o beth.

17:30

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, for calling me. I was under some impression that Nick Ramsay had just closed the debate on behalf of the Liberal Democrats, and was taking coalition Government a little too far.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, am fy ngalw. Roeddwn dan ryw argraff fod Nick Ramsay wedi cloi'r ddadl ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, ac yn mynd â chlymblaid y Llywodraeth ychydig yn rhy bell.

Rwyf eisiau manteisio ar y cyfle yma i sôn am un peth penodol sydd yn y ddadl ger bron heddiw, sef, wrth gwrs, y peth y mae Rhun ap Iorwerth newydd gyfeirio ato hefyd: y diddordeb byw sydd gen i mewn ailadfer y cyswllt rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Bydd o fudd i fi rywdro, gobeithio, ond bydd hefyd yn fodd o gloi a chau y cylch o gwmpas Cymru, o safbwynt trafnidiaeth gyhoeddus a rheilffyrdd. Er nad yw'r cynnig yn sôn amdano fe, mae hefyd yn cynnwys, wrth gwrs, yr angen bach yn y gogledd rhwng hen gyffordd Afon Wen a Bangor. Drwy wneud hynny, rydych chi'n gwneud rhywbeth cyffrous iawn, rwy'n meddwl: buddsoddi tymor hir yn isadeiledd Cymru, ond hefyd yn creu swyddi a chyswllt economaidd ar hyd y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn dal yn iaith fyw, a lle rydym ni eisiau gweld pobl yn aros yn eu cymunedau yn hytrach na'n cael eu tynnu i weithio mewn dinasoedd y tu hwnt i'r cymunedau hynny. Felly, rwyf â diddordeb byw iawn yn y pwnc yma ac eisiau cefnogi y rhan o'r ddadl heddiw sy'n sôn yn benodol amdano fe.

I want to take this opportunity to speak about one specific thing included in the debate before us today, which is, of course, an issue that Rhun ap Iorwerth has also just alluded to, which is my keen interest in restoring the rail link between Carmarthen and Aberystwyth. It will benefit me some time, I hope, but it will also be a way of locking and closing that circle around Wales, in terms of public transport and railways. Although the motion doesn't mention this, it also includes the minor requirement in north Wales between the old Afon Wen junction and Bangor. By doing that, you'd be doing something very exciting, I think: long-term investment in Welsh infrastructure, but it also creates jobs and economic links along those communities where the Welsh language is still a living language, and where we want to see people staying in their communities rather than being drawn to work in cities outside those communities. So, I have a very great interest in this issue, and I want to support that part of the debate today that talks specifically about that.

Y rheswm rwyf hefyd eisiau codi yw achos rwy'n gweld y Gweinidog yn ei lle, ac rwyf wedi'i thaclo hi ar y mater yma fwy nag unwaith mewn dadl, lle oeddwn i'n falch o gael cefnogaeth pleidiau eraill yn y lle yma, a drwy ei chwestiynu hi hefyd. Yn y gorffennol, mae'r Gweinidog wedi agor cil y drws i'r cysyniad o gael astudiaeth ddichonolrwydd i ailagor y lein yma, ond heb ymroi yn llwyr i hynny. Am wn i, mae hynny oherwydd bod eisiau bod yn glir beth yw astudiaeth ddichonolrwydd a pha fath o astudiaeth rydym yn sôn amdani. Fyddwn i ddim eisiau mwy o eiriau mewn cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ond mae eisiau trio esbonio yn y ddadl beth all astudiaeth o'r fath fod.

The reason I also want to speak is because I see the Minister is in her seat, and I have tackled her on this matter more than once in debate, when I was pleased to have the support of other parties in this place, and through questioning her directly, also. In the past, the Minister has left the door ajar to the concept of having a feasibility study into reopening this line, without committing fully to that. I suppose that that is because we need clarity about what a feasibility study would mean, and what sort of study we would we talking about. I wouldn't want more words in a Liberal Democrat motion, but we do need in this debate to explain what can such a study achieve.

Pan wnes i gwrdd â Network Rail gyda'r grŵp sy'n ymgyrchu dros y reilffordd, sef Traws Link Cymru, roedd Network Rail yn glir i fi bod astudiaeth ddichonolrwydd lawn, sef y math o astudiaeth a fyddai'n arwain at roi cynllun o'r fath yn ei rag-raglen, fel petai—os yw hynny'n gwneud sens; y rhaglen ymlaen llaw ar gyfer datblygu—yn mynd i fod yn astudiaeth a fyddai'n costi rhywbeth o gwmpas £2 miliwn i £3 miliwn. Mae'n bosib bod hynny'n ormod o ofyn ar hyn o bryd, ond mae'n ymddangos i mi bod yna fodd i wneud hyn mewn camau. Yr hyn rydym ei angen gyntaf yw'r math o astudiaeth ddichonolrwydd sy'n edrych ar y posibiliad o ailagor y rheilffordd a'r gefnogaeth a fyddai ar gael yn lleol. Beth sydd o hyd yn eu lle o ran y trac a'r reilffordd, y strwythur, yr adeiladwaith ac ati? Byddai hynny'n gallu cael ei wneud am rai degau o filoedd o bunnoedd, rwy'n meddwl, ac yn rhywbeth a fyddai'n rhoi hwb ychwanegol i bobl ddeall pam mae'r cynllun hwn o werth, a beth fydd yn digwydd.

When I met with Network Rail, with the group campaigning for the railways, namely Cross Link Wales, Network Rail made it clear to me that a full feasibility study, of the kind that would lead to such a plan being included in its pre-programme, as it were—if that makes sense; its forward work programme for development—would be a study that would cost somewhere in the region of £2 million to £3 million. That might be too much of an ask at this stage, but it appears to me that this could be done on a staged basis. What we need first of all is the kind of feasibility study that could look at the possibility of reopening the line, and the support that there would be available locally. What's already in place in terms of the track and the railway line, the structure, the infrastructure and so on? That can be done for tens of thousands of pounds, I would have thought, and would be an additional boost for people to understand the value of this proposal, and what would occur.

Felly, rwy'n gobeithio pan fydd y Gweinidog yn gallu ateb i'r ddadl yma y bydd hi yn sôn yn benodol, os caiff hi gyfle, am y mater yma ac yn dweud ym mha ffordd y bydd y Llywodraeth, efallai ar y cyd ag arian o gronfeydd Ewrop, yn gallu cyllido neu gefnogi astudiaeth o'r fath. Dyna'r peth y mae pobl yn awyddus i'w weld yn y gorllewin, achos mae hwn yn un o'r projectau mwyaf cyffrous y gallwn ni feddwl amdano fe i gysylltu ein cymunedau a chreu economi gryfach yng ngorllewin Cymru.

So, I hope that, when the Minister responds to this debate, she specifically mentions, if she has an opportunity, this issue and will tell us in what way the Government, perhaps jointly with European funding, could fund or support such a study. That is what people are keen to see in west Wales, because this is one of the most exciting projects that we could come up with to link our communities and to create a stronger economy in west Wales.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog, Edwina Hart.

I call the Minister, Edwina Hart.

17:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. I think in terms of the discussions we've had today, it's very pleasing for me to be aware from the parties across the Chamber that there are some elements of consensus, I think, particularly on transport and other issues, and particularly about the issue of assisting small businesses and about the finance and things that are available.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. O ran y trafodaethau a gawsom heddiw, mae'n braf iawn gwybod gan y pleidiau ar draws y Siambr fod rhai elfennau o gonsensws, rwy'n meddwl, yn enwedig o ran trafnidiaeth a materion eraill, ac yn enwedig ar fater cynorthwyo busnesau bach a chyllid a'r pethau sydd ar gael.

As a Government, we are delivering against our programme for government and helping business to deliver real and lasting benefits for the Welsh economy. I think Alun Davies is absolutely correct, because at the heart of this delivery is the anti-poverty agenda. Of course, the best way out of poverty is into employment, to have good full-time employment and have the ability to then benefit your family, and of course, the wider world that you live in. Part of this obviously is sustainability, because there's no point in creating jobs that are not sustainable in the long term, looking at our obligations internationally in terms of climate change and all those issues.

Fel Llywodraeth, rydym yn cyflawni ein rhaglen lywodraethu ac yn helpu busnesau i sicrhau manteision gwirioneddol a pharhaol i economi Cymru. Rwy'n credu bod Alun Davies yn hollol gywir, oherwydd wrth wraidd y gwaith o gyflawni hyn, mae'r agenda gwrthdlodi. Wrth gwrs, y ffordd orau i godi allan o dlodi yw gwaith, cael gwaith da amser llawn a gallu creu budd i'ch teulu wedyn, ac wrth gwrs, i'r byd ehangach rydych yn byw ynddo. Rhan amlwg o hyn yw cynaliadwyedd, oherwydd nid oes pwynt creu swyddi nad ydynt yn gynaliadwy yn hirdymor, ac edrych ar ein rhwymedigaethau rhyngwladol o ran newid yn yr hinsawdd a'r holl faterion hynny.

We've actually supported over 37,000 jobs in the last financial year, and have continued with wide-ranging actions to improve our economic prospects. For me, sustainability is at the heart of that agenda. We've made progress on a range of actions to help businesses, and these include actions to make it easier for business to access finance, to make it easier to start and grow a business, reviewing business rates policy in Wales and supporting international trade and investment, and, of course, developing infrastructure.

Mewn gwirionedd rydym wedi cefnogi dros 37,000 o swyddi yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac wedi parhau gyda chamau gweithredu amrywiol i wella ein rhagolygon economaidd. I mi, mae cynaliadwyedd wrth galon yr agenda honno. Rydym wedi gwneud cynnydd ar ystod o gamau gweithredu i helpu busnesau, ac mae'r rhain yn cynnwys camau i'w gwneud hi'n haws i fusnes gael gafael ar gyllid, i'w gwneud hi'n haws i ddechrau a thyfu busnes, adolygu polisi ardrethi busnes yng Nghymru a chefnogi masnach ryngwladol a buddsoddiad, a datblygu seilwaith, wrth gwrs.

Now, access to finance is an issue that is continually raised here, and we've taken significant steps in this area but they won't be our final steps. For example, we've introduced a range of new funds to improve our business offer, which I think people would agree have been relatively successful in many areas. In 2013, I commissioned the review, and, of course, we've also had Dylan Jones-Evans's report, which people referred to, about the development bank and particularly about the need for sources of public funding and to utilise them along with private sector finance solutions. I think that's an area that's got to be explored even more.

Yn awr, mae cael gafael ar gyllid yn fater sy'n cael sylw yn barhaus yma, ac rydym wedi rhoi camau sylweddol ar waith yn y maes, ond nid dyma fydd ein camau terfynol. Er enghraifft, rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o gronfeydd newydd i wella ein cynnig busnes, ac rwy'n credu y byddai pobl yn cytuno eu bod wedi bod yn gymharol lwyddiannus mewn sawl maes. Yn 2013, comisiynais yr adolygiad, ac wrth gwrs, rydym hefyd wedi cael adroddiad Dylan Jones-Evans, y cyfeiriwyd ato, am y banc datblygu ac yn benodol am yr angen am ffynonellau arian cyhoeddus a'u defnyddio gydag atebion cyllid o'r sector preifat. Rwy'n credu bod hwn yn faes sy'n rhaid ei archwilio'n fwy trylwyr eto.

Professor Dylan Jones-Evans, supported by an expert panel, is now looking at the creation of a development bank. I'm anticipating having his report by the end of this month—by, in fact, the end of this week. At that time, of course, I will be making a further statement, because I would like the views on Professor Dylan Jones-Evans's report and about how we take work further. I think Eluned Parrott made a very good point about alternative funding, and also particularly about the issues around higher education, because this is actually quite an important area —the links from higher education into the economy. Even though we have been successful in some areas, I think there's a lot more work to do on those particular linkages, about the research that comes forward, how that materialises into production and jobs and, of course, keeping all that investment in Wales. But I do expect the report to consider a number of options on the development bank, and at that time I will share it with you.

Mae'r Athro Dylan Jones-Evans, gyda chefnogaeth panel o arbenigwyr, bellach yn edrych ar y gwaith o greu banc datblygu. Rwy'n rhagweld y daw ei adroddiad i law erbyn diwedd y mis hwn—erbyn diwedd yr wythnos hon, mewn gwirionedd. Bryd hynny, wrth gwrs, byddaf yn gwneud datganiad pellach, oherwydd hoffwn glywed barn pobl ar adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans, ac ynglŷn â sut i fwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith. Rwy'n meddwl bod Eluned Parrott wedi gwneud pwynt da iawn am arian amgen, ac yn arbennig am y materion sy'n ymwneud ag addysg uwch, oherwydd mae hwn mewn gwirionedd yn faes hynod o bwysig—cysylltiadau rhwng addysg uwch a'r economi. Er ein bod wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai meysydd, rwy'n credu bod llawer mwy o waith i'w wneud ar y cysylltiadau arbennig hynny, ynglŷn â'r ymchwil sy'n cael ei gyflwyno, sut y mae hynny'n cael ei wireddu ar ffurf cynhyrchiant a swyddi ac wrth gwrs, cadw'r holl fuddsoddiad hwnnw yng Nghymru. Ond rwy'n disgwyl y bydd yr adroddiad yn ystyried nifer o opsiynau mewn perthynas â'r banc datblygu, a byddaf yn eu rhannu gyda chi bryd hynny.

Another key area is the advice and support that will be made available to business. I'm not quite as critical as Peter Black was of the advice that businesses are given because, on average, the Business Wales helpline deals with 2,500 enquiries, the website attracts 36,000 visitors, and our social media channels have nearly 50,000 followers. But I do take the point that, sometimes, somebody who's been in business, who's failed in a business and restarted a business, is sometimes the best person to give advice on a business. We do try to ensure that we do have people like that within organisations who can help and assist.

Maes allweddol arall yw'r cyngor a'r cymorth a fydd ar gael i fusnesau. Nid wyf mor feirniadol â Peter Black o'r cyngor y mae busnesau yn ei gael oherwydd, ar gyfartaledd, mae llinell gymorth Busnes Cymru yn ymdrin â 2,500 o ymholiadau, mae'r wefan yn denu 36,000 o ymwelwyr, ac mae gan ein sianelau cyfryngau cymdeithasol bron i 50,000 o ddilynwyr. Ond rwy'n derbyn y pwynt mai rhywun sydd wedi bod mewn busnes, sydd wedi methu mewn busnes ac wedi ailgychwyn busnes, yw'r person gorau weithiau i roi cyngor ar fusnes. Rydym yn ceisio sicrhau bod gennym bobl fel hyn mewn sefydliadau sy'n gallu helpu a chynorthwyo.

The Business Wales start-up service supported 2,776 individuals in 2013-14, and it's very pleasing to note the growth and the jobs that came out of that particular advice that they gave. We've also established the Business Wales one-stop shop, which provides a network with 11 hubs. We do recognise, I think, some of the unique challenges in Wales, which our rurality and geography can bring into issues, and this is reflected in our target and geographically focused measures, such as enterprise zones, local growth zones and city regions. Now, I think those are some examples of where we are decentralising some powers to communities. Of course, I'm always accused of being a centralist, but I do think, in these terms, that we have actually devolved powers. Particularly in terms of the local growth zones with the town champion and everything, I think this is making a difference.

Cefnogodd y gwasanaeth dechrau busnes, Busnes Cymru, 2,776 o unigolion yn 2013-14, ac mae'n bleser nodi'r twf a'r swyddi a ddeilliodd o'r cyngor penodol a roddwyd ganddynt. Rydym hefyd wedi sefydlu siop un stop Busnes Cymru, sy'n darparu rhwydwaith ag iddi 11 o ganolfannau. Rwy'n credu ein bod yn cydnabod rhai o'r heriau unigryw yng Nghymru y gall ein natur wledig a'n daearyddiaeth ei ychwanegu at broblemau, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein targedau a'n mesurau sydd â ffocws daearyddol, megis ardaloedd menter, ardaloedd twf lleol a dinas-ranbarthau. Yn awr, rwy'n meddwl bod y rheini'n enghreifftiau o ble rydym yn datganoli rhai pwerau i gymunedau. Wrth gwrs, rwy'n cael fy nghyhuddo bob amser o fod yn ganoliaethol, ond rwy'n meddwl, yn y termau hyn, ein bod ni wedi datganoli pwerau mewn gwirionedd. Yn enwedig o ran yr ardaloedd twf lleol a'r hyrwyddwyr trefi a phopeth, rwy'n credu bod hyn yn gwneud gwahaniaeth.

17:38

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:38

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes.

Gwnaf.

17:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for taking the intervention, Minister. In terms of devolution of powers out of the centre, though, and into things like the city regions, without a formal governance structure for city regions or, indeed, enterprise zones, can you confirm that you are, in fact, the legal entity with responsibility for all of those strategies?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad, Weinidog. Fodd bynnag, o ran datganoli pwerau o'r canol i mewn i bethau fel y dinas-ranbarthau, heb strwythur llywodraethu ffurfiol ar gyfer dinas-ranbarthau neu'r ardaloedd menter yn wir, a allwch gadarnhau mai chi, mewn gwirionedd, yw'r endid cyfreithiol gyda chyfrifoldeb dros bob un o'r strategaethau hynny?

17:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I am the legal entity, and I quite like being the legal entity. [Laughter.] But I am looking at governance issues to ensure that we can move on a bit further in terms of devolving powers.

Ie, fi yw'r endid cyfreithiol, ac rwy'n eithaf hoff o fod yn endid cyfreithiol. [Chwerthin.] Ond rwy'n edrych ar faterion llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen ychydig ymhellach o ran datganoli pwerau.

Now, our proximity to UK and EU markets is a key part of our proposition to business, and rail electrification and investment across the piece are very important. As a Government, we are obviously very keen to develop, particularly on the rail electrification and the rail structure in Wales.

Yn awr, mae ein hagosrwydd at farchnadoedd y DU a'r UE yn rhan allweddol o'n cynnig i fusnesau, ac mae trydaneiddio rheilffyrdd a buddsoddi yn gyffredinol yn bwysig iawn. Fel Llywodraeth, rydym yn amlwg yn awyddus iawn i ddatblygu, yn enwedig o ran trydaneiddio'r rheilffyrdd a'r strwythur rheilffyrdd yng Nghymru.

So, if I can, at this stage, turn to the comments that Simon Thomas made as I broach the area of rail, I'm afraid you might have asked me the questions, but I'm visiting with Elin Jones on Friday a group that is campaigning in terms of reopening the line from Aberystwyth to Carmarthen. I am actually considering feasibility, but the figures from Network Rail are quite breathtaking, and I know that Aled Roberts will agree with me about breathtaking figures from Network Rail, as I've also been discussing with him further feasibility studies. So, the door is open on this issue in the long term, because I do think that, if we do want to have a rail network that's fit for purpose in Wales, we've got to link our nation together properly in terms of public transport.

Felly, ar y cam hwn, os caf fi droi at y sylwadau a wnaeth Simon Thomas wrth i mi symud ymlaen at y rheilffyrdd; rwy'n ofni efallai eich bod wedi gofyn y cwestiynau i mi, ond ddydd Gwener rwy'n mynd gydag Elin Jones i ymweld â grŵp sy'n ymgyrchu dros ailagor y rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin. Mewn gwirionedd, rwy'n ystyried dichonoldeb, ond mae'r ffigurau gan Network Rail yn mynd â'ch gwynt braidd, a gwn y bydd Aled Roberts yn cytuno â mi ynghylch ffigurau gan Network Rail sy'n mynd â'ch gwynt, gan fy mod wedi bod yn trafod astudiaethau dichonoldeb pellach gydag ef hefyd. Felly, mae'r drws yn agored ar y mater hwn yn y tymor hir, gan fy mod yn credu, os ydym am gael rhwydwaith rheilffyrdd sy'n addas at y diben yng Nghymru, rhaid i ni gydgysylltu ein cenedl yn iawn o ran trafnidiaeth gyhoeddus.

Now, we have a programme of support that helps with capacity to meet global markets, and of course we do help businesses to trade internationally. We've expanded our presence to many new overseas offices—Dublin, San Francisco, Chicago and an additional resource in India, because those are the markets we're developing. We do secure inward investment from elsewhere in the United Kingdom, and that is a rich source of opportunity, because money comes into London and money needs to get out of London and jobs need to get out of London.

Yn awr, mae gennym raglen gymorth sy'n helpu gyda chapasiti i gwrdd â marchnadoedd byd-eang, ac wrth gwrs rydym yn helpu busnesau i fasnachu yn rhyngwladol. Rydym wedi ehangu ein presenoldeb i gynnwys llawer o swyddfeydd tramor newydd—Dulyn, San Francisco, Chicago ac adnodd ychwanegol yn India, gan mai dyna'r marchnadoedd rydym yn eu datblygu. Rydym yn sicrhau mewnfuddsoddiad o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac mae honno'n ffynhonnell gyfoethog o gyfle, gan fod arian yn dod i Lundain ac mae angen i'r arian ddod allan o Lundain ac mae angen i swyddi ddod allan o Lundain.

Another important area is business rates policy, which is a priority. I will be, of course, making a statement on business rates policy next week, and we'll have the opportunity of briefing spokespersons about the issues around it. I was very interested in some of the comments that were made by you, Nick, about what goes through local authorities. Well, of course, if you just give business rates back to local authorities, the big beneficiary would be Cardiff. So, we'd have to think long and carefully about matters like this. We've got the full devolution of business rates, but we have to use that policy wisely, and I think that's very important that we do discuss properly what we wish to do.

Maes pwysig arall yw polisi ardrethi busnes, sy'n flaenoriaeth. Byddaf yn gwneud datganiad ar bolisi ardrethi busnes yr wythnos nesaf, wrth gwrs, a byddwn yn cael cyfle i gyfarwyddo llefarwyr ar y materion cysylltiedig. Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn rhai o'r sylwadau a wnaed gennych chi, Nick, am yr hyn sy'n mynd drwy awdurdodau lleol. Wel, wrth gwrs, os ydych yn rhoi ardrethi busnes yn ôl i awdurdodau lleol, y buddiolwr mawr fyddai Caerdydd. Felly, byddai'n rhaid i ni feddwl yn hir ac yn ofalus am faterion fel hyn. Mae ardrethi busnes wedi cael eu datganoli'n llawn i ni, ond mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r polisi yn ddoeth, ac rwy'n credu ei bod hi'n hynod o bwysig inni drafod yn iawn yr hyn rydym am ei wneud.

If I can move on, again, to some of the other issues on transport, you will be well aware that the integrated transport system is very important to us. We're going to have a company set up, which, in the first instance, will concentrate on providing advice and technical expertise to drive forward the linked projects of the metro, specifying and procuring the next Wales and Borders franchise.

Os caf fi symud ymlaen, unwaith eto, at rai o'r materion eraill ynghylch trafnidiaeth, fe fyddwch yn ymwybodol iawn fod y system drafnidiaeth integredig yn bwysig iawn i ni. Rydym yn mynd i gael cwmni wedi ei sefydlu, a fydd, yn y lle cyntaf, yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor ac arbenigedd technegol i ddatblygu prosiectau cysylltiedig y metro, a nodi a chaffael masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau.

Also as well, skills were mentioned in the agenda. We are very committed to apprenticeships, I have to say, to William Graham. We're very committed to looking at what more we can do in terms of support for industry and their particular needs. We will be very happily supporting the amendment from Paul Davies, which I think is a sensible amendment. We, unfortunately, will be opposing amendment 2 from Elin Jones, because rail infrastructure is not devolved to me.

Yn ogystal, caiff sgiliau eu crybwyll yn yr agenda. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i brentisiaethau, rhaid i mi ddweud hynny wrth William Graham. Rydym yn ymrwymedig iawn i edrych ar beth arall y gallwn ei wneud o ran cymorth i ddiwydiant a'u hanghenion penodol. Byddwn yn falch iawn o gefnogi'r gwelliant gan Paul Davies, y credaf ei fod yn welliant synhwyrol. Yn anffodus, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2 gan Elin Jones, am nad yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i mi.

We'll obviously be supporting our own amendment, and, in terms of business rates, we're only opposing it because I haven't spoken yet on my business rates policy. In terms of amendment 5, we are content with our existing arrangements in terms of what we do. We work well with UKTI to build trading relationships between Welsh businesses and the international community, as well as the additionality of our own resources we put in. So, thank you very much, Deputy Presiding Officer.

Byddwn yn amlwg yn cefnogi ein gwelliant ein hunain, ac o ran ardrethi busnes, nid ydym ond yn ei wrthwynebu am nad wyf wedi siarad eto am fy mholisi ardrethi busnes. O ran gwelliant 5, rydym yn fodlon â'n trefniadau presennol o ran yr hyn a wnawn. Rydym yn gweithio'n dda gydag UKTI ar adeiladu cysylltiadau masnach rhwng busnesau Cymru a'r gymuned ryngwladol, yn ogystal ag ychwaneged yr adnoddau a rown i mewn ein hunain. Felly, diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd.

17:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

I call Kirsty Williams to reply to the debate.

17:42

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and could I thank colleagues for their contributions to our debate this afternoon, which Eluned Parrott opened by outlining some of the structural issues we feel continue to dog the Welsh economy and that hold us back? Our debate this afternoon is an attempt to provide some solutions to those long-term structural problems. The key of those is the creation of a Welsh development bank.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a hoffwn ddiolch i gyd-Aelodau am eu cyfraniadau at ein dadl y prynhawn yma a agorodd Eluned Parrott drwy amlinellu rhai o'r materion strwythurol y teimlwn eu bod yn parhau i lesteirio economi Cymru ac yn ein dal yn ôl. Mae ein dadl y prynhawn yma yn ymgais i roi rhai atebion i'r problemau strwythurol hirdymor hynny. Yr allwedd iddynt yw creu banc datblygu i Gymru.

Could I thank William Graham for his contribution, and make clear that we will be supporting the Tory amendment that is on the order paper today? I'm sorry that Rhun felt that we were keeping him here beyond the time he wanted to be sat in the Chamber, because I can't recall ever sitting in this Chamber having a Plaid Cymru debate about a Plaid Cymru policy paper. In fact, his leader is constantly waving Plaid Cymru policy papers around the Chamber, imploring us to read them. That, actually, is part of the reason why we have these debates allocated: so there can be the opportunity to talk about different ideas and approaches. Of course, he then went on to support everything that Eluned Parrott had said.

Hoffwn ddiolch i William Graham am ei gyfraniad, a gwneud yn glir y byddwn yn cefnogi gwelliant y Toriaid sydd ar y papur gorchymyn heddiw. Mae'n ddrwg gen i fod Rhun yn teimlo ein bod yn ei gadw yma y tu hwnt i'r amser roedd am eistedd yn y Siambr, oherwydd ni allaf gofio eistedd yn y Siambr hon erioed i gael dadl Plaid Cymru ynghylch papur polisi Plaid Cymru. Yn wir, mae ei arweinydd yn gyson yn chwifio papurau polisi Plaid Cymru o gwmpas y Siambr, yn erfyn arnom i'w darllen. Mae hynny, mewn gwirionedd, yn rhan o'r rheswm pam rydym yn dyrannu'r dadleuon hyn: er mwyn rhoi cyfle i siarad am syniadau ac agweddau gwahanol. Wrth gwrs, fe aeth ymlaen wedyn i gefnogi popeth yr oedd Eluned Parrott wedi ei ddweud.

Can I echo the points that my colleague, Aled Roberts made about digital infrastructure? Now, we know, and I see them as I drive around my own constituency, that BT workers are busily adapting cabinets on the sides of rural roads, but there are still businesses that are hugely frustrated about the slowness of the roll-out of that programme and the fact that, for some of them, especially in deep rural areas, their problems will not be solved. Of course, broadband is only one digital infrastructure project that we need to get right. Mobile telephone coverage, at times, continues to be exasperating for many, especially in rural Wales, and for many communities, it is still non-existent. No matter what EE might say to Ofcom in their meetings, I still am not satisfied with the service they're providing to my constituents.

A gaf fi ategu'r pwyntiau a wnaeth fy nghyd-Aelod, Aled Roberts ynghylch seilwaith digidol? Yn awr, rydym yn gwybod, ac rwy'n eu gweld wrth i mi yrru o gwmpas fy etholaeth, fod gweithwyr BT yn brysur yn addasu cabinetau ar ochrau ffyrdd gwledig, ond mae busnesau'n dal i deimlo'n hynod o rwystredig am arafwch y broses o gyflwyno'r rhaglen honno a'r ffaith na fydd y problemau sy'n gysylltiedig â rhai ohonynt, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell, byth yn cael eu datrys. Wrth gwrs, un prosiect seilwaith digidol yn unig sydd angen i ni ei gael yn iawn yw band eang. Mae cysylltedd ffonau symudol, ar adegau, yn parhau i gythruddo llawer o bobl, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, ac i lawer o gymunedau, ni cheir cysylltedd o hyd. Ni waeth beth y mae EE yn ei ddweud wrth Ofcom yn eu cyfarfodydd, rwy'n dal yn anfodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i fy etholwyr.

Now, Alun Davies raised the issue of what economic development is for if not to do it sustainably to protect our future and to address issues of inequality and poverty, and I wouldn't disagree. What OECD's research shows is that, on reducing income inequality, to do that properly, we really need to focus on training. Actually, training is often much more successful in addressing income inequality than simple job-creation schemes, which perhaps Governments have focused their ideas on in the past. It is by getting training right that we can ensure all our children can access a curriculum at secondary school because they leave primary schools with the skills in reading and writing that they need, that they can pass their GCSEs and they can go on to study at a further level, whatever that might be—academic or vocational—to equip them with the skills they need, so we can attract high-quality jobs here to our country.

Yn awr, holodd Alun Davies beth yw diben datblygu economaidd os na chaiff ei wneud mewn modd cynaliadwy i ddiogelu ein dyfodol ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, ac ni fyddwn yn anghytuno. Yr hyn y mae ymchwil OECD yn ei ddangos yw bod angen i ni ganolbwyntio ar hyfforddiant er mwyn gallu lleihau anghydraddoldeb incwm mewn modd priodol. A dweud y gwir, mae hyfforddiant yn aml yn llwyddo'n llawer gwell i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb incwm na'r cynlluniau creu swyddi syml y mae Llywodraethau wedi canolbwyntio eu syniadau arnynt yn y gorffennol o bosibl. Drwy gael hyfforddiant yn iawn y gallwn sicrhau bod ein plant i gyd yn gallu dilyn cwricwlwm yn yr ysgol uwchradd oherwydd bod ganddynt y sgiliau darllen ac ysgrifennu sydd eu hangen arnynt wrth adael yr ysgolion cynradd, eu bod yn gallu pasio eu harholiadau TGAU ac y gallant fynd ymlaen i astudio ar lefel uwch, beth bynnag y bydd—academaidd neu alwedigaethol—i roi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt, fel y gallwn ddenu swyddi o ansawdd uchel yma i'n gwlad.

Peter Black talked about overseas marketing, and the Minister made reference to good relations with UKTI. Now, I'm aware that the Welsh Government have now created a plethora of new offices across the world. Having them there is one thing; it's what they're going to do that is absolutely crucial. I spent some time this week at Llangoed Hall in my constituency, a high-end, luxury country house hotel, talking to the manager there. We are blessed with a number of these excellent, excellent facilities the length and breadth of Wales—Bodysgallen Hall, another really great example of a high-end, quality product. What they were saying to me was, 'It's all very well having somebody sitting in New York, but are they proactive or are they reactive? Are they really getting out there to the lucrative, virtuoso travel agent market in the United States to sell those products that we have here and that we can be proud of?' I think that's one of the key questions.

Soniodd Peter Black am farchnata tramor, a chyfeiriodd y Gweinidog at gysylltiadau da gyda UKTI. Yn awr, rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi creu llu o swyddfeydd newydd ledled y byd. Un peth yw eu cael yno; yr hyn sy'n gwbl allweddol yw beth y maent yn mynd i wneud. Treuliais beth amser yr wythnos hon yn Llangoed Hall yn fy etholaeth, sef gwesty gwledig moethus ym mhen ucha'r farchnad, a siaradais â'r rheolwr yno. Rydym wedi ein bendithio gan nifer o'r cyfleusterau gwirioneddol wych hyn ar hyd a lled Cymru—Bodysgallen Hall, esiampl wirioneddol wych arall o gynnyrch o ansawdd ym mhen ucha'r farchnad. Yr hyn roeddent yn ei ddweud wrthyf oedd, 'Mae'n ddigon hawdd cael rhywun yn eistedd yn Efrog Newydd, ond a ydynt yn rhagweithiol neu a ydynt yn adweithiol? A ydynt yn mynd allan yno go iawn i farchnad broffidiol y cwmnïau teithio virtuoso yn yr Unol Daleithiau i werthu'r cynhyrchion sydd gennym yma ac y gallwn fod yn falch ohonynt?' Dyna un o'r cwestiynau allweddol yn fy marn i.

*Edwina Hart a gododd—*

*Edwina Hart rose—*

17:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

17:46

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I may, Kirsty, can I say the First Minister's made it absolutely clear now that, in these offices abroad, they are to be proactive on the tourism side? It's not just about organising trips or trade delegations; it's very much that that image of Wales and that brand of Wales have to get across. So, I want to reassure Members in the light of your contribution.

Os caf, Kirsty, a gaf fi ddweud bod y Prif Weinidog wedi gwneud yn hollol glir yn awr fod y swyddfeydd tramor hyn i fod yn rhagweithiol ar yr ochr dwristiaeth? Nid mater o fynd ati i drefnu teithiau neu ddirprwyaethau masnach yn unig ydyw; mae'n ymwneud yn fawr iawn â bod yn rhaid cyfleu'r ddelwedd honno o Gymru a brand Cymru. Felly, rwyf am roi sicrwydd i'r Aelodau yng ngoleuni eich cyfraniad.

17:46

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And I'm very glad to hear that.

Ac rwy'n falch iawn o glywed hynny.

Simon, we'll be supporting the Plaid amendment with regard to rail infrastructure. Just like skills and training, infrastructure and investment in infrastructure projects of this kind will be our key to future economic success.

Simon, byddwn yn cefnogi gwelliant y Blaid o ran seilwaith rheilffyrdd. Yn union fel sgiliau a hyfforddiant, seilwaith a buddsoddi mewn prosiectau seilwaith o'r math hwn fydd ein hallwedd i lwyddiant economaidd yn y dyfodol.

Finally, to conclude, on the issue of business rates, now, we await to hear from the Government about what their approach to a devolved business rate regime will be, and I look forward to hearing that. But, one of the things we've not spent a great deal of time in this Chamber thinking about is, actually, the mechanism for delivering that policy. What's going to happen to the valuation office? How is that going to be managed? Have they got the skills, the expertise and the capacity to implement any kind of scheme that the Government wants to do? That's a part of business rates devolution we haven't spent a great deal of time thinking about and considering to make sure that that side of business rates will run smoothly, because getting the valuation right is absolutely key to many, many businesses.

Yn olaf, i gloi, ar fater ardrethi busnes, yn awr, rydym yn aros i glywed gan y Llywodraeth ynglŷn â beth fydd eu hymagwedd tuag at gyfundrefn ardrethi busnes ddatganoledig, ac edrychaf ymlaen at glywed hynny. Ond un o'r pethau nad ydym wedi treulio llawer iawn o amser yn meddwl amdano yn y Siambr hon, mewn gwirionedd, yw'r mecanwaith ar gyfer cyflawni'r polisi hwnnw. Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r swyddfa brisio? Sut y mae hynny'n mynd i gael ei reoli? A oes ganddynt y sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu i weithredu unrhyw fath o gynllun y mae'r Llywodraeth eisiau ei wneud? Mae hynny'n rhan o ddatganoli ardrethi busnes nad ydym wedi treulio llawer iawn o amser yn meddwl amdano ac yn ei ystyried er mwyn gwneud yn siŵr y bydd yr ochr honno o ardrethi busnes yn rhedeg yn llyfn, gan fod cael y prisiad yn gywir yn gwbl allweddol i lawer iawn o fusnesau.

I was very glad to hear the Minister's positive comments about a Welsh development bank. Access to finance continues to be problematic for many Welsh businesses, especially the small and medium-sized ones, and I look forward hearing what she has to bring forward in the weeks to come. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Roeddwn yn falch iawn o glywed sylwadau cadarnhaol y Gweinidog ynghylch banc datblygu i Gymru. Mae cael gafael ar gyllid yn parhau i fod yn broblem i lawer o fusnesau yng Nghymru, yn enwedig y rhai bach a chanolig eu maint, ac edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd ganddi i'w gyflwyno yn ystod yr wythnosau i ddod. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

17:47

## 8. Cyfnod Pleidleisio

## 8. Voting Time

Y Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

So, we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 40. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Felly, byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na cheir cytundeb ar y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb welliant wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 12, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 12, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5675

Result of the vote on motion NDM5675

17:48

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We'll now vote on the amendments tabled to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26, and I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn, ac rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5675

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5675

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour nine. There voted against 43. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 9, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar ar welliant 2 i gynnig NDM5675

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5675

17:49

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour five, there voted against 47. Therefore, amendment 3 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 47 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 47, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 47, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar ar welliant 3 i gynnig NDM5675

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5675

17:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52. There were no votes against. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5675](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5675](#)

Cynnig NDM5675 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5675 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu'r cytundeb diweddar rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar drydaneiddio rheilffyrdd, a allai leihau lefelau traffig ar yr M4.

1. Welcomes the recent agreement between the Welsh Government and UK Government on rail electrification, which could reduce traffic levels on the M4.

2. Yn credu bod angen prosiect trafnidiaeth effeithlon, ystyriol a strwythuredig sy'n rhoi gwerth am arian i economi Cymru a bod yn rhaid iddo gael ei roi ar waith ar y cyfle cyntaf er mwyn lleddfu tagfeydd cronig ar yr M4 o amgylch Casnewydd.

2. Believes the Welsh economy needs an efficient, considered and structured transport project that delivers value for money, and that this must be put into effect at the earliest opportunity in order to alleviate chronic congestion on the M4 around Newport.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad llawn a chyflym o'r holl opsiynau, gan gynnwys rhoi ystyriaeth gyfartal i'r llwybr glas, gyda'r prif nod o wella capasiti'r M4 er budd modurwyr a busnesau.

3. Calls on the Welsh Government to commission a full and swift review of all options, including giving the blue route equal consideration, with the principal aim of improving M4 capacity for the benefit of motorists and businesses.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynllun gwariant ehangach ar gyfer y seilwaith trafnidiaeth yn arwain at fuddsoddiad ac adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg ar hyd a lled y wlad, nid dim ond o amgylch yr M4 yng Nghasnewydd.

4. Calls on the Welsh Government to ensure that its wider transport infrastructure expenditure plan results in a fair distribution of resources and investment throughout the country, not just around the M4 in Newport.

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote against the motion, which consequently falls.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y cynnig, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion as amended not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5675 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5675 as amended](#)

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We'll vote now on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 43. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Byddwn yn pleidleisio yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5678

Result of the vote on motion NDM5678

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the amendments. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 31. There were 9 abstentions. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 31 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 31, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 12, Against 31, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5678

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5678

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 2 is agreed, amendments 3 and 4 will be deselected. I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5. There voted against 35. There were 12 abstentions. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid. Pleidleisio 35 yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 35, Ymatal 12.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 35, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5678

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5678

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5678

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5678

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 11. There were 12 abstentions. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Roedd 12 yn ymatal. Felly, derbynnir gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 11, Ymatal 12.*

*Amendment agreed: For 28, Against 11, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5678

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5678

Cynnig NDM5678 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5678 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at yr effaith y mae'r polisi o lymder wedi'i gael ar gymunedau ledled Cymru, sydd wedi arwain at:

1. Regrets the impact the policy of austerity has had on communities throughout Wales, which has resulted in:

a) economi Cymru yn colli dros £1 biliwn drwy doriadau i amddiffyn cymdeithasol;

a) the loss of over £1 billion to the Welsh economy in cuts to social protection;

b) cynnydd yn nibyniaeth pobl ar fanciau bwyd;

b) an increase in the dependency of people on food banks;

c) toriadau i wariant llywodraeth leol sydd wedi arwain at gau asedau cymunedol a thynnu gwasanaethau yn ôl;

c) cuts to local government spending which has resulted in closure of community assets and the withdrawal of services;

d) cynnydd yn y bwlch cyfoeth rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf; ac

d) an increase in the wealth gap between the richest and poorest; and

e) parhad mewn anghydbwysedd economaidd gyda gorddibyniaeth parhaus ar wasanaethau ariannol a chyfoeth yn cael ei ganolbwyntio mewn un cornel o'r wladwriaeth Brydeinig.

e) the continuation of economic imbalance with a continued over-dependency on financial services and a concentration of wealth in one corner of the British state.

2. Yn galw am:

2. Calls for:

a) rhoi terfyn ar economeg o lymder;

a) an end to austerity economics;

b) ail-gydbwyso grym a chyfoeth o fewn y wladwriaeth Brydeinig;

b) a rebalancing of power and wealth within the British state;

c) mabwysiadu polisïau economaidd a fydd yn arwain at swyddi newydd mewn sectorau cynaliadwy;

c) the adoption of economic policies that will result in new jobs in sustainable sectors;

d) cynyddu'r isafswm cyflog i gyflog byw;

d) an increase of the minimum wage to that of the living wage;

e) rhoi terfyn ar ddatgymalu'r wladwriaeth les;

e) an end to the dismantling of the welfare state;

f) setliad ariannol teg ar frys i Gymru gan weithredu cyllid gwaelodol a fydd yn arwain at fwy o gydraddoldeb ariannol â'r Alban a gweddill y DU; a

f) a fair funding settlement urgently for Wales with the implementation of a funding floor, leading to greater financial parity with Scotland and the rest of the UK; and

g) datganoli ysgogiadau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

g) the devolution of fiscal levers to the National Assembly for Wales.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 43. Therefore, the motion is defeated.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei drechu.

*Gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 9, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Motion as amended not agreed: For 9, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5678 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5678 as amended

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the Welsh Liberal Democrats debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5. There voted against 47. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid. Pleidleisiodd 47 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 5, Yn erbyn 47, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 5, Against 47, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5676

Result of the vote on motion NDM5676

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52. There were no votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 52 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5676

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5676

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5676

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5676

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 35. There voted against 17. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 35 o blaid. Pleidleisiodd 17 yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 17, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 35, Against 17, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5676

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5676

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21. There voted against 31. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid. Pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 4 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5676](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5676](#)

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 43. Therefore, amendment 5 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 9, Against 43, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5676](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5676](#)

Cynnig NDM5676 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5676 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

1. Yn cydnabod bod sector preifat llwyddiannus, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn hanfodol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ledled Cymru a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

1. Acknowledges that a successful private sector, including social enterprises, is vital for sustainable economic growth throughout Wales and the enhancement of public service provision.

2. Yn nodi bod cael mynediad at gyfalaf ariannol i fusnesau Cymru yn hanfodol er mwyn hybu twf yn y sector preifat.

2. Notes that access to financial capital for Welsh businesses is essential to encourage growth in the private sector.

3. Yn nodi bod gwella sgiliau poblogaeth Cymru yn hanfodol i gynyddu cynhyrchiant a rhoi mantais gystadleuol i economi Cymru.

3. Notes that up skilling the Welsh population is crucial to increasing productivity and putting the Welsh economy at a competitive advantage.

4. Yn nodi bod ein natur wledig a'n daearyddiaeth yn golygu bod angen cynigion arloesol a radical i dyfu ein heconomi a gwella cysylltedd.

4. Notes that our rurality and geography mean that innovative and radical proposals are needed to grow our economy and improve connectivity.

5. Yn credu bod yna lawer o gryfderau a fydd yn helpu i adeiladu economi Cymru, fel y ffaith ein bod yn agos at farchnadoedd y DU a'r UE, pocedi cyfredol o arloesi a rhagoriaeth, a chapasiti hyfforddi.

5. Believes that there are many strengths that will help build the Welsh economy such as our proximity to UK and EU markets, existing pockets of innovation and excellence, and training capacity.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio, a mynd i'r afael â diffyg datblygiad yng Nghymru gydag ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru, gan gynnwys drwy:

6. Calls on the Welsh Government to deliver a balanced, integrated, export-led economic strategy and address Wales's underdevelopment with a long-term commitment to investing in Wales's people, business and infrastructure, including by:

a) creu banc datblygu yng Nghymru;

a) creating a Welsh development bank;

b) datblygu rhwydweithiau o ymgynghorwyr i ddarparu cymorth busnes proffesiynol;

b) developing networks of advisors to provide professional business support;

c) ymgorffori sgiliau ehangach megis entrepreneuriaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cwricwlwm;

c) embedding wider skills such as entrepreneurship, leadership and management into the curriculum;

d) datganoli mwy o bwerau dros ddatblygu economaidd o Fae Caerdydd, yn uniongyrchol i gymunedau;

d) decentralising more powers over economic development from Cardiff Bay, directly to communities;

e) gwella ein seilwaith trafnidiaeth drwy gefnogi trydaneiddio Prif Linell Reilffordd Arfordir y Gogledd, datblygu model nad yw'n talu difidend fel rhan allweddol o ddarparu system drafnidiaeth integredig; ac ariannu astudiaeth ddichonoldeb i adfer y cysylltiadau rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin i gysylltu â'r rhwydwaith presennol; ac

e) improving our transport infrastructure by supporting electrification of the North Wales Coast Main Line, developing a not-for-dividend model as a key part of delivering an integrated transport system; and funding a feasibility study into reinstating the rail links between Aberystwyth and Carmarthen to link up with the existing network; and

f) lansio adolygiad radical a systematig o'r modd y mae ardrethi busnes yn cael eu gweithredu yng Nghymru.

f) launching a radical and systematic review of the way that business rates are run in Wales.

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40. There voted against 12. Therefore, the motion as amended is agreed.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio wedi cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 40, Against 12, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5676 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5676 as amended](#)

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

17:56

# 9. Dadl Fer: Cefnogi Sefydlu Rhwydwaith Cydgynhyrchu i Gymru

# 9. Short Debate: Supporting the Establishment of a Co-production Network for Wales

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 9 is the short debate, and I call on Mark Isherwood to speak on the topic that he has chosen.

Eitem 9 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Mark Isherwood i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:56

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank both Suzy Davies and Peter Black for having asked to have a minute, which I am very pleased to agree to.

Diolch i Suzy Davies a Peter Black am ofyn am gael munud, ac mae'n bleser gennyf gytuno i hynny.

Co-production is not a trendy new concept, but the commonly accepted term for a different way of delivering public services. Supporting the establishment of a co-production network for Wales is about real change and practical renewal of our democracy, with citizen action and collaborative working. It is about building resilient communities, confidence and capacity. It is about seeing everyone as equal partners in local services, breaking down the barriers between people who provide services and those who use them. Co-producing public services with users and communities goes beyond models of service user consultation to better delivery of health, social services and other services to an ageing population, to people facing illness and disability, to the economically inactive and to those living in social isolation. It is about prevention and reablement by a personal and community responsibility and localism. It is about sustainable social, economic and community regeneration. As the Wales Council for Voluntary Action has said, Welsh Government and the sector need to refresh current engagement mechanisms to develop, promote and monitor a programme for action based upon co-production and common ground. The WCVA report on citizen-directed support for vulnerable groups stated that this is about people being in control of the support that they need to live the life that they choose. The report also states that there is scope for local authorities, health boards and the third sector to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs and add value by drawing on community resources.

Nid cysyniad newydd ffasiynol yw cydgynhyrchu, ond y term a dderbynnir yn gyffredinol am ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae cefnogi'r gwaith o sefydlu rhwydwaith cydgynhyrchu ar gyfer Cymru yn ymwneud â newid ein democratiaeth yn wirioneddol a'i hadnewyddu'n ymarferol, gyda gweithredu ar ran dinasyddion a chydweithio rhyngddynt. Mae'n ymwneud ag adeiladu cymunedau gwydn, hyder a gallu. Mae'n ymwneud â gweld pawb fel partneriaid cyfartal mewn gwasanaethau lleol, a chwalu'r rhwystrau rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rheini sy'n eu defnyddio. Mae cydgynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus gyda defnyddwyr a chymunedau yn mynd y tu hwnt i fodelau o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cyflwyno gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill i boblogaeth sy'n heneiddio, i bobl sy'n wynebu salwch ac anabledd, i bobl sy'n anweithgar yn economaidd ac i'r rhai sy'n byw mewn arwahanrwydd cymdeithasol. Mae'n ymwneud ag atal ac ail-alluogi drwy gyfrifoldeb personol a chymunedol a thrwy leoliaeth. Mae'n ymwneud ag adfywio cymdeithasol, economaidd a chymunedol cynaliadwy. Fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dweud, mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sector adfywio dulliau ymgysylltu cyfredol er mwyn datblygu, hyrwyddo a monitro rhaglen weithredu yn seiliedig ar gydgynhyrchu a thir cyffredin. Roedd adroddiad y CGGC ar gymorth wedi'i gyfeirio at ddinasyddion ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn nodi bod hyn yn ymwneud â phobl â rheolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod lle i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector weithio'n llawer mwy creadigol er mwyn datblygu gwasanaethau gwell sy'n agosach at bobl, yn fwy ymatebol i anghenion ac sy'n ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol.

Co-production Wales told me that the key issue is the genuinely transformative nature of co-production. This is not just a nice add-on but a new way of operating for the Government, as well as for public service professionals and citizens themselves. It also identified the need for the state to remain in a supporting role, with a shared responsibility rather than an abdication of responsibility. Co-production only works if we are actually all in it together. Western Australia's mental health commissioner has spoken in Wales about how Australia has embraced co-production and local area co-ordination, stating that we have to decide whether we are going on a programme, or adding on a programme, or reforming the system. He said that instead of fitting people into programmes, co-production gets to know somebody, building support around them, and bringing people up to the same level of power, while building in systematic safeguards for people who are vulnerable. He added that this is principled, precise work around citizen participation, citizenship, rights and responsibilities. He also emphasised that good political leadership was needed to safeguard and develop a programme and that there was well-evidenced work on the savings generated. He further emphasised the need to assist people to access services via personal budgets.

Dywedodd Cydgynhyrchu Cymru wrthyf mai'r mater allweddol yw natur drawsnewidiol cydgynhyrchu. Nid ychwanegiad bach deniadol yw hwn, ond ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth, yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion eu hunain. Roedd hefyd yn nodi'r angen i'r wladwriaeth barhau i chwarae rôl gefnogol, gan rannu cyfrifoldeb yn hytrach nag ymwrthod ag ef. Ni all cydgynhyrchu weithio oni bai ein bod oll yn rhan ohono gyda'n gilydd. Mae comisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia wedi siarad yng Nghymru ynglŷn â sut y mae Awstralia wedi croesawu cydgynhyrchu a chydgysylltiad ardaloedd lleol, gan nodi bod yn rhaid inni benderfynu a ydym yn dilyn rhaglen, neu'n ychwanegu rhaglen, neu'n diwygio'r system. Yn lle gosod pobl mewn rhaglenni, mae cydgynhyrchu yn dod i adnabod pobl, gan adeiladu cefnogaeth o'u hamgylch, ac yn codi pobl i'r un lefel o bŵer, gan ymgorffori mesurau diogelu systematig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Ychwanegodd fod hwn yn waith egwyddorol, manwl gywir sy'n ymwneud â chyfranogiad y dinesydd, dinasyddiaeth, hawliau a chyfrifoldebau. Pwysleisiodd hefyd fod angen arweiniad gwleidyddol da i ddiogelu a datblygu'r rhaglen a bod gwaith ar gael gyda thystiolaeth dda ar yr arbedion a gynhyrchir. Pwysleisiodd ymhellach yr angen i gynorthwyo pobl i gael gafael ar wasanaethau drwy gyllidebau personol.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will extend the powers relating to direct payments, to make them easier to use and to strengthen the support arrangements available to individuals. However, as MS Society Cymru has stated, direct payments alone do not offer the freedom that personal budgets in self-directed support could do. As all parties have recognised in England and Scotland, this is not about privatisation or the downgrading of public services, but about making our public services sustainable and building better lives. Speaking in Wales, the founder of Community Links and director of the early action taskforce stated that structures and systems were more complex than they need to be and that they should be preventing problems rather than dealing with the consequences:

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymestyn y pwerau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, i'w gwneud yn haws i'w defnyddio ac i gryfhau'r trefniadau cymorth sydd ar gael i unigolion. Fodd bynnag, fel y mae Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru wedi datgan, nid yw taliadau uniongyrchol ar eu pen eu hunain yn cynnig y rhyddid y gallai cyllidebau personol mewn cymorth hunangyfeiriedig ei wneud. Fel y mae pob ochr yn Lloegr a'r Alban wedi ei gydnabod, nid ymwneud â phreifateiddio neu israddio gwasanaethau cyhoeddus y mae hyn, ond ymwneud â sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy a chreu bywydau gwell. Wrth siarad yng Nghymru, dywedodd sylfaenydd Cysylltiadau Cymunedol a chyfarwyddwr y tasglu gweithredu cynnar fod y strwythurau a'r systemau yn fwy cymhleth nag y mae angen iddynt fod ac y dylent fod yn atal problemau yn hytrach na delio â'r canlyniadau:

'building a fence at the top of the cliff rather than providing an ambulance at the bottom'.

'adeiladu ffens ar ben y clogwyn yn hytrach na darparu ambiwlans ar y gwaelod'.

He stated that we can either cut to crisis-led services or deliver systemic change. He also highlighted the well-evidenced work of the savings generated by co-production. As he said, we need leadership driven by dreams, judged on delivery, but he added that the fear is that we do not react quickly enough or that we respond with an additional programme rather than changing systems and structures and reforming services. As Monmouthshire County Council has said, co-production through local area co-ordination is about helping people live the lives they choose and to stay strong by connecting with them in communities, having different conversations with them, establishing what matters to them, intervening earlier and then evaluating as you go along, based upon the impact on people's lives. As the Wales Council for Voluntary Action has said, the traditions of community action and mutual aid and co-operation in Wales are part of our social and cultural history, adding, however, that to move beyond rhetoric to action does mean a greater sharing of responsibilities between Government, communities and citizens. Taking power out of the hands of Government and sharing it with individuals, enterprises and charities in our communities can help us to provide better services more efficiently, benefiting the most vulnerable.

Dywedodd y gallwn naill ai dorri i wasanaethau a arweinir gan argyfwng neu gyflwyno newid systemig. Tynnodd sylw hefyd at y gwaith gyda thystiolaeth dda o'r arbedion sy'n deillio o gydgynhyrchu. Fel y dywedodd, mae angen arweinyddiaeth a ysgogir gan freuddwydion, a fernir yn ôl cyflawniad, ond ychwanegodd mai'r ofn yw nad ydym yn ymateb yn ddigon cyflym neu ein bod yn ymateb gyda rhaglen ychwanegol yn hytrach na newid systemau a strwythurau a diwygio gwasanaethau. Fel y mae Cyngor Sir Fynwy wedi dweud, mae cydgynhyrchu drwy gydgysylltiad ardaloedd lleol yn ymwneud â helpu pobl i fyw'r bywydau y maent yn dewis eu byw a pharhau yn gryf drwy gysylltu â hwy mewn cymunedau, cael gwahanol sgyrsiau â hwy, sefydlu beth sy'n bwysig iddynt, ymyrryd yn gynharach, yna gwerthuso wrth fynd ymlaen, yn seiliedig ar yr effaith ar fywydau pobl. Fel y dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae traddodiadau gweithredu cymunedol, cymorth ar y cyd a chydweithredu yng Nghymru yn rhan o'n hanes cymdeithasol a diwylliannol, ond ychwanegodd, fodd bynnag, fod symud y tu hwnt i rethreg i weithredu yn golygu rhannu mwy o gyfrifoldebau rhwng y Llywodraeth, cymunedau a dinasyddion. Gall cymryd pŵer o ddwylo'r Llywodraeth a'i rannu gydag unigolion, mentrau ac elusennau yn ein cymunedau ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau yn fwy effeithlon, gan sicrhau budd i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.

The co-production approach was not designed for an age of austerity, but rather for any age of social and economic aspiration—yes, delivering more for less at a time of deficit reduction, but also delivering more for the same when budgets are stable, and more for more when budgets are growing. All too often, money has washed over a community rather than watering its roots. As the former Archbishop of Canterbury said here,

Ni chafodd y dull cydgynhyrchu ei lunio ar gyfer adeg o galedi, ond yn hytrach ar gyfer unrhyw adeg o ddyhead cymdeithasol ac economaidd—ie, gan ddarparu mwy am lai mewn cyfnod o leihau diffyg, ond mae hefyd yn darparu mwy am yr un faint pan fydd cyllidebau'n sefydlog, a mwy am fwy pan fydd cyllidebau'n tyfu. Yn rhy aml, mae arian wedi golchi dros gymuned yn hytrach na dyfrio ei gwreiddiau. Fel y dywedodd y cyn Archesgob Caergaint,

'in order to turn society into a community: People must take responsibility for one another. Community must push back against managerial and functional approaches—preparing people to understand themselves and the Society they inhabit, not to be cogs in the wheel.'

'er mwyn troi cymdeithas yn gymuned, rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb am ei gilydd. Rhaid i gymuned wthio'n ôl yn erbyn ymagweddau rheolaethol a swyddogaethol—a pharatoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas y maent yn byw ynddi, yn hytrach na bod yn neb o bwys yn y drefn.'

Wales needs a realignment, he said; a new era of local determinism using individual and social entrepreneurship to reclaim public life, build social capital and deliver better lives.

Dywedodd fod angen i Gymru ailffurfio; cyfnod newydd o benderfyniad lleol gan ddefnyddio entrepreneuriaeth unigol a chymdeithasol i adennill bywyd cyhoeddus, adeiladu cyfalaf cymdeithasol a sicrhau bywydau gwell.

Last month, Co-production Wales wrote to the First Minister, asking for two things: firstly, an unambiguous statement about the place of co-production in the Welsh Government's public service strategy, legislation and commissioning, underpinned by a shared understanding of the term; and secondly, formal support for Co-production Wales's proposal to establish an independent, member-led co-production network for Wales. As they said, this is a vital and urgent enterprise. Their letter was endorsed by over 120 co-production practitioners, advocates, researchers and innovators, including the Bevan Commission, Public Health Wales, the Royal College of Physicians, the Welsh Institute for Health and Social Care, Disability Wales, the British Association of Social Workers Cymru, the Joseph Rowntree Foundation, county councils in north and south Wales, Flintshire Care and Repair, the leaders of Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats, and me. Despite the overwhelming support, I understand that the Welsh Government's response to this letter was disappointingly lukewarm. It is encouraging that the Minister for Health and Social Services—and I'm pleased to see him here—continues to make personally positive noises about co-production. However, the statement by the Minister for Public Services at the WCVA annual conference that he can't stand the word 'co-production' and has banned it in the department has caused concern. He did add,

Y mis diwethaf, ysgrifennodd Cydgynhyrchu Cymru at Brif Weinidog Cymru i ofyn am ddau beth: yn gyntaf, datganiad diamwys ynglŷn â lle cydgynhyrchu yn strategaeth, deddfwriaeth a chomisiynau gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o'r term ; ac yn ail, cefnogaeth ffurfiol i gynnig Cydgynhyrchu Cymru i sefydlu rhwydwaith cydgynhyrchu annibynnol dan arweiniad yr aelodau ar gyfer Cymru. Fel y dywedasant, mae hon yn fenter allweddol a mawr ei hangen. Cymeradwywyd eu llythyr gan dros 120 o ymarferwyr, eiriolwyr, ymchwilwyr ac arloeswyr cydgynhyrchu, gan gynnwys Comisiwn Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, yr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Anabledd Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree, cynghorau sir yng ngogledd a de Cymru, Gofal a Thrwsio Sir y Fflint, arweinwyr Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a minnau. Er gwaethaf y gefnogaeth eithriadol, deallaf fod ymateb Llywodraeth Cymru i'r llythyr hwn yn siomedig o lugoer. Mae'n galonogol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol-ac rwy'n falch o'i weld ef yma-yn parhau i roi'r argraff ei fod ef yn bersonol yn gadarnhaol ynghylch cydgynhyrchu. Fodd bynnag, mae datganiad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghynhadledd flynyddol CGGC nad yw'n gallu goddef y gair 'cydgynhyrchu' ac wedi ei wahardd yn yr adran wedi achosi pryder. Fe ychwanegodd,

'I prefer to talk about community control and participatory democracy'.

'Mae'n well gen i siarad am reolaeth gymunedol a democratiaeth gyfranogol'.

What is unclear is whether it is the word rather than the process or outcome that he opposes, or whether he grasps that co-production requires a relationship where professionals and citizens share power to plan and deliver support together in order to improve the quality of life for people and communities. I know that Co-production Wales are keen to clarity what they mean by co-production for him, and feel that it might be helpful if the Minister was to have an opportunity to engage with some people who have benefited from co-production in action. After all, he often cites the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery in the context of proposed local government reorganisation, but the commission also stated that:

Yr hyn sy'n aneglur yw ai'r gair yn hytrach na'r broses neu'r canlyniad y mae'n ei wrthwynebu, neu a yw'n deall fod cydgynhyrchu yn galw am berthynas yn seiliedig ar rannu pŵer rhwng gweithwyr proffesiynol a dinasyddion er mwyn cynllunio a chyflwyno cymorth gyda'i gilydd er mwyn gwella ansawdd bywyd i bobl a chymunedau. Gwn fod Cydgynhyrchu Cymru yn awyddus i egluro'r hyn y maent yn ei olygu wrth gydgynhyrchu er ei fwyn, ac yn teimlo y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn cael cyfle i ymgysylltu â rhai pobl sydd wedi elwa o gydgynhyrchu ar waith. Wedi'r cyfan, mae'n aml yn dyfynnu Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyd-destun ad-drefnu arfaethedig llywodraeth leol, ond dywedodd y comisiwn hefyd:

'the only viable way for that to happen is to shift the emphasis of public service towards coproduction and prevention'.

'Yr unig ffordd ymarferol i hynny ddigwydd yw symud pwyslais gwasanaeth cyhoeddus tuag at gydgynhyrchu ac atal'.

The need to make this change is shared across the developed and democratic world. An implicit belief that the state is in the business of fixing broken people and communities, imposing systems that are appropriate to institutional management, simply does not work. The public sector has been transactionalised when it is cheaper and more efficient to know people in our communities and to deliver with them.

Mae'r angen i wneud y newid hwn yn cael ei rannu ar draws y byd datblygedig a democrataidd. Yn syml, nid yw'r gred ymhlyg mai gwaith y wladwriaeth yw trwsio pobl a chymunedau sydd wedi torri, gan orfodi systemau sy'n briodol i brosesu rheoli sefydliadol, yn gweithio. Mae'r sector cyhoeddus wedi cael ei droi'n faes trafodaethol, pan fo'n rhatach ac yn fwy effeithlon i adnabod pobl yn ein cymunedau ac i gyflawni gyda hwy.

Government must learn a better method: better value services, delivering more by understanding what matters and by designing backwards using the front end as the process design system. Until we start putting individuals before programmes and communities before the state, devolution will never deliver for Wales. We must end the divide between stagnation and aspiration.

Rhaid i'r Llywodraeth ddysgu dull gwell: gwasanaethau sy'n well o ran eu gwerth, yn cyflawni mwy drwy ddeall beth sy'n bwysig a thrwy gynllunio am yn ôl gan ddefnyddio'r rheng flaen fel system gynllunio'r broses. Hyd nes y dechreuwn roi unigolion o flaen rhaglenni a chymunedau o flaen y wladwriaeth, ni fydd datganoli byth yn cyflawni dros Gymru. Mae'n rhaid i ni roi terfyn ar y rhaniad rhwng diffyg twf a dyhead.

18:06

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much for producing this debate today, Mark, because I think there is confusion about the meaning of co-production, and some people will still see it as a form of paternalism, or just a way of finding something for volunteers to do. And I think you said that it is not just about service and delivery agreements or consultation—actually, it's a much more structural concept where power is passed across to citizens and citizen groups rather than lying strictly with public services. I think it helps to add just a few more examples of things that are done through co-production. I am thinking particularly of restorative justice—that's a good example; time banks, to a degree. Prime Cymru is helping people over 50 in Wales into active economic, willing to work, but also into creating employment as well. So, I fully support your message today, Mark. Trying to get across this idea that citizens are capable of proactive design and delivery of public services in genuine partnership, rather than being just passive consumers, is a pretty important thing. I think looking at those sorts of models for Wales could actually make a really significant difference.

Diolch yn fawr iawn am gynhyrchu'r ddadl hon heddiw, Mark, oherwydd credaf fod dryswch ynglŷn ag ystyr cydgynhyrchu, a bydd rhai pobl yn dal i'w weld fel ffurf ar dadoldeb, neu'n ffordd o ddod o hyd i rywbeth i wirfoddolwyr ei wneud a dim mwy. Ac rwy'n credu eich bod wedi dweud nad ymwneud â chytundebau gwasanaethau a darpariaeth neu ymgynghori yn unig y mae—mewn gwirionedd, mae'n gysyniad llawer mwy strwythurol lle y caiff pŵer ei drosglwyddo ar draws i ddinasyddion a grwpiau dinasyddion yn hytrach na pherthyn i wasanaethau cyhoeddus yn unig. Rwy'n credu ei bod yn help i ychwanegu ychydig mwy o enghreifftiau o bethau sy'n cael eu gwneud drwy gydgynhyrchu. Rwy'n meddwl yn benodol am gyfiawnder adferol—mae honno'n enghraifft dda; banciau amser, i raddau. Mae Prime Cymru yn helpu pobl dros 50 oed yng Nghymru sy'n barod i weithio i fod yn weithgar yn economaidd, ac i greu gwaith hefyd. Felly, rwy'n llwyr gefnogi eich neges heddiw, Mark. Mae ceisio cyfleu'r syniad fod dinasyddion yn gallu cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhagweithiol mewn gwir bartneriaeth, yn hytrach na bod yn ddefnyddwyr goddefol a dim mwy na hynny, yn beth eithaf pwysig. Rwy'n credu y gallai edrych ar y mathau hynny o fodelau ar gyfer Cymru wneud gwahaniaeth gwirioneddol arwyddocaol mewn gwirionedd.

18:07

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Listening to Mark Isherwood, I was reminded of a publication from 1980 by Bernard Greaves and Gordon Lishman called 'The Theory and Practice of Community Politics', which of course the Minister for Public Services will be very familiar with, because he was in the same party as those two individuals at that time. That book talked about empowerment and designing services in communities with people. So, the theory and practice of co-production, which Mark Isherwood is referring to, is of course nothing new. I am sure that the Minister fully understands that, because, of course, he did fully understand that philosophy when he was in the Liberal Party back in the 1980s. But I certainly do support that principle, and I think it's important that we do talk about empowering people and designing services in conjunction with people, and with communities, because that is the best way to ensure that not only do they buy into those policies and the practice and delivery of those policies, but also that people actually benefit from them to the utmost.

Wrth wrando ar Mark Isherwood, cefais fy atgoffa o gyhoeddiad yn 1980 gan Bernard Greaves a Gordon Lishman o'r enw 'The Theory and Practice of Community Politics', y bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfarwydd iawn ag ef, wrth gwrs, am ei fod yn yr un blaid â'r ddau ar y pryd. Soniai'r llyfr am rymuso a llunio gwasanaethau mewn cymunedau gyda phobl. Felly, nid yw theori ac ymarfer cydgynhyrchu y cyfeiria Mark Isherwood ato yn ddim byd newydd, wrth gwrs. Rwy'n sicr bod y Gweinidog yn deall hynny'n iawn, oherwydd roedd yn deall yr athroniaeth honno'n iawn pan oedd yn y Blaid Ryddfrydol yn ôl yn y 1980au, wrth gwrs. Ond rwy'n sicr yn cefnogi'r egwyddor honno, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni sôn am rymuso pobl a llunio gwasanaethau ar y cyd â phobl, a chyda chymunedau, gan mai dyna'r ffordd orau o sicrhau nid yn unig eu bod yn cefnogi'r polisïau hynny a'r modd y defnyddir ac y cyflawnir y polisïau hynny, ond hefyd bod pobl yn elwa arnynt i'r eithaf mewn gwirionedd.

So, I think the Government do need to take notice of this. I'm sure that, in some cases, they are doing so, and again, I'm pleased to see the Minister for Health and Social Services here, and his interest in this particular theory. Certainly, this is nothing new, and is something that should have been put into place many years ago, and certainly in some instances is being put in place at a local level, if not at a national level.

Felly, rwy'n meddwl bod angen i'r Llywodraeth ystyried hyn. Rwy'n siŵr eu bod yn gwneud hynny mewn rhai achosion, ac unwaith eto, rwy'n falch o weld y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yma, a'i diddordeb yn y theori benodol hon. Yn sicr, nid yw'n ddim byd newydd, ac mae'n rhywbeth a ddylai fod wedi cael ei roi ar waith flynyddoedd lawer yn ôl, ac yn sicr mewn rhai achosion mae'n cael ei roi ar waith ar lefel leol, os nad ar lefel genedlaethol.

18:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ateb—Lesley Griffiths.

18:09

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to be responding to the short debate on behalf of the Welsh Government. I thank Mark Isherwood, Suzy Davies and Peter Black for their comments.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddadl fer ar ran Llywodraeth Cymru. Diolch i Mark Isherwood, Suzy Davies a Peter Black am eu sylwadau.

The Welsh Government absolutely recognises the very important role people should have in shaping their communities, and I think we already have a strong tradition of our communities engaging with, influencing and delivering public services. From Aneurin Bevan through to Communities First, community and co-operative values have long underpinned our notion of public services here in Wales. We understand the benefits of combining the experience and the insight of service users alongside professional expertise when reshaping public services. It is important to ensure we empower communities and involve people in the delivery of the public services that they are going to use, and I believe, in Wales, we're actually pioneers of this approach.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr y rôl dra phwysig y dylai pobl ei chael yn y broses o gynllunio eu cymunedau, ac rwy'n credu bod gennym draddodiad cryf eisoes o gymunedau sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, yn dylanwadu arnynt ac yn eu darparu. O Aneurin Bevan i Cymunedau yn Gyntaf, mae gwerthoedd cymunedol a chydweithredol wedi bod yn sail i'n syniad o wasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru ers amser maith. Rydym yn deall y manteision sy'n deillio o gyfuno profiad a mewnwelediad defnyddwyr gwasanaethau ochr yn ochr ag arbenigedd proffesiynol wrth ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig sicrhau ein bod yn grymuso cymunedau a chynnwys pobl wrth ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn mynd i'w defnyddio, ac mewn gwirionedd rwy'n credu, yng Nghymru, ein bod wedi arloesi yn y dull hwn o weithredu.

Communities First was one of the very early flagship programmes of the Welsh Government and it's now one of the longest established programmes of its kind in the UK. It's changed and it's developed over the years, but the fundamental commitment to working with communities has remained throughout. In 11 of our 22 local authority areas, tenants voted for social enterprises, some of them community mutuals, to run their social housing. Communities across Wales are also taking control of facilities including libraries and leisure centres, and Members will recall my statement in October on community assets, reflecting the growing interest in these issues and the potential roles of social enterprises and volunteers, for example. The Welsh Government believes in the importance of working with communities and very much values its relationship with the third sector. I do look forward to continued development of this engagement, focusing all our efforts more closely on the issues that can make a real difference to our communities.

Roedd Cymunedau yn Gyntaf yn un o raglenni blaenllaw cynnar iawn Llywodraeth Cymru ac mae bellach yn un o'r rhaglenni hynaf o'i bath yn y DU. Mae wedi newid ac wedi datblygu dros y blynyddoedd, ond mae'r ymrwymiad sylfaenol i weithio gyda chymunedau wedi parhau drwy gydol yr amser. Yn 11 o'n 22 o ardaloedd awdurdodau lleol, pleidleisiodd tenantiaid dros fentrau cymdeithasol i redeg eu tai cymdeithasol, gyda rhai ohonynt yn gwmnïau cymunedol cydfuddiannol. Mae cymunedau ledled Cymru hefyd yn cymryd rheolaeth ar gyfleusterau gan gynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, a bydd yr Aelodau'n cofio fy natganiad ym mis Hydref ar asedau cymunedol, a adlewyrchai'r diddordeb cynyddol yn y materion hyn a rolau posibl mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr, er enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ym mhwysigrwydd gweithio gyda chymunedau ac yn gwerthfawrogi'n fawr iawn ei pherthynas â'r trydydd sector. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i ddatblygu'r ymgysylltiad hwn, gan ganolbwyntio ein holl ymdrechion yn fwy agos ar y materion a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau.

Increasing demands on public services and the growing pressures on public expenditure are all too clear to us all. To continue providing the whole range of public services in the way in which they've traditionally been developed and delivered, as Mark Isherwood referred to, is really not sustainable, and we can't just keep doing the same things differently. We have to be doing different things. Greater community involvement in the redesign and delivery of public services is increasingly being seen as a means of achieving many benefits, including opportunities for citizens to take greater responsibility, services better meeting the needs of users, and improved value for money arising from innovation. Some of the most inspiring changes I've seen in public service delivery have come from the engagement of leaders prepared to look at and improve the citizen's experience of their service. I really accept that, you know, that sort of approach can bring challenges, but I do think that approach will deliver more for our communities.

Nid yw'r galwadau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus a'r pwysau cynyddol ar wariant cyhoeddus ond yn rhy glir i ni i gyd. Fel y soniodd Mark Isherwood, nid yw parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yn y ffordd y maent wedi cael eu datblygu a'u darparu yn draddodiadol yn gynaliadwy mewn gwirionedd, ac ni allwn ddal ati i wneud yr un pethau mewn ffordd wahanol. Rhaid i ni wneud pethau gwahanol. Mae cynnwys y gymuned fwy yn y gwaith o ail-lunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei weld yn gynyddol fel ffordd o sicrhau llawer o fanteision, gan gynnwys cyfleoedd i ddinasyddion gymryd mwy o gyfrifoldeb, gwasanaethau gwell i ddiwallu anghenion defnyddwyr, a gwell gwerth am arian yn deillio o arloesedd. Mae rhai o'r newidiadau mwyaf ysbrydoledig a welais o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi deillio o ymgysylltiad arweinwyr sy'n barod i edrych ar brofiadau dinasyddion o'u gwasanaethau a'u gwella. Rwy'n derbyn yn llwyr y gall ymagwedd o'r fath greu heriau, wyddoch chi, ond rwy'n meddwl y bydd dull o'r fath yn cyflawni mwy ar gyfer ein cymunedau.

Some people, and that includes me, dislike the term 'co-production', which is often used in this context. Welsh Government believes in working with communities, and it is important for us to be clear about how we work. I'm not here to answer for my colleague Leighton Andrews, but it is the word he doesn't like. I actually like 'wellbeing of communities', and I know my colleague, Mark Drakeford, does like the word 'co-production', so you can see it means different things to different people, and I think that's one of the reasons why I don't like it, because it's not widely enough understood for it to be helpful in the context of what we're talking about this evening. But, I think it's really important to place on record that Welsh Government wants to engage positively with external partners, whether or not they use that particular term.

Nid yw rhai pobl, ac mae hynny'n fy nghynnwys i, yn hoffi'r term 'cydgynhyrchu', sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn y cyd-destun hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mewn gweithio gyda chymunedau, ac mae'n bwysig i ni fod yn glir ynglŷn â sut rydym yn gweithio. Nid wyf yma i ateb ar ran fy nghyd-Aelod, Leighton Andrews, ond y gair ei hun yw'r hyn nad yw'n ei hoffi. Rwy'n hoff o 'lles cymunedau' mewn gwirionedd, a gwn fod fy nghyd-Aelod, Mark Drakeford, yn hoffi'r gair 'cydgynhyrchu', felly gallwch weld ei fod yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac rwy'n credu bod hynny'n un o'r rhesymau pam nad wyf yn ei hoffi, am nad yw'n ddigon dealladwy i fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun yr hyn rydym yn sôn amdano heno. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gofnodi bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid allanol, pa un a ydynt yn defnyddio'r term penodol hwnnw ai peidio.

Welsh Government's approach to working with communities is based on a set of principles, which are to ensure the involvement of communities, service users and organisations in defining problems, and in the identification, design, delivery and evaluation of new approaches. This requires recognition of shared responsibility to improve public services, focused on outcomes and people's needs. Working with communities means recognising the contribution of all partners and understanding our differences; valuing diversity and promoting equality is absolutely key to this work. Similarly, transparency regarding how and by whom decisions will be taken is also vital to build strong relationships. There are resources, capabilities and assets, not just within public services, but also in communities, and the Welsh Government wants to encourage new ways of working in policy and delivery that release these and realise their potential to increase wellbeing, building resilient communities and fostering community wellbeing.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at weithio gyda chymunedau yn seiliedig ar set o egwyddorion i sicrhau cyfranogiad cymunedau, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau yn y broses o ddiffinio problemau, a nodi, cynllunio, darparu a gwerthuso dulliau newydd. Mae'n golygu cydnabod yr angen i rannu cyfrifoldeb i wella gwasanaethau cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac anghenion pobl. Mae gweithio gyda chymunedau yn golygu cydnabod cyfraniad yr holl bartneriaid a deall ein gwahaniaethau; mae gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb yn gwbl allweddol i'r gwaith hwn. Yn yr un modd, mae tryloywder ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau a chan bwy hefyd yn hanfodol i adeiladu perthnasoedd cryf. Mae yna adnoddau, galluoedd ac asedau, nid yn unig yn y gwasanaethau cyhoeddus, ond hefyd yn y cymunedau, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog ffyrdd newydd o weithio ym meysydd polisi a darpariaeth sy'n rhyddhau'r rhain ac yn gwireddu eu potensial i gynyddu lles, gan adeiladu cymunedau gwydn a meithrin lles cymunedol.

Public service organisations need to better reflect the communities that they are designed to serve, and we and our communities can build on experiences and successes, shaping the future of public services and putting communities at the heart of those services. We also need to focus on the questions about the impact on individuals and communities, of encouraging greater influence and engagement. Welsh Government wants communities to be empowered to help shape better services and to be supported to take control of local activities where they choose to do so. There are many advantages in putting communities at the heart of public service design and delivery, but we must also be realistic about the challenges that may face individuals and communities in taking on those roles.

Mae angen i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus adlewyrchu'r cymunedau y maent wedi'u cynllunio i'w gwasanaethu yn well, a gallwn ninnau a'n cymunedau adeiladu ar brofiadau a llwyddiannau, llunio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus a rhoi cymunedau wrth wraidd y gwasanaethau hynny. Mae angen hefyd inni ganolbwyntio ar y cwestiynau ynghylch yr effaith ar unigolion a chymunedau, ynghylch ysgogi mwy o ddylanwad ac ymgysylltiad. Mae Llywodraeth Cymru eisiau i gymunedau gael eu grymuso i helpu i lunio gwasanaethau gwell ac i gael eu cynorthwyo i gymryd rheolaeth ar weithgareddau lleol os ydynt yn dewis gwneud hynny. Ceir llawer o fanteision o roi cymunedau wrth galon y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ond rhaid inni hefyd fod yn realistig ynglŷn â'r heriau a all wynebu unigolion a chymunedau wrth iddynt ymgymryd â'r rolau hynny.

One in three people in Wales contribute to their communities in some way by volunteering, and many of these are supported by the local county voluntary council or volunteer centre. These bodies, together with the Wales Council for Voluntary Action, make up the Welsh third sector infrastructure. These organisations have an important role in helping citizens to work with public services, and they will be very important partners in the road that's ahead.

Mae un o bob tri o bobl yng Nghymru yn cyfrannu at eu cymunedau mewn rhyw ffordd drwy wirfoddoli, ac mae llawer o'r rhain yn cael eu cefnogi gan y cyngor gwirfoddol sirol lleol neu'r ganolfan wirfoddol. Y cyrff hyn, ynghyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yw seilwaith y trydydd sector yng Nghymru. Mae gan y sefydliadau hyn rôl bwysig i'w chwarae yn helpu dinasyddion i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus, a byddant yn bartneriaid pwysig iawn ar y ffordd o'n blaenau.

From my portfolio, in this financial year, I have funded the CVCs to provide communities with the support needed to help them succeed, both in design and delivery of public services. This ensures they can continue their important work to help and guide communities in this process. I think CVCs and volunteer centres are not the only source of support for community organisations, but I think they're very central to our partnership approach, and I would be reluctant to support the development of new structures when we already have that infrastructure in place. In many respects, these organisations are at the forefront of the debate around the future of public services, and are already working together, and with public service organisations at a regional level, to share resources and expertise. At the same time, they are subject to the same pressures and financial constraints that are affecting everyone at the present time. I've already indicated in future I will only fund one third sector infrastructure organisation in each local authority area.

O fy mhortffolio, yn y flwyddyn ariannol hon, rwyf wedi ariannu'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gymunedau i'w helpu i lwyddo, o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau y gallant barhau â'u gwaith pwysig yn helpu ac yn arwain cymunedau yn y broses hon. Rwy'n credu nad y cynghorau gwirfoddol sirol a'r canolfannau gwirfoddol yw'r unig ffynhonnell o gymorth ar gyfer sefydliadau cymunedol, ond rwy'n meddwl eu bod yn ganolog iawn i'n dull partneriaeth o weithredu, a byddwn yn amharod i gefnogi datblygiad strwythurau newydd gan fod y seilwaith hwnnw eisoes yn ei le gennym. Mewn sawl ffordd, mae'r sefydliadau hyn ar flaen y gad yn y ddadl ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus, ac maent eisoes yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ar lefel ranbarthol, i rannu adnoddau ac arbenigedd. Ar yr un pryd, maent yn ddarostyngedig i'r un pwysau a chyfyngiadau ariannol sy'n effeithio ar bawb ar hyn o bryd. Rwyf eisoes wedi nodi yn y dyfodol na fyddaf ond yn ariannu un sefydliad seilwaith y trydydd sector ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol.

Welsh Government support for the principles of working with communities will give a clear signal of our intention to harness the skills and experience of community groups and service users alongside our public services. The principles offer a means to build trust, empower communities, change behaviour and set the standard for the public services to engage with organisations and communities. Diolch.

Bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i egwyddorion gweithio gyda chymunedau yn rhoi arwydd clir o'n bwriad i harneisio sgiliau a phrofiad grwpiau cymunedol a defnyddwyr gwasanaethau ochr yn ochr â'n gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion yn cynnig ffordd o adeiladu ymddiriedaeth, grymuso cymunedau, newid ymddygiad a gosod y safon i wasanaethau cyhoeddus ymgysylltu â sefydliadau a chymunedau. Diolch.

18:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, and that concludes today's proceedings.

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:16.*

*The meeting ended at 18:16.*